# Atodiad I: Nodweddion Safleoedd Ewropeaidd

**Ardaloedd Cadwraeth Arbennig**

1. ACA Twyni Abermenai i Aberffraw
2. ACA Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd
3. ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn
4. ACA Arfordir Ynys Môn: Morfa Heli
5. ACA Corsydd Ynys Môn
6. ACA Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd
7. ACA Cadair Idris
8. ACA Bae Cemlyn
9. ACA Coedydd Aber
10. ACA Cors Fochno
11. ACA Corsydd Eifionydd
12. ACA Glan-traeth
13. ACA Glynllifon
14. ACA Pen y Gogarth
15. ACA Arfordir Ynys Gybi
16. ACA Corsydd Llŷn
17. ACA Pen Llŷn a'r Sarnau
18. ACA Llyn Dinam
19. ACA Coedwigoedd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd
20. ACA Afon Menai a Bae Conwy
21. ACA Migneint-Arenig-Dduallt
22. ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn
23. ACA Preselau
24. ACA Rhinogydd
25. ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid
26. ACA Clogwyni Pen Llŷn
27. ACA Eryri

**Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig**

1. AGA Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli
2. AGA y Berwyn
3. AGA Craig y Deryn
4. AGA Aber y Ddyfi
5. AGA Elenydd - Mallaen
6. ACA Arfordir Ynys Gybi
7. AGA Traeth Lafan, Bae Conwy
8. AGA Bae Lerpwl
9. AGA Migneint - Arenig - Dduallt
10. AGA Mynydd Cilan, Trwyn yr Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal
11. AGA Ynys Seiriol
12. AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid

**Ramsar**

1. Ramsar Corsydd Ynys Môn a Llŷn
2. Safle Ramsar Cors Fochno a Dyfi
3. Ramsar Llyn Idwal
4. Ramsar Llyn Tegid

## Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

### ACA Twyni Abermenai i Aberffraw

**Trosolwg**

Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Twyni Abermenai i Aberffraw yn rhan ddeheuol Afon Menai ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd, Cymru. Mae'n cynnwys tair prif ardal. Mae Tywyn Aberffraw yn system o dwyni tywod mawr calchaidd sy'n gymharol gyflawn tu ôl i'r traeth ac yn amgylchynu llyn bas. Mae Cwningar Niwbwrch yn system o dwyni tywod mawr sy'n rhannol wedi'i gorchuddio â choed ac mae wedi'i lleoli rhwng aberoedd Afon Cefni ac Afon Braint gan gynnwys tafod graean Abermenai. Ar ochr ddeheuol y Fenai, mae Morfa Dinlle yn dafod mawr unigol ac yn system o dwyni tywod.

Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Twyni Tywod Abermenai i Aberffraw gyfochrog ag ACA Glannau Môn: Morfa Heli ac yn ddibynnol arni i weithredu. Mae'n cynnwys aberoedd yr Afon Ffraw (o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tywyn Aberffraw), Afon Cefni ac Afon Braint (o fewn SoDdGA Cwningar Niwbwrch - Ynys Llanddwyn), ACA Glantraeth a ddewiswyd am ei phoblogaeth o fadfall ddŵr gribog ac sydd cyfochrog ag ACA'r twyni tywod a SODdGA Cwningar Niwbwrch - Ynys Llanddwyn.

Dewiswyd ACA'r Fenai a Bae Conwy am eu riffiau, baeau, gwastadeddau llaid a thywod , traethellau tanfor ac ogofau ac mae gyfochrog ag ACA morfa heli a SoDdGA Cwningar Niwbwrch - Ynys Llanddwyn.

**Nodweddion Cymhwyso**

Cynefinoedd Atodiad 1 yw'r prif reswm am ddewis y safle hwn:
2110 Twyni symudol embryonig
2120 Twyni symudol ar y morlin gydag *Ammophilia arenaria* (Twyni Gwyn)
2130 Twyni sefydlog â llystyfiant llysieuol (twyni llwyd) * Nodwedd â blaenoriaeth
2170 Twyni â *Salix repens ssp. argentea (Salicion arenariae)*
2190 Llaciau twyni llaith

Cynefinoedd Atodiad 1 sy'n elfen gymwys ond nid yn brif reswm am ddewis y safle hwn:
3150 Llynnoedd ewtroffig naturiol â llystyfiant o fath *Magnopotamion* neu *Hydrocharition*

Cynefinoedd Atodiad 11 yw'r prif reswm am ddewis y safle hwn:
1395 Petalys *Petalophyllum ralfsii*
1441 Tafolen y twyni *Rumex rupestris*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Twyni symudol embryonig (Cyfeirnod UE: 2110**)

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 1***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae dosbarthiad a maint y twyni symudol embryonig yn hwyr yn yr haf yn ddibynnol ar argaeledd tywod sy'n ymgasglu'n naturiol a deunydd organig ar y draethlin. Fodd bynnag, ni fyddwn yn disgwyl y gallai holl ardal y cynefin twyni symudol embryonig hwn fod â llystyfiant arno mewn unrhyw flwyddyn ac mewn rhai blynyddoedd gallent beidio â bodoli o gwbl. Byddai eu habsenoldeb parhaus dros y cyfnod chwe blynedd o adrodd yn achosi ystyried y cyflwr yn anffafriol.
- Posibilrwydd bod yr elfen o dwyni symudol embryonig y cylchfaoedd nodweddiadol sy'n ymestyn o'r traeth i'r twyni sefydlog yn gyfan ar hyd y ffrynt arfordirol meddal. Cynnwys hyn gyflenwad di-ben-draw o waddodion, cyfleoedd o gludiant gan y gwynt a deunydd organig sydd i'w gael yn naturiol ar y draethell.
- Mae rhywogaethau'r llystyfiant nodweddiadol ar y draethlin yn cynnwys *Atriplex spp., Beta vulgaris, Cakile maritime, Honkenya peploides, Salsola kali*.
- Mae'r rhywogaethau nodweddiadol y twyni symudol embryonig yn cynnwys *Elytrigia juncea ac/neu Leumys.*
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar fedru cynnal yr amodau hyn dan reolaeth.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Twyni symudol ar hyd ymyl y traeth gydag *Ammophilia arenaria* (Twyni Gwyn) (2120)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 2***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Twyni symudol gydag *Ammophilia arenaria* yn bresennol ar hyd blaen y twyni sy'n wynebu'r prifwyntoedd (de-orllewin) ble mae'r cyflenwad o waddodion yn ddigonol.
- Ni ddylid cael lleihad yng nghyfanswm arwynebedd (wedi agregu)y cynefinoedd twyni sy'n cymwys y dynodwyd y safle ar eu cyfer (h.y. ni ddylai cyfanswm y cynefin twyni sy'n cymhwyso fod yn lleihau). Gallai maint a lleoliad nodweddion cynefinoedd twyni unigol fod yn ddibynnol ar amrywiadau cyfnodol a thymhorol.
- Mae'r elfen o dwyni symudol y cylchfaoedd nodweddiadol sy'n ymestyn o'r traeth i'r twyni sefydlog yn gyfan ar hyd y ffrynt arfordirol meddal.
- Tir noeth yn bresennol.
- Mae rhywogaethau arferol y llystyfiant twyni symudol yn cynnwys *Ammophila arenaria, Leymus arenarius, Elymus farctus, Eryngium maritimum, Euphorbia portlandica, Euphorbia paralias* a *Calystegia soldanella*.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar fedru cynnal yr amodau hyn dan reolaeth.

**4.3 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 3: Twyni sefydlog â llystyfiant llysieuol (twyni llwyd) * (Nodwedd flaenoriaeth y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 3***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Gall dosbarthiad y twyni sefydlog o fewn y safle amrywio mewn ymateb i brosesau deinamig naturiol a newidiadau i gynefinoedd twyni eraill syn cymhwyso yn y safle.
- Ni ddylid cael lleihad yng nghyfanswm arwynebedd y twyni sefydlog â llystyfiant llysieuol.
- Mae'r elfen o dwyni sefydlog y cylchfaoedd nodweddiadol sy'n ymestyn o'r traeth i'r twyni sefydlog yn gyfan ar hyd y ffrynt arfordirol meddal.
- Tir noeth yn bresennol.
- Mae rhywogaethau nodweddiadol y llystyfiant twyni sefydlog yn cynnwys *Cerastium fontanum, Crepis capillaris, Cladonia spp., Peltigera spp., Erodium cicutarium, Geranium molle, Luzula campestris, Odontites verna, Pilosella officinarum, Plantago lanceolata, Prunella vulgaris, Festuca rubra, Galium verum, Anacamptis pyramidalis, Thymus polytrichus, Sedum acre, Veronica chamaedrys, Carex arenaria, C. flacca, Euphrasia officinalis, Hypnum cupressiforme, Hypochaeris radicata, Linum catharticum, Lotus corniculatus, Ononis repens, Rhinanthus minor, Rhytidiadelphus squarrosus, R triquetrus, Tortula muralis Viola canina, V. riviniana* a *V. tricolor.*
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar fedru cynnal yr amodau hyn dan reolaeth.

**4.4 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 4: *Twyni â Salix repens ssp. argentea (Salicion arenariae)***

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 4***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae dosbarthiad y twyni â *Salix repens ssp argentea* yn unol â chylchfaoedd twyni nodweddiadol a ble ceir amodau topograffig addas. Gall lleoliad y twyni â *repens ssp argentea* o fewn y safle amrywio mewn ymateb i brosesau deinamig naturiol a newidiadau i gynefinoedd twyni eraill syn cymwys yn y safle.
- Ni ddylid cael lleihad yng nghyfanswm arwynebedd (wedi agregu)cymwys y cynefinoedd twyni y dynodwyd y safle ar eu cyfer (h.y. Ni ddylai cyfanswm y cynefin twyni sy'n cymhwyso fod yn lleihau).
- Gallai maint a lleoliad nodweddion cynefinoedd twyni unigol fod yn ddibynnol ar amrywiadau cyfnodol a thymhorol.
- Mae *Salix repens* ar gael yn aml ac mae'n gyffredinol yn mesur 5-30cm.
- Cyfleoedd i gychwyn gwastatir rhwng y twyni embryonig drwy hindreuliad gan y gwynt.
- Tir noeth yn bresennol.
- Mae lefel y dŵr daear yn briodol yn y gaeaf a'r haf.
- Nid yw ansawdd y dŵr daear yn cael ei effeithio gan lygredd.
- Mae'r rhywogaethau nodweddiadol yn cynnwys *Salix repens, Carex arenaria, C flacca, Euphrasia officinalis, Festuca rubra, Lotus corniculatus, Ononis repens, Equisetum variegatum, Epipactis palustris, Epipactis leptochila spp dunensis* a *Pilosella officinarum.*

- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar fedru cynnal yr amodau hyn dan reolaeth.

**4.5 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 5: Llaciau twyni llaith (2190)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 5***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae dosbarthiad y llaciau twyni llaith yn unol â chylchfaoedd twyni nodweddiadol a ble ceir amodau topograffig addas. Gall dosbarthiad y llaciau twyni llaith o fewn y safle amrywio mewn ymateb i brosesau deinamig naturiol a newidiadau i gynefinoedd twyni eraill cymwys yn y safle.
- Ni ddylid cael lleihad yng nghyfanswm arwynebedd (wedi agregu) y cynefinoedd twyni cymwys ac y dynodwyd y safle ar eu cyfer (h.y. Ni ddylai cyfanswm y cynefin twyni cymwys fod yn lleihau).
- Gallai maint a lleoliad nodweddion cynefinoedd twyni unigol fod yn ddibynnol ar amrywiadau cyfnodol a thymhorol.
- Dylai'r holl gymunedau mewn llaciau twyni llaith fod yn bresennol yn amrywio o llaciau twyni embryonig â % uchel o dir noeth i lystyfiant mwy caeedig â *Salix repens*.
- Cyfleoedd i gychwyn llaciau twyni embryonig (drwy hindreuliad gan y gwynt) yn bodoli.
- Tir noeth yn bresennol.
- Mae lefel y dŵr daear yn briodol yn y gaeaf a'r haf.
- Nid yw ansawdd y dŵr daear yn cael ei effeithio gan lygredd.
- Mae'r rhywogaethau nodweddiadol yn cynnwys *Salix repens, Carex arenaria, C flacca, Equisetum variegatum, Lotus corniculatus, Ononis repens, Potentilla anserina, Galium palustre, Mentha aquatica, Hydrocotyle vulgaris*, *Campyllium stellatum, Prunella vulgaris, Ranunculus flammula, Calliergon cuspidatum, Anagallis tenella. Parnassia palustris, Selaginalla selaginoides, Dactylorhiza incarnata* a *Epipactis palustris.*
- Ceir petalys mewn llaciau twyni llaith a cheir llawer o *Equisetum variegatum* yn ardaloedd Aberffraw a Niwbwrch.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar fedru cynnal yr amodau hyn dan reolaeth.

**4.6 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 6: Llynnoedd ewtroffig naturiol â llystyfiant o fath *Magnopotamion* neu *Hydrocharition***

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 6***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae dosbarthiad y llynnoedd yn adlewyrchu eu statws ffisiograffeg fel llynnoedd ag argaeau o dwyni mewn dyffrynnoedd bas.
- Mae maint (arwynebedd) y cynefin yn 30ha. oni bai y bydd yn cael ei leihau drwy olyniaeth naturiol i siglen neu gors.
- Mae dalgylch y llynnoedd yn parhau i roi dŵr o ansawdd digonol a digon ohono.
- Cynhelir y lefelau dŵr priodol gydol y flwyddyn (amrywiad tymhorol +/- 30cm).
- Ansawdd dŵr yn nodweddiadol o lynnoedd bas, arforol, gydag alcalinedd uchel fel y gellir cynnal pH7-9, alcalinedd 1500-2500µeq/l, ocsigen toddedig a Chyfanswm Ffosfforws o <50µg/l ar ei fwyaf mewn blwyddyn.

- Mae'r lefelau cloroffyl yn isel, ac yn ddigon i ganiatáu i'r ddau lyn gael eu pasio yn 'Dda' neu'n well ar gyfer 'llyn bas ag alcalinedd uchel' gan ddefnyddio dulliau dosbarthu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
- Mae'r rhywogaethau nodweddiadol yn blanhigion dyfrol o dan y dŵr, gan gynnwys *Elatine hydropiper, Potamogeton trichoides, P pectinatus P. perfoliatus P. lucens, Ranunculus circinatus, , Eleocharis acicularis, Myriophyllum spicatum, Callitriche hermaphroditica*, a *Chara spp.*.
- Dylai planhigion dyfrol newydd, megis *Phragmites australis, Schoenoplectus lacustris, Sparganium erectum, Typha latifolia, Alisma plantago-aquatica*, a *Litorella uniflora* fod yn bresennol ar y dreathlin.
- Ni ddylai rhywogaethau ymledol neu rywogaethau aflonyddgar megis *Crassula helmsii* neu bysgod bras fod yn bresennol.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar fedru cynnal yr amodau hyn dan reolaeth.

**4.8 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 8: Petalys *Petallophyllum ralfsii***

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 8***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae poblogaeth y petalys yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Mae'r petalys i'w gael mewn llaciau twyni llaith ble y ceir llawer o *Equisetum variegatum* ym mhob rhan o'r safle ble mae amodau'r cynefin yn addas, h.y. yn ardaloedd Aberffraw a Niwbwrch.
- Mae llaciau twyni llaith â thywod noeth neu â chrystyn o hwmws gyda llystyfiant byr yn nodweddiadol gydag *Equisetum variegatum* yn bresennol yn ardaloedd Aberffraw a Niwbwrch ble mae gwaddodion ac amodau hydrolegol yn caniatáu (Gweler yr Amcan ar gyfer llaciau twyni llaith).
- Mae cystadleuaeth (gan gynnwys cysgodi) gan rywogaethau eraill yn cael ei rheoli.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar fedru cynnal yr amodau hyn dan reolaeth.

**4.9 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 9: Tafolen y twyni *Rumex rupestris***

**Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 9**

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae poblogaeth tafolen y twyni'n sefydlog neu'n cynyddu.
- Mae tafolen y twyni i'w gael mewn o leiaf tri lleoliad ar draws y safle.
- Mae cyfleoedd i ddosbarthu'r had gan y môr yn bodoli.
- Mae ochrau nentydd agored, tryddiferiad mewn gelltydd môr meddal neu gynefin pyllau llaciau twyni yn ddigonol iddi oroesi.
- Cyflenwad o ddŵr croyw digonol yn cael ei gynnal.
- Daear noeth neu ardaloedd wedi tarfu arnynt yn cael eu cynnal (e.e. anifeiliaid yn eu pori ) er mwyn caniatáu eginiad.
- Mae cystadleuaeth (gan gynnwys cysgodi) gyda rhywogaethau eraill yn cael ei rheoli.

- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar fedru cynnal yr amodau hyn dan reolaeth.

Yn ogystal, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth ac nid yn rhywbeth sy'n ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr amcan cadwraeth yn ei gyfanrwydd nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd, gan gynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA'r Twyni o Abermenai i Aberffraw; ACA Glannau Môn: Cors Heli Arfordir Môn; SoDdGA Cwningar Niwbwrch – Ynys Llanddwyn; SoDdGA Tywyn Aberffraw a SoDdGA Morfa Dinlle (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008).

**Ffactorau bregusrwydd**

Mae sefydlogi'r twyni yn raddol wedi arwain at golli'r camau dilyniant cychwynnol. Cyfyngir ar fedru cynnal prosesau geomorffolegol deinamig yn Niwbwrch gan y goedwig gonwydd sydd ar yr un rhan o'r safle. Yn ogystal, mae hygrededd hydrolegol y safle'n cael ei beryglu gan leihad yn y lefel trwythiad oherwydd y cnwd conwydd.

Mae lledaeniad *Hippophae rhamnoides* a hadau pinwydd o'r goedwig yn bygwth y twyni ac mae'r ddau yn cael eu rheoli drwy eu torri a'u chwistrellu. Nid oes datrysiad hawdd i'r problemau hyn heb gael gwared â rhan o'r goedwig. Erbyn hyn mae trafodaethau ar y gweill ynglŷn ag ailddylunio'r goedwig gyda'r Comisiwn Coedwigaeth.

Gallai rhoi'r gorau i bori traddodiadol ar dir comin Aberffraw ddigwydd oherwydd peryglon traffig ar ffyrdd heb eu ffensio ac mae gosod gridiau gwartheg yn cael ei drafod gyda'r perchnogion ar hyn o bryd.

Nid yw gofynion ecolegol tafolen y twyni yn wybyddus iawn er bod cysgodi a datblygiad prysgwydd yn ei lloches yn y goedwig yn ymddangos yn fygythiad. Aed i'r afael â hyn drwy dorri'r coed a chael merlod i bori gyda'r canlyniad bod cynnydd ym mhoblogaeth tafolen y twyni.

## ACA Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd

**Trosolwg**

Mae Afon Eden yn afon sy'n gymharol heb ei newid; mae hi'n llifo gan fwyaf mewn ucheldir ac mae hi'n 10KM o hyd. Mae'r wahanfa ddŵr fymryn i'r de o Lyn Trawsfynydd o fewn ardal sy'n dir â llethr graddol ac wedi'i draenio'n wael. Mae rhan uchaf y dalgylch yn llifo'n araf gyda nifer o lynnoedd dyfnion ar ei hyd. Yn nwy ran o dair isaf y basn, mae'r afon yn llifo'n fwy serth mewn ceunant cul caregog gydag ardal o goedwig gyfochrog a adwaenir yn Goed y Brenin. Mae cydlifiad yr Afon Eden a'r Afon Mawddach fymryn yn uwch na phentref Ganllwyd ond mae ffiniau'r ACA yn mynd ymlaen i lawr yr afon hyd at derfyn llanw afon Mawddach yn Llanelltyd. Mae nifer o isafonydd o'r ucheldir gwael yn bwydo i'r Afon Eden a llifant o ochrau dwyreiniol mynyddoedd y Rhinogydd. Mae dyfrffos Ardudwy yn mynd â'r dŵr mwyaf asidig o'r llednentydd dwyreiniol i Lyn Trawsfynydd. Defnyddir y dŵr hwn i wneud y mwyaf o'r dŵr sydd ar gael i gynhyrchu Pŵer Hydro Electrig gan

Bwerdy Trydan Maentwrog.

Caiff yr ardal lawiad cyfartalog trwm ac mae hynny wedi cyfrannu tuag at ddatblygiad cyforgorsydd, gorgorsydd, mignenni trawsnewidiol a chorsydd crynu. Mae dwy ardal o orgors wedi'u lleoli ym mhen draw'r dalgylch yn agos at y wahanfa ddŵr ac ar un adeg roeddynt yn rhan o gors llawer mwy ei maint ond erbyn hyn mae'r rhan fwyaf wedi'i foddi gan Lyn Trawsfynydd. Ceir mignenni trawsnewidiol a chorsydd crynu mewn mannau dyfrlawn ble y cânt faetholion o ardal y dalgylch gerllaw yn ogystal ag o'r glawiad. Fe'u lleolir o fewn y gwlypdir o amgylch yr ardaloedd o gyforgorsydd.

Mae strwythurau a swyddogaeth ecolegol y safle yn ddibynnol ar brosesau hydrolegol a geomorffolegol (yn aml cyfeirir atynt fel prosesau hydromorffolegol), ansawdd cynefinoedd y glannau a chysylltedd y cynefinoedd. Mae anifeiliaid sy'n hynod symudol, megis pysgod ymfudol a dyfrgwn hefyd yn cael eu heffeithio gan ffactorau sy'n gweithredu y tu allan i'r safle.

Yn yr afon ceir y boblogaeth olaf y gwyddys amdano o fisglod perlog sydd wedi goroesi yng Nghymru; maent wedi'u cyfyngu bron i gyd i un rhan o'r afon. Yn hanesyddol roedd y misglod yn llawer mwy gwasgarog o fewn y dalgylch. Mae'r misglod yn ddibynnol ar gynnal salmonidau am gyfnod byr o amser, ac mae larfa *glochidia*'r misglod ar eu tagellau ac felly mae llwyddiant y pysgod ymfudol a physgod sy'n claddu wyau yn y dalgylch yn hanfodol i'w goroesiad hirdymor. Mae eog yr Iwerydd hefyd yn rhywogaeth pysgod bwysig sy'n bridio yn nalgylch y Fawddach. Yn y dyfroedd araf ychydig i fyny'r afon oddi wrth Bont y Grible mae poblogaeth o lyriad-y dŵr arnofiol.

**Nodweddion Cymhwyso**

Cynefinoedd Atodiad 1 yn bresennol fel elfen gymhwyso ond nid yn brif reswm am ddewis y safle hwn:
7110 Cyforgorsydd actif *Nodwedd â blaenoriaeth

Rhywogaethau Atodiad 11 yw'r prif reswm am ddewis y safle hwn:
1029 *Misglod perlog Margaritifera margaritifera*
1831 *Llyriad-y-dŵr arnofiol Luroniumnatans*

Rhywogaethau Atodiad 1I yn bresennol fel elfen gymhwyso ond nid yn brif reswm am ddewis y safle hwn:
1106 *Eog yr Iwerydd Salmo salar*
1355 *Dyfrgi Lutra lutra*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1 SoDdGA: Cyrsiau Dŵr**

***Y weledigaeth ar gyfer cyrsiau dŵr***

Mae statws ecolegol y cwrs dŵr yn un o'r prif benderfynyddion yng ngallu cynefinoedd yr ACA i gefnogi pob nodwedd ar lefelau poblogaeth sydd mor agos â phosib i lefelau naturiol fel sy'n cael ei benderfynu gan brosesau ecolegol a hydromorffolegol a nodweddion. Dylid cynnal neu adfer patrwm y llif, ansawdd y dŵr a'r cynefinoedd ffisegol mor agos â phosib i'r cyflwr naturiol er mwyn cefnogi cydlyniad strwythur yr ecosystem a'i swyddogaeth. Penderfynir ar Statws Cadwraeth Ffafriol (SCFf) yn rhannol gan allu'r cwrs dŵr i gefnogi'r rhywogaethau yr ystyrir eu bod yn arbennig, felly rhaid i'r nodwedd ACA perthnasol fod mewn SCFf er mwyn i nodwedd y cwrs dŵr fod â SCFf.

Gellir cynnal SCFf neu ei adfer i statws cadwraeth ffafriol pan fo'r holl amodau a ganlyn wedi'u bodloni ar gyfer y cwrs dŵr:

1. Rhaid i lif y dŵr a faint sydd ohono fod yn ddigonol i gefnogi nodweddion yr ACA. Bydd hyn yn cynnwys:

- Yn ystod cyfnod mudo pob rhywogaeth o bysgod ymfudol, na fydd eu llwybr i fyny'r afon i'r mannau claddu wyau yn cael ei rwystro gan echdynnu, arllwysiadau, gweithgareddau peirianneg neu echdynnu graean neu unrhyw beth arall a allai gael ardrawiad.
- Ni fydd cyfaint y dŵr a llif y dŵr mewn gwelyau misglod perlog, safleoedd dodwy wyau pysgod ac ardaloedd meithrin pysgod yn cael eu lleihau gan weithgareddau echdynnu dŵr, allyriadau neu weithgareddau peirianneg neu echdynnu graen i'r fath raddau fel bod y safleoedd hyn yn cael eu difrodi neu eu dinistrio.

2. Rhaid i ansawdd y dŵr fod yn ddigonol i gefnogi nodweddion yr ACA. Bydd hyn yn cynnwys:

- Lefelau maetholion, yn enwedig orthoffosffad, yn cael eu cytuno rhwng AA a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer y corff dŵr dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn Afon Eden – ACA Cors Goch Trawsfynydd a chymerir camau i gynnal lefelau maetholion o dan y lefelau hyn.
- Cytunir ar y lefelau solidau crog rhwng AA a Chyngor Cefn Gwald Cymru ar gyfer y corff dŵr dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn Afon Eden – ACA Cors Goch, Trawsfynydd. Cymerir camau gan gynnwys (ond heb yn gyfyngedig iddynt) rheoli'r dyddodion crog a gynhyrchir gan amaeth, coedwigaeth a gwaith peirianneg er mwyn cadw'r solidau crog o dan y lefelau hyn.

3. Cynhelir nifer y cynefinoedd ffisegol a maint yr is-haen. Dylai safleoedd bridio, silio a meithrin unrhyw nodweddion rhywogaethol sy'n wybyddus gael eu cynnal fel cynefinoedd addas ac eithrio pan fo prosesau naturiol yn peri iddynt newid. Ble bo'n bosib dylid addasu unrhyw ffactorau artiffisial sy'n cael ardrawiad ar allu pob nodwedd rywogaethol i feddiannu ei ardal crwydro naturiol yn llawn er mwyn caniatáu iddynt dramwyo, e.e. dyfrffosydd, silfeini pontydd ac ati.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2 ACA:** *Llyriad-y-dŵr arnofiol Luroniumnatans* 1831)

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 2***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bydd poblogaethau Llyriad y dŵr arnofiol yn hyfyw yn y cyfan o'u hardal bresennol yn yr Afon Eden a byddant yn gallu cynnal eu hunain yn yr hirdymor. Ni fydd dosbarthiad presennol *L. natans* yn yr Afon Eden yn crebachu a rhaid i bob poblogaeth o'r *L. natans* fedru gwasgaru a chwblhau atgynhyrchiad rhywiol ac /neu atgynhyrchiad llystyfol yn llwyddiannus.
- Bydd digon o gynefin yn yr afon i gynnal poblogaethau presennol yr *L. Natans* o fewn eu dosbarthiad presennol ac ar gyfer ymlediad yn y dyfodol.

- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.3 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 3 ACA:** Misglod perlog *Margaritifera margaritifera* (Cod:1029)

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 3***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid i boblogaeth y misglod perlog fod yn hyfyw yn y cyfan o'u dosbarthiad yn yr afon a rhaid iddynt fod yn hunangynhaliol ar sail hirdymor.
- Ni fydd dirywiad yn nifer, ystod oed, dosbarthiad neu faint y gwelyau misglod perlog a geir yn y boblogaeth.
- Bydd digon o gynefin o fewn dosbarthiad y gwelyau hyn i gynnal poblogaeth hyfyw.
- Bydd trosglwyddiad *glochidia* (larfae) y misglod perlog yn cael ei hyrwyddo gan boblogaeth helaeth a hunangynhaliol o Eog yr Iwerydd.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.4 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 4:** Eog yr Iwerydd *Salmo salar (Cod:* 1106)

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 4***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid i boblogaeth Eog yr Iwerydd fod yn hyfyw yn y cyfan o'i ddosbarthiad yn yr afon a rhaid i'r boblogaeth fod yn hunangynhaliol ar sail hirdymor.
- Ni fydd nifer neu amrediad oed y boblogaeth eog yn dirywio.
- Bydd digonedd o gynefinoedd er mwyn cynnal poblogaeth hyfyw.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.5 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 5:** Dyfrgi *Lutra lutra (Cod* 1355)

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 5***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae'r boblogaeth ddyfrgwn yn yr ACA yn sefydlog neu ar gynnydd yn yr hirdymor ac yn adlewyrchu gallu cynnal naturiol y cynefin o fewn yr ACA fel y penderfynir gan lefelau naturiol y cyflenwad ysglyfaeth ac ymddygiad tiriogaethol cysylltiedig.
- Ni fydd ardal naturiol y dyfrgwn yn yr ACA yn cael ei lleihau nac yn debygol o gael ei lleihau hyd y gellir ei ragweld. Golyga 'ardal naturiol' y mannau hynny sydd â'r posibilrwydd o fod yn addas ar gyfer ardal fridio ac/ neu sy'n darparu llwybrau rhwng ardaloedd bridio.
- Mae nifer o safleoedd bridio a rhai potensial wedi eu nodi yn rhannau uchaf Afon Eden (Lyles 2006). Gall maint y tiriogaethau bridio amrywio yn ddibynnol ar gyflenwad yr ysglyfaeth.
- Ni ddylai maint y boblogaeth gael ei chyfyngu gan argaeledd safleoedd bridio sydd wedi cael llonydd. Ble bônt yn annigonol, dylid eu creu drwy wella cynefinoedd a ble bo angen, dylid darparu gwaliau artiffisial. Ni fydd safleoedd bridio dyfrgwn yn cael eu haflonyddu fel

y bo’n cael effaith andwyol ar lwyddiant bridio. Ble bo’r angen, rheolir unrhyw aflonyddwch niweidiol posib. Dengys gwybodaeth o arolwg bod dyfrgwn wedi’u dosbarthu’n eang yn nalgylch y Fawddach.
- Hyrwyddir symudiad diogel a gwasgariad unigolion ar draws yr ACA gan ddarparu cynefinoedd glannau afon addas, tanffyrdd, silffoedd, ffensys ac ati ble bo’r angen ar bontydd ffyrdd a rhwystrau artiffisial eraill.
- Mae’r holl ffactorau sy’n effeithio ar gyflawni’r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.6 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 6 ACA:** Cyforgorsydd actif (Cod: 7110)

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 6***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu’r holl amodau a ganlyn:
- Bydd lleoliad a dosbarthiad y cyforgorsydd a chefnennau a gwernos corsydd cysylltiedig yn cynyddu ar draul cymunedau llystyfiant llai dymunol.
- Bydd maint y cyforgorsydd a’r cefnennau, gwernos a gorgors gysylltiedig (gan gynnwys yr ardaloedd yr ystyrir yn anffafriol neu sydd ar hyn o bryd yn ddiraddedig) yn o leiaf 157ha. Seilir amcangyfrif yr arwynebedd hwn ar faint yr unedau rheoli ble lleolir y ‘cromenni’ mawn.
- Bydd y cyforgorsydd yn arddangos cylchfaoedd lled naturiol, yn amrywio o goronau’r gors a fwydir gan lawiad yn unig, i gefnennau ar osgo a pharthau gwernos gwlyb tuag at yr orgors gyfagos.
- Bydd nifer a dosbarthiad planhigion anghyffredin yn cael eu cynnal neu’n cynyddu.
- Mae digonedd o rywogaethau nodweddiadol o gymunedau llystyfiant a geir o fewn nodwedd ACA’r gyforgors.
- Bydd hygrededd hydrolegol pob un gors yn cael ei hadnewyddu a’i chynnal a rheolir datblygiad a llechfeddiant gan *Molinia caerulea.* Bydd strwythur y corsydd yn cael eu cynnal a’u hadnewyddu i gynnwys pyllau mawnog, pantiau, ponciau a cheudyllau fel nodweddion naturiol arwyneb y gors. Ni fydd ffosydd draenio artiffisial (moor grips) yn cael eu defnyddio fel traeniau gweithredol.
- Ni fydd rhywogaethau ymledol nad ydynt yn rhai cynhenid, megis coed conwydd, rhododendron, Llysiau’r Dial, Ffromlys Chwarennog a *Spirea* yn bresennol o fewn ffiniau’r ACA.
- Ni fydd unrhyw goed ar gael o fewn pob uned rheoli cyforgors weithredol.
- Mae’r holl ffactorau sy’n effeithio ar gyflawni’r amodau hyn o dan reolaeth.

Yn ogystal, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae’r dangosyddion perfformiad yn rhan o’r amcan cadwraeth, ond nid yn rhywbeth sy’n ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o’r cynlluniau a’r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i Afon Eden - Cors Goch, Trawsfynydd (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Mae'r misglod perlog a'r pysgod salmonid oll yn arbennig o sensitif i lygredd dŵr e.e. dip defaid, mewnbwn nitrad a gwaddod yn llifo i'r afon, a'r afon yn cael ei rheoli'n amhriodol. Mae angen rheoli'r pethau sy'n dod i mewn i'r dŵr ac sy'n effeithio ar gemeg y dŵr, a dylid rhoi ystyriaeth i anghenion y nodweddion hyn wrth reoli'r afon. Ymdrinnir â'r nodweddion gorgors drwy ddefnyddio dulliau pori a rheoli/peidiad llosgi, a wneir ar hyn o bryd drwy gyfrwng cytundebau cynllun amaeth-amgylcheddol (Tir Cymen/Tir Gofal). Mae'r glawiad trwm a'r ddaeareg/priddeg asidig yn golygu fod yr ardal hon yn sensitif i asideiddio.

## ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn

**Trosolwg**

Mae'r safle'n cynnwys afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn. Llifa afon Gwyrfai o Lyn y Gader ger Rhyd Ddu gan basio drwy Llyn Cwellyn ar ei ffordd i'r môr yn y Foryd ym Mae Caernarfon. Mae hefyd yn cynnwys isafon i afon Gwyrfai, sef afon Treweunydd, a'r llyn bychan y mae'n llifo ohono ar lethrau'r Wyddfa. Caiff yr ACA ei ffinio hwnt ag yma gan gynefin torlannol gwlypdir lled-naturiol, ac mae'r rhan fwyaf ohono wedi'i leoli o fewn y SoDdGA.

Mae pwysigrwydd Llyn Cwellyn i gadwraeth yn cael ei gydnabod ers tro, ac mae'n enghraifft ragorol o lyn dwfn, prin o faetholion (uchafswm dyfnder o 37m, cyfartaledd dyfnder o 23m), a ffurfiwyd yn ystod yr Oes yr Iâ diwethaf. Mae ei ddyfroedd sy'n brin o faetholion yn cynnal amrediad o facroffytau nodweddiadol, gan gynnwys un o'r poblogaethau gorau o lyriad-y-dŵr arnofiol yn y DU.

Mae system afon Gwyrfai yn ei chyfanrwydd yn un sydd o ansawdd ecolegol eithriadol. Mae'r afon yn adnabyddus am ei phoblogaeth ragorol o eog, ac ystyrir mai hon yw un o'r afonydd gorau yn y Deyrnas Unedig am gynnal yr eog. Mae hefyd yn nodweddiadol am ei phoblogaeth o ddyfrgwn sy'n niferus yma oherwydd anian naturiol ei chynefinoedd torlannol a digonedd o orchudd trwchus sy'n cael llonydd. Yn ogystal â'r llyn, mae'r afon yn cynnal cymuned arwahanol o lyriad-y-dŵr arnofiol, ynghyd â chrafanc y dŵr *Ranunculus spp* a llystyfiant cysylltiedig eraill sy'n cynnwys casgliadau o bryoffytau sydd i'w cael mewn amrywiol rannau o'r afon.

**Nodweddion Cymhwyso**

Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm am ddewis y safle hwn:
3130 Merddyfroedd oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant *Littorelletea uniflorae ac/neu Isoëto-Nanojuncetea*
3260 Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastad a mynyddig gyda *Ranunculion fluitantis* a llystyfiant *Callitricho-Batrachion*

Cynefinoedd Atodiad II sy'n brif reswm am ddewis y safle hwn:
1106 Eog yr Iwerydd *Salmo salar*
1831 Llyriad-y-dŵr arnofiol *Luroniumnatans*

Rhywogaethau Atodiad II sy'n elfen gymhwyso ond nid yn brif reswm am ddewis y safle hwn:
1355 Dyfrgi *Lutra lutra*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer cwrs y dŵr:**

***Mae statws ecolegol y cwrs dŵr yn brif benderfynydd gan y SCFf ar gyfer pob nodwedd. Ceir isod ddiffiniad o amcan cadwraeth gofynnol y cwrs dŵr.***

- Dylid cynnal i'r eithaf gallu cynefinoedd yr ACA i gynnal pob nodwedd ar lefelau poblogaeth sydd mor agos â phosib i'r lefel naturiol, fel sy'n cael ei bennu gan brosesau a nodweddion ecolegol a hydromorffolegol heb eu haddasu, a dylid eu hadfer yn ôl yr angen;
- Dylai statws ecolegol yr amgylchedd dŵr fod yn ddigonol i gynnal poblogaeth sefydlog neu gynyddol pob nodwedd. Bydd hyn yn cynnwys elfennau o gyfaint ac ansawdd y dŵr, y cynefin ffisegol a chyfansoddiad a strwythur y gymuned. Rhagwelir y bydd y cyfyngiadau hyn yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol a gytunwyd rhwng CCGC ac Asiantaeth yr Amgylchedd drwy gyfrwng y broses Adolygu Caniatâd;
- Dylid cynnal neu adfer patrwm y llif, ansawdd y dŵr a'r cynefinoedd ffisegol mor agos â phosib i'r cyflwr naturiol er mwyn cefnogi cydlyniad strwythur yr ecosystem a'i swyddogaeth yn ardal gyfan yr ACA;
- Dylai safleoedd bridio, silio a meithrin unrhyw nodweddion rhywogaethol sy'n wybyddus gael eu cynnal cyn belled ag y bo modd fel cynefinoedd addas ac eithrio pan fo prosesau naturiol yn peri iddynt newid;
- Ni fydd llif y dŵr, ansawdd y dŵr, ansawdd a chyfaint yr is-haen mewn safleoedd dodwy wyau i bysgod ac ardaloedd meithrin pysgod yn cael eu lleihau gan weithgareddau tynnu dŵr, allyriadau neu weithgareddau peirianneg neu echdynnu graean i'r fath raddau fel bod y safleoedd hyn yn cael eu difrodi neu eu dinistrio;
- Ni ddylid newid ffurf cynllun na phroffil yr afon. Dylid osgoi unrhyw addasiadau ffisegol sy'n peri effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, waliau cynnal ar dorlannau afon llifwaddodol gweithredol sy'n defnyddio cerrig, concrid neu ddeunyddiau gwastraff, gweithgareddau echdynnu graean sy'n anghynaladwy, ychwanegu at ormodedd o waddodion mân neu ryddhau gwaddodion mân;
- Dylai nodweddion SoDdGA cynefin afon fod mewn cyflwr ffafriol;
- Ble bo'n bosib dylid addasu unrhyw ffactorau artiffisial sy'n cael ardrawiad ar allu pob nodwedd rywogaethol i feddiannu ei hamrediad naturiol yn llawn er mwyn caniatáu iddynt dramwyo, e.e. dyfrffosydd, silfeini pontydd, rhwystrau acwstig;

- Ni ddylid addasu ffactorau naturiol megis rhaeadrau, allai gyfyngu ar amrediad naturiol nodwedd rywogaethol neu ei gwasgariad rhwng poblogaethau naturiol unig;
- Yn ystod cyfnod mudo arferol pob rhywogaeth o bysgod ymfudol, na fydd eu llwybr i fyny'r afon i'r mannau claddu wyau yn cael ei rwystro gan weithgareddau tynnu dŵr;
- Bydd lefelau'r maetholion, yn enwedig ffosffad, yn cael eu cytuno rhwng AA a CCGC ar gyfer corff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd yn ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn a chymerir camau i gynnal lefelau maetholion o dan y lefelau hyn. Rhagwelir y bydd y cyfyngiadau hyn yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol sydd i'w cytuno rhwng CCGC ac Asiantaeth yr Amgylchedd drwy gyfrwng y broses Adolygu Caniatâd;
- Bydd lefelau paramedrau ansawdd dŵr y gwyddys iddynt effeithio ar ddosbarthiad a chyflenwad nodweddion ACA yn cael eu cytuno rhwng AA a CCGC ar gyfer corff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd yn ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn a chymerir camau i gynnal lefelau maetholion o dan y lefelau hyn. Rhagwelir y bydd y cyfyngiadau hyn yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol sydd i'w cytuno rhwng CCGC ac Asiantaeth yr Amgylchedd drwy gyfrwng y broses Adolygu Caniatâd;
- Bydd ffynonellau llygredd posib nad ymdrinnir â hwy yn yr Adolygiad Caniatâd, megis tir wedi'i halogi, gweithredoedd coedwigaeth a gwella cynefinoedd torlannol yn cael eu hystyried wrth asesu cynlluniau a phrosiectau;
- Bydd AA a CCGC yn cytuno ar lefelau'r solidau crog ar gyfer corff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn. Cymerir camau gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) rheolaeth o ddyddodion crog a gynhyrchir gan amaeth, coedwigaeth a gwaith peirianneg er mwyn cynnal y solidau crog o dan y lefelau hyn.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Merddyfroedd oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant *Littorelletea uniflorae* ac/neu *Isoëto-Nanojuncetea* (Cod Cynefinoedd yr UE: 3130*).***

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 1***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bod ansawdd dŵr y llyn o fewn y paramedrau sy'n addas i gynnal y fflora a'r ffawna nodweddiadol.
- Bod y llyn yn dangos dosbarthiad cylchfaoedd tyfiant nodweddiadol o'r glannau i'r dŵr dyfnach.
- Bod gan y llyn fflora macroffyt sy'n cynnwys nifer o'r rhywogaethau nodweddiadol fel *Littorella uniflora, Lobelia dortmanna, Isoetes lacustris, Luronium natans* a *Subularia aquatica,* ynghyd ag amrediad amrywiol o rai cysylltiedig gan gynnwys *Myriophorum alterniflorum, Callitriche hamulata, Nitella flexilis* a *Potamogeton berchtoldii*.
- Bod *nitella gracilis* a *Luronium natans* yn bresennol fel planhigion nodweddiadol.

**4.3 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastad a mynyddig gyda *Ranunculion fluitantis* a llystyfiant *Callitricho-Batrachion* (Cod Cynefinoedd yr UE: 3130)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 2***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid diwallu'r amcan cadwraeth ar gyfer y cwrs dŵr, fel y'i diffinnir yn 4.1 uchod.
- Dylai graddau'r nodwedd hon o fewn ei hamrediad posib yn yr ACA hon fod yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Dylai graddau'r is-gymunedau a gynrychiolir yn y nodwedd hon fod yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Dylai cyflwr cadwraeth rhywogaethau nodweddiadol y nodwedd hon fod yn ffafriol.
- Bod yr holl ffactorau gwybyddus a rheoladwy sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth (efallai bod sawl ffactor yn anhysbys neu du hwnt i reolaeth ddynol).

**4.4 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 3: Eog yr Iwerydd *Salmo salar* (Cod Rhywogaethau'r UE: 1106)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 3:***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
- Rhaid diwallu'r amcan cadwraeth ar gyfer y cwrs dŵr, fel y'i diffinnir yn 4.1 uchod.
- Bod poblogaeth y nodwedd yn yr ACA yn sefydlog neu'n cynyddu yn y tymor hir.
- Nad yw amrediad naturiol y nodwedd yn yr ACA yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol agos. Cyfeiria'r amrediad naturiol at y rhannau hynny lle mae prif gynefinoedd addas ar gyfer pob cyfnod o fywyd yn bodoli yn y tymor hir. Diffinnir cynefin addas mewn perthynas â bod mor agos â phosib i'r cyflwr naturiol.
- Bod afon Gwyrfai yn parhau i fod yn gynefin digon mawr i gynnal poblogaeth y nodwedd yn yr ACA yn yr hirdymor.

**4.5 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 4: Llyriad-y-dŵr arnofiol *Luroniumnatans* (Cod: 1831)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 2***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
- Rhaid diwallu'r amcan cadwraeth ar gyfer y cwrs dŵr, fel y'i diffinnir yn 4.1 uchod.
- Bod Llyn Cwellyn yn parhau i gefnogi casgliad ymylol o lyriad-y-dŵr arnofiol, yn ogystal â chasgliad dŵr dyfnach, gyda dosbarthiad cylchfaoedd tyfiant nodweddiadol o'r glannau i mewn i ddwy ardal o'r llyn.
- Bydd llyriad-y-dŵr arnofiol yn parhau i ffynnu yn afon Gwyrfai ac yn parhau i fodoli ym mhob rhan dethol.
- Bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.6 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 5: Dyfrgi Ewropeaidd *Lutra lutra***

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 5:***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
- Mae'r boblogaeth ddyfrgwn yn yr ACA yn sefydlog neu ar gynnydd yn yr hirdymor ac yn adlewyrchu gallu cynnal naturiol y cynefin o fewn yr ACA, fel y pennir gan lefelau naturiol y cyflenwad ysglyfaeth ac ymddygiad tiriogaethol cysylltiedig.
- Ni fydd ardal naturiol y dyfrgi yn yr ACA yn cael ei lleihau nac yn debygol o gael ei lleihau hyd y gellir ei ragweld. Golyga 'ardal

naturiol' y mannau hynny fydd o bosib yn addas ar gyfer ardal fridio ac/neu yn darparu llwybrau rhwng ardaloedd bridio.

- Gall maint y tiriogaethau bridio amrywio yn ddibynnol ar gyflenwad yr ysglyfaeth.
- Ni ddylai maint y boblogaeth gael ei chyfyngu gan argaeledd safleoedd bridio sydd wedi cael llonydd. Os ydynt yn annigonol, dylid eu creu drwy wella cynefinoedd, a lle bo angen dylid darparu gwaliau artiffisial. Ni fydd safleoedd bridio dyfrgwn yn cael eu haflonyddu i'r graddau ei fod yn cael effaith andwyol ar lwyddiant bridio. Lle bo angen, rheolir unrhyw aflonyddwch niweidiol posib.
- Hyrwyddir symudiad diogel a gwasgariad unigolion ar draws yr ACA gan ddarparu cynefinoedd glannau afon, tanffyrdd, silffoedd, ffensys ac ati lle bo angen ar bontydd ffyrdd a rhwystrau artiffisial eraill.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

Yn ogystal, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, ond nid yn rhywbeth sy'n ei ddisodli.  Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr amcan cadwraeth yn ei gyfanrwydd, nid dim ond y dangosyddion perfformiad.  Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i ACA Corsydd Môn (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Defnyddir y llyn fel cronfa ddŵr yfed crai. Mae'r system tynnu dŵr fel y mae ar hyn o bryd yn cyd-fynd â'i statws cadwraeth natur.

Mae ymchwiliadau diweddar wedi datgelu fod Llyn Cwellyn wedi asideiddio o 0.7 uned pH ers hanner olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, oherwydd y cynnydd mewn allyriadau ocsidau sylffwr a nitrogen a'r dyddodiadau asidig yn dilyn hynny ar ffurf glaw asid. Mae rheoli'r bloc eang o blanhigfa gonwydd ar lannau Llyn Cwellyn yn ffactor pwysig i ddiogelu gwerth cadwraeth y llyn. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Fenter Goedwigaeth wedi cytuno rhyngddynt ar gynllun rheoli. Mae trafodaethau negodi ar y gweill i ail-ddylunio'r blanhigfa a thynnu coed o ardaloedd sy'n amgylchynu llednentydd gan leihau unrhyw risg pellach o asideiddio.

Mae afon Gwyrfai yn debygol o fod yn fwyaf sensitif i effeithiau cronnus yn deillio o newidiadau bychain ar ei hyd, a gall y rhain effeithio ar ansawdd y dŵr a strwythur y cynefinoedd.

## Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli

**Trosolwg**

Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Twyni Abermenai i Aberffraw yn rhan ddeheuol y Fenai yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd, Cymru. Mae'n cynnwys tair prif ardal. Mae Tywyn Aberffraw yn system o dwyni tywod mawr calchaidd sy'n gymharol gyflawn tu ôl i'r traeth  ac yn amgylchynu llyn bas.  Mae Cwningar Niwbwrch yn system o dwyni tywod mawr sydd wedi'u gorchuddio'n rhannol â choed ac mae wedi'i lleoli rhwng aberoedd afon Cefni ac afon Braint gan gynnwys tafod graean Abermenai. Ar ochr ddeheuol y

Fenai, mae Morfa Dinlle yn dafod mawr unigol ac yn system twyni tywod.

Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Twyni Abermenai i Aberffraw wedi'i lleoli'n agos at ACA Morfa Heli Arfordir Ynys Môn ac mae'r ddwy ardal wedi'u hintegreiddio o ran eu swyddogaethau. Mae'n cynnwys aberoedd afon Ffraw (o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Tywyn Aberffraw), afon Cefni ac afon Braint (o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cwningar Niwbwrch - Ynys Llanddwyn), ACA Glantraeth a ddewiswyd am ei phoblogaeth o fadfall gribog ac am ei bod yn gyfochrog ag ACA'r twyni tywod a SoDdGA Cwningar Niwbwrch - Ynys Llanddwyn.  Mae ACA Y Fenai a Bae Conwy, a ddewiswyd am ei rîffs, baeau, traethellau llaid a thraethellau tywod, traethellau islanwol ac ogofau, wedi'i lleoli'n gyfagos i ACA Morfa Heli a SoDdGA Cwningar Niwbwrch - Ynys Llanddwyn.

**Nodweddion Cymhwyso**

Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm am ddewis y safle hwn:
1310 *Salicornia* a rhai blodau unflwydd eraill sy'n cytrefu llaid a thywod
1330 Dolydd arfor yr Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*)

Cynefinoedd Atodiad I sy'n bresennol fel elfen gymhwyso, ond nid yn brif reswm am ddewis y safle hwn:
1130 Morydau
1140 Traethellau llaid a thywod nad ydynt yn cael eu gorchuddio gan ddŵr môr pan fo'r llanw'n isel

**Amcanion Cadwraeth**

**4.11 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 11:  Morydau**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 11***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
- Y caiff dosbarthiad a graddau'r *morydau*, a'r cynefinoedd y maent yn eu hamgylchynu, eu pennu'n bennaf gan strwythurau naturiol a phrosesau amgylcheddol;
- Y cynhelir y strwythurau cynefin naturiol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y morydau yn y tymor hir ynghyd â'r cynefinoedd y maent yn eu hamgylchynu a'u rhywogaethau nodweddiadol;
- Y caiff dosbarthiad maint gronynnau a strwythur gwaddodion y morydau, a'u hamrywiaeth, eu dosbarthiad a'u graddau naturiol eu pennu'n bennaf gan gyflenwadau gwaddodion naturiol a phrosesau cludo;
- Ni chaiff ansawdd strwythur cynefinoedd ei ddiraddio'n waeth o ganlyniad i weithred ddynol neu gan ddeunyddiau o darddiad anthropogenig;
- Y cynhelir y prosesau amgylcheddol naturiol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y morydau yn y tymor hir ynghyd â'r cynefinoedd

y maent yn eu hamgylchynu a'u rhywogaethau nodweddiadol;
- Y caiff cemeg dŵr a gwaddodion eu pennu'n bennaf gan brosesau hydrodynameg, hydrolegol a meteoroleg naturiol;
- Y caiff y system a'r graddiant halltedd yn y morydau eu pennu'n bennaf gan brosesau hydrodynameg, hydrolegol a meteoroleg naturiol;
- Y caiff y rhywogaethau nodweddiadol eu pennu'n bennaf gan ddeinameg poblogaeth gynhenid a phrosesau ecolegol;
- Bod cyfoeth, deinameg poblogaeth, cyflenwad, biomas, strwythurau poblogaeth, iechyd ffisiolegol, gallu i atgenhedlu, recriwtio, amrediad a symudedd y rhywogaethau'n cael eu cynnal;
- Y cynhelir rheolaeth y gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, strwythur, swyddogaethau neu boblogaethau rhywogaethau nodweddiadol y nodwedd yn briodol ar gyfer cynnal statws cadwraeth ffafriol a'i fod yn ddiogel yn yr hirdymor; *a*
- Bod y gwaith o reoli pysgodfeydd masnachol ar gyfer rhywogaethau nodweddiadol yn sicrhau bod y lefel o ymelwa o rywogaethau yn digwydd ar raddfa sy'n is nag uchafswm y cnwd cynaliadwy ac yn ddiogel yn yr hirdymor.

**4.12 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 12: *Salicornia* a blodau unflwydd eraill sy'n cytrefu llaid a thywod**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 12***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod â statws cadwraeth ffafriol lle, yn amodol ar brosesau naturiol, gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Y caiff dosbarthiad a graddau'r *Salicornia* a blodau unflwydd eraill eu pennu'n bennaf gan strwythurau naturiol a phrosesau amgylcheddol;
- Y cynhelir y strwythurau cynefin naturiol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal *Salicornia* a blodau unflwydd eraill yn y tymor hir ynghyd â chynnal eu rhywogaethau nodweddiadol;
- Y caiff dosbarthiad maint gronynnau a strwythur gwaddodion Salicornia a blodau unflwydd eraill, a'u hamrywiaeth, eu dosbarthiad a'u graddau naturiol eu pennu'n bennaf gan gyflenwadau gwaddodion naturiol a phrosesau cludo;
- Bod geomorffoleg y nodwedd Salicornia a blodau unflwydd eraill, a'i hamrywiaeth naturiol, ei dosbarthiad a'i graddau'n cael eu pennu'n bennaf gan y ddaeareg waelodol a phrosesau amgylcheddol naturiol;
- Y cynhelir y strwythurau cynefin naturiol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal Salicornia a blodau unflwydd eraill yn y tymor hir ynghyd â chynnal eu rhywogaethau nodweddiadol;
- Bod y prosesau hydrograffeg a meteoroleg sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y nodwedd Salicornia a blodau unflwydd eraill yn y tymor hir ynghyd â'u rhywogaethau nodweddiadol yn cael eu pennu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol;
- Y caiff system a graddiant halltedd y nodwedd Salicornia a blodau unflwydd eraill eu pennu'n bennaf gan brosesau hydrodynameg, hydrolegol a meteoroleg naturiol;
- Bod y maetholion yn y golofn ddŵr a'r gwaddodion yn aros o fewn amrediadau nad ydynt yn niweidiol i gynnal cymunedau, dosbarthiad ac amrediad y Salicornia a blodau unflwydd eraill yn yr hirdymor;
- Bod yr halogyddion yn y golofn ddŵr a'r gwaddodion sy'n deillio o weithgarwch dynol yn aros yn is na'r lefelau sydd â'r potensial

i fod yn niweidiol i gynnal cymunedau, dosbarthiad ac amrediad y Salicornia a blodau unflwydd eraill yn yr hirdymor;

- Y caiff lefelau ocsigen toddedig yn y golofn ddŵr a gwaddodion eu pennu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol;
- Bod cymunedau o rywogaethau nodweddiadol yn cynnal eu statws cadwraeth ar sail hirdymor fel cyfansoddion hyfyw o gynefinoedd y Salicornia a blodau unflwydd eraill;
- Bod y gwaith o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, graddau, strwythur, swyddogaeth neu gymunedau rhywogaethau nodweddiadol y nodwedd, yn briodol ar gyfer cynnal statws cadwraeth ffafriol ac yn ddiogel yn yr hirdymor.

**4.13 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 13: Traethellau llaid a thywod nad ydynt yn cael eu gorchuddio gan ddŵr môr pan fo'r llanw'n isel**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 13***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Y caiff dosbarthiad a graddau'r *traethellau llaid* a *thywod*, a'r cynefinoedd y maent yn eu hamgylchynu, eu pennu'n bennaf gan strwythurau naturiol a phrosesau amgylcheddol;
- Y cynhelir y strwythurau cynefin naturiol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y *traethellau llaid* a *thywod* yn y tymor hir ynghyd â'r cynefinoedd y maent yn eu hamgylchynu a'u rhywogaethau nodweddiadol;
- Y caiff dosbarthiad maint gronynnau a strwythur gwaddodion y *traethellau llaid* a *thywod*, a'u hamrywiaeth, eu dosbarthiad a'u graddau naturiol eu pennu'n bennaf gan gyflenwadau gwaddodion naturiol a phrosesau cludo;
- Ni chaiff ansawdd strwythur cynefinoedd ei ddiraddio'n waeth o ganlyniad i weithred ddynol neu gan ddeunyddiau o darddiad anthropogenig;
- Y cynhelir y prosesau amgylcheddol naturiol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y *traethellau llaid* a *thywod* yn y tymor hir ynghyd â'r cynefinoedd y maent yn eu hamgylchynu a'u rhywogaethau nodweddiadol;
- Caiff cemeg dŵr a gwaddodion eu pennu'n bennaf gan brosesau hydrodynameg, hydrolegol a meteoroleg naturiol;
- Y caiff y system a'r graddiant halltedd yn y *traethellau llaid* a *thywod* eu pennu'n bennaf gan brosesau hydrodynameg, hydrolegol a meteoroleg naturiol;
- Y caiff y rhywogaethau nodweddiadol eu pennu'n bennaf gan ddeinameg poblogaeth gynhenid a phrosesau ecolegol;
- Bod cyfoeth, deinameg poblogaeth, cyflenwad, biomas, strwythurau poblogaeth, iechyd ffisiolegol, y gallu i atgenhedlu, recriwtio, amrediad a symudedd y rhywogaethau'n cael eu cynnal;
- Bod y gwaith o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, graddau, strwythur, swyddogaeth neu boblogaethau rhywogaethau nodweddiadol y nodwedd, yn briodol ar gyfer cynnal statws cadwraeth ffafriol ac yn ddiogel yn yr hirdymor;
- Bod y gwaith o reoli pysgodfeydd masnachol ar gyfer rhywogaethau nodweddiadol yn sicrhau bod y lefel o ymelwa o rywogaethau yn digwydd ar raddfa sy'n is nag uchafswm y cnwd cynaliadwy ac yn ddiogel yn yr hirdymor.

**4.14 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 14: Dolydd arfor yr Iwerydd (ASM)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 14***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod â statws cadwraeth ffafriol lle, yn amodol ar brosesau naturiol, gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Y caiff dosbarthiad a graddau'r dolydd arfor eu pennu'n bennaf gan strwythurau naturiol a phrosesau amgylcheddol;
- Y cynhelir y strwythurau cynefin naturiol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y dolydd arfor yn y tymor hir ynghyd â chynnal eu rhywogaethau nodweddiadol;
- Y caiff dosbarthiad maint gronynnau a strwythur gwaddodion y dolydd arfor, a'u hamrywiaeth, eu dosbarthiad a'u graddau naturiol eu pennu'n bennaf gan gyflenwad gwaddodion naturiol a phrosesau cludo;
- Y caiff geomorffoleg y dolydd arfor a'u hamrywiaeth, eu dosbarthiad a'u graddau naturiol eu pennu'n bennaf gan y ddaeareg waelodol a phrosesau amgylcheddol naturiol;
- Bod y prosesau hydrograffeg a meteoroleg sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y dolydd arfor yn y tymor hir ynghyd â'u rhywogaethau nodweddiadol yn cael eu pennu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol;
- Y caiff y system a'r graddiant halltedd yn y dolydd arfor eu pennu'n bennaf gan brosesau hydrodynameg, hydrolegol a meteoroleg naturiol;
- Bod y maetholion yn y golofn ddŵr a'r gwaddodion yn aros o fewn amrediadau nad ydynt yn niweidiol i gynnal cymunedau, dosbarthiad ac amrediad y dolydd arfor yn yr hirdymor;
- Bod yr halogyddion yn y golofn ddŵr a'r gwaddodion sy'n deillio o weithgarwch dynol yn aros yn is na'r lefelau sydd â'r potensial i fod yn niweidiol i gynnal cymunedau, dosbarthiad ac amrediad y dolydd arfor yn yr hirdymor;
- Y caiff lefelau ocsigen toddedig yn y golofn ddŵr a gwaddodion eu pennu'n bennaf gan brosesau amgylcheddol naturiol;
- Y cynhelir dosbarthiad y morfa heli o'r parthau isel, canolig ac uwch a'u trosglwyddiad i ddŵr lystyfiant dŵr croyw a thiriogaethol;
- Bod cymunedau o rywogaethau nodweddiadol yn cynnal eu statws cadwraeth ar sail hirdymor fel cyfansoddion hyfyw o gynefinoedd y dolydd arfor;
- Bod cyfoeth, deinameg poblogaeth, cyflenwad, biomas, strwythurau poblogaeth, iechyd ffisiolegol, y gallu i atgenhedlu, recriwtio, amrediad a symudedd y rhywogaethau'n cael eu cynnal;
- Bod y gwaith o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o ddiraddio dosbarthiad, graddau, strwythur, swyddogaeth neu gymunedau rhywogaethau nodweddiadol y nodwedd, yn briodol ar gyfer cynnal statws cadwraeth ffafriol ac yn ddiogel yn yr hirdymor.

Yn ogystal, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, ond nid yn rhywbeth sy'n ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir cael y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd, gan gynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA'r Twyni o Abermenai i Aberffraw; ACAGlannau Môn: Cors Heli – Arfordir Môn: SoDdGA Cwningar Niwbwrch – Ynys Llanddwyn; SoDdGA Tywyn Aberffraw a SoDdGA Morfa Dinlle (Cyngor Cefn Gwlad Cymru,

Ebrill 2008).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Mae addasiadau sylweddol i aber afon Cefni yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn parhau i beri gwaddodion i gronni'n gyflym, gan alluogi i *Spartina anglica* ymledu i ymylon y dolydd arfor. Mae triniaeth chwynladdwr yn lleihau hyn ond mae datblygiad olynol y ddôl arfor dros y rhan fwyaf o ardal gyfredol y draethell laid yn anochel. Mae'n debygol hefyd y bydd *Spartina anglica* yn datblygu rhywfaint yn ardal aber yr afon Fraint.

## Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Môn

**Trosolwg**

Mae Corsydd Mon yn cynnwys cyfres o fasnau corsiog ar galchfaen dwyrain Mon. Mae nifer o'r safleoedd (Cors Goch, Cors y Farl, Cors Erddreiniog, a Chors Bodeilio) mewn hen lynnoedd basn sydd yn raddol wedi 'u llenwi gyda gwaddodion clai, pridd cleiog a mawn. Yn y safleoedd hyn ac eraill (Waun Eurad, Caeau Talwrn, Gwenfro - Rhos y Gad) mae hefyd fannau toreithiog o fignenni llac lle mae ffynhonnau calchaidd yn dyfrio'r wyneb. Ar y safle mae rhai o'r enghreifftiau gorau yng Nghymru o gors llawn calch (cors alacalin a chors calchaidd) ynghyd â llynnoedd oligotroffig (dim maetholion), mannau o ddôl glaswellt y bwla (*Molinia caerulea*), rhostiroedd gwlyb a sych a mannau cysylltiedig o laswelltir niwtral a chalchaidd. Mae'r safleoedd yn cynnal sawl rhywogaeth, yn cynnwys malwen droellog Geyer, mursen las Penfro, brith y gors, y fadfall gribog fawr a'r dyfrgi. Mae'r safleoedd cyfansoddol mewn tirlun sy'n bennaf amaethyddol o ffermydd anifeiliaid ac anheddau bychain

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
3140 Dyfroedd oligo-mesotroffig caled gyda llystyfiant benthig Chara spp.
7210 Corsydd calchaidd gyda Cladium mariscus a rhywogaethau'r Caricion davallianae * Nodwedd â blaenoriaeth
7230 Corsydd alcalin

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
4010 Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag Erica tetralix
6410 Dolydd Molinia ar bridd calchaidd, mawnog neu lawn llaid cleiog (Molinion caeruleae)

Atodiad II rhywogaethau sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1013 Malwen Droellog Geyer *Vertigo geyeri*

Atodiad II rhywogaethau'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1044 Mursen las Penfro Coenagrion mercuriale
1065 Glöyn Byw Brith y Gors *Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Corsydd calchaidd gyda *Cladium mariscus* a rhywogaeth *y Caricion davallianae (Côd Cynefinoedd yr UE 7120)***

**Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 1**
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae cors galchaidd yn ymestyn dros 20% (93ha) o arwynebedd y safle.
- Gwasgarir cors galchog dros o leiaf bump o'r saith safle, yn cynnwys Cors Erddreiniog, Cors Bodeilio, Cors Goch, Gwenfro-Rhos y Gad a Chors Y Farl.
- Mae cors galchaidd yn arddangos ystod o gyflyrau amod (gweler isod) lle mae'r llymfrwynen fawr, *Cladium,* o fod yn ymddangos yn aml i fod yr amlycaf, gyda dim llai na 10% yn cael ei briodoli i'r ffaith nad oes rhywogaethau yng nghors *Cladium* a'r gweddill i un ai lystyfiant lle tyf *Cladium* gyda helygen Mair *Myrica gale*, y frwynen glymog *Juncus subnodulosus*, glaswellt y bwla *Molinia caerulea* a'r grug croesddail *Erica tetralix*, neu lystyfiant gyda llawer o'r elfennau uchod yn ogystal â ffeuen y gors *Menyanthes trifoliata,* pumnalen y gors *Potentilla palustris,* chwysigenwraidd *Utricularia vulgaris*, a'r hesgen fain *Carex lasiocarpa* a hesg bychain eraill.
- I raddau helaeth, nid oes rhywogaethau sy'n arwydd o draenio neu o newidiadau amaethyddol, megis y gawnen benwen *Holcus lanatus*, mieri *Rubus spp*., danadl poethion *Urtica dioica* yn y gors galchaidd.
- Nid yw glaswellt y bwla *Molinia caerulea* yn ymestyn dros fwy na 25% o'r llawr.
- Nid yw deilbridd yn ymestyn dros fwy na 20% o'r llawr mewn unrhyw leoliad.
- I raddau helaeth, nid oes prysgwydd megis helyg *Salix* a bedw *Betula* yn y gors galchaidd.
- *Nid oes Rhododendron spp*.
- Yn ystod y rhan fwyaf o'r gaeaf ceir dŵr wyneb yn sefyll neu'n dod i'r amlwg wrth sefyll ar y tir.
- Yng nghanol yr haf nid yw dŵr daear ond 15cm o'r wyneb.

- Mae pob llwybr dŵr (gwasgaredig, ar y wyneb a than y wyneb) (mewnlifiadau ac all-lifiadau) wedi ei adfer a/ neu'n glir (yn cynnwys llenwi, blocio, arallgyfeirio ac ail-greu ffosydd). Mae ansawdd y dŵr yn adlewyrchu gofynion y cynefin, megis yn doreth o galch ond dim maetholion
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Cors alcalin**

**Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 2**

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod o statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae cors alcalin yn ymestyn dros o leiaf 17% o arwynebedd y safle.
- Ceir cors alcalin ar bob un o'r o'r saith safle cyfansoddol.
- Mae'r planhigion a ganlyn yn gyffredin yn y gors alcalin: y gorsfrwynen ddu *Schoenus nigricans*, mwsogl *Campyllium stellatum*, y llymfrwynen fawr *Cladium mariscus* (hyd at 1m o uchder), y frwynen glymog *Juncus subnodulosus*, helygen Mair *Myrica gale*, mwsogl *Drepanocladus revolvens,* chwysigenwraidd *Utricularia sp.,* toddyn cyffredin *Pinguicula vulgaris*,
- I raddau helaeth, nid oes rhywogaethau sy'n arwydd o ddraenio neu o newidiadau amaethyddol, megis y gawnen benwen *Holcus lanatus*, mieri *Rubus spp*., danadl poethion *Urtica dioica* yn y gors galchaidd.
- Nid yw glaswellt y bwla *Molinia caerulea* yn ymestyn dros fwy na 25% o'r llawr ac fe'i cyfyngir i fannau sychaf
- Tir caled yn cynnwys twffa yw oddeutu 10% o orchudd y llawr.
- Mae gwahaniaeth oedran a strwythur uchder i'w weld ar hyd y safle mewn Cors alcalin (nid yw twmpathau o laswellt wedi'u difrodi ac mae 20% yn borfa fer, 50% aeddfed – 30% rhwng y ddau yn cynnwys tir caled).
- I raddau helaeth, nid oes prysgwydd megis helyg *Salix* a bedw *Betula pubescens* yn y gors alcalin.
- Nid oes *Rhododendron spp*.
- Trwy gydol y flwyddyn rhwng twmpathau o laswellt ceir dŵr sy'n dod i'r amlwg wrth sefyll ar y tir neu ddŵr wyneb yn rhedeg.
- Dylai pob llwybr dŵr (gwasgaredig, ar y wyneb a than y wyneb) (mewnlifiadau ac all-lifiadau) gael ei adfer a/ neu fod yn glir (yn cynnwys llenwi, blocio, arallgyfeirio ac ail-greu ffosydd). Mae ansawdd y dŵr yn adlewyrchu gofynion y cynefin, megis toreth o galch ond dim maetholion).
- Mae ansawdd y dŵr yn briodol i anghenion y llystyfiant a'r rhywogaethau.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.3 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 3: Dyfroedd caled oligo-mesotroffig gyda llystyfiant benthig *Chara* spp**

***Y weledigaeth***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Nid yw dŵr agored yn fwy nag 1% o arwynebedd y safle.
- Mae llynnoedd naturiol dyfn yn parhau yn safleoedd cyfansoddol Cors Goch a Chors Erddreiniog

- Mae cyfansoddion macroffyt, fytoplancton, söoplancton ac ysglyfaethus yr ecosustem yn gweithio mewn cydbwysedd mewn amgylchedd dŵr clir lle:
- Mae rhywogaethau macroffyt nodweddiadol yn bresennol yn y cyrff dŵr, yn cynnwys gwelyau trwchus o rawn yr ebol (*Chara* spp), mewn mannau sy'n llai na 6m o ddyfnder.
- Nid oes rhywogaethau ymledol anfrodorol neu, os ydynt yno, prin iawn yw'r adegau hynny.
- Ceir pysgod brodorol leol (nad ydynt yn rhai bras).
- Nid oes dim pysgod bras.
- Mae ansawdd y dŵr o'r math sy'n cynnal pH 7-9 a Chyfanswm Ffosfforaidd blynyddol cymedrig<15µg/l.
- Mae'r dŵr yn glir drwy gydol y flwyddyn ac nid oes dim ffyniant algaidd.
- Mae dyddodion pridd cleiog yn yr holl lynnoedd.
- Ychydig iawn o waddod a ddaw o'r tu allan i'r llynnoedd.
- Mae llif y sustem dŵr naturiol (yr hyn sy'n llifo i mewn ac allan) yn glir.
- Cynhelir lefel dŵr briodol trwy gydol y flwyddyn, (newidiadau tymhorol 30cm).
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.4 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 4: Dolydd *Molinia* ar bridd calchaidd, mawnog neu lawn llaid cleiog (*Molinion caeruleae*)**

**Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 4**

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae dolydd Molinia yn ymestyn dros 2% o arwynebedd y safle.
- Gwasgarir dolydd Molinia dros bob un o'r saith safle cyfansoddol.
- Mae'r planhigion a ganlyn yn gyffredin yn nolydd Molinia: glaswellt y bwla *Molinia caerulea*; clafrllys gwreidd-dan *Succisa pratensis*; yr
- hesgen beniganddail *Carex panicea;* dant y pysgodyn mynyddig *Serratula tinctoria; y gribell goch Pedicularis sylvestris*, *Carex pulicaris* a C. *hostiana a* tegeiriannau rhuddgoch *Dactylorhiza* sp
- I raddau helaeth, nid yw'r babwyren *Juncus effusus a* rhywogaethau sy'n arwydd o ddraenio neu o newidiadau amaethyddol, megis rhygwellt parhaol *Lolium perenne* a'r feillionen wlanog *Trifolium repens* yn nolydd *Molinia*.
- Nid yw glaswellt y bwla *Molinia caerulea* yn ymestyn dros fwy na 50% o'r llawr.
- I raddau helaeth, nid oes prysgwydd megis helyg *Salix* a bedw *Betula* yn nolydd Molinia.
- Nid oes Rhododendron spp.
- Dylai deilbridd ymestyn dros hyd at 25% o orchudd y llawr.
- Bydd dŵr daear rhwng–10cm a –25cm dan lefel y ddaear am y rhan fwyaf o'r flwyddyn.
- Bydd llif y sustem dŵr naturiol (yr hyn sy'n llifo i mewn ac allan) yn glir.
- Dylai strwythur y glaswellt adlewyrchu gofynion nodwedd 9 (Brith y gors).
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.5 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 5: Rhostiroedd gwlyb gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix***

***Y weledigaeth***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae rhostir gwlyb yn ymestyn dros 4%ha o'r safle.
- Mae'r planhigion a ganlyn yn gyffredin yn y rhostir gwlyb: grug *Calluna vulgaris*; Grug Croesddail *Erica tetralix yn ogystal â* mwsogl y gors *Sphagnum* spp. clafrllys gwreidd-dan *Succisa pratensis* a *Narthecium ossifragum*.
- Byddir yn cadw llygad ar rywogaethau cystadleuol sy'n arwydd o danbori, yn enwedig felly redyn *Pteridium aquilinum*, glaswellt y bwla *Molinia caerulea* ac eithin mân *Ulex gallii*
- Bydd 70% o rostir gwlyb yn rhostir gwlyb sydd mewn "cyflwr da" .
- Mae'r rhostir gwlyb yn cynnal poblogaethau hyfyw o grwynllys y gors yng Nghors Erddreiniog.
- Mae'r rhostir gwlyb yn cyfrannu at gynnal metaboblogaeth hyfyw o frith y gors.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.7 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 7: Vertigo geyeri**

***Y weledigaeth***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae *Vertigo geyeri* i'w gael yn aml mewn cynefin addas yng Nghors Erddreiniog ac Waun Eurad.
- Ceir mannau toreithiog o laswelltir corsiog (M13 / nodwedd 2) gyda lawntiau hesg/mwsogl 5- 15cm o uchder, yn cynnwys rhywogaethau megis *Carex viridula* subsp. *brachyrrhyncha*, *Pinguicula vulgaris, Briza media, Equisetum palustre, Juncus articulatus* a'r mwsoglau *Drepanocladus revolvens, Campylium stellatum,* gyda thwmpathau o laswellt *Schoenus nigricans yma ac acw sydd ddim uwch na* 80cm.
- Twmpathau o laswellt schoenus llawn dŵr sy'n is na 80cm yw'r pridd.

**4.8 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 8: *Coenagrion mercuriale***

***Y weledigaeth***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae maint y boblogaeth yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Mae'r boblogaeth mewn o leiaf dair o'r unedau rheoli amlwg.
- Nid yw cyfanswm arwynebedd cynefin bridio da yn syrthio dan 1000m2.
- Bydd diferiadau a nentydd bas yn Nant Isaf yn glir, yn rhydd o lygredd ac yn cynnal niferoedd da o blanhigion dyfrdrig brodorol.

- Mae poblogaeth mursennod glas Penfro ar y safle (gan ganiatáu ar gyfer newidiadau blynyddol arferol) yn cael ei chynnal neu'n cynyddu.
- I raddau helaeth, nid oes rhywogaethau sy'n arwydd o ddraenio neu o newidiadau amaethyddol, megis y gawnen benwen *Holcus lanatus*, mieri *Rubus spp*., danadl poethion *Urtica dioica*.
- Mae gwahaniaeth oedran a strwythur uchder i'w weld ar hyd y safle mewn Cors Alcalin (nid yw twmpathau o laswellt wedi'u difrodi ac mae 20% yn borfa fer, 50% aeddfed – 30% rhwng y ddau yn cynnwys tir caled).
- I raddau helaeth, nid oes prysgwydd megis helyg *Salix* a bedw *Betula pubescens* yn y gors alcalin.
- Nid oes Rhododendron spp. yn y nodwedd.
- Rheolir pori priodol ar draws 100% o'r safle.
- Mae dŵr sefyll neu ddŵr rhedeg yno rhwng y twmpathau o laswellt trwy gydol y flwyddyn ac i'w weld dros 30% o'r man lle ceir twmpathau o laswellt.
- Dylai pob llwybr dŵr (gwasgaredig, ar y wyneb a than y wyneb) (yr hyn sy'n llifo i mewn ac allan) gael ei adfer a/ neu fod yn glir (yn cynnwys llenwi blocio, arallgyfeirio ac ail-greu ffosydd).
- Mae ansawdd y dŵr yn briodol i anghenion y llystyfiant a'r rhywogaethau.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau uchod dan reolaeth.

### 4.9 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 9: *Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia*

***Y weledigaeth***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae'r safle'n cynnal metaboblogaeth Brith y gors.
- Mae'r boblogaeth yn hyfyw yn y tymor hir, (gan gydnabod y newidiadau eithafol i boblogaeth y rhywogaeth).
- Mae cynefinoedd ar y safle yn y cyflwr gorau posib i gynnal y metaboblogaeth.
- Mae o leiaf 6% (oddeutu 30ha) o arwynebedd y safle yn laswelltir corsiog neu'n rhostir gwlyb sy'n addas ar gyfer cynnal brith y gors. Mae'r clafrllys gwreidd-dan *Succisa pratensis* yno hefyd gyda gorchudd isel o brysgwydd yn unig.
- Mae o leiaf 40% o'r 30ha hwn yn gynefin da i frith y gors fridio, gyda glaswellt y bwla *Molinia caerulea* yr amlycaf yma, gyda *S. pratensis* yn doreithiog ledled y safle a llystyfiant i uchder o 10-20cm dros y gaeaf.
- Mae cynefinoedd da brith y gors wedi'u gwasgaru dros sawl uned rheoli.
- Bydd cynefinoedd oddi-ar-y-safle sy'n gweithio fel cerrig camu neu goridorau rhwng rhaniadau'r Ardal Cadwraeth Arbennig yn cael eu cynnal ar gyfer dibenion mudo, gwasgaru, chwilota a chyfnewid genetig.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau uchod dan reolaeth.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan

o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfrai a Llyn Cwellyn (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008).

**Bygythiadau**

Mae gwaith a wnaed yn y gorffennol o ddraenio a chynnal a chadw lefelau dŵr sydd wedi'u gostwng mewn rhannau o'r safle yn parhau i ddifrodi rhai o gymunedau'r corsydd. Ceisir mynd ar ôl cytundebau rheoli a chaffaeliadau i geisio datrys hyn ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd wrthi'n paratoi cynllun rheoli lefel dŵr.

Mae rhoi'r gorau i bori traddodiadol ac arferion torri rhedyn a mawn mewn rhai ardaloedd yn arwain at newid olynol mewn llystyfiant. Mae cytundebau rheoli neu reolaeth uniongyrchol gan asiantaethau cadwraethol (Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru) yn ceisio adfer y gwaith o bori gwartheg neu ferlod a thorri prysgwydd a rhedyn ac, mewn rhai achosion, o bosib torri mawn, er mwyn arafu newid olynol.

Mae llygru cyflenwadau dŵr, yn enwedig felly nitrad a ffosffat sy'n rhedeg oddi ar dir amaethyddol, yn bygwth y safle gydag ewtroffeiddio. Mae gwaith yn mynd rhaddgo i roi sylw i'r broblem hon ar hyn o bryd. Gall nitrad a gludir yn yr aer fod yn fygythiad tymor hir.

Mae cynlluniau rheoli yn cael eu llunio ar gyfer rhannau Cronfa Natur Genedlaethol y safle hwn.

## Ardal Cadwraeth Arbennig Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd

**Trosolwg**

Safle mawr (27,132 ha) ar dir uchel yw Ardal Cadwraeth Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd, yr ardal fwyaf o orgors a rhostir sych Ewropeaidd yng Nghymru. Mae'n cynnwys tri safle ar wahân, SoDdGA Berwyn, SoDdGA Gweundir Llandegla a SoDdGA Minera a Mynyddoedd Rhiwabon a Llantysilio. Mae'r holl safleoedd hyn yn gymysgedd o rostiroedd sych a llystyfiant o orgors yn bennaf gyda llecynnau o fignenni trawsnewid a llystyfiant o gorsydd crynedig i'w gweld yn frithwaith cywrain, fel arfer ar greigiau asidig a, chyda'i gilydd, mae modd eu disgrifio fel rhostir ar dir uchel.

Mae'r Berwyn yn cynnal yr ehangder helaethaf o led orgors yng Nghymru. Gorfignen math NVC M19 *Calluna vulgaris–Eriophorum vaginatum* sydd amlycaf yn llystyfiant y gorgors, gyda chreiglus *Empetrum nigrum ac* yn aml iawn llawr o fwsogl helaeth sy'n perthyn i'r genus *hypnum*. Yn y gymuned hon ceir Mwyaren y Berwyn *Rubus chamaemorus* yn agos i fan mwyaf deheuol ei gwasgariad yn

Ynysoedd Prydain. Ar fawn dyfnach, ceir llecynnau llai o fignen M18 *Erica tetralix–Sphagnum papillosum*, gyda phatrwm amlwg ar wyneb rhai o'r llecynnau hyn. Dengys llystyfiant y fignen newidiadau i rostir corblanhigion lle mai grug yw'r planhigyn amlycaf yno.

O Gymru i gyd, yn y Berwyn y mae'r llecynnau mwyaf o rostiroedd sych Ewropeaidd ar dir uchel. Mae'r rhostir sych yn nodweddiadol o leoliad mwy dwyreiniol ac o hinsawdd llai cefnforol y Berwyn na thiroedd uchel, eraill, pwysig Cymru ac mae'n cynnwys, yn bennaf, rostir NVC math H12 *Calluna vulgaris–Vaccinium myrtillus*, gyda chreiglus *Empetrum nigrum* i'w weld yn aml a llus cochion *Vaccinium vitis-idaea* o bryd i'w gilydd. Mathau eraill o lystyfiant ar y rhostir yw mannau o rostir *Vaccinium myrtillus– Deschampsia flexuosa H18* ac, mewn rhai llecynnau tamp o rostir, *Calluna vulgaris–Vaccinium myrtillus–Sphagnum capillifolium H21. Mae'r rhostiroedd* olaf hyn mewn sefyllfa ganolraddol rhwng y rhostiroedd sychach *a*'r gorfignen ac maent yn cynnal planhigion achlysurol y gaineirian bach *Listera cordata.*

Y Berwyn yw'r tir uchel pwysicaf yng Nghymru ar gyfer adar sy'n nythu. Mae'n cynnal ystod eang o rywogaethau yn cynnwys niferoedd sy'n rhyngwladol arwyddocaol, sef y bod tinwyn *Circus cyaneus*, y cudyll bach *Falco columbarius*, yr hebog tramor *peregrinus* a'r cudyll coch *Milvus milvus.* At hyn, mae'n cynnal cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru o rywogaethau eraill yn cynnwys y dylluan glustiog *Asio flammeus*, y cwtiad aur *Pluvialis apricaria*, cochiad y grug *Lagopus lagopus* a'r ceiliog du *Tetrao tetrix*.

Mae'r cymunedau o lystyfiant calchaidd y mae'r safle'n wybyddus amdano i'w gweld ar ran o SoDdGA Minera a Mynyddoedd Rhiwabon a Llantysilio. Yn yr ardal hon mae calchfaen brig carbonifferaidd ar y llethr a adwaenir fel Creigiau Eglwyseg, gyda'i chlogwyni, sgri a phorfeydd amlwg. Mae'r sgrïau calchaidd yn yr ardal hon yn cynnal nifer o rywogaethau prin, megis rhedynen y calchfaen *Gymnocarpium robertianum*, gyda'r llethrau neu'r clogwyni creigiog yn cynnal marchredynen y calchfaen *Dryopteris submontana*, rhedyn o bafin calchfaen sy'n genedlaethol brin a sgri yn ymyl ddeheuol ei wasgariad yn Rhiwabon. Yng Nghreigiau Eglwyseg ceir poblogaethau o'r gerddinen endemig (*Sorbus anglica)* a'r Heboglys Cymreig *(Heiracium cambricum).*

Mae'r glaswelltiroedd calchaidd i'w gweld hefyd ym mhen gogledd-ddwyreiniol SoDdGA Minera a Mynyddoedd Rhiwabon a Llantysilio. Yn yr ardal hon mae nifer o fathau o laswellt calchaidd, asid tir uchel a niwtral dros graig asidig a chalchaidd, ynghyd â rhedyn a phrysgwydd. Yma hefyd yw'r unig le yng Nghymru y ceir yr hesgen *Carex muricata* ssp. m*uricata* sydd mewn perygl dirfawr.

Mae cytrefi o'r cliradain Gymreig *Synanthedon scoliaeformis* i'w gweld mewn sawl lleoliad, a hwn y'r cryfaf o dair poblogaeth yn unig yng Nghymru.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif rheswm dros ddewis y safle hwn:
4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd

7130 Gorgorsydd * Nodwedd blaenoriaeth

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
6210 Glaswelltiroedd sych lled naturiol a nodweddion tir prysg: ar bridd calchaidd (Festuco-Brometalia)
7140 Mignenni Trawsnewid a chorsydd crynedig
8120 Sgrïau calchaidd a chalsgistiau'r lefelau mynyddig i lefelau alpaidd (Thlaspietea rotundifolii)
8210Llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant yn tyfu mewn agenau a holltau

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Gorgorsydd * Nodwedd â Blaenoriaeth (Côd Cynefinoedd yr UE: 7130)**

***Y weledigaeth***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:
- Ni fydd fawr o ostyngiad mewn gorgors, rhaid i'r cynefin fod yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Difinnir gorgors sych ar gefnau sy'n taflu dŵr fel mannau lle mai'r grug (yn nodweddiadol *Calluna*) sydd amlycaf, gydag *Erica tetralix,* sy'n amlwg yn israddol. Bydd *Empetrum nigrum*, *Vaccinium vitis-idaea* a/neu *V. myrtilus* i'w weld yno'n fynych iawn. *Eriophorum vaginatum* yn nodweddiadol gyson ond weithiau dim ond yn isel – mae gweiriau eraill sy'n perthyn i deulu'r *Poaceae* yn nodweddiadol brin. Er bod *Vaccinium oxycoccus yn* ymestyn dros y carped brÿoffat trwchus, mae elfennau eraill o donnen 'wlyb', megis *Narthecium* a *Drosera* yn nodweddiadol brin. Roedd mwsoglau sy'n perthyn i'r genws *hypnum* (yn nodweddiadol *Hypnum jutlandicum* a *Pleurozium schreberi*), math amlycaf o'r brÿoffat, a *Sphagna* ar ffurf *Sphagnum capillifolium* yn aml iawn ar y safle.
- Ceir cydbwysedd gwell rhwng planhigion sy'n perthyn i deulu'r grug *(Ericaceae)* a phlanhigion sy'n perthyn i deulu'r gweiriau *(Poaceae)* mewn gorgors wlyb ar wastadir a mannau bylchog. Fel arfer, mae *Eriophorum vaginatum* yn tyfu'n uwch i fyny na phe byddai mewn amgylchiadau sychach ac mae *E. angustifolium* yn gyson. Mae gwahanol fathau o *Molinia caerulea a Trichophorum cespitosum* yn amrywiol, a hynny'n unol â sustem ddŵr a dulliau rheoli'r gorffennol. Mae mathau bychain, megis *Vaccinium oxycoccus*, *Narthecium* a *Drosera* yno, fel sy'n nodweddiadol. Gall mwsoglau'r genws *hypnum* a *Sphagnum capillifolium* barhau i fod yn brif elfen y brÿoffat ond, yn aml iawn, cânt eu gweld gyda rhywogaethau y Sphagnum sect. Sphagnum.
- Dylai bob man lle ceir gorgors fod â lefel trwythiad uchel yn union dan wyneb y ddaear y rhan fwyaf o'r flwyddyn, a hynny'n gyson gyda mawn yn cael ei ffurfio'n barhaus.
- Mewn mannau lle ceir tonnen wlyb yn benodol, dylai'r llystyfiant ddatblygu neu fod â phatrwm afreolaidd gyda bryncynnau sychach a phantiau gwlypach.
- Rhaid cynnal ansawdd y gorgors (o ran strwythur a swyddogaeth ecolegol)
- Dylid adfer mannau sydd a chynefinoedd wedi'u gwasgaru fel gorgors a mawn noeth diraddedig, neu sydd wedi'u newid, i gyflwr mwy cynaliadwy trwy annog llystyfiant o gorgors nodweddiadol i dyfu a chau ffosydd traenio

▪Ni fyddir yn annog llosgi gorgors gan ei fod yn arafu datblygiad bryncynnau a phantiau yn ogystal â datblygiad Sphagna mwy sensitif.
▪Ni ddylid bod traeniau na ffosydd draenio'n draenio'r mawn.
▪Ni ddylid bod tystiolaeth o ddifrod yn sgíl, er enghraifft, traenio neu losgi.
▪Rhaid i unrhyw rywogaeth nodweddiadol fod â statws cadwraethol ffafriol hefyd, fel a ddiffinnir isod.
▪Ni ddylai planhigion anfrodorol fod yno.
▪Ni ddylid bod gostyngiad yn ystod nac yn nhoreth planhigion rhywogaethau nodweddiadol a llystyfiant.
▪Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2:**
rhostiroedd sych Ewropeaidd (Côd Cynefinoedd yr UE: 4030)
**Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 2**
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:
▪Ni fydd fawr o ostyngiad mewn rhostir sych, rhaid i'r cynefin fod yn sefydlog ac yn cynyddu
▪ Mae'r rhostiroedd sych Ewropeaidd yn cynnwys, yn bennaf, rostir NVC *Calluna vulgaris–Vaccinium myrtillus* math H12, gydag *Empetrum nigrum* yn aml a llus cochion *Vaccinium vitis-idaea* o bryd i'w gilydd. Mathau eraill o lystyfiant ar y rhostiroedd yw mannau o rostir *Vaccinium myrtillus– Deschampsia flexuosa* H18 ac, mewn rhai mannau, lecynnau tamp o rostir *Calluna vulgaris–Vaccinium myrtillus–Sphagnum capillifolium* H21. Mae'r rhostiroedd olaf hyn mewn sefyllfa ganolradd rhwng y rhostiroedd sychach a chorfignen ac maent yn cynnal planhigion achlysurol y gaineirian bach *Listera cordata*.
▪Rhaid cynnal ei ansawdd (o ran strwythur a swyddogaeth ecolegol).
▪Dylid cadw mannau o lystyfiant grug a, lle bo'n bosib, eu gadael i ailsefydlu ar fannau sydd wedi'u newid neu eu diraddio yn sgìl gwaith gwella amaethyddol, neu drwy ddulliau rheoli amhriodol.
▪Dylai'r grug a phrysgwydd eraill ar rostiroedd sych fod o wahanol oedran a strwythur.
▪Bydd gwaith rheoli'n sicrhau y bydd y grug o amrywiol oedran - o'r cyfnod arloesi, tyfu, aeddfedrwyd ac yna ddirywio, gydag o leiaf 10% wedi'i neilltuo ar gyfer dim gwaith rheoli fel bod y grug yn cael ei adael i ddatblygu hyd at aeddfedrwydd.
▪Ni fyddir yn rheoli mewn cynefinoedd sensitif.
▪Bydd rhyw gymaint o ddatblygiadau prysgwydd brodorol yn dderbyniol gyda hyd at orchudd o 10% gyda thrwch uwch, a hyd at 20% mewn e.e.parthau rheoli'r ceiliog du.
▪Ni ddylai grug a phlanhigion eraill ymddangos fel pe bai pori wedi dal eu datblygiad yn ôl.
▪Dylid bod mannau o rug hir yn gynefin nythu i adar sy'n nythu ar y ddaear megis ceiliog y mynydd, y cudyll bach, y bod tinwyn, a mannau o rug is ac ifancach, a llaciau gwlyb lle gall adar fwydo ar egin grug a chreaduriaid di-asgwrn-cefn.
▪Ni ddylai planhigion anfrodorol fod yno.
▪Rhaid i unrhyw rywogaeth nodweddiadol fod â statws cadwraethol ffafriol.
▪Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth

**4.3 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 3:** Glaswelltiroedd sych lled naturiol a nodweddion tir prysg: ar bridd calchaidd (Festuco-Brometalia) **(Côd Cynefinoedd yr UE: 6210)**

**Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 3**

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Dylid cynnal y cyfan o'r glaswelltir calchaidd a niwtral neu ei gynyddu ar draul rhedyn, prysgwydd a glaswelltiroedd eraill gwell. Nid yw gostyngiad mewn maint yn dderbyniol.
- Mae gwahanol flodau ar laswelltir calchaidd. Ar dir isel dylai'r glaswelltir calchaidd fod yn gyfoethog o ran rhywogaethau calchgar megis *Carlina vulgare*, *Briza media* a *Sanguisorba minor*. Dylai rhywogaethau lleol prin, megis *Gymnadenia conopsea* a *Blackstonia perfoliata* hefyd fod yno. Ar dir uwch, mae mwy o rywogaethau asid mewn glaswellt calchaidd. Ynghyd â rhywogaeth y dangosyddion nodweddiadol mewn glaswelltir calchaidd, gwelir yn rheolaidd rywogaethau sy'n hoffi asid megis *Agrostis tenuis* a *Potentilla erecta*. Yn y glaswellt, gwelir yn rheolaidd wellt meinddail a pherlysiau fel *Briza media*, *Carlina vulgaris* a *Thymus polytrichus* er, oherwydd bod y safle ar dir uchel, gallai perlysiau eraill sy'n fwy nodweddiadol o fod yn hoffi asid, megis grug, fod yn gyffredin, megis *Galium saxatile* a *Campanula rotundifolia*. Er cael ei ddiffino fel glaswelltir, bydd mwy na hanner o'r hyn sy'n gorchuddio'r ddaear yn llysieuol.
- Yn y glaswelltir calchog bydd amrywiaeth helaeth o blanhigion gyda glaswelltir calchog yn cynnwys y rhai hynny sy'n nodweddiadol o bridd tenau sy'n doreth o galch.
- Yr un pryd ag y byddir yn pori ar lefel sy'n caniatáu i blanhigion flodeuo a hadu, byddir yn rhwystro coed a phrysgrwydd rhag ymledu.
- Dim ond mewn llecynnau ar y cyrion y bydd rhedyn i'w weld.
- Yn y glaswellt mae eginblanhigion coed a phrysgwydd, a gwair cryf neu wair sy'n ffurfio twmpathau megis *Dactylis glomerata*, a *Deschampsia cespitosa* yn anghyffredin neu'n isel ar y ddaear. Ar y llaw arall, mae chwyn a rhywogaethau sy'n amaethyddol ffafriol megis *Lolium perenne*, *Urtica dioica*, *Cirsium arvensis* a *C. vulgare* yn brin neu hyd yn oed yn absennol.
- Ni ddylai rhywogaethau sydd wedi'u cyflwyno fod yno a dylid cymryd camau i'w rheoli os sefydlir rhywogaethau o'r math.
- Mae lefelau uchel o bori yn arwain at bridd yn erydu ar rannau serth y sgarp, sy'n diraddio rhai mannau. Fodd bynnag, dylid bod digon o bori i agor llecynnau bychain dros dro o dir caled yn y glaswellt fydd yn wely hadau i'r planhigion fasgwlaidd ac yn gynefin addas i'r brÿoffytau bychain, macro-gennau a phlanhigion fasgiwlaidd byr-hoedlog sy'n arbennig o nodweddiadol o laswelltir calchog ar y llethrau mwy serth ac agored.
- Ar bridd dwfn i'r de o'r chwarel mae glaswelltir asid yn datblygu ac, mewn mannau, mae'n frithwaith o gynefinoedd gyda'r glaswelltir calchaidd. Ar y priddoedd hyn dylid rheoli eithin a rhedyn rhag ymledu.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.4 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 4: Mignenni trawsnewid a chorsydd crynedig (Côd Cynefinoedd yr UE: 7140)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 4***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Ni fydd fawr o ostyngiad mewn mignenni trawsnewid a chorsydd crynedig, rhaid i'r cynefin fod yn sefydlog ac yn cynyddu.
- Wedi'u nodweddu gan ystod o hesg sy'n tyfu'n isel dros garped helaeth o fwsog corsiog *Sphagnum* ynghyd â mwsoglau a brwyn ac ychydig o berlysiau wedi'u gwasgaru.
- Mae lefel y trwythiad uwchlaw wyneb y pridd, yn creu carpedi arnofiol nodweddiadol o lystyfiant.
- Yn aml iawn, mae gan y llystyfiant gymysgedd agos o rywogaethau sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n hoffi asid ac eraill sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n hoffi calch.
- Ni ddylid bod ffosydd na sianelau draenio yn draenio'r fignen.
- Ni fydd llosgi na phori'n bygwth cynefin y fignen drawsnewid.
- Nid oes fawr ddim dŵr sy'n gyfoethog mewn maetholion yn dod o ffosydd a thir cyfagos.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.5 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 5: Sgrïau calchaidd a chalsgistau'r lefelau mynyddig i'r lefelau alpaidd (*Thlaspietea rotundifolii*) (Côd Cynefinoedd yr UE: 8120)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 5***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Ni fydd fawr o ostyngiad mewn cynefin, rhaid i'r cynefin fod yn sefydlog ond oherwydd ei natur mae'n anhebygol y bydd cynydd mewn maint.
- Disgrifir y nodwedd fel un sy'n hafan i rywogaethau arloesi sensitif yn cynnwys y dduegredynen a brÿoffytau sy'n medru cytrefu'r sgri, gan fod creigleoedd a shilffoedd y creigiau'n hafan rhag pori a rhew.
- Mae fflora'r nodwedd hon yn adlewyrchu natur cyfoethog y creigiau o ran calch, yn cynnwys calchfaen, sgistau calchaidd a'r creigiau igneaidd mwy sylfaenol megis sarff-faen a basalt.
- Mae'r sgri'n bwysig ar gyfe y fflora sy'n doreth o redyn ac yn hafan i nifer o rywogaethau prin.
- Bydd pori ysgafn yn rhwystro olyniaeth i brysgwydd ac yn lleihau i'r eithaf ar rywogaethau megis yr onnen a'r gollen sy'n cytrefu ac, yr un pryd, ni fydd yn niweidio'r nodwedd trwy orbori.
- Ni fydd pobl yn tarfu fawr ddim ar y sgri a bydd y llethrau a waddodwyd yn parhau i hel darnau bach o sgri.
- Ni fydd y llystyfiant yn wir adlewyrchiad o'r nodwedd hon oni fydd ar sgri sefydlog ar lethrau llai serth lle gall y llystyfiant ymgasglu.
- Dylid cynnal y gwahanol rywogaethau ym mhob un o'r cymunedau uchod.
- Ni fydd y maint yn gostwng oherwydd gweithgaredd dynol annymunol megis coedwigaeth, chwarelydda, dringo na gwaith peirianneg.
- Dylid cyfyngu'r defnydd a wneir o chwynladdwyr, megis Asulox i reoli lledaeniad brwyn, i fannau lle na fyddant yn cael effaith andwyol ar y nodwedd.
- Rhywogaethau brodorol yn unig ddylai fod yno.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.6 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 6: Llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant sy'n tyfu mewn agennau a holltau (Côd Cynefinoedd yr UE: 8210)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 6***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Ni fydd fawr o ostyngiad mewn cynefin, rhaid i'r cynefin fod yn sefydlog ond oherwydd ei natur mae'n anhebygol y bydd cynydd mewn maint.
- Bydd y llystyfiant yn cynnwys planhigion sy'n tyfu mewn agennau a holltau ar wyneb creigiau. Pennir math y planhigion sy'n datblygu yno yn ôl faint o galch sydd yn wyneb y graig.
- Rhedyn megis *Asplenium ruta-muraria a* pherlysiau bychain megis *Thymus praecox* a *Hieracium spp* yw'r llystyfiant sy'n tyfu yn yr agennau a'r holltau. Oherwydd nad oes modd i anifeiliaid sy'n pori gael at greigiau, mae eu silffoedd yn hafan i sawl planhigyn fasgiwlaidd sy'n sensitif i bori, yn cynnwys nifer o rywogaethau lleol a phrin.
- Dylai brÿoffytau a chen fod yn hawlio'r agennau ond fe'i gwelir hefyd ar wynebau creigiau agored lle nad oes planhigion fasgiwlaidd eraill.  Cydnebydd bod silffoedd creigiau yn rhan o'r nodwedd ar y safle oherwydd y topograffi grisiog trawiadol.
- Dylai ymylon glaswelltog fod yn hafan i amrywiaeth o flodau a chynnal rhywogaethau sy'n perthyn i'r nodwedd megis *Campanula rotundifolia, Centaurea nigra a Dryopteris spp*.
- Dylid cynnal y gwahanol rywogaethau ym mhob un o'r cymunedau uchod.
- Rhywogaethau brodorol yn unig ddylai fod yno.
- Ni fydd llystyfiant sy'n tyfu mewn agennau a holltau a llystyfiant ar ymylon glaswelltog yn arddangos arwyddion o orbori.
- Ni fydd gostyngiadau mewn maint yn sgìl gweithgareddau annymunol megis chwarelydda.
- Gall gwaith cloddio ar raddfa fechan gynyddu diddordeb yn y safle trwy amlygu mwy ohono ond byddai'n cael effaith andwyol ar lethrau'r clogfeini a'r sgri sydd dan fygythiad mawr.
- Dylid cyfyngu'r defnydd a wneir o chwynladdwyr, megis Asulox i reoli lledaeniad brwyn, i fannau lle na fyddant yn cael effaith andwyol ar y nodwedd.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho.  Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli.  Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig.  Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig y Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd ac Ardal Gwarchod Arbennig y Berwyn  (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Bygythiadau**

Mae'r gorgors, rhostiroedd, corsydd a glaswelltiroedd wedi'u bygwth gan ddatblygiad amaethyddol amhriodol yn cynnwys draenio, ailhadu, defnyddio gwrtaith, llosgi, creu traciau a mabwysiadu trefn bori niweidiol. Mae rhai mannau o laswelltir a rhostir hefyd yn cael eu bygwth gan frwyn yn ymledu.

Llwyddir i roi sylw i'r problemau hyn trwy gytundebau rheoli gyda pherchenogion a deiliaid a thrwy gyd-gytundebau gyda'r cynllun Tir Gofal.

Gall twristiaid lleol a difrod gan gerbydau hamdden greu problemau erydu. Rhoddir sylw i hyn trwy reoli ymwelwyr a chael wardeiniaid ar y safle yn ogystal â thrwy waith rheoli positif o ailgyflwyno llystyfiant i fannau sydd wedi erydu.

## ACA Cadair Idris

**Trosolwg**

Mae'r safle i'r de o Ddolgellau ac mae o ddiddordeb arbennig oherwydd ei ddaeareg creigwely ordofigaidd / igneaidd, biolegol a'i nodweddion geomorffoleg Pleistosenaidd / Cwaternaidd.

Cynhelir Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Cadair Idris gan safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Cadair Idris. Mae'r coetiroedd ar ymyl gogleddol y SoDdGA yn rhan o ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion ac nid ydynt yn cael eu diogelu gan y cynllun hwn.

Mae'r safle'n cynnwys mynydd Cadair Idris a'r llethrau is sy'n frithwaith o goetir llydanddail, dolydd gwlyb, glaswelltir a chynefinoedd ar dir uchel. Mae hi'n ardal hynod drawiadol gyda llu o gynefinoedd a rhywogaethau o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.

Oherwydd ystod eang yr amodau ffisegol, ceir ystod helaeth o fathau o gynefinoedd. Yn eu plith mae corblanhigion y rhostir, glaswelltir mynyddig, cymunedau sy'n doreth o berlysiau a rhedyn, gorfignen, cymunedau sy'n cael eu dyfrio gan y glaw a dŵr sy'n rhedeg lawr y llethrau, cynefin o egin y gwanwyn, dŵr agored a choetir derw. Y rhai mwyaf cyffredin yw glaswelltiroedd asid lle mai *Nardus stricta* a *Festuca ovina* sydd amlycaf a rhostiroedd sych asidig lle mai *Calluna vulgaris* sydd amlycaf. Yng nghyd-destyn y SoDdGA, mae'r safle hefyd o ddiddordeb arbennig am ei gasgliad o greaduriaid di-asgwrn-cefn mynyddig, planhigion, cenau a brŷoffytau uwch. Mae naw planhigyn o ddiddordeb arbennig yn eu rhinwedd, yn union fel y mae'r plufwsogl main gwyrdd *Hamatocaulis vernicosus* (nodwedd yr ACA), a rhywogaeth sydd ar ben eithaf ystod y cen. Hefyd o ddiddordeb arbennig mae poblogaethau o'r glöyn byw brith y gors, Cliradain Gymreig a'r ystlum bedol leiaf.

Mae yn ACA Cadair Idris bum llyn oligotroffig megis Llyn y Gadair, Llyn Gafr, Llyn Arran, Llyn Cyri, a Llyn Cau.

Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cadair Idris yn ardal o oddeutu 450 hectar yng nghanol y safle, yn cynnwys Cwm Cau a Phenygadair. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd yn berchen ar goetir cymysg ger y warchodfa natur yn Ystradlyn ac ar oddeutu 81ha o warchodfa heb ei datgelu ar lethrau gogleddol is y safle yn Nhanygader.

Heb amheuaeth, Cadair Idris sy'n dennu pobl i gerdded yn ne Eryri. Ymwelodd 168,000 o bobl â'r Warchodfa Natur Genedlaethol yn 2007.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif rheswm dros ddewis y safle hwn:
3130 Dyfroedd sefyll oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant y Littorelletea uniflorae a/neu yr Isoëto-Nanojuncetea
8110 Sgri silicaidd lefelau mynyddig i lefelau o eira (Androsacetalia alpinae a Galeopsietalia ladani)
8210 Llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant sy'n tyfu mewn agenau a holltau
8220 Llethrau creigiog silicaidd gyda llystyfiant sy'n tyfu mewn agenau a holltau

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
4010 Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag Erica tetralix
4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd
6410 Dolydd Molinia ar bridd calchaidd, mawnog neu lawn llaid cleiog (Molinion caeruleae)
6430 Cymunedau ymylol perlysiau tal hydroffilaidd y gwastadeddau a lefelau mynyddig i lefelau Alpaidd
7130 Corgorsydd * Nodwedd â blaenoriaeth
7230 Corsydd alcalin
91A0 Hen Goedwigoedd Derw di-goes gyda'r dderwen fytholwyrdd a Blechnum yn Ynysoedd Prydain

Atodiad II rhywogaethau'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn
1065 Glöyn Byw Brith y Gors *Euphydryas* (*Eurodryas*, *Hypodryas*) *aurinia*
1393 Plufwsogl main gwyrdd *Drepanocladus* (*Hamatocaulis*) *vernicosus*

**Amcanion Cadwraeth**

***4.1 Amcanion Cadwraeth ar gyfer nodwedd ACA llyn dŵr clir /croyw: Dŵr sefyll oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant y Littorelletea uniflorae* a/neu yr *Isoëto-Nanojuncetea (EU 3130)***

**Gweledigaeth ar gyfer Nodwedd llynnoedd dŵr clir**

Y weledigaeth ar gyfer nodweddion ACA llynnoedd (dŵr clir) oligotroffig i fesotroffig yw bod ganddynt statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

▪1 Rhaid cynnal y cyfan o'r llynnoedd dŵr clir fel a nodir ar y Map, yn cynnwys dŵr agored / cors a basn llynnoedd sydd i'w gweld ar ffotograffau a dynnir o'r awyr. Dylid, hefyd, gynnal y dalgylchoedd yn eu cyflwr cyfredol o leiaf.

▪2 Bydd lleoliad y llynnoedd dŵr clir fel a welir ar y Map a chyfeirir atynt yn ôl eu henwau (y Gadair, Gafr, Arran, Cyri, Cau).

▪3 Bydd rhywogaethau nodweddiadol y llystyfiant, fel a restrir, ac sy'n cynnwys nodwedd llynnoedd dŵr clir yr ACA, yn gyffredin. Nodweddir y llystyfiant gan lystyfiant bythol, byr, amffibiaidd. Beistonnell merllyn *Littorella uniflora*, bidoglys y dŵr *Lobelia dortmanna* a gwair merllyn *Isoetes* spp. yw'r llystyfiant diffiniol. Ar Gadair Idris mae'r rhywogaethau hyn yn tyfu gyda dyfrllys y gors *Potamogeton polygonifolius*, brwynen oddfog *Juncus bulbosus*, myrdd-ddail bob yn ail *Myriophyllum alterniflorum,* rhawn yr ebol *Nitella flexilis* a'r cleddyflys culddail *Sparganium angustifolium*.

▪4 Nid oes rhywogaethau ymledol ac anfrodorol.

▪5Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd: Sgri silicaidd lefelau mynyddig i lefelau o eira (Androsacetalia alpinae a Galeopsietalia ladani) (Côd Cynefinoedd yr UE: 8110)**

***Gweledigaeth ar gyfer sgri silicaidd***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

▪Dylid cynnal y cyfan o'r sgri.

▪Dylai llystyfiant y sgri fod wedi'i wneud yn bennaf o un ai rywogaethau dymunol (*Cryptogramma crispa*, *Oreopteris limbosperma, a Hymenophyllum wilsonii)* neu o gymunedau eraill lle ceir, yn bennaf, gen neu brÿoffat ac sy'n nodweddiadol o sgri symudol.

▪Dylai'r sgri fod yn symudol ac yn agored ac yn rhydd o rywogaethau o frwyn, coed a phrysgwydd megis y fedwen *Betula* a'r gerddinen.

▪Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.3 Amcanion Cadwraeth ar gyfer: Nodwedd; Llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant sy'n tyfu mewn agenau a holltau (llystyfiant casmoffytig) (Côd Cynefinoedd yr UE: 8210); Nodwedd; Llethrau creigiog silicaidd gyda llystyfiant sy'n tyfu mewn agenau a holltau (llystyfiant casmoffytig) (Côd Cynefinoedd yr UE: 8220); a Nodwedd: Cymunedau perlysiau tal hydroffilaidd ymylon gwastadeddau a lefelau mynyddig i lefelau Alpaidd) (Côd Cynefinoedd yr UE: 6430)**

***Gweledigaeth ar gyfer perlysiau tal a llystyfiant casmoffytig calcaidd a silicaidd***

Y weledigaeth ar gyfer y nodweddion hyn yw iddynt fod o statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Dylai'r cyfan o'r silff perlysiau tal a llystyfiant casmoffytig fod yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Dylai'r silffoedd perlysiau tal a llystyfiant casmoffytig fod yn cynnwys yn bennaf y rhywogaethau nodweddiadol a dymunol a restrir yn y tabl isod.
- Nid oes rhywogaethau anfrodorol yno neu maent yn brin.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.4 Amcanion Cadwraeth ar gyfer rhostiroedd sych Ewropeaidd (UE 4030) a rhostir gwlyb Gogledd yr Iwerydd gyda nodweddion ACA *Erica tetralix* (UE 4010)**

**Y weledigaeth ar gyfer nodweddion ACA y rhostir**

Y weledigaeth ar gyfer nodweddion ACA y rhostir yw iddynt fod o statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- 1 Rhaid o leiaf gynnal y cyfan o'r rhostir sych, oddeutu 1451 ha. Dylid rheoli'r mannau anffafriol o rostir sych a glaswelltir asid y mae modd eu hadfer, a hynny dan raglen adfer. Dylai'r rhostir sych gynyddu ar draul y llystyfiant llai dymunol megis glaswelltir asid. Dylid o leiaf gynnal y cyfan o'r rhostir gwlyb, oddeutu 239 ha. Dylai'r rhostir gwlyb gynyddu'n gyffredinol ar draul llystyfiant llai dymunol. Efallai bod modd adfer rhai mannau o rostir sych sy'n orgors wedi'i diraddio, i'r cynefin hwnnw â blaenoriaeth ar yr amod nad oes gwir golled o rostir sych yn yr ACA.
- 2 O leiaf bydd gwasgariad y rhostir sych a gwlyb yn cael ei fapio yn Gray( 2003) & Averis (2000) a bydd, os yn bosib, yn cynyddu wrth iddo gael ei adfer mewn mannau ychwanegol.
- 3 Bydd y rhywogaethau sy'n nodweddiadol o'r llystfiant sy'n cynnwys y rhostir sych a'r rhostir gwlyb i'w gweld yn aml ac yn doreithiog.
- 4 Bydd toreth a gwasgariad planhigion anghyffredin (gweler Tabl 2) yn cael eu cynnal neu'n cynyddu.
- 5 Dylid cynnal ac adfer strwythur y rhostir er mwyn dangos ail-greu naturiol trwy haenu a hadu a sicrhau bod y gwahanol lystyfiant yn naturiol wahanol (cyfeirier hefyd at 3 a 4 uchod). Yn ymarferol, bydd rhai llecynnau ar eu hennill o fod yn dalach gyda grug aeddfed iawn (e.e. NVC H 21) gydag eraill, yn cynnwys rhostir gwlyb, ar eu hennill o gael strwythur canolig i fyr, yn llai na 30cm o uchder. Ni fydd arwyddion o orbori, yn cynnwys arferion twf 'wedi'i ddal yn ôl'', 'tocwaith' na 'drymffyn' yn amlwg.
- 6 Ni fydd rhywogaethau ymledol ac anfrodorol megis conifferau, rhododendron, cwlwm Japan a ffromlys chwarennog yno.
- 7 Yn gyffredinol, ni fydd coed ar wyneb y rhostir – ar y mwyaf ychydig o goed yma ac acw gyda dwysedd o ddim mwy na dwy yr hectar. Mae parthau trawsnewid o goetir i rostir yn eithriadau lle gall coed fod yn fwy trwchus ac yna newid yn raddol i fod yn rhostir agored. Dylai cyfyngiadau ar gyfer parthau trawsnewid coetiroedd gael eu pennu ar sail uned neu is-uned.
- 8 Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth

**4.5 Amcan Cadwraeth ar gyfer nodwedd ACA: Gorgors (UE 7130)**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd gorgors yr ACA***

Y weledigaeth ar gyfer nodwedd gorgors â blaenoriaeth yr ACA yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a

ganlyn:
▪Mae'r cyfan o'r gorgors yn sefydlog gyda chyfanswm o oddeutu 200 ha o orgors NVC ac oddeutu 73ha o lystyfiant ar fawn tyfn (Gray 2003), neu'n cynyddu. Ystyrir o hyd bod llystyfiant sydd wedi'i fapio fel NVC M20, neu nad oes modd ei adnabod fel gorgors, yn anffafriol. Mae ardal y gorgors yn cynyddu ar draul y llystyfiant llai dymunol neu os yw rhostir gwlyb yn cael ei adfer i orgors, mae tir cymesur yn cael ei ennill fel rhostir gwlyb.
▪Mae lleoliad a gwasgariad y gorgors yn cynyddu ar draul y llystyfiant llai dymunol.
▪Bydd rhywogaethau nodweddiadol y llystyfiant, fel a restrir, ac sy'n cynnwys nodwedd llynnoedd dŵr clir yr ACA, yn gyffredin.
▪Caiff strwythur y gorgors ei gynnal a'i adfer i gynnwys pyllau yn y corsydd, panylau, brynciau a phantiau fel nodwedd naturiol o wyneb y gors. Nid oes ffosydd draenio na thraeniau gweundirol artiffisial yn gweithredu fel draeniau. Ni ddylid bod mannau o fawn wedi erydu.
▪Nid oes rhywogaethau ymledol nad ydynt yn rhai brodorol megis conifferau, rhododendron, cwlwm Japan a ffromlys chwarennog yn yr ACA ac mewn cylchfa ragod ar gyfer rhywogaethau penodol.
▪Nid oes coed yn y gorgors.
▪Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth

**4.6 Amcan Cadwraeth ar gyfer nodweddion ACA y coetir: "Hen Goed Derw di-goes gyda'r dderwen fytholwyrdd a choetiroedd Blechnum"**

**Y weledigaeth ar gyfer nodweddion ACA y coetir**
Y weledigaeth ar gyfer nodweddion ACA y coetir yw bod ganddynt statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:
▪Bydd y cyfan o'r coetir, yn cynnwys canopi'r coetir a'r prysgwydd, llennyrch y coetiroedd a rhostir sych cysylltiedig, brwyn a glaswelltir, ac sydd oddeutu 73ha, yn sefydlog neu'n cynyddu.
▪Bydd lleoliad nodwedd ACA y coetir o leiaf fel a nodir ar Fap 1 yn y Cynllun Rheoli Craidd (Cyngor Cefn Gwlad Cymru,
▪Ionawr 2012; tud. 39). Mae'r coetir a ddiogelir gan y nodwedd hon yn goetir heb ffin glir megis ar Dir Stent (uned 9) a dylid ei annog i ymledu i fyny'r llethr i Ddôl y Cae.
▪Ni fydd canran canopi'r coed yn y coetir yn llai na'r hyn yw ar hyn o bryd (ac eithrio mewn trychinebau naturiol).
▪Mae'r canopi a'r prysgwydd yn cynnwys rhywogaethau cynhenid lleol, fel a nodir yn Nhabl 2 Cynllun Rheoli Craidd (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ionawr 2012; tud. 40). (Mae llai o goed derw a mwy o goed bedw mewn rhai mannau o nodwedd yr ACA hon).
▪Bydd digon o goed a phrysgwydd brodorol lleol yn aildyfu'n naturiol i gynnal canopi coed y coetir a'r prysgwydd, trwy lenwi bylchau, ymuno darnau o goetiroedd a gadael i goed ifainc gryfhau, ac annog strwythur oedran amrywiol.
▪Bydd rhywogaethau nodweddiadol gorchudd y ddaear sy'n nodwedd ACA y coetir, yn gyffredin, gweler Tabl 2. Mae'n bwysig nad yw'r llystyfiant yn rhy drwchus a bras a dim uwch na 40cm ac nad yw rhywogaethau megis mieri, eiddew a chelyn ifanc yn hawlio'r lle. Gallai cyfyngiadau gael eu gosod ar sail uned neu gydran. Dylai planhigion is nodweddiadol yn cynnwys rhywogaethau cefnforol (cyfeirier at Dabl 1 isod am restr fynegol) barhau i fod yn doreithiog a chael eu cynnal. Mae'n wybyddus bod Dôl y cae yn hafan i frÿoffytau cefnforol o ddiddordeb.
▪Bydd toreth a gwasgariad mwsoglau, llysiau'r afu, cenau a rhedyn anghyffredin yn cael eu cynnal neu'n cynyddu.

▪Bydd nifer ddiffiniedig o goed aeddfed fesul hectar, dan ganopi'r coed ar sail uned. Fel arweiniad, mae ganddynt ddeiamedr o oddeutu 60cm a mwy ar gyfer coed derw ac ynn a / neu ar gyfer coed sydd ag arwyddion o ddirywiad a thyllau ac ati.
▪Bydd coed marw yno a byddant yn gymysgedd o goed wedi syrthio (o leiaf 1 yr hectar), canghennau wedi'u torri, canghennau marw ar goed byw, a choed marw'n sefyll (o leiaf 1 yr hectar). Eithaf isel yw nifer y coed marw oherwydd bod yn y coetiroedd, yn gyffredinol, strwythur o goed yr un oed ac nad oes coed aeddfed yno. Mae rhai o'r planhigion is yn arbenigwyr ar goed marw ond yn y coetiroedd hyn nid oes, fel arfer, gasgliad o greaduriaid di-asgwrn-cefn a welir mewn rhannau eraill o'r DG.
▪Nid oes rhywogaethau ymledol frodorol, megis rhododendron, y llarwydden, y sycamorwydden, y ffawydden, coed llydanddail a chonifferau addurnol yno. <1%?
▪Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.7 Amcan Cadwraeth ar gyfer Dolydd *Molinia* ar bridd calchaidd, mawnog neu lawn llaid cleiog (*Molinion caeruleae*) (Côd Cynefin yr UE: 6410)**

**Y weledigaeth ar gyfer nodwedd ACA glaswelltiroedd y *Molinia***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:
▪Dylai'r cyfan o diroedd pori'r *Molinia* fod yn sefydlog neu'n cynyddu. Dylai glaswelltiroedd uchel y *Molinia* a'u glaswelltiroedd isel fod ar Dir Stent.
▪Ar diroedd pori'r *Molinia* mae rhywogaethau nodweddiadol (rhestr mynegol –tabl 1 uchod).
▪Bydd rhywogaethau prin / anghyffredin yn ffynnu.
▪Ni fydd rhywogaethau sy'n arwydd o newidiadau amaethyddol, megis rhygwellt parhaol *Lolium perenne* a'r feillionen wlanog *Trifolium repens* yn nhiroedd pori'r *Molinia*.
▪Ychydig iawn o dir caled sydd yno.
▪Nid yw'r llystyfiant yn drwchus ac wedi tyfu drosodd.
▪Ni fydd coed a phrysgwydd megis yr onnen *Salix* a'r fedwen *Betula* yn nhiroedd pori *Molinia* ychwaith.
▪Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.8 Amcan Cadwraeth ar gyfer: Corsydd Alcalin (Côd Cynefinoedd yr UE: 7230)**

***Gweledigaeth ar gyfer corsydd alcalin***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:
▪Dylai'r cyfan o lystyfiant y gors alcalin fod yn sefydlog neu'n cynyddu.
▪Y rhywogaethau dymunol a restrir yn y tabl sy'n tyfu'n bennaf yn y corsydd alcalin.
▪Ychydig iawn o *Molinia caerulea a rhedyn* sydd i'w weld / yn gorchuddio'r corsydd alcalin.
▪Nid oes coed a phrysgwydd megis yr onnen *Salix* a'r fedwen *Betula* yno.
▪Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4. Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 12: plufwsogl main gwyrdd *Drepanocladus* (*Hamatocaulis) vernicosus* (Côd Rhywogaethau'r UE: 1393)**

***Gweledigaeth ar gyfer Hamatocaulis vernicosus***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod o statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae poblogaeth yr *Hamatocaulis vernicosus* yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Dylai'r cynefinoedd sy'n cynnal yr *Hamatocaulis vernicosus*, fod mewn cyflwr da.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.10 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd: Brith y Gors *Euphydryas, (Eurodryas, Hypodryas) aurinia* ( Côd Rhywogaethau'r UE 1065)**

***Gweledigaeth ar gyfer Brith y Gors***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Dylai metaboblogaeth Brith y Gors fod yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Dylai'r glaswelltiroedd corsiog sy'n cynnal Brith y Gors fod mewn cyflwr da ar gyfer Brithoedd y Gors. Glaswelltir corsiog, rhostir gwlyb a thyfiant niwtral yw cynefin bridio Brith y Gors yn ACA a SoDdGA Cadair Idris. Fodd bynnag, glaswelltiroedd corsiog yr M25 *Molinia caerulea- Potentilla erecta,* dôl gorsiog yr M24 *Molinia carulea- Cirsium dissectum* a mignen M26 *Molinia caerulea- Crepis paludosa* yw'r prif gynefin. M24 ac M26 yw cynefin Atodiad II dolydd y *Molinia.*
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Cadair Idris (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ionawr 2012).

**Bygythiadau**

Mae'r ardal yn hynod boblogaidd i gerdded ynddi gyda niferoedd mawr yr ymwelwyr yn achosi niwed i'r llystyfiant. Fodd bynnag, mae'r broblem hon yn cael sylw Partneriaeth Llwybrau Tiroedd Uchel Eryri (CCGC/APCE/YG). Bu dipyn go lew o bori a llosgi mewn rhai mannau ar y gweundir ac mae hyn wedi arwain at gynydd mewn glaswelltir. Fodd bynnag mae CCGC yn trafod cytundebau rheoli gyda pherchenogion ar y safle er mwyn gostwng lefelau pori i lefel briodol ac i gyfyngu ar y grug a losgir. Rheolir rhan y Warchodfa Natur Genedlaethol o'r safle yn unol â chynllun rheoli CCGC ond mae dan anfantais gan mai nid CCGC sy'n berchen ar yr hawliau pori.

Oherwydd ei bod yn glawio'n aml yma mae'r safle mewn perygl o gael ei asideiddio.

## ACA Bae Cemlyn

**Trosolwg**

Mae AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid ar arfordir gogleddol a gorllewinol Ynys Môn, Gogledd-orllewin Cymru. Mae tair ardal wahanol yn yr AGA . Mae Ynys Feurig ar arfordir gorllewinol Môn ger maes awyr y Fali gyda Bae Cemlyn, sydd hefyd yn ACA, ar afordir y gogledd tua 20 km i ffwrdd. Mae Ynysoedd y Moelrhoniaid 3 km oddi ar Drwyn Carmel i'r gogledd o Fôn (gweler Ffigwr 1).

Cyfres o ynysoedd isel yn ymestyn oddeutu 1km i'r môr o draeth tywodlyd yw Ynys Feurig. Ychydig iawn o lystyfiant sydd yno ac eithrio ar yr ynysoedd allanol ac uchaf. Ym Mae Cemlyn mae traeth graeanog yn far rhwng lagŵn llanwol a'r traeth agored. Mae'r cynefinoedd graeanog, ynghyd â'r morfa sy'n datblygu o gwmpas y lagŵn a'r pyllau lled hallt ymhellach i mewn i'r tir yn gyfuniad anarferol o gynefinoedd. Grŵp o ynysoedd gyda thyfiant gwasgaredig, 17 ha mewn maint, yw Ynysoedd y Moelrhoniaid. Cânt eu gwarchod gan gerrynt cryf ond maent yn nannedd gwyntoedd cryf o'r gorllewin a'r gogledd.

Mae safle'r AGA o bwysigrwydd i bedair rhywogaeth o'r wennol sy'n nythu. Caiff y tair ardal eu trin fel un safle oherwydd bod adar yn symud o un ardal i'r llall yn rheolaidd.

Mae safle'r ACA yn bwysig am ei lagŵn a rhywogaethau cysylltiedig a'r gefnen raeanog a'i lystyfiant.

Mannau eraill o bwysigrwydd i safleoedd yr AGA a'r ACA yw mannau o brysgwydd, glaswelltir corsiog, glaswelltir arfordirol, morfeydd, ffosydd, mannau rhynglanwol, clogwyni arforol a'u shilffoedd a'u holltau cysylltiedig.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif rheswm dros ddewis y safle hwn:
1150 Lagynau arfordirol * Nodwedd â blaenoriaeth

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1220 Llystyfiant parhaol ar lannau caregog

**Amcanion Cadwraeth**

**4.2 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 5: Lagŵn Arfordirol a Nodwedd 9: Y Dyfrllys Troellog *Ruppia cirrhosa***

***Gweledigaeth ar gyfer Nodweddion 5 a 9***

Y weledigaeth ar gyfer y nodweddion hyn yw bod ganddynt statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn::

- Nid yw mannau'n cael eu colli ac eithrio oherwydd prosesau naturiol.
- Mae'r planhigion a'r anifeiliaid arbenigol yn y lagŵn yn aros.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.3 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 6: Llystyfiant Parhaol ar Lannau Caregog**

***Gweledigaeth ar gyfer Nodwedd 6***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Cynhelir y cyfan o lystyfiant y glannau graeanog oni chaiff ei altro gan ddigwyddiadau naturiol (e.e. storm).
- Cynhelir mathau nodweddiadol o rywogaethau o lystyfiant ar lannau graeanog .
- Nid oes rhywogaethau estron ymledol (e.g. *Fallopia japonica*).
- Mae gwaith rheoli gweithgareddau neu weithredu sy'n debygol o niweidio neu ddiraddio deinameg y boblogaeth, ystod naturiol a chynefin y nodwedd yn briodol ar gyfer cynnal statws cadwraeth ffafriol ac mae'n ddiogel yn y tymor hir.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid, ACA Bae Cemlyn, SODdGA Ynys Feurig, SoDdGA Ynysoedd y Moelrhoniaid a SoDdGA Bae Cemlyn (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Bygythiadau**

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar y safle a chaiff ei reoli gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar gyfer y wennol sy'n nythu yno. Mae'n AGA ddynodedig. Rheolir amodau'r lagynau gan lifddorau sy'n pennu pa mor hallt ydynt. Rheolir mynediad y cyhoedd i'r gefnen raenog yn ystod y tymor nythu.

## ACA Coedydd Aber

**Trosolwg**

Mae Coedydd Aber yn ymestyn 4 km ar hyd ymylon serth dyffrynoedd Afon Rhaeadr Fawr ac Afon Anafon, sydd union i'r de o bentref Abergwyngregyn.

Mae'r ACA yn 346.2 hectar ac yn gyfochrog gydag ardaloedd y SoDdGA (ac eithrio uned 7 sydd yn SoDdGA yn unig). Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Aber yn ymestyn am oddeutu 169 hectar o ardal yr ACA. Mae'r safle rhwng 50 metr (yn y Bont Newydd) a 540 metr (yn Marian Rhaeadr Fawr) uwchlaw lefel y môr.

Mae Coedydd Aber o ddiddordeb arbennig am eu nodweddion botanegol, adaregol ac entomolegol. Mae'r safle'n cynnal amrywiaeth liwgar o goed llydanddail brodorol o bwysigrwydd rhyngwladol gan gynnwys fforestydd llifwaddol gyda'r wernen, a'r onnen a hen goed derw di-goes, sy'n creu codiad naturiol – trawsnewid cynefin dibynnol o fod yn arfordir i fod yn fynydd agored. Mae'r parthau trawsnewid yn cynnwys llecynnau o gymysgedd o goed derw, ynn, gwern a bedw. Mae modd dosbarthu rhai o'r rhain fel hen iawn, prysgwydd y ddraenwen wen, clogwyni a glaswelltir asidig a rhostir isfynyddig. Mae'r cen sy'n tyfu ar goed y mae cymunedau'r coetiroedd yn eu cynnal hefyd o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae'r trawsnewid o goetir i lystyfiant mynydd hefyd yn cael ei adlewyrchu yn yr amrywiaeth o gasgliadau o rywogaethau adar mewn coetiroedd, trwy ffrydlif afonydd, ymyl coetiroedd, ffriddoedd a rhostir i gasgliadau o rywogaethau agored. Afon Rhaeadr Fawr yw un o'r afonydd mwyaf serth ym Mhrydain y tu allan i'r Alban ac mae o bwys cenedlaethol fel enghraifft o'r math hwn o afon.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif rheswm dros ddewis y safle hwn:
91A0 Hen Goedydd Derw di-goes gyda'r dderwen fytholwyrdd a Blechnum yn Ynysoedd Prydain

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
91E0 Fforestydd Llifwaddol gydag Alnus glutinosa a Fraxinus excelsior (Alno-Padion, Alnion incanae, Salicion albae)
* Nodwedd â blaenoriaeth

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Hen Goedydd Derw di-goes gyda'r dderwen fytholwyrdd a Blechnum yn Ynysoedd Prydain (Côd Cynefinoedd yr UE: 91A0)**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 1***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:
- Cynhelir y coetir cyn belled â phosib gan brosesau naturiol.
- Mae lleoliad bylchau neu lennyrch agored yn amrywio gydag amser.
- Mae coed a phrysgwydd yn gynhenid leol ac nid yw na'r ffawydden na chonifferau'n hawlio'r un man yn y canopi nac yn yr isdyfiant.
- Mae'r coed a'r prysgwydd yno o wahanol oedran a maint.
- Mae eginblanhigion coed yn doreithiog drwy'r holl safle ac mewn llennyrch agored maent yn datblygu'n goed ifainc hyfyw.
- Mae haenau yn y caeau ac ar y ddaear yn glytwaith o wahanol lystyfiant sy'n nodweddiadol o amodau lleithder a phridd lleol.
- Mae toreth o goed marw ac sydd yn marw (gyda thyllau a cheudodau, colofnau pydredd, canghennau wedi'u torri oddi ar y coed a rhai yn pydru), gyda rhywogaethau cysylltiedig sy'n dibynnu ar goed marw.
- Mae lefelau lleithder yn ddigon uchel i'r rhedyn, mwsoglau a llysiau'r afu fod yno.
- Mae'r coetir yn parhau i gynnal poblogaethau o adar a mamaliaid.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Fforestydd Llifwaddol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* (*Alno – Padion*, *Alnion incanae*, *Salicion albae*) (Côd Cynefinoedd yr UE: 91E0)**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 2***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:
- Cynhelir y coetir cyn belled â phosib gan brosesau naturiol.
- Rhywogaethau llydanddail brodorol a lleol yw'r coed a'r prysgwydd gyda gwern yr amlycaf yn y canopi.
- Bydd yr haen o brysgwydd prin yn cynnwys gwasgariad o gyll, helyg a cherddin.
- Bydd eginblanhigion yn eithaf prin trwy'r holl safle gydag ychydlg yn unig o eginblanhigion brodorol o goed nad ydynt yn hunanbrysgoedio ac yn datblygu'n goed ifainc.
- Bydd y rhan fwyaf o'r aildyfu yn dod o waelod y gwern trwy hunanbrysgoedio.
- Bydd toreth o goed marw ac sydd yn marw (gyda thyllau a cheudodau, colofnau pydredd, canghennau wedi'i torri oddi ar y coed a rhai'n pydru. Bydd coed marw, yn sefyll ac wedi syrthio, yn cael eu cadw fel cynefinoedd i rywogaethau eraill.
- Rhoddir blaenoriaeth i hen goed yn ystod gwaith rheoli coedwriaeth gan eu bod yn cynnal amrywiaeth eang o rywogaethau, yn cynnwys cenau. Bydd rhywogaethau cen hen goedwigoedd i'w gweld trwy'r holl safle, yn enwedig felly ar goed sydd wedi'u goleuo'n dda o amgylch ymylon y coetiroedd a llennyrch.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y

cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA Coedydd Aber (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Chwefror 2008).

**Bygythiadau**

Mae'r safle'n cynnwys Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Aber gydag estyniadau sy'n cynnwys man ychwanegol o goed llydanddail yn bennaf ar lethrau uwchben y gwastadedd arfordirol ac ar hyd dyffryn cyfagos i'r dwyrain. Mae cynefin y coetiroedd yn eithaf cryf ond mae lle i'w wella trwy gael gwared â choed coniffer a rhywogaethau ymledol eraill. Yn ddiweddar, llofnodwyd cytundeb Tir Gofal ynghylch rhan o'r safle, sydd yn y Warchodfa Natur. Mae'n rhaid wrth gyfraniad y Fenter Goedwigaeth er mwyn sicrhau rheolaeth gadwraeth well, a bod y coetir sydd wedi'i adfer yn ymdoddi'n well ar y llethrau uchel uwchlaw dyffryn Aber ac er mwyn sicrhau y cynhelir cyflwr y Warchodfa.

## ACA Cors Fochno

**Trosolwg**

Mae tir mawnog Cors Fochno ar ymyl deheuol Afon Dyfi, yng ngorlifdir yr aber. Mae'n nodwedd brin a thrawiadol ar y tirlun a chaiff ei ystyried y 'locus typicus' o ran cyforfignenni aberol yn y DG. Er ei fod yn llai oherwydd traenio ac adfer tir, mae gweddill yr ehangder yn Borth yn un o'r cyforgorsydd mwyaf sy'n tyfu yn nhiroedd isel Prydain ac mae i'w gyfrif am oddeutu 4% (200ha) o adnoddau Prydain o gyforfignenni heb eu torri.

Mae Cors Fochno yn safle o bwysigrwydd daearegol, cenedlaethol sy'n cynnwys archif mawn 7m o ddyfnder, wedi'i ddatblygu'n barhaus dros 5000 o flynyddoedd ac sy'n storio gwybodaeth am lefel y môr, hinsawdd a newidiadau amgylcheddol eraill. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod y safle yn un o lond dwrn yn unig yn y DG sy'n cael eu hystyried yn dir mawnog gogleddol gweithredol, yn gwneud y safle'n werthfawr ar gyfer ymchwil, yn arbennig felly, ymchwil i newid hinsawdd. Yn y gors, hefyd, mae gweddillion archeolegol o bwys yn cynnwys yr esiampl orau o drac pren canoloesol y gwyddys amdano yng Nghymru.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
7110 Cyforgorsydd gweithredol * Nodwedd â blaenoriaeth
7120 Cyforgorsydd wedi'u diraddio ac sy'n dal i fedru aildyfu'n naturiol

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:

7150 Panylau ar bridd mawnog y Rhynchosporion

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Cyforgorsydd gweithredol (Côd Cynefinoedd yr UE: 7110), yn cynnwys nodwedd 3 (Panylau ar bridd mawnog y *Rhyncosporion*)**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 1 (a 3)***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Math NVC M18 o gyforfignen *Sphagnum papillosum-Erica tetralix* a M2 pyllau *Sphagnum cuspidatum* fydd yn > 95% o'r gors 'sylfaenol' (h.y. heb ei thorri)
- Bydd lefel gorchudd mwsoglau'r corsydd nodweddiadol (*Sphagnum* species) yn ddigon uchel (>25%) i ddangos bod mawn yn tyfu'n iach yno .
- Bydd patrwm o fryncynau a phantiau ar draws canol cromen y gors.
- Bydd mwy o chwys yr haul *Drosera anglica* yn y pantiau (i.e. *Rhyncosporion* depressions) fel arfer a byddant yn tyfu neu'n cynnal eu maint.
- Bydd y rhywogaethau a ganlyn yn gyffredin yn y gyforgors weithredol: *Sphagnum capillifolium, S. papillosum* a *S. magellanicum*, cors rhosmari *Andromeda polifolia* a'r gorsfrwynen wen *Rhyncospora alba*.
- Bydd gan y corsydd mwsogl prin sy'n creu bryncynnau *Sphagnum austinii* a *S. fuscum* boblogaethau sefydlog neu rai sy'n cynyddu.
- I bob pwrpas, ni fydd glaswellt y bwla *Molinia caerulea* yn y cyforfignen weithredol
- I bob pwrpas, ni fydd rhywogaethau prysgwydd megis helyg *Salix* a bedw *Betula* yno ychwaith.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth

**4.2 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Cyforgorsydd wedi'u diraddio ac sy'n dal i fedru aildyfu'n naturiol (Côd Cynefinoedd yr UE: 7120)**

***Gweledigaeth ar gyfer Nodwedd 2***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Caiff 80% o adnodd y gyforgors sydd wedi'i diraddio ei adfer i gyforgors weithredol, gyda'r gweddill yn hydrolegol gyson â chors weithredol.
- Bydd llystyfiant sy'n cyfateb i Ddosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC) cymunedau'r gyforfignen, mathau M2 a/neu M18, yn sefydlog neu'n cynyddu mewn maint ac yn berthynol i'r hyn sydd wedi'i fapio yn 2003.
- Bydd gan fannau / llecynnau o lystyfiant M18 20% yn fwy o fwsogl corsydd yn orchudd ac ni fydd rhywogaethau coed a rhododendron yno, neu byddant yn brin.

- Bydd gan lystyfiant lled naturiol arall nad yw'n dod o goetir, yn cynnwys corsydd gwael, corsydd lled hallt a siglenni, rywogaethau coed na fydd ddim mwy na'r hyn oeddynt yn 2003.
- Bydd poblogaethau rhywogaethau planhigion sy'n nodweddiadol o ymylon a thrawsnewidiadau mignenni, yn cynnwys y freuwydden, y gorsfrwynen ddu, y gorsfrwynen rudd, yr hesgen rafunog fwyaf, y tegeirian llydanwyrdd leiaf, pumnalen y gors, rhedynen gyfrdwy a llysiau'r afu, yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Ni fydd rhywogaethau sy'n anoddefgar o waith draenio a rwystrir, megis brwyn a'r rhan fwyaf o rywogaethau glaswellt, yn ogystal â rhywogaethau ymledol megis rhododendron, ar y safle neu, os ydynt yno, byddant yn brin.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA Cors Fochno (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Chwefror 2011).

**Bygythiadau**

Mae gwaith draenio, addasiadau amaethyddol, torri mawn a thanau'r gorffennol oll wedi cael effaith ar ansawdd a maint y gyforfignen a chynefinoedd mignenni trawsnewidiol hallt.

Caiff cyfran sylweddol o'r gors sydd wedi'i diraddio ei warchod rhag ymosodiad gan ddŵr môr gan strwythurau artiffisial ac, felly, mae perygl iddi orlifo. Rhaid wrth asesiad manwl ar gyfer y posibilrwydd o adfer newidiadau i ba mor hallt yw'r gors.

Mae'r perygl oedd yn wynebu'r gors gyfan wedi lleihau'n sylweddol dros y degawdau diwethaf oherwydd caffael tir a dynodiadau, a hynny i'r fath raddau bod 'parth rhagod' eang o fignen sydd wedi'i haddasu bellach dan reolaeth cadwraeth. Cynnal a chadw draeniau ar hyd yr ymylon yw'r prif fygythiad i adferiad llwyddiannus. Mae CCGC yn rhoi sylw i'r broblem hon trwy gysylltu gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a chyfrannu i gynllun rheoli lefel y dŵr.

Wrth gadw llygad ar sustem ddŵr a llystyfiant y fignen, ceir ymateb cadarnhaol i waith cau ffosydd a ddechreuodd yn 1981. Rhoddir sylw i waith adfer pellach, fel a nodir yn y cynllun rheoli.

## ACA Corsydd Eifionydd

**Trosolwg**

Mae pedwar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gwahanol yn perthyn i ACA Corsydd Eifionydd; SoDdGA Cors Graeanog, SoDdGA/GNG Cors Gyfelog, SoDdGA Cors Llanllyfni a SoDdGA Cors y Wlad. Mae'r safleoedd rhwng y tir isel a'r tir uchel rhwng Eryri a

Phen Llŷn a chyda'i gilydd maent yn ymestyn dros 144 ha. Rhyngddynt dylant gynnal tair nodwedd o bwysigrwydd rhyngwladol megis cors drawsnewidiol a chors grynedig, Brith y Gors a plufwsogl main gwyrdd. Dylai'r safleoedd, hefyd, gynnal ystod o gynefinoedd tiroedd gwlyb eraill yn cynnwys cynefinoedd glaswelltiroedd corsiog, corsydd calchaidd, tonenni, coetiroedd gwlyb a siglenni.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
7140 Corsydd trawsnewid a chorsydd crynedig

Atodiad II rhywogaethau sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1065 Brith y Gors *Euphydryas* (*Eurodryas*, *Hypodryas*) *aurinia*
1393 Plufwsogl main gwyrdd *Drepanocladus* (*Hamatocaulis*) *vernicosus*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Corsydd Trawsnewid a Chorsydd Crynedig (Côd Cynefinoedd yr UE: 7140)**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 1***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mignen drawsnewid a chors grynedig fydd y cynefin amlycaf yng Ngors Gyfelog a Chors Graeanog.
- Dylai brithwaith o gynefinoedd corsydd calchaidd, tonenni, glaswelltir corsiog a siglenni orchuddio o leiaf 80% o'r ddau safle. Dylai'r cynefin fod o ansawdd da, cynnal nifer o blanhigion prin a than fygythiad. Dylai hefyd fod yn gynefin ar gyfer ystod eang o adar, pryfaid ac ymlusgiaid.
- Yn ystod rhan sychaf y flwyddyn dylai'r rhan fwyaf o'r safle fod â dŵr ar y wyneb neu uwchlaw iddo a phan fyddir yn cerdded ar y safle, mae'r cors yn crynu. Dylai'r gors grynedig hon gynnal cynefinoedd tir gwlyb gyda rhywogaethau nodweddiadol megis grug croesddail, llafn y bladur, chwys yr haul, mwsoglau'r gors (*Sphagnum* spp.) a phlu'r gweunydd.
- Dylai'r safle gynnal poblogaethau iach o blanhigion prin, megis y chwisigenddail canolig, yr hesgen lydanddail, cyfrdwy, gwlithlys hirgrynddail ynghyd â phoblogaethau pryfaid prin. Dylid bod cynefin ar gyfer brith y gors. Dylai'r clafrllys gwreidd-dan glas fod yn gyffredin ar y safle gan mai hwn yw planhigyn bwyd lindys brith y gors.
- Ni ddylai coetir gwlyb orchuddio mwy na 30% o Gors Gyfelog a 10% o Gors Graeanog ac ni ddylid bod rhododendron yno. Mae'r coetir amrywiol hwn wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd ac mae'n cynnal nifer fawr o gen a mwsogl. Dylai'r coetir barhau i gynnal nifer o wahanol goed a medru cynnal y cen a'r mwsogl.
- Bydd gwartheg a merlod yn pori rhyw gymaint ar bob rhan o'r safle y mae modd cael ati yn ystod y gwanwyn hwyr a dechrau'r

haf.

- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.2 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Plufwsogl main gwyrdd *Dreplanocladus* (*Hamatocaulis*) *vernicosus. (Côd Rhywogaethau'r UE:* 1393)**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 4.2***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Dylai'r llystyfiant yng Nghors Gyfelog a Chors Llanllyfni sy'n tyfu'n isel barhau i gynnal poblogaeth iach o blufwsogl main gwyrdd. Dylai gwaith rheoli sicrhau bod y boblogaeth yn parhau'n sefydlog a rhoi'r cyfle iddi ymestyn.
- Ar Gors Gyfelog, caiff *H. vernicosus* ei gyfyngu i laciau a nentydd niwtral neu fymryn yn sylfaenol gyda llystyfiant agored o fwsoglau brown, hesg, planhigion cymysg y borfa a *Sphagnum* spp.
- Mae angen cynnal y llystyfiant agored trwy bori'n ysgafn yn ystod y tymor gyda lefel trwythiad uchel ac amodau'r ddaear yn wlyb trwy gydol y flwyddyn, a chyda lefel y trwythiad ar y wyneb neu'n agos iddo.
- Mae tanbori'n fygythiad sylweddol i isboblogaethau'r *H. vernicosus* ar y ddau safle gan y gallai arwain at frwyn, planhigion porfa, hesg a phrysgwydd yn ymledu ac yn gorchuddio mwy o'r safle. Pan dyfodd y llystyfiant yn fwy trwchus, ffurfiodd yr *H. vernicosus* isboblogaethau bychain o goesau bach tenau yma ac acw. Mae merlod yn pori ar y safle yn yr haf ac mae hyn yn cynnal y gwair byr agored y mae'r mwsogl mor hoff ohono.
- Mae cael llawer o faetholion yn y dŵr hefyd yn risg bosib ar y ddau safle. Dylid cymryd camau i wahardd neu gyfyngu ar faetholion cymaint â phosib.
- Mae rhai perlysiau, glaswelltoedd a hesg yn tyfu'n agos at ei gilydd. Mae'r un gofynion cynefin gan y planhigion hyn â sydd gan y mwsogl; yn eu plith mae Blaen y Gwayw Lleiaf, y Frwynen Flodeufain, Glaswellt y Bwla, yr Hesgen Seraidd, yr Hesgen beniganddail, Clafrllys gwreidd-dan, y Cycyllog Lleiaf, Pys ceirw mwyaf , Ffeuen y Gors, Briwydd y Gors, y Swp-hesgen, y Gorsfrwynen rudd, yr Hesgen Felen, Maeswellt y cŵn a'r Chwein-hesgen.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.3 Amcan Gadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Glöyn Byw Brith y Gors *Euphydryas aurinia* (Côd Rhywogaethau'r UE: 1065).**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 4.3***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Er mwyn sicrhau hyn, dylai o leiaf 80% o SoDdGA Cors y Wlad fod yn gynefin sy'n addas i Frith y Gors h.y. Llystyfiant brwynog (porfa rhos). Dylai'r cynefin fod o ansawdd dda (glaswelltir gyda thwmpathau o laswellt 10 – 20cm o uchder) gyda thoreth o glafrllys gwreidd-dan, planhigyn bwyd lyndys Brith y Gors.

- Mae'r ACA yn cynnal poblogaeth o Frith y Gors sydd o bwys rhyngwladol.  Er bod niferoedd y glöynnod byw aeddfed a larfâu yn amrywio'n flynyddol mewn ymateb i wenynen barasitig a'r tywydd, mae'r boblogaeth yn gryf, yn wydn, ac yn hyfyw yn y tymor hir.
- Yn ystod blynyddoedd brig, bydd ymwelydd sy'n cerdded trwy'r safle ar ddiwrnod braf o haf yn gweld nifer o löynnod byw aeddfed.  Yn ystod y blynyddoedd hyn, bydd y lindys, yn bwydo gyda'i gilydd mewn gweoedd sidan ar eu bwyd, y clafrllys gwreidd-dan, yn doreithiog trwy'r unedau hynny sy'n cynnal y glöyn byw.
- Mae poblogaeth yr ACA yn cyfrannu at fetaboblogaeth brith y gors Eifionnydd ac mae'n greiddiol i'r boblogaeth honno. Mae'r metaboblogaeth yn cynnwys poblogaeth yr ACA yn ogystal â phoblogaethau sy'n bridio ar dir y tu allan i'r ACA.
- Mae'r boblogaeth yn bridio mewn pedair uned, lle mae'n rhywogaeth allweddol, yn gyrru gwaith rheoli pob uned.
- Bydd rhosedi o glafrllys gwreidd-dan yn hynod niferus ac yn gyffredin trwy rannau o'r unedau hyn, yn cynnal brith y gors (yn enwedig SoDdGA Cors y Wlad), yn tyfu ymhlith glaswellt, hesg a pherlysiau yn eu blodau gyda thwmpathau o laswellt y bwla a brwyn yma ac acw, yn mochel y lindys mewn tywydd gwlyb.
- Mae gwrychoedd trwchus, yn gymysgfa o'r ddraenen wen, y gollen, y gerddinen a rhywogaethau brodorol leol eraill yn tyfu o amgylch y tu mewn i'r ffiniau a'r tu allan iddynt ac yn rhoi cysgod hanfodol i'r glöynnod byw aeddfed sy'n bridio yn ystod tywydd gwael.  Fel arall, tirlun agored iawn ydyw gydag ychydig iawn o gysgod.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho.  Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli.  Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig.  Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA Corsydd Eifionydd yn cynnwys: SoDdGA Cors Graeanog; SODdGA /GNG Cors Gyfelog; SoDdGA Cors Llanllyfni; a SoDdGA Cors y Wlad (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008).

**Bygythiadau**

Mae'r safle dan un prif fygythiad – prysgwydd yn ymledu ar y safle oherwydd nad oes pori, sy'n adlewyrchiad o natur gorsiog y tir a'i fod yn anodd cael ato.  Mae draenio a llygredd yn fygythiadau ychwanegol.

## ACA Glan-traeth

**Trosolwg**

Mae ACA Glan-traeth i'r de-ddwyrain o bentref Niwbwrch ac yn rhan o Gwningar Niwbwrch / Ynys Llanddwyn er iddi gael ei gwahanu gan ffordd yr A4080.

Roedd y pyllau bas yng Nglan-traeth, a grëwyd trwy gloddio tywod, yn cynnal un o boblogaethau bridio mwyaf y madfall ddŵr gribog *Triturus cristatus*. Ar adeg cyhoeddi'r SoDdGA, cyfriwyd dros 500 o anifeiliaid yn ystod arolwg yng ngolau ffagl. Byddai union gyfanswm y boblogaeth wedi bod yn sylweddol fwy. Mae'r pyllau, hefyd, yn safle bridio ar gyfer niferoedd sylweddol o fadfallod palfaidd *T helveticus*, y llyffant *Rana temporaria* a'r broga *Bufo bufo*.

Mae tiroedd cyfagos yn cynnwys glaswelltir twynog a borir ac a ddatblygwyd mewn hen fannau gwaith tywod, a chefnen dywod i'r de-ddwyrain nad yw anifeiliaid domestig yn pori arni. Ceir mannau hefyd o ddeunydd sydd wedi'i adael ac y mae glaswellt bellach wedi tyfu drosto a chreu gaeafle gwerthfawr. Mae'r rhain yn fannau chwilota gaeaf pwysig ar gyfer amffibiaid aeddfed ac yn rhan hanfodol o gynefin y rhywogaethau hyn.

Mae eiddilwellt cynnar *Mibora minima*, rhywbeth prin ym Mhrydain (wedi'i gyfyngu i ychydig o fannau ym Môn a Phenrhyn Gŵyr), i'w weld yn y glaswelltir twynog a borir, yn enwedig felly ger ymyl mannau tywod noeth neu sydd wedi erydu. Gwelir tormaen gwyn *Saxifraga granulata*, sydd yn anghyffredin yng Ngwynedd, yn y glaswelltir tra bo'r marchrawn amrywiol *Equisetum variegatum* a'r coedwyrdd crynddail *Pyrola rotundifolia* mewn pantiau tamp.

**Nodweddion Cymwyso**

Atodiad II rhywogaethau sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1166 Y Fadfall Ddŵr Gribog *Triturus cristatus*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Gadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: *Triturus cristatus* (Côd Rhywogaethau'r UE: 1166)**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 1:***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Bydd poblogaeth fridio hyfyw o'r fadfall ddŵr gribog ar y safle.
- Bydd digon o byllau arddangos/bridio i'w gweld ar y safle.
- Bydd larfâu y fadfall ddŵr gribog i'w gweld yn y rhan fwyaf o byllau bridio.
- Yn ystod misoedd arferol yr haf bydd dŵr sefyll yn y rhan fwyaf o byllau arddangos/bridio ar y safle.
- O bryd i'w gilydd bydd y pyllau bridio'n sychu allan erbyn canol yr haf (cyfnodau >5 mlynedd).
- Bydd digon o blanhigion dŵr brodorol (macroffytau) ar gyfer dodwy wyau a digon o fannau mewn gwaelod pwll gwag i arddangos madfallod.

- Ni fydd llystyfiant o amgylch y pyllau'n rhoi cysgod trwm wrth byllau arddangos/bridio.
- Ni fydd ffyniant algaidd a disgleirdeb ar wyneb pyllau arddangos/bridio.
- Ni fydd fawr ddim pysgod, os o gwbl, mewn pyllau arddangos/bridio sy'n cynnal madfallod cribog.
- Niferoedd bychain yn unig o adar hela fydd ar y pyllau.
- Bydd cynefin tirol o amgylch pyllau bridio'n cynnwys mannau i fadfallod gael hafan, mannau chwilota, gaeafleoedd a choridorau a fydd o gymorth i symud yn ôl ac ymlaen i SoDdGA Cwningar Niwbwrch - Ynys Llanddwyn (at ddibenion mudo, gwasgaru, chwilota a chyfnewid genetig).
- Ni fydd gwaith peirianneg ffordd megis potiau gyli yn arwain at golli nifer arwyddocaol o fadfallod dŵr cribog.
- Ni fydd rhywogaethau dyfrdrig, anfrodorol yno, neu os bydd rhai yno, dim ond nawr ac yn y man.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safle o Ddiddordeg Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Glan-Traeth (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Bygythiadau**

Gallai gostwng lefel y trwythiad wrth i goed helaeth yng Nghoedwig Niwbwrch aeddfedu, o bosib, gael effaith ar barhad pyllau bas, sy'n bwysig fel safleoedd bridio madfallod. Byddid yn rhoi sylw i reoli neu greu pyllau ar y safle os ceid effaith andwyol ar y cynefin bridio ac os bydd gwaith monitro niferoedd y madfallod yn dangos bod eu poblogaeth yn gostwng. Mae'r boblogaeth nesaf o fadfallod dŵr cribog y gwyddys amdani 2 km i'r de-orllewin.

## ACA Glynllifon

**Trosolwg**

Mae yn ACA Glynllifon glwydi mamolaeth yn unedau rheoli 16 (Plasdy Glynllifon), 32 (Melin y Cim) a 36 (Pen y Bont), a dwy glwyd / dau fan gaeafgysgu yn unedau rheoli 16 (Plasdy Glynllifon) (a ddefnyddir fel clwyd gaeafgysgu a mamolaeth) a 37 (mwynglawdd gopr simdde'r dylluan), hen weithfeydd mwyngloddio yn Nyffryn Nantlle . At hyn, mae cynefinoedd o amgylch y clwydi hyn wedi'u cynnwys; nant gyda choed bob ochr iddi yn cysylltu unedau rheoli 32 a 36 (Melin-y-Cim a Phen y Bont), coetir mawr o amgylch uned 16 (Plasdy Glynllifon) a man bychan o ochr bryn uned 37 o amgylch mwynglawdd Simdde'r dylluan (Wilkinson, 2006).

Cesglir data'n rheolaidd ar nifer yr ystlumod sy'n defnyddio'r clwydi hyn. Ddwywaith y flwyddyn, yn dilyn protocol safonol monitro'r ystlym

bedol leiaf  yn y tair clwyd famolaeth, cyfrir faint o ystlumod sy'n gadael.  At hyn, gosodir cofnodydd data yn uned rheoli 16 (Plasdy Glynllifon). Mae hwn yn cofnodi nifer yr ystlumod sy'n gadael y glwyd ac yn dychwelyd iddi trwy gydol y flwyddyn.  Caiff y data ei lawrlwytho a'i ddadansoddi gan Peter Andrews (Andrews, 2002, 2004a a 2004b).

Fodd bynnag, ychydig iawn o ddata sydd ar gyfer uned reoli 37 (mwynglawdd gopr simdde'r dylluan), ac mae'n rhaid cynnal arolwg pellach i sefydlu sut a phryd y bydd yr ystlumod hyn yn defnyddio'r mwyngloddiau hyn (Wilkinson, 2006).

Er bod rhyw gymaint o gynefin y tu mewn i ffin yr ACA, mae'r ystlumod yn defnyddio ardal ehangach ar gyfer bwydo a symud a gwyddys hefyd am glwydi cysylltiedig y tu allan i ffin yr ACA. Rhaid rhoi sylw i'r holl agweddau hyn wrth bennu statws cadwraeth poblogaeth yr ystlumod pedol lleiaf.  Gwnaed gwaith tracio gyda radio i geisio nodi ardaloedd bwydo a llinellau hedfan a ddefnyddir.  Cafodd y gwaith ei gomisiynu'n bennaf i bennu effeithiau posib cynllun ffordd yr  A487.  Mae angen dadansoddi'r data i bennu a oes mannau allweddol o gynefin, llwybrau hedfan neu glwydi y mae'n rhaid eu cynnal yn y tirlun er mwyn cynnal y boblogaeth ystlumod hon.  Rhaid wrth ragor o waith ymchwil  i bennu sut y mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n asesu staws cadwraeth y rhywogaeth symudol hon (Wilkinson, 2006).

**Nodweddion cymhwyso**

Atodiad II rhywogaethau sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1303 Yr Ystlum Bedol Leiaf  *Rhinolophus hipposideros*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Gadwraeth ar gyfer nodwedd 1: Yr Ystlum Bedol Leiaf *Rhinolophus hipposideros* (Côd Cynefinoedd yr UE 1303).**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 1***

- Ni fydd ystod naturiol yr ystlum bedol leiaf yn cael ei ostwng, nac yn debygol o gael ei ostwng yn y dyfodol rhagweladwy.
- Mae digon o gynefin i gynnal poblogaeth yr ystlum bedol leiaf yn y tymor hir.
- Bydd yr ystlumod pedol leiaf a'u cywion yn parhau i fod yn y tair clwyd mamolaeth yn flynyddol: Plasdy Glynllifon (Uned 16); Melin y Cim (Uned 32); a Phen y Bont (Uned 36).
- Bydd digon o gynefin addas o amgylch y clwydi hyn i gynnal yr ystlumod, yn cynnwys rhwydweithiau parhaus o goetir conifferaidd llydanddail yn rhoi cysgod, llinellau o goed a choedwrych yn cysylltu'r gwahanol fathau o glwydi gyda mannau o laswelltir yn llawn pryfaid a dŵr agored.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA Glynllifon (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Bygythiadau**

Mae'r safle'n cynnwys y glwyd a mannau bwydo cyfagos a ddefnyddir gan yr ystlumod. Mae'r adeilad y mae'r gwlyd ynddo ar werth ac mae gwaith rheoli tir y stad gan gynnwys y coetiroedd yn cael ei adolygu. Mae cynllun gwella ffordd a gafwyd yn ddiweddar ac sydd wedi tarfu ar lwybr hedfan allweddol allan o'r stad, a methu ymgorffori camau lleddfu digonol i'r ystlumod, hefyd yn dangos y pwysau ar y safle. Mae gan berchenogion yr adeilad clwydo gytundeb rheoli ond nid yw'n ymestyn i'r mannau bwydo, sy'n cael eu heithrio ar hyn o bryd o'r SoDdGA a'r ACA. Mae rhyw gymaint o sgôp ar gyfer gwella rheolaeth y safle yn ei gyfanrwydd ar gyfer yr ystlumod, trwy gytundeb rheoli, cynlluniau amaethyddol-amgylcheddol a mentrau partneriaeth eraill.

## ACA Pen y Gogarth

**Trosolwg**

Mae Pen y Gogarth o ddiddordeb arbennig am ei nodweddion daearegol, botanegol, entomolegol, adaregol a gwyddor môr. Mae'r trwyn calchfaen hwn, sy'n codi mewn nifer o haenau i gopa gwastad ar 207 metr, yn cynnwys clogwyni môr a thraethau clogfaenog, ac mae'n ymestyn am bron i wyth cilometr ar hyd arfordir Gogledd Cymru, gan wahanu Bae Conwy a Bae Llandudno. Ar yr ochrau gogleddol a dwyreiniol, mae clogwyni serth yn disgyn yn syth i'r môr. Ar yr ochrau deheuol, nid yw'r llethrau mor serth ac mae ganddynt gyfres o haenau isel o glogwyni calch yn syrthio'n llethrau clog-glai meddal a chlogwyni ar ochrau'r de-orllewin. Lle nad yw'r pridd yn dod o greigwely'r galchfaen, mae tystiolaeth bod y pridd dyfnach yn dod o dywod a gludwyd gan y gwynt (marianbridd) o'r oes perirewlifol.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:

4030 Rhostir sych Ewropeaidd

6210 Glaswelltiroedd sych lled naturiol a nodweddion tir prysg: ar bridd calchaidd (Festuco-Brometalia)

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:

1230 Clogwyni môr arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Gadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Rhostir Sych Ewropeaidd (4030)**

***Gweledigaeth ar gyfer rhostir sych***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae'r rhostir sych ar dros 25% o arwynebedd y safle.
- Rhoddir cyfle i'r rhostir sych ymestyn ar draul brwyn ac eithin ond nid ar draul y glaswelltir lled naturiol.
- Mae'r rhostir sych, yn ogystal â grug, grug lledlwyd ac eithin mân yn hawlio'r safle.
- Mae o leiaf 33% o'r rhostir sych yn gyfoethog o rywogaethau, yn cynnwys y planhigion a ganlyn: rhosyn y graig, crogedyf, peiswellt y waun, hesgen oleulas, bwtsiasen y gog, teim gwyllt, a'r feillionen hopysaidd.
- Ceir cyfnodau o arloesi a thyfu llystyfiant rhostir.
- Cedwir llygad ar rywogaethau cystadleuol sy'n arwydd o ddiffyg rheoli, brwyn *Pteridium aquilinum*, eithin *Ulex europaeus* a rhywogaethau prysgwydd a choed.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.2 Amcan Gadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Glaswelltiroedd sych lled naturiol a nodweddion tir prysg: ar bridd calchaidd (*Festuco – Brometalia*) (6210)**

***Gweledigaeth ar gyfer glaswelltiroedd lled naturiol***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae'r tiroedd sych lled naturiol yn ymestyn dros 35% o arwynebedd y safle.
- Rhoddir cyfle i'r tiroedd sych lled naturiol ymestyn ar draul brwyn ac eithin ond nid ar draul rhostir sych.
- Mae'r glaswelltiroedd sych lled naturiol yn gymysgedd o rywogaethau o berlysiau glaswellt a hesg nodweddiadol sy'n cynnwys, y cor-rosyn lledlwyd, rhosyn y graig, gwyddlwyn cyffredin, teim gwyllt, crogedyf, y feillionen hopysaidd, peiswellt y waun, brigwellt cribog, glaswellt crynedig, ceirchwellt culddail, yr hesgen oleulas a'r hesgen gynnar.
- Mae cenau sy'n byw yn y ddaear, mwsoglau blaenffrwythol a chraig a phridd caled i'w gweld yn y glaswelltir byr agored.
- Mae rhywogaethau sy'n arwydd o welliant amaethyddol a/neu sathru yn brin neu'n absennol.
- Mae rhywogaethau coed a phrysgwydd brodorol a brwyn yn brin neu'n absennol.
- Nid oes rhywogaethau ymledol anfrodorol megis y Cotoneaster sy'n tyfu'n isel ac yn creu carped.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.3 Amcan Gadwraeth ar gyfer Nodwedd 3: Clogwyni môr â llystyfiant arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig (1230)**

***Gweledigaeth ar gyfer Clogwyni môr â llystyfiant***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw iddi fod o statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Ni fydd clogwyni'r môr a'u glaswelltir arforol byr cysylltiedig ar ddim mwy na 5% o'r safle, ac eithrio os bydd y clogwyni'n dymchwel mewn trychineb naturio.l
- Bydd llystyfiant sy'n tyfu ar y clogwyni ac mewn agenau yn tyfu'n naturiol ar rannau addas o'r clogwyni trwy'r holl safle.
- Bydd y llystyfiant yn cynnwys planhigion brodorol megis cawl y môr *Brassica oleracea*.
- Ni fyddir yn annog planhigion dringo megis eiddew *Hedera helix* a'r triaglog goch anfrodorol *Centranthus ruber* i ledaenu.
- Peiswellt talsyth a rhywogaethau nodweddiadol megis clustog Fair a llyriad corn y carw fydd yn hawlio'r glaswelltir arforol byr
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA Pen Y Gogarth (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Bygythiadau**

Mae llawer o bori ar gopa gwastad Pen y Gogarth a'i lethrau ac mae hyn yn creu glaswellt byr. Ar y llethrau mwyaf serth, ceir mannau sy'n cael eu tanbori oherwydd ei bod yn anodd i anifeiliaid gael yno. Mae prysgwydd brodorol ac estron yn ymledu yn y mannau hyn. Mae cynllun rheoli y cytunodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r awdurdod lleol iddo yn rhoi sylw i'r problemau hyn.

Mae pwysau gweithgareddau hamdden yn aruthrol ar Ben y Gogarth gan ei fod ond cam a naid o Landudno, canolfan dwristiaeth fawr. Rheolir y safle fel Parc Gwledig a Gwarchodfa Natur Leol gan yr awdurdod lleol mewn cydweithrediad agos â Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Cytunwyd ar gynllun rheoli ar y cyd a gweithredir arno. Dylai hwn sicrhau y cynhelir y nodweddion arbennig.

## ACA Arfordir Ynys Cybi

**Trosolwg**

**Glannau Ynys Cybi (Ynys Lawd)**

Mae'r safle hwn o ddiddordeb arbennig am ei nodweddion daearegol a biolegol, yn cynnwys rhostir a glaswelltir arfordirol, clogwyni

arfordirol a'u shilffoedd, ei gasgliadau o blanhigion fasgiwlaidd ac adar, creaduriaid di-asgwrn-cefn a'i ddaeareg cadarn. Mae'r safle ar gornel gogledd-orllewin Ynys Cybi ac mae'n cynnwys y pwynt mwyaf gorllewinol ym Môn. Mae Caergybi union i'r dwyrain.

**Tre Wilmot**

Ardal fawr o rostir isel, asidig yw hon yn gorchuddio cyfres o gribau creigiog a phantiau rhyngddynt, sy'n arwain at ystod o lystyfiant rhostirol. Caiff y rhostir ar y cribau, sydd wedi'i ddraenio'n dda, ei hawlio gan honos *Calluna vulgaris* ac eithin mân *Ulex gallii*, gyda serennyn y gwanwyn *Scilla verna* ac ar gerrig brig, gwelir briweg y cerrig *Sedum anglicum*.

Mae'r mannau isel yn cynnal rhostir gwlyb neu dir mawnog, gyda rhywogaethau megis grug croesddail *Erica tetralix*, glaswellt y bwla *Molinia caerulea*, plu'r gweunydd *Eriophorum angustifolium* a chorhelyg *Salix repens*. Mae poblogaeth fawr iawn crwynllys y gors *Gentiana pneumonanthe* o ddiddordeb penodol ac mewn mannau lle ceir dŵr agored bychan, belenllys *Pilularia globulifera.* Mae'r ddwy rywogaeth hon wedi dirywio yn sylweddol dros y wlad i gyd gyda'u cynefinoedd yn cael eu hadfer fesul tipyn. Mae Crafanc-y-frân dridarn *Ranunculus tripartitus* i'w weld yma hefyd.

**Glannau Rhoscolyn**

Yn ymestyn ar hyd arfordir gorllewinol Ynys Cybi, Ynys Môn am oddeutu 6.5 km (o Borthygaran i Draeth Lydan) a thros arwynebedd o 157 ha, mae SoDdGA Glannau Rhoscolyn yn ardal sy'n gyfoethog o ran nodweddion biolegol a daearegol. Mae'r safle hwn wedi'i ddewis am ei nodweddion botanegol, adaregol a daearegol ac mae iddo ddiddordeb gwyddor môr sylweddol.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1230 Clogwyni môr â llystyfiant arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig
4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
4010 Rhostiroedd Gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag Erica tetralix

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Clogwyni môr â llystyfiant arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig (yn cynnwys llystyfiant ar**

**glogwyni ac mewn agenau, glaswelltir arfordirol a rhostir arfordirol)-yn cynnwys: Nodwedd 9: Y tusw aur *Teloschistes flavicans*; Nodwedd 10: Chweinllys Ynys Cybi *Tephroseris integrifolia ssp maritime;* Nodwedd 11: Carrai flewynnog *Heterodermia leucolmelos*; a Nodwedd 12: *Cladonia peziziformis***

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 1***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae llystyfiant ar y clogwyni ac mewn agenau a glaswelltir arfordirol a rhostir arfordirol i'w gweld trwy'r safle mewn mannau priodol a phennir eu maint a'u parthau cymharol gan dopograffi, pa mor agored ydynt, pori a digwyddiadau naturiol stocasatig (e.e. stormydd).
- Ymhlith y llystyfiant ar y clogwyni mae planhigion brodorol, megis troellig arfor *Spergularia rupicola* Lafant y Môr *(Limonium britannicum, L procerum, L. binervosum)* a corn-carw'r môr *Crithmum maritimum*.
- Nid yw planhigion anfrodorol megis ffigsen Hottentot *Carpobrotus edulis neu'r* llysiau gwlithog porffor *Disphyma crassifolium* o ddewis yno neu o leiaf nid ydynt yn ymestyn o'u huchder 2000.
- Mae'r glaswelltir ar silffoedd uwch ar y clogwyni arfordirol ac ar ben y clogwyn.
- Mae'r planhigion a ganlyn yn gyffredin yn y glaswelltir arfordirol hwn: peiswellt talsyth *Festuca rubra*, clustog Fair *Armeria maritima;* serennyn y gwanwyn *Scilla verna* a bara can y defaid *Plantago maritima.*
- Mae rhostir arfordirol mewn mannau i mewn i'r tir o'r glaswelltir.
- Mae'r planhigion a ganlyn yn gyffredin yn y rhostir arfordirol: grug *Calluna vulgaris*; grug lledlwyd *Erica cinerea* eithin mân *Ulex gallii, clustog Fair Armeria maritima*, bara can y defain *Plantago maritima*, llwynhidydd corn y carw *Plantago coronopus* neu Serennyn y gwanwyn *Scilla verna.*
- I bob pwrpas, nid oes rhywogaethau cystadleuol sy'n arwydd o danbori, yn enwedig felly frwyn *Pteridium aquilinum* ac eithin *Ulex europaeus* a rhywogaethau glaswellt sy'n arwydd o welliant, yn cynnwys maeswellt gwyn *Agrostis stolonifera,* troed y ceiliog *Dactylus glomerata,* rhygwellt parhaol *Lolium perenne* a'r gawnen benwen *Holcus lanatus* ar y rhostir.
- Bydd poblogaethau cynaliadwy o'r planhigion sy'n rhan o'r gymysgedd o blanhigion prin clogwyni môr yr Iwerydd i'w gweld yno, yn benodol, chweinllys Ynys Cybi *Tephroseris integrifolia*, Lafant y môr *(Limonium britannicum, L. procerum, L. binervosum),* y tusw aur *Teloschistes flavicans* a *Heterodermia leucomelos.*
- Bydd yr holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn, yn cynnwys dwysedd y pori a llosgi, dan reolaeth.

*4.* **Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2. Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag Erica tetralix yn cynnwys pelenllys *Pilularia globulifera*, Crafanc-y-frân Dridarn *Ranunculus tripartitus*, crwynllys y gors *Gentiana pneumonanthe*, Criciedyn hirgorn y gors *Metrioptera brachyptera*.**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 2***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Nid yw rhostir gwlyb yn gorchuddio dim mwy na'r hyn sy'n cael ei fapio ar hyn o bryd (*i'w bennu*).
- Mae'r planhigion a ganlyn yn gyffredin yn y rhostir gwlyb: grug *Calluna vulgaris*; grug croesddail *Erica tetralix, Sphagnum* spp. Clafrllys gwreidd-dan *Succisa pratensis* a *Narthecium ossifragum.*
- Cedwir llygad ar rywogaethau cystadleuol sy'n arwydd o danbori, yn enwedig felly frwyn *Pteridium aquilinum*, glaswellt y bwla *Molinia caerulea* ac eithin mân *Ulex gallii*.
- Bydd 70% o rostir gwlyb yn rhostir gwlyb mewn 'cyflwr da'.
- Mae'r rhostir gwlyb yn cynnal poblogaethau (blodeuol) crwynllys y gors, Crafanc-y-frân dridarn**,** a'r belenllys.
- Mae'r rhostir gwlyb yn cynnal poblogaeth hyfyw Criciedyn hirgorn y gors.
- Mae'r rhostir gwlyb yn rhoi cynhaliaeth bosib i fetaboblogaeth brith y gors.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.3 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 3: Rhostiroedd sych Ewropeaidd yn cynnwys Nodwedd 8 cor-rosyn rhuddfannog *Tuberaria guttata*, Nodwedd 12 y cen *cladonia peziziformis*, Nodwedd 13 merywen *Juniperus communis*, Nodwedd 14 Llindro *Cuscuta epithymum* a Nodwedd 15 glesyn serennog *Plebejus argus*.**

***Y Weledigaeth***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Nid yw rhostir sych yn gorchuddio dim mwy na'r hyn sy'n cael ei fapio ar hyn o bryd (*i'w bennu*).
- Mae'r planhigion a ganlyn yn gyffredin yn y rhostir gwlyb: grug *Calluna vulgaris*; grug lledlwyd *Erica cinerea, eithin mân Ulex gallii.*
- Cedwir llygad ar rywogaethau cystadleuol sy'n arwydd o danbori, yn enwedig felly frwyn *Pteridium aquilinum*, glaswellt y bwla *Molinia caerulea* ac eithin mân *Ulex gallii*.
- Bydd 70% o rostir sych yn rhostir sych mewn 'cyflwr da'.
- Mae'r rhostir sych yn rhoi toreth o fwyd y mae modd cael ato i'r frân goesgoch sy'n nythu.
- Mae'r rhostir sych yn cynnal poblogaethau (blodeuol) y Llindro.
- Mae'r cor-rosyn rhuddfannog i'w weld mewn o leiaf bum lle (ar hyn o bryd yn Ynys Lawd, gogledd Porth Dafarch, Porth y Garan, llwybr Pant yr Hyman, rhostir Pant yr Hyman) gydag o leiaf 200 o blanhigion yr un.
- Mae'r ferywen i'w gweld mewn o leiaf dri lle yn gwneud cyfanswm o 50 o blanhigion.
- Mae'r rhostir sych yn cynnal poblogaeth hyfyw glesyn serennog.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA Glannau Ynys Cybi ac AGA Glannau Ynys Cybi (Cyngor Cefn Gwlad

Cymru, Ebrill 2008).

**Bygythiadau**

Mae pwysau yn sgîl datblygiadau hamdden yn parhau'n fygythiad a rhaid rheoli'n gyson bwysau ymwelwyr er mwyn atal y pridd rhag erydu ac unrhyw darfu ar fywyd gwyllt. Mae yno ganiatâd i gloddio mwynau ar dir y mae'r awdurdod lleol yn ei ddal, er nad oes dim yn cael ei wneud yno ar hyn o bryd. At hyn, mae pwysau am ragor o ddatblygiadau telegyfathrebu.

Gall planhigion egsotig (e.e. *Disphyma crassifolium*) sy'n ymledu o gytrefi gerllaw greu problemau yn y dyfydol gyda chymunedau'r clogwyni, a chedwir llygad ar y sefyllfa.

Rhaid tarfu'n rheolaidd ar lystyfiant olynol ar fannau ymhell o ben y clogwyn trwy bori, dorri neu losgi er mwyn ail-greu rheolaeth draddodiadol. Rheolir llawer o'r ardal gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn unol â chynllun rheoli neu drwy dirfeddianwyr preifat dan gytundebau rheoli CCGC neu gytundebau AAS.

## ACA Corsydd Llŷn

**Trosolwg**

Mae ACA Corsydd Llŷn yn cynnwys cadwyn o bedwar safle sy'n doreth o galch ac sy'n ymestyn dros ganol Penrhyn Llŷn yng ngogledd-orllewin Cymru. Cors Geirch yw'r safle fwyaf ac mae'r tri safle arall Cors Hirdre, Rhyllech Uchaf ac Aber Geirch ar dair uned hydrotopograffegol wahanol.

Oherwydd y ddaeareg sy'n cynnal yr ardal, mae'r ffynonellau a'r mannau sy'n gollwng dŵr yn gyfoethog o ran calch. Mae corsydd a llaciau o'r math sy'n llawn calch yn hynod brin yng Nghymru a'r DG. Cors alcalin yw'r cynefin nodweddiadol penodol a geir dan yr amgylchiadau hyn ac mae'n ymddangos fel cymunedau sy'n cael eu dyfrio gan y glaw a chan ddŵr sy'n rhedeg lawr llethrau ac y cyfeirir atynt fel mignenni NVC math M13 *Schoenus nigricans – Juncus subnodulosus* ynghyd â mignen M9 *Carex rostrata – Calliergon cuspidatum/giganteum* mewn mannau lle ceir llai o law nac mewn mannau eraill. Ceir llecynnau hefyd gydag elfennau o'r ddwy gymuned. Ceir llawer o nodweddion y gors alcalin yn y safle hwn o fewn matrics o lystyfiant tir mawnog a newidiwyd gan ddyn, ac i'w gweld yno'n amlwg mae helygain Mair *Myrica gale*, glaswellt y bwla *Molinia caerulea*, y frwynen glymog *Juncus subnodulosus* a'r rhedyn *Phragmites australis.* Mae'r llymfrwynen *Cladium mariscus* hefyd yn amlwg iawn yma. Ymhlith nodweddion blodeuol, eithriadol y gors alcalin yng Nghorsydd Llŷn mae'r genedlaethol brin plu'r gweunydd *Eriophorum gracile* yn yr unig fan y mae'n tyfu yng Ngogledd Cymru, poblogaethau sylweddol tegeirian y gors culddail *Dactylorhiza traunsteineri*, brial y gors *Parnassia palustris* a'r hesgen rafunog leiaf *Carex diandra*.

Mae'r ACA hefyd yn cynnal creaduriaid di-asgwrn-cefn prin, yn cynnwys y falwen droellog, pry llofrudd a gweddill brith y gors. Mae malwen droellog Desmoulin *Vertigo moulinsiana* ar Warchodfa Natur Genedlaethol Cors Geirch mewn mannau lle ceir y llymfrwynen fwyaf *Cladium mariscus* mewn cors galchaidd, a dyma'r unig fan y gwyddys am rhywogaeth yng Nghymru.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
7230 Corsydd alcalin

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
7210 Corsydd calchaidd gyda Cladium mariscus a rhywogaethau'r Caricion davallianae * Nodwedd â blaenoriaeth

Atodiad II rhywogaethau sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1016 Malwen Droellog Desmoulin *Vertigo moulinsiana*

Atodiad II rhywogaethau sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1013 Malwen droellog Geyer *Vertigo geyeri*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Cors alcalin ( Côd Cynefinoedd yr UE 7230)**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 1***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae cors alcalin yn ymestyn dros o leiaf 7.1% o arwynebedd yr ACA (h.y. 20.14ha) ac mae mewn mannau sydd â'r potensial o gynnal y cynefin hwn.
- Ceir cors alcalin ar bob un o'r pedwar safle cyfansoddol.
- Mae'r planhigion a ganlyn yn gyffredin yn y gors alcalin: *Schoenus nigricans*, plufwsogl melyn serennog *Campyllium stellatum*, y llymfrwynen fawr *Cladium mariscus* (hyd at 1m o uchder), brwynen glymog *Juncus subnodulosus*, helygen Mair *Myrica gale*, mwsogl *Drepanocladus revolvens, chwysigenwraidd Utricularia sp.,* toddyn cyffredin *Pinguicula vulgaris*,
- Nid oes fawr ddim o rywogaethau sy'n arwydd o draenio neu o newidiadau amaethyddol, megis y gawnen benwen *Holcus lanatus*, mieri *Rubus spp*., danadl poethion *Urtica dioica* yn y gors alcalin.
- Nid yw glaswellt y bwla *Molinia caerulea* yn ymestyn dros fwy na 25% o'r llawr ac fe'i cyfyngir i fannau sychaf.

- Ni ddylai tir caled fod yn ddim mwy na 5% o'r llawr (efallai 10% ar enghreifftiau gwlypaf y gors alcalin).
- Mae gwahaniaeth oedran a strwythur uchder i'w weld ar hyd y safle mewn Cors Alcalin( nid yw twmpathau o laswellt wedi'u difrodi ac mae 20% yn borfa byr, 50% aeddfed – 30% rhwng y ddau yn cynnwys tir caled).
- Nid oes fawr ddim prysgwydd megis helyg *Salix* a bedw *Betula pubescens* yn y gors alcalin.
- Nid oes rhywogaethau ymledol anfrodoro.l
- Rheolir pori priodol ar 100% o'r safle.
- Mae dŵr sy'n sefyll neu ddŵr sy'n rhedeg yno rhwng y twmpathau o laswellt trwy gydol y flwyddyn ac mae i'w weld dros 30% o'r man lle ceir twmpathau o laswellt.
- Dylai pob llwybr dŵr (gwasgaredig, ar y wyneb a than y wyneb) (yr hyn sy'n llifo i mewn ac allan) gael ei adfer a/neu fod yn glir (yn cynnwys llenwi blocio, arallgyfeirio ac ail-greu ffosydd).
- Mae ansawdd y dŵr yn briodol i anghenion y llystyfiant a'r rhywogaethau – sef cyfoeth o galch ond dim llawer o faetholion.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.2 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Corsydd calchaidd gyda *Cladium mariscus* a rhywogaethau'r Caricion davallianae (Côd Cynefinoedd yr UE 7210)**

**Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 2**

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae cors galchaidd yn ymestyn dros o leiaf 3.8% (10.78ha) o Gors Geirch.
- Mae'r planhigion a ganlyn yn gyffredin yn y gors galchaidd: y llymfrwynen fwyaf *Cladium mariscus, brwynen glymog Juncus subnodulosus, helygen Mair Myrica gale*; ffeuen y gors *Menyanthes trifoliate* pumnalen y gors *Potentilla palustris,* chwysigenwraidd *Utricularia vulgaris* a'r hesgen fain *Carex lasiocarpa*.
- Nid oes fawr ddim o rywogaethau sy'n arwydd o draenio neu o newidiadau amaethyddol, megis y gawnen benwen *Holcus lanatus*, mieri *Rubus spp*., danadl poethion *Urtica dioica* yn y gors galchaidd.
- Nid yw glaswellt y bwla *Molinia caerulea* yn ymestyn dros fwy na 25% o'r llawr.
- Mae gwahaniaeth oedran a strwythur uchder i'w weld ar hyd y safle mewn cors galchaidd (20% yn borfa fer), nid oes llecynnau pur o un oed a strwythur, *Cladium mariscus,* yn ymestyn dros 50% o arwynebedd y nodwedd.
- Nid oes fawr ddim prysgwydd megis helyg *Salix* a bedw *Betula pubescens* yn y gors galchaidd.
- Nid oes rhywogaethau ymledol anfrodorol.
- Mae dŵr sefyll yno'r rhan fwyaf o'r gaeaf.
- Mae dŵr daear o fewn 15cm i'r wyneb yng nghanol yr haf.
- Mae pob llwybr dŵr (gwasgaredig, ar y wyneb a than y wyneb) (yr hyn sy'n llifo i mewn ac allan) wedi ei adfer a/ neu'n glir (yn cynnwys llenwi, blocio, arallgyfeirio ac ail-greu ffosydd).
- Mae ansawdd y dŵr yn briodol i anghenion y llystyfiant a'r rhywogaethau – sef cyfoeth o galch ond dim llawer o faetholion.

- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4. Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 3: Malwen droellog Desmoulin *Vertigo moulinsiana* (Côd Rhywogaethau'r UE 1016)**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 3***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae *Vertigo moulinsiana* yn fynych mewn cynefin addas yn SoDdGA Cors Geirch.
- Nid yw llystyfiant yn fwy na 70cm ar gyfartaledd pan gaiff ei fesur ym mis Awst.
- Mae'r hesgen braff dywysennog a'r hesgen ganolig-dywysennog, yr hesgen rafunnog fwyaf a'r hesgen rafunnog leiaf, y llymfrwynen, y cleddlys canghennog a'r gellesgen felen yn arwydd o amodau ffafriol, yn union fel y *Phragmites* a'r *Phalaris* prin.
- Pan fo lefelau lleithder y tir rhwng tamp a gwlyb iawn caiff unrhyw godiad sylweddol yn lefel y dŵr ei atal i'r graddau bo planhigion dyfrdrig (e.e. Berwr y dŵr *Rorippa nasturtium-aquaticum*, a dyfrforonen sypflodeuog *Apium nodiflorum),* yn dod i fod y planhigion amlycaf.
- Pori ysgafn neu gylchdro neu dim pori.
- Dim cynnydd mewn gorchudd.
- Osgoi pori trwm a sathru ar fanciau.
- Atal unrhyw ostyngiad yn ansawdd y dŵr sy'n arwain at ewtroffeiddio a newidiadau mewn statws maetholion.
- Dim cynnydd mewn perlysiau trwchus (yn enwedig felly ddanadl poethion *Urtica dioica*, ysgallen *Cirsium* spp., erwain *Filipendula ulmaria*, yr helyglys pêr *Epilobium hirsutum* ac alan mawr *Petasites* spp.) gydag uchder llystyfiant yn cynyddu.

**4.2 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 4: Malwen Droellog *Geyer* Vertigo geyeri (Côd Rhywogaethau'r UE 101)**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 4***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Mae *Vertigo geyeri* yn fynych mewn cynefin addas yng Nghors Geirch.
- Ceir nifer fawr o fannau o laswelltir corsiog (M13 / nodwedd 2) gyda hesgen/mwsogl 5- 15cm o uchder yn cynnwys rhywogaethau megis *Carex viridula subsp. brachyrrhyncha,* mwsoglau *Drepanocladus revolvens, Campylium stellatum*, *Pinguicula vulgaris, Briza media, Equisetum palustre, Juncus articulatus* ynghyd â thwmpathau o *Schoenus nigricans* yn ddim mwy nag 80cm o uchder.
- Mae'r tir sy'n cynnal cynefinoedd addas yn llawn dŵr a cheir llif gwanwyn gyda rhwydwaith o ddiferion dendritig.
- Pori ysgafn cynefin addas gyda merlod a/neu wartheg.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA Corsydd Llŷn (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008).

**Bygythiadau**

Mae'r safle dan bwysau amaethyddol (e.e. Cynnal ffosydd, defnyddio gwrtaith, esgeulustra). At hyn, mae posib i ansawdd dŵr y safle ddirywio oherwydd gweithgareddau amaethyddol (e.e. Biswail). Mae prysgwydd sy'n lledu yn broblem sydd wrthi'n cael ei rheoli.

CCGC sydd yn berchen ar y safle (GNG Cors Geirch) ac yn ei reoli a gall, felly, reoli'r gweithgareddau hyn os oes adnoddau ar gael. At hyn, mae cytundebau rheoli yn eu lle dros rannau eraill o'r safle sy'n rhoi sylw i'r materion ynghylch amaethyddiaeth ac ansawdd dŵr. Fodd bynnag, nid oes cytundeb na pherchenogaeth warchodol ar oddeutu traean o'r safle.

## Penrhyn Llŷn a'r Sarnau

**Trosolwg**

Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn cynnwys aradaloedd o fôr, arfordir ac aber sy'n cynnal ystod eang o o wahanol gynefinoedd a bywyd gwyllt arforol. Mae natur gwely'r môr a'r arfordir ac ystod yr amodau amgylcheddol yn amrywio ar draws yr ACA. Mae gwahaniaethau ym math y graig a'r gwaddod, ansawdd, symudiadau gwaddod, bod yn wyneb cerhyntau llanwol a thonnau, clirder y dŵr a pha mor hallt ydyw, ynghyd â rhyngweithio biolegol a'r gadwyn fwyd wedi creu ystod o gynefinoedd a chymunedau cysylltiedig o blanhigion arforol a rhywogaethau anifeiliaid, gyda rhai ohonynt yn unigryw yng Nghymru. Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn safle amlddiddordeb sydd wedi'i ddewis oherwydd bod yno naw math o gynefin arforol a bywyd gwyllt cysylltiedig (Gorchymyn Cynefinoedd Atodiad I mathau o gynefinoedd) a thair rhywogaeth o famaliaid (Gorchymyn Cynefinoedd Atodiad II mathau o rhywogaethau)

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1110 Banciau tywod sydd wedi'u gorchuddio fymryn gan ddŵr y môr trwy'r amser

1130 Aberoedd
1150 Lagynau arfordidrol * Nodwedd â blaenoriaeth
1160 Cilfachau a baeau mawr bas
1170 Riffiau

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1140 Gwastadeddau llaid a thywod nad ydynt wedi'u gorchuddio gan ddŵr y môr ar lanw isel
1310 Salicornia a phlanhigion blynyddol eraill sy'n cytrefi mewn llaid a thywod
1330 Morfeydd yr Iwerydd (Glauco-Puccinellietalia maritimae)
8330 Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr

Atodiad II rhywogaethau sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1349 Y dolffin trwynbwl *Tursiops truncatus*
1355 Y dyfrgi *Lutra lutra*
1364 Y morlo llwyd *Halichoerus grypus*

**Amcanion Cadwraeth**

Y weledigaeth ar gyfer ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yw amgylchedd arforol ac arfordirol o ansawdd uchel sy'n iach, cynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol, yn cynnal cymunedau ac ecosustemau gwydn, arforol. Bydd cynefin arbennig a nodweddion rhywogaethau'r ACA yn cael eu cynnal a, lle bo raid, yn cael eu hadfer fel eu bod yn medru cynnal eu hunain yn y tymor hir fel rhan o ecosustemau sy'n gweithio'n naturiol Ni fydd amrywiaeth cynefinoedd y bywyd gwyllt a'r rhywogaethau yn yr ACA yn cael eu diraddio.

Bydd y cymeriadau a'r prosesau ffisegol, amrywiol yng ngwahanol rannau'r ACA yn gweithredu heb fawr ddim ymyrraeth. Mae hyn yn cynnwys prosesau naturiol y llanwau, y tonnau a'r cerhyntau a phrosesau cysylltiedig gwaddod yn erydu ac yn cael ei adael. Bydd ansawdd dŵr yn yr ACA yn cael ei gynnal neu ei adfer i lefel y mae'n rhaid ei chael i gynnal y nodweddion mewn cyflwr da ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Mae iechyd ac ansawdd nodweddion y deuddeg ACA yn rhyngberthynol a byddant hefyd yn dibynnu ar gyflwr cynefinoedd arforol eraill yn y safle nad ydynt yn nodweddion ACA, yn ogystal â chydrannau swyddogaethol yr ecosustem arforol.

Dylai rîff yr ACA barhau i gynnwys amrywiaeth fawr o gynefinoedd a'u cymunedau biolegol cysylltiedig – ar y lan a than y dŵr. Dylai gwahanol elfennau cynefin y rîff barhau heb golli maint sylweddol, a dylai ansawdd y cymunedau bywyd gwyllt y maent yn eu cynnal gael ei chynnal neu ei gwella. Mae'r rhannau hyn yn cynnwys rîff a ffurfiwyd o fathau gwahanol o bridd caled ar draws y safle (gwely'r

môr, clogfeini, cerrig crynion, a thir cymysg), riffiau biogenig a rîff garbonad. Bydd gwaith rheoli priodol yn sicrhau'r posibilrwydd o ymestyn cymunedau'r rîff fiogenig ar y lan a than y dŵr.

Dylai'r nodwedd bae mawr bas (Bae Tremadog) barhau i gynnwys amrywiaeth o waddod ansawdd uchel a chynefinoedd o bridd caled a'u cymunedau biolegol cysylltiedig. Bydd nodweddion arbennig y bae yn cael eu cynnal, yn cynnwys gwaddod islanwol sy'n gyfoeth o rywogaethau amrywiol yn dod i fod y cynefin amlycaf yn y bae. Dylai'r gwaddod islanwol gynnwys brithwaith o wahanol fathau o waddod yn cynnwys ardaloedd helaeth o ro lleidiog, tywod mân a lleidiog a llaid. Ar y lan, bydd disgwyl i gyflwr y gwahanol fathau o gynefinoedd a'u cymunedau cysylltiedig gael eu cynnal neu eu gwella dan ddulliau rheoi priodol. Bydd y cynefinoedd rhynglanwol yn cynnwys gro lleidiog a thywodlyd, gwaddod cymysg a glannau meini, creigwelyau, tywod a cherrig mân. Cynhelir a diogelir gallu'r bae i gynhyrchu'n fiolegol naturiol a'i allu i weithredu fel meithrinfa ar gyfer pysgod a physgod cregyn. Dylai gwaith rheoli priodol ddiogelu'r posibilrwydd o ymestyn cymunedau'r rîff fiogenig a'r morwellt sy'n rhannau o nodwedd y bae.

Dylai banciau tywod islanwol yr ACA barhau i gynnwys cynefinoedd gwaddodion symudol neu hynod symudol a'u cymunedau cysylltiedig . Bydd strwythur cyffredinol, nodweddion gwaddodion a chymunedau biolegol banciau tywod y 'Tripods', 'Bastram Shoal' a 'Devil's Ridge' yn adlewyrchu pa mor agored ydynt i wyntoedd cryfaf y de-orllewin a llif cryf y llanwau. Bydd nodweddion gwaddodion a chymunedau biolegol y banciau tywod 'four fathom' yn adlewyrchu amodau sydd yn llai agored i wynt a cherrynt llanwol. Bydd cyflenwadau o waddod a phrosesau hydrodynamig sy'n ffurfio banciau tywod yn parhau heb unrhyw ymyrraeth a bydd cyflwr y cymunedau biolegol yn y gwaddod ac arno, ynghyd â rhywogaethau symudol sy'n gysylltiedig â'r banciau tywod, yn cael eu cynnal neu eu gwella dan ddulliau rheoi priodol.

Bydd tri aber yr ACA yn parhau'n aberoedd bas a ffurfiwyd gan fariau, sy'n sychu ac yn cynnal brithwaith o gynefinoedd a bywyd gwyllt cysylltiedig sy'n adlewyrchu'r trawsnewid o fod yn gynefinoedd aberol i fod yn gynefinoedd tirol. Bydd yr aberoedd yn cynnal morfeydd o ansawdd da sy'n trawsnewid i fod yn gynefinoedd eraill megis cerrig mân, twyni tywod, mignen fawnog, cors hallt a dŵr croyw, corslwyn, tonnen a choetir. Bydd gwaddodion yr aber yn parhau i gynnwys cyfran uchel o waddod tywodlyd i leidiog a bydd math y gwaddod a chymunedau biolegol sy'n gysylltiedig â nhw yn adlewyrchu graddiant o fod yn fwy agored ac amodau hallt yng ngheg pob aber i gymunedau dan fwy o ddylanwad dŵr croyw sy'n rhoi cysgod wrth iddynt symud at y tir. Pennir strwythur a nodweddion pob aber gan brosesau geomorffolegol a biolegol na therfir arnynt, gan gynnwys cludo, erydu a chrynhoi gwaddod a dylanwqd digwyddiadau yn sgìl llifogydd a thrwy reoli'r ardal gyfagos yn briodol. Bydd cyfyngiadau artiffisial ar ffurf yr aberoedd a'r modd y maent yn gweithredu yn cael eu lleihau i'r eithaf er mwyn sicrhau y bydd cynefinoedd yr aber yno ac yn hyfyw yn y tymor hir; cynefinoedd a gweithrediadau gorlifdiroedd yn cael eu hadfer a gwydnwch yr ecosustem i newid hinsawdd yn cael ei wella. Bydd yr aberoedd yn parhau i fod yn feithrinfeydd pysgod ac yn cynnal poblogaethau pwysig o bysgod ac adar sy'n mudo a rhywogaethau allweddol eraill megis y dyfrgi.

Bydd lagŵn arfordirol y Morfa Gwyllt yn parhau i fod yn ei leoliad cyfredol ac ni fydd yn colli ei allu i fod yn lagŵn dŵr hallt arbenigol.

Bydd rhywogaethau lagynau arbenigol yn parhau yno yn boblogaethau hyfyw ynghyd ag ystod o rywogaethau arforol eraill sy'n bennaf nodweddiadol o gynefin gwaddodol y basn lagŵn. Byddai disgwyl i effaith negyddol gweithgareddau dynol yn tarfu ar y lagŵn ostwng trwy ddulliau rheoli priodol ac, felly, yn gwella gallu'r Morfa Gwyllt i barhau a gweithredu fel lagŵn arfordirol.

Dylai nodwedd y gwastadeddau llaid a thywod barhau i gynnwys rhesi o gynefinoedd gwaddod a'u cymunedau biolegol cysylltiedig, yn amrywio o dywod agored a chymhedrol agored ar arfordiroedd agored i fod yn agored i dywod a mwd cysgodol mewn amodau aberol. Bydd enghreifftiau cyfan o rannu ardaloedd o gymunedau o waddod agored neu gymhedrol agored yn parhau. Byddai disgwyl i ansawdd cymunedau y gwastadeddau llaid a thywod rhynglanwol gael ei chynnal neu ei gwella. Mae'n bosib y byddai adfer sustemau aberoedd sy'n gweithio'n fwy naturiol yn gwella hyfywdra ac ansawdd tymor hir y gwastadeddau llaid a thywod rhynglanwol mewn amodau aberol.

Mae'r safle'n cadw ei drefn gyflawn o *lystyfiant morfa,* o lystyfiant arloesi, megis llyrlys, trwodd i forfa uwch. Byddai amrywiaeth y cymunedau'n parhau a bydd eu hansawdd yn cael ei chynnal neu ei gwella. Bydd hyfywdra ac ansawdd nodweddion y morfa'n cael eu gwella trwy reoli'r aberoedd fydd yn adfer sustemau fydd yn gweithredu'n fwy naturiol.

Bydd yr ogofâu môr yn parhau i gynnwys ogofâu rhynglanwol ac islanwol, holltau ac agenau a thwnnelau ym mhridd creigwely'r ACA. Bydd y cyfan o'r ogofâu ac amrywiaeth ac ansawdd y cymunedau biolegol y maent yn hafan iddynt yn cael eu cynnal neu eu gwella. Bydd nifer o'r ogofâu (rhynglanwol ac islanwol) yn parhau i gynnal mannau sydd wedi'u datblygu'n dda o ogofâu. Bydd ogofâu'r ACA yn parhau i fod yn lle bridio i'r morlo llwyd ac yn lle o ansawdd uchel y mae'n hawdd cael ato.

Bydd yr ACA yn parhau i fod yn fan arforol, cynhyrchiol a chefnogol i'r morloi llwyd. Bydd y morloi llwyd sy'n dod i'r ACA yn rhan bwysig o boblogaeth fwy o forloi llwyd yn ne-orllewin y DG. Bydd y morlo llwyd yn parhau i fod yn helaeth yn yr ACA, yn bennaf felly yn yr arfordir a'r môr agored. Bydd yn medru cael at ysglyfaeth, a chael digon ohono, a hefyd gynefinoedd angenrheidiol o ansawdd da, yn cynnwys mannau iddo lusgo i fyny 'r traeth iddynt a geni – mannau lle na cheir fawr o ymyrraeth. Bydd ansawdd a gwasgariad y safleoedd llusgo a bridio'r morlo llwyd yn y safle yn cael eu cynnal neu eu gwella trwy ddulliau rheoli priodol.

Bydd yr ACA yn parhau i fod yn fan arforol, cynhyrchiol a chefnogol i'r *dolffin trwynbwl*. Bydd y dolffin trwynbwl yn parhau'n helaeth yn nyfroedd yr ACA a bydd y rhai sy'n dod i'r ACA yn adlewyrchu poblogaeth iach yn cynnwys dolffiniaid gwrywaidd a benywaidd – yn oedolion ac yn epil. Bydd y dolffiniaid trwynbwl yn yr ACA yn rhan bwysig o boblogaeth fwy o'r rhywogaeth hon sydd ym Mae Ceredigion ac yn y môr ehangach o gwmpas Cymru a gogledd-ddwyrain yr Iwerydd. Bydd yr anifeiliaid sy'n defnyddio'r ACA mewn iechyd ffisiolegol da. Bydd y dolffin trwynbwl yn medru cael at ysglyfaeth, a chael digon ohono, a hefyd gynefinoedd angenrheidiol o ansawdd da, lle na therfir fawr ddim arnynt. Bydd ansawdd a gwasgariad y cynefinoedd angenrheidiol (megis ar gyfer bwydo, magu, ymlacio a theithio) yn cael eu cynnal neu eu gwella trwy ddulliau rheoi priodol.

Bydd y dyfrgi'n parhau i fod yn eang yn yr ACA mewwn mannau o arfordir agored ac yn yr aberoedd. Bydd y dyfrgi'n medru cael at ysglyfaeth, a chael digon ohono, a hefyd gynefinoedd angenrheidiol o ansawdd da, yn cynnwys dŵr croyw a safleoedd ymlacio a bridio distaw fel bod modd i'r boblogaeth ffynnu. Bydd gwasgariad, canolfannau bridio a safleoedd bridio gwirioneddol / posib y dyfrgi yn y safle ac mewn dalgylchoedd eraill yn cael eu cynnal neu eu gwella trwy ddulliau rheoi priodol.

Bydd ansawdd tirluniol a gwerth cadwraeth yr ardal yn parhau i fod yn uchel. Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a'i bywyd gwyllt arbennig yn gwella gwerthoedd economaidd a chymdeithasol yr ardal trwy greu amgylchedd o ansawdd uchel i bysgodfeydd, gweithgareddau allanol, ecodwristiaeth, astudiaethau gwyddonol ac addysgol a rhoi mwynhad tawel i bobl leol ac ymwelwyr. Bydd cyfraniad cadarnhaol yr ACA i ansawdd naturiol, cymdeithasol ac economaidd yr ardal yn cael ei gydnabod a'i hyrwyddo trwy waith rheoli priodol ar y môr a'r tir fydd yn sicrhau y bydd gweithgareddau a'r defnydd cynaliadwy a wneir o'r safle yn mynd law yn llaw â'i gilydd.

**Bygythiadau**

Mae'r awdurdodau perthnasol ar gyfer y safle wedi paratoi cynllun rheoli a chynllun gweithredu fydd yn rhoi sylw i faterion rheoli sy'n ymwneud â riffiau ac aberoedd. Mae disgwyl i nodweddion ychwanegol y safle gael eu cynnwys yn y cynlluniau erbyn 2004.

Gallai gwaith adeiladu e.e. lithrfeydd, morgloddiau a marinâu/ harbwrs darfu ar gynefinoedd yr aberoedd, gwastadeddau llaid a thywod rhynglanwol a riffiau ac ar brosesau ffisegol hanfodol cynnal y cynefinoedd hyn. Mae'r awdurdodau cynllunio a chyrff statudol eraill yn ymgynghori gyda CCGC ynghylch datblygiadau o'r fath. Mae yno ofyn cynyddol am gyfleusterau ychwanegol a/neu uwchraddio cyfleusterau sydd eisoes yno, a bydd raid i GCGC weithio gyda'r awdurdodau perthnasol eraill i asesu goblygiadau y math hyn o ddatblygiadau arfaethedig ar nodweddion yr ACA. Mae riffiau penodol dan fygythiad dulliau pysgota penodol yn tarfu arnynt, yn enwedig felly ddulliau megis offer pysgota gwaelod trwm. Bydd CCGC yn cysylltu gyda'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr perthnasol i nodi ffyrdd o leihau i'r eithaf ar yr effaith ar y cynefinoedd, yn ogystal â chadw llygad ar lefelau pysgota o'r math. Bydd raid asesu effeithiau posib offer pysgota gwaelod trwm ar y banc tywod islanwol a'r cilfchau bach a'r baeau.

Mae posibilrwydd y bydd gwaith drilio am olew a nwy yn mynd rhagddo yn y dyfodol ym Mae Ceredigion ac ym Môr Iwerddon yn ogystal â'r posibiliadau o ddatblygiadau pŵer gwynt ar y môr. Mae CCGC yn trafod yr effeithiau posib hyn gyda'r Adran Masnach a Diwydiant a ffyrdd posib o'u lleihau i'r eithaf.

Mae llawer o'r bywyd gwyllt arforol yn yr ACA yn sensitif i lygredd gan olew. Mae datblygu llwyfannau olew a chael cychod yn mynd yn ôl ac ymlaen ar Fôr Iwerddon, o bosib yn cyfrannu at y llygredd hwn. Mae CCGC yn gweithio gyda'r cwmnïau olew hyn a chyda sefydliadau statudol eraill fel bod camau diogel digonol yn eu lle i geisio atal digwyddiadau o lygredd. At hyn, mae CCGC yn aelod o Grŵp Amgylcheddol Sefydlog Gogledd Cymru sy'n paratoi cynllun wrth gefn rhanbarthol i gynorthwyo yn y gwaith o gyd-drefnu ymateb i geisio lleihau i'r eithaf ar effeithiau amgylcheddol pe ceid llygredd.

## ACA Llyn Dinam

**Trosolwg**

Mae Llynnau y Fali yn gyfres o lynnoedd a chynefinoedd cysylltiedig ger Awyrlu Brenhinol y Fali yng ngorllewin Môn gyda dalgylchoedd bychain iawn. Mae Llyn Penrhyn yn 43 ha (Allot et al 1994) a Llyn Dinam yw'r mwyaf gogleddol o'r llynnoedd a'r un y mae dyn yn cael yr effaith leiaf arno. Nodweddion pwysig y safle yw cynefinoedd dŵr sefyll a'r planhigion dyfrdrig a geir ynddo, siglen gyrs, rhedyn y gors ac adar sy'n nythu ac yn treulio'r gaeaf yno. Mae cynefinoedd eraill, megis glaswelltir heb ei wella, ffosydd a llystyfiant creigiog i gyd yn cyfrannu at y nodweddion.

Mae'r gwahanol gynefinoedd sy'n cynnal ystod eang o rywogaethau eraill yn cynnwys un ar ddeg o rywogaethau gwas y neidr a mursen y môr, yn cynnwys y gwas neidr blewog (*Brachytron pratense)* a mursen las amrywiol (*Coenagrion pulchelum)* a chwilod y dŵr (*Gyrinus* spp.) yn cynnwys y *G. suffriana* prin a'r genedlaethol brin *G. paykulli*. Mae'r rhain, hefyd,yn rhan allweddol o ddiddordeb arbennig y safle. Cofnodwyd adar y bwn yn nythu yma ddiwethaf yng nghanol yr 1980au ac maent yn parhau i dreulio'r gaeaf yno.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
3150 Llynnoedd ewtroffig naturiol gyda llystyfiant math Magnopotamion neu Hydrocharition

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Llynnoedd ewtroffig naturiol gyda llystyfiant math *Magnopotamion neu Hydrocharition* (yn cynnwys nodweddion SoDdGA: Dŵr sefyll – Dŵr sefyll ac ewtroffig – marl/alcalinedd uchel)**

***Gweledigaeth ar agyfer nodwedd 1***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Nid oes colli ardal ac eithrio'r hyn sy'n digwydd yn naturiol (olyniaeth).
- Mae'r planhigion dyfrdrig yn nodweddiadol o'r planhigion sydd i'w cael yn y math hwn o lyn o ran cyfansoddiad a strwythur.
- Nid yw planhigion sy'n arwydd o lefelau uchel iawn o faetholion a/neu ormodedd o laid yn hawlio'r safle.
- Nid yw planhigion dŵr ymledol anfrodorol yn bygwth trechu'r fflora brodorol.
- Nid yw ffawna ymledol anfrodorol yn bygwth y fflora a/neu'r ffawna brodoro.l
- Mae adar a restrir fel nodweddion SoDdGA yn parhau i fod yn bresennol - m1% o boblogaethau'r DG.
- Mae lefelau maeth, pH ac ocsigen toddedig yn nodweddiadol ar gyfer llyn o'r math hwn ac nid oes gormodedd o syanobacteria neu

algâu gwyrdd yn tyfu yno.
- Mae gwerthoedd cloroffyl yn isel ac yn ddigonol fel bod modd cadarnhau Llyn Dinam a Llyn Penrhyn yn ''Dda' neu'n well ar gyfer 'llyn bas alcalinedd uchel' gan ddefnyddio dulliau dosbarthu Gorchymyn Fframwaith Dŵr. http://www.wfduk.org/management_info/News/UKCLASSPUB/
- Cynhelir y siglen ymylol a llystyfiant y fignen.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Llyn Dinam a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Llynnau Y Fali (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Bygythiadau**

Rheolir 75% o'r safle gan y Gymdeithasol Frenhinol er Gwarchod Adar ac mae rhan arall dan gynllun AAS. Ni wyddys pwy sydd yn berchen ar 25% o'r llyn. Ceir mân fygythiadau yn sgìl gwastraff domestig yn cael ei daflu o dai cyfagos. Cafodd gwaith gwella'r corslwyn ei gynnal ar gyfer adar y bwn oedd yn chwilota yn 1998.

## ACA Coedydd Meirionnydd a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd

**Trosolwg**

Mae Coedydd a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd yn gyfres o goetiroedd sy'n ymestyn o Ddolgellau yn y de i Eryri yn y gogledd..

Dosbarthir y rhan fwyaf o'r ACA fel math y coetir a adwaenir fel "Hen goedydd di-goes gyda derwen fythol a *Blechnum yn Ynysoedd Prydain*", sy'n cynnwys oddeutu 84% o'r ACA a hwn yw'r math amlycaf o goetiroedd yn y rhan fwyaf o safleoedd. Nodwedd allweddol o bwys Ewropeaidd yw cymunedau cyfoethog brÿoffytau'r Iwerydd sydd, fel arfer, wedi datblygu'n dda iawn yn y math Atodiad I hwn. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o rywogaethau prin, megis y *Campylopus setifolius, Sematophyllum demissum, Adelanthus decipiens, Leptocyphus cuneifolius* a *Plagiochila atlantica*. Nodwedd allweddol arall o ACA Coedydd a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd yw fflora'r cen sydd yn hynod gyfoethog ac yn cynnwys nifer o rywogaethau prin megis, *Micarea xanthonica, Parmelinopsis horrescens, Phyllopsora rosei, Micarea stipitata* a *Tyothallia biformigera*. Yn aml iawn, mae'r coetir hwn yn batrwm amrywiol o fathau coetirol, yn cynnwys Cynefinoedd Atodiad I, "Coetir corsiog", "Fforestydd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior*" a fforestydd o lethrau, sgrïau a hafnau "*Tilio-Acerion*" sydd i'w gweld mewn mannau bychain ac sy'n arwyddocaol mewn ychydig o'r SoDdGA / unedau cyfansoddol yn unig. Mae'r trawsnewidiadau rhwng y mathau gwahanol o goetir yn bwysig o ran cynnal y strwythur a

swyddogaeth math y cynefin ac maent yn amrywio ledled y DG.

Nodweddir y rhostir gan doreth o *Calluna vulgaris*, *Ulex gallii* ac *Erica cinerea* yn tyfu ar bridd asidig, tenau a gwael. Mae yno nifer o fannau bychain o rug sych yma ac acw trwy'r coetir. Nid yw'r grug wedi'i fesur ond mae'r tri man mwyaf o rug sych, gyda'i gilydd, yn 1% o arwynebedd yr ACA.

Mae'r nodwedd "Cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda'r llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion*" i'w weld yn Afon Glaslyn, yn SoDdGA Glaslyn ac, ar hyn o bryd, y tu allan i'r ACA ond y tu mewn i estyniad arfaethedig i'r ACA.

Mae gan yr ystlum bedol leiaf dros 20 o glwydi y gwyddys amdanynt yn yr ACA ac mae'n chwilota'n helaeth yn ei choetiroedd, ei chynefinoedd cysylltiedig ac yn y cefn gwlad o amgylch y safle. Mae nifer o glwydi mamolaeth mewn gwahanol fathau o adeiladau a strwythurau, a safleoedd gaeafgwsg, yn enwedig felly mewn mwyngloddiau. Ceir mathau eraill o glwydi, megis nos, trawsnewid, mannau paru a safleoedd heidio. Gwyddys fawr ddim am y rhain.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
91A0 Hen goedydd di-goes gyda'r dderwen fytholwyrdd a Blechnum yn Ynysoedd Prydain
91E0 Fforestydd llifwaddol gydag Alnus glutinosa a Fraxinus excelsior (Alno-Padion, Alnion incanae, Salicion albae)
* Nodwedd â blaenoriaeth

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
3260 Cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda llystyfiant Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion
4010 Rhostir gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag Erica tetralix
4030 Rhostir sych Ewropeaidd
9180 Fforestydd Tilio-Acerion o lethrau, sgrïau a hafnau * Nodwedd â blaenoriaeth
91D0 Coetir corsiog * Nodwedd â blaenoriaeth

Atodiad II rhywogaethau sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1303 Yr Ystlum bedol leiaf *Rhinolophus hipposideros*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodweddion ACA: Coetiroedd, yn cynnwys y canlynol: hen goetiroedd di-goes gyda'r dderwen fytholwyrdd a Blechnum ( NVC : W17, W11, W10); Coetir corsiog (NVC : W4c); Fforestydd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a hafnau (NVC : W8 and W9); a Fforestydd llifwaddol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* (NVC : W5, W6 and W7)**

***Y Weledigaeth***

Y weledigaeth ar gyfer nodwedd coetir yr ACA yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Bydd y cyfan o'r coetir, yn cynnwys canopi'r coed a phrysgwydd y coetir, y llennyrch a'r grug sych, rhedyn a glaswelltir cysylltiedig yn cael ei gynnal fel a nodir ar fapiau, cyfanswm o oddeutu 1826 ha.
- Dangosir lleoliad gwahanol nodweddion coetir yr ACA, fel a restrir yn y teitl uchod, yn Atodiad 2 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008). Mae gwasgariad cymunedau'r coetiroedd hyn yn adlewyrchiad yn bennaf o dopograffi pridd, daeareg ac ansawdd ac mae'n anhebygol o newid.
- Ni fydd canran canopi'r coed yn y coetir ar gyfer y cyfan o'r ACA yn llai na 80%. 87% sy'n cael ei orchuddio ar hyn o bryd (ac eithrio pan fo trychinebau naturiol). Bydd gan rhai unedau orchudd is sydd yn dderbyniol ar yr amod bod hyn yn cyd-fynd â diogelu'r cynefin, y nodweddion a'r diddordeb arbennig.
- Yn y gorchudd a'r prysgwydd mae rhywogaethau brodorol lleol; gweler Tabl 2 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008; tud. 11) am y rhywogaethau perthnasol ar gyfer pob nodwedd coetir yr ACA.
- Bydd digon o goed a phrysgwydd brodorol, lleol yn aildyfu'n naturiol er mwyn cynnal canopi a haen prysgwydd y coetir, trwy lenwi bylchau a chaniatáu i goed bychain dyfu ac annog strwythur oedran amrywiol.
- Bydd rhywogaeth nodweddiadol gorchudd y ddaear ym mhob nodwedd coetir yr ACA yn gyffredin, gweler Tabl 2. Mae'n bwysig i ran fwyaf o goetir yr ACA nad yw'r llystyfiant yn mynd yn drwchus ac yn gordyfu mwy na 40cm a/neu'n cael eu trechu gan rywogaethau megis mieri, eiddew a chelyn ifanc. Efallai y cyfyngir yn ôl unedau neu gydrannau.
- Bydd toreth a gwasgariad mwsoglau, llysiau'r afu a chenau cyffredin a nodweddiadol (Iwerydd, is-Iwerydd, gorllewinol, cefnforol) (a ffwng llysnafeddog) yn cael eu cynnal neu'n cynyddu.
- Bydd toreth a gwasgariad mwsoglau, llysiau'r afu a chenau anghyffredin a nodweddiadol a ffwng llysnafeddog, yn cael eu cynnal neu'n cynyddu
- Bydd pum coeden aeddfed fesul hectar yn cael eu gwasgaru dan ganopi presennol y coed neu ar y parcdir, hynny yw coed o oddeutu 60cm a mwy o ddiamedr ar y dderwen a'r onnen a/neu ar goed gydag arwyddion o ddirywio, tyllau ac ati. Yn y tymor hwy, erbyn 2060, dylid bod un hen goeden yr hectar, hynny yw coed o oddeutu 100cm a mwy o ddiamedr ar y dderwen a'r onnen a 75cm ar y fedwen.
- Bydd mwy na 30 metr ciwbig o goed marw yr hectar trwy'r safle a bydd yn gymysgedd o goed wedi syrthio (o leiaf un yr hectar), canghennau wedi torri, canghennau marw ar goed byw a choed marw'n sefyll (o leiaf un yr hectar). Ychydig o goed marw sydd yno ar hyn o bryd oherwydd bod oedran y coed yn y coetiroedd yn eithaf tebyg ac nid oes coed aeddfed na choed marw oherwydd rheolaeth goedwriaethol y gorffennol. Mae rhai o blanhigion is yn arbenigwyr ar goed marw ond nid yw'r creaduriaid di-asgwrn-cefn prin hyn sydd i'w cael yng ngweddill y DG i'w cael yn y coetiroedd hyn.
- Ni cheir rhywogaethau ymledol, anfrodorol, megis rhododendron, Canclwm Japan a Ffromlys chwarennog.

▪Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodweddion: Ystlumod pedol lleiaf *Rhionolphus hipposideros***

**Y weledigaeth**

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

▪1 Dylid cynnal maint presennol poblogaeth yr ystlumod pedol lleiaf a, lle bo'n bosib, ei hannog i dyfu. Gweler Tabl 7 am grynodebau o niferoedd a gyfrifwyd mewn safleoedd clwydo cofnodedig a mapiau yn Atodiad 4, sy'n dangos lleoliadau'r clwydi. Gan y bu cynnydd yn niferoedd yr ystlum bedol leiaf yng Nghymru, mae'n rhesymol disgwyl i'w phoblogaeth yng Ngwynedd dyfu.

▪2 Mae digon o glwydi bridio (adeiladau, strwythurau a choed) a chlwydi gaeafgysgu (mwyngloddiau ac adeiladau) o ansawdd priodol. Dylid hefyd gynnal y mathau eraill o glwydi megis, nos, trawsnewid, mannau paru a safleoedd heidio, wrth i'n gwybodaeth am y clwydi, sydd yn aml yn arwyddocaol, wella.

▪3 Mae'r cynefin chwilota neu fwydo yn yr ACA a'r cefn gwlad o amgylch y safle, yn cynnwys glaswelltir a rhai gerddi, o ansawdd, maint a chyswllt priodol ar draws yr ystod.

▪4 Mae ystod y boblogaeth yn yr ACA/yng Ngwynedd yn sefydlog neu'n cynyddu.

▪5 Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.3 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd: Rhostiroedd sych Ewropeaidd**

***Y weledigaeth***

Y weledigaeth ar gyfer nodwedd coetir yr ACA yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

▪1 Bydd y cyfan o'r rhostir sych, oddeutu 21 ha, yn cael ei gynnal.

▪2 Bydd gwasgariad y rhostir sych o leiaf yn cael ei ddangos ar fap yn Atodiad 2 Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2008;

▪3 Bydd rhywogaethau nodweddiadol ac anghyffredin y cymunedau llysieuol, sy'n cynnwys y grug sych, i'w gweld yn aml ac yn doreithiog.

▪4 Dylid cynnal ac adfer strwythur y grug, i ddangos ei fod yn aildyfu'n naturiol trwy haenu a hadu, ac i sicrhau bod y cymunedau'r llystyfiant yn naturiol wahanol (cyfeirer hefyd at 3 uchod).

▪5 Ni cheir rhywogaethau ymledol anfrodorol, megis conifferau, rhododendron, Canclwm Japan a Ffromlys chwarennog.

▪6 Yn gyffredinol, ni fydd coed ar y rhostir ac ar y mwyaf, ychydig yma ac acw a dim mwy na dwy yr hectar. Mae parthau trawsnewid o goetir i rostir yn eithriad i'r rheol hyn lle gall coed fod yn fwy trwchus ac yn graddio i fod yn rhostir agored. Dylid gosod cyfyngiadau ar gyfer parthau trawsnewid fesul uned neu isuned.

▪7 Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.4 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd ACA: cyrsiau dŵr lefelau gwastadir i fynyddig gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion***

***Y weledigaeth***

Y weledigaeth ar gyfer nodwedd coetir yr ACA yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Dylai maint yr afonydd addas lle ceir y llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* fod yn sefydlog, fel a nodir ar fap yn Atodiad 2.
- Dylai gwasgariad presennol (anhysbys) y llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a'r *Callitricho-Batrachion* fod yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Mae'n bosib y bydd rhywogaeth crafanc y dŵr yn amlwg yn yr afon gyda llystyfiant arnofiol, fel arfer *Ranunculus fluitans,* (ond nid yw'r rhywogaeth hon yn cael ei chofnodi ym Meirionnydd). *Callitriche stagnalis* a brÿoffytau.
- Ni ddylai rhywogaethau sy'n arwydd o gyflwr anffafriol ar gyfer y nodwedd hon e.e. Algâu edefynnog ac sy'n gysylltiedig gydag ewtroffeiddio a rhywogaethau ymledol anfrodorol fod yn y safle, neu dylant fod dan drothwy derbyniol, sy'n arwydd o statws ecolegol uchel yn yr ACA. Caiff y nodwedd hon ystyriaeth bellach dan ffactorau.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer Coedydd a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008).

**Bygythiadau**

Er mwyn rheoli nodweddion allweddol y coetiroedd hyn h.y. Brÿoffyt yr Iwerydd a chenau, rhaid pori llystyfiant y ddaear yn ysgafn, gan ddefaid yn pori fel arfer. Rhaid cydbwyso hyn yn erbyn y gofynion i adael i goed aildyfu'n naturiol. Yn y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, caiff mannau eu ffensio fel bo modd cael sustemau pridd sy'n amrywio o ddim pridd o gwbl i bori eithaf trwm o bryd i'w gilydd. Mae mwsoglau a llysiau'r afu sydd mewn ceunentydd lle ceir gweithgareddau hamdden megis cerdded ceunentydd a chanŵio eithafol, yn cael eu bygwth oherwydd gorddefnydd. Mae Côd Ymddygiad yn cael ei lunio, wedi'i gyfuno gyda chyfyngiadau ar ddefnydd. Ceir cynlluniau rheoli CCGC ar gyfer y mannau a ddatganwyd yn Warchodfeydd Naturiol Cenedlaethol. Mewn mannau eraill, ceir cytundebau rheoli Adran 15 gyda thirfeddianwyr a meddianwyr lle gweithredwyd ar sustemau pori priodol

Rhaid rheoli'n ofalus eifr gwyllt sydd ar rai o'r safleoedd er mwyn atal rhisgl coed ifainc ac eginblanhigion rhag cael eu stripio a'u difrodii yn sgíl pori. Mae CCGC yn monitro'r haid ar draws yr ACA yn flynyddol ac yn gweithredu ar gamau rheoli pan fo niferoedd yn mynd yn uwch na'r hyn a bennwyd. Oherwydd natur hynod asidig y pridd yn y coetiroedd, mae perygl iddynt gael eu hasideiddio. Yn y gorffenol, mae'r rhostir wedi'i fygwth gan goedwigaeth a llosgi/pori amhriodol. Mae'r materion hyn yn cael sylw trwy gynlluniau amaethyddol-amgylcheddol (Tir Cymen/Tir Gofal) a Chytundebau Rheoli Adran 15.

Mae poblogaethau'r ystlum bedol leiaf ar eu mwyaf bregus yn eu clwydi haf a gaeaf. Mae gostyngiad yn nifer y pryfaid sy'n ysglyfaeth iddi hefyd yn cael effaith arni oherwydd newidiadau mewn arferion amaethyddol a defnyddio plaladdwyr. Caiff clwydi eu gwarchod yn amlach na dim trwy'r sustem gynllunio, trwy ymgorffori gofynion ystlumod yn y cynlluniau yn gynnar yn y broses gynllunio. At hyn, mae nifer o glwydi ym mynedfeydd mwyngloddiau wedi'u grilio fel na therfir ar yr ystlumod sy'n gaeafgysgu.

## ACA Y Fenai a Bae Conwy

**Trosolwg**

Mae'r amodau ffisiograffig unigryw a geir yn ACA y Fenai a Bae Conwy yn gwneud hwn yn safle anarferol sydd, ers tro, wedi'i gydnabod yn bwysig i fywyd gwyllt y môr. Mae'r amrywiaeth mewn amodau ffisegol ac amgylcheddol trwy'r safle, yn cynnwys math o graig a gwaddod, ansawdd, clirder y dŵr a'r ffaith bod y safle yn agored i gerhyntau llanwol a symudiadau tonnau, yn esgor ar ystod eang o gynefinoedd a chymunedau arforol cysylltiedig. Mae nifer o'r cymunedau hyn yn anarferol yng Nghymru. Mae continwwm amodau ffisegol ac amgylcheddol a chymunedau arforol cysylltiedig, o gulfor y Fenai gyda'i llanwau a'i thonnau gwyllt i Fae Conwy a'i ddyfroedd tawelach a Phen y Gogarth a Thrwyn y Fuwch sy'n gymhedrol agored i'r tonnau, o ddiddordeb penodol. Mae ACA y Fenai a Bae Conwy yn safle amlddiddordeb sydd wedi'i ddewis oherwydd bod yno bum math o gynefin arforol a bywyd gwyllt cysylltiedig (Gorchymyn Cynefinoedd Atodiad I mathau o gynefinoedd).

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1110 Banciau tywod sydd wedi'u gorchuddio fymryn gan ddŵr y môr trwy'r adeg
1140 Gwastadeddau llaid a thywod nad ydynt yn cael eu gorchuddio gan ddŵr y môr ar lanw isel
1170 Riffiau

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
1160 Gwastadeddau llaid a baeau mawr bas
8330 Ogofâu môr sydd dan y dŵr neu'n rhannol dan y dŵr

**Amcanion Cadwraeth**

Y weledigaeth tymor hir ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) y Fenai a Bae Conwy yw iddi fod yn yn ardal arforol iach, gynhyrchiol a biolegol amrywiol, yn cynnal ecosustemau a chymunedau arforol gwydn.

Dylai cynefinoedd a chymunedau gwastadeddau llaid a thywod rhynglanwol barhau i gynnwys rhesi o gynefinoedd gwaddod a'u cymunedau biolegol cysylltiedig, yn amrywio o dywod sy'n agored i'r tonnau, trwodd i laid cysgodol a gro lleidiog wedi'i ysgubo gan y llanw. Mewn sawl ardal, megis Traeth Lafan ac o amgylch Aber Conwy, bydd y nodwedd yn cynnwys brithwaith deinamig o fathau o waddod, gyda chymunedau cysylltiedig, tra bo disgwyl i waddodion rhyngwlanol eraill, megis mannau cysgodol yn y Fenai gael sefydlogrwydd tymhorol a gofodol.

Byddai disgwyl i ansawdd cymunedau gwastadeddau llaid a thywod rhynglanwol, y mae gweithgareddau megis cloddio am abwyd a defnyddio cerbydau ar y traeth yn cael effaith arnynt, wella a dod yn fwy amrywiol trwy ddulliau rheoli priodol. Wrth i ansawdd y dŵr yn yr ardal wella, mae disgwyl i welyau corwellt y gamlas *Zostera noltei* ymestyn eu hamrediad a'u gwasgariad yn y safle. Mae disgwyl i gynefinoedd a chymunedau eraill yn y nodwedd hon un ai gynnal eu cyflwr neu wella. Tra bo pysgodfeydd y cerrig gleision yn parhau i weithredu ym mhen dwyreiniol a gorllewinol y Fenai, yn ogystal ag yn Aber Conwy, bydd gwastadeddau llaid a thywod rhynglanwol yn yr ardal hon yn parhau yno ond ar eu newydd wedd. Ar hyn o bryd nid oes gofyn adfer y mannau hyn o wastadeddau llaid a thywod.

Dylai'r rîff barhau i gynnwys amrywiaeth o gynefinoedd gwaddod a phridd a'u cymunedau biolegol cysylltiedig, a hynny ar wahanol fathau o bridd caled trwy'r safle. Mae mathau o briddoedd yn amrywio o gynefinoedd calchfaen a chlai i ardaloedd o bridd caled isarforol wedi'u hysgubo gan y llanw, yn cynnwys clogfeini a chreigwelyau. Mae disgwyl i ansawdd rhai nodweddion o glogfeini rhynglanwol wella a dod yn fwy amrywiol trwy ddulliau rheoli priodol. Mae disgwyl i fannau eraill yn y nodwedd hon un ai gynnal eu cyflwr neu wella.

Dylai nodwedd y banciau tywod islanwol barhau i gynnwys cynefinoedd o waddodion symudol neu hynod symudol a'u cymunedau cysylltiedig. Ar y rhan isaf un o'r traeth yng ngorllewin y Fenai a Bae Conwy, mae disgwyl rhyw ynni rhwng nodweddion y banciau tywod islanwol a'r gwastadeddau llaid a thywod rhynglanwol, gan ddibynnu ar yr amodau ffisegol cryfaf. At hyn, mae disgwyl i fanciau tywod ym Mae Conwy a Thraeth Coch barhau i fod yn rhan o batrwm amrywiol, deinamig o waddodion arfordirol, isarforol bas yn y ddau fae ac mae'n bosib y byddant yn amrywio yn unol â'r amodau ffisegol cryfaf.

Dylai nodwedd y bae mawr bas gynnwys amrywiaeth o gynefinoedd gwaddodion a phridd caled a'u cymunedau biolegol cysylltiedig, gydag ystod eang o amodau ffisegol, o amodau lle ceir cysgod gan y tonnau a lle bydd y llanw yn ysgubo ym mhen dwyreiniol y Fenai trwodd i amodau lle mae'r safle'n fwy agored i donnau a'r arfordir ei hun yn fwy agored ym mae Conwy. Dylai'r gwaddodion islanwol yn yr amfae gynnwys brithwaith deinamig o fathau o waddod, gyda chymunedau cysylltiedig a allai arddangos amrywiaeth tymhorol a gofodol sylweddol, dan ddylanwad yr amodau ffisegol cryfaf. Mae disgwyl i fannau tywodlyd yn llawn llaid yn Nhraeth Coch a Bae Conwy barhau, tra bo disgwyl i'r bae mawr bas barhau i fod yn fan bwydo a bridio i amrywiaeth o bysgod. Mae disgwyl i gynefinoedd a chymunedau penodol yn y bae mawr bas (mae nifer ohonynt yn rhan o nodweddion cynefinoedd eraill) wella o ran ansawdd a dod yn fwy amrywiol dan ddulliau rheoi priodol. Mae disgwyl i fannau eraill yn y nodwedd hon un ai gynnal eu cyflwr neu wella.

Dylai ogofâu y môr barhau i gynnwys ogofâu rhynglanwol ac islanwol, hafnau, holltau a thwnnelau yn y pridd calchfaen o amgylch Pen y Gogarth a Thrwyn y Fuwch ac arfordir gogledd-ddwyrain Môn.
Mae iechyd ac ansawdd y pum nodwedd o gynefin yr ACA yn rhyngberthynol a gallant hefyd ddibynnu ar gyflwr cynefinoedd arforol eraill yn y safle nad oes iddynt nodweddion,yn ogystal ag elfennau strwythurol a swyddogaethol yr ecosustem arforol.
Mae'r Fenai a Bae Conwy yn cynnal economi arfordirol bywiog, gydag amrywiaeth o weithgareddau masnachol a hamdden yn dibynnu ar yr ardal. Yn eu tro, mae nifer o'r rhain yn dibynnu ar iechyd ac ansawdd tymor hir yr amgylchedd arforol.

**Bygythiadau**

Gall adeiladu e.e. llithrfeydd, morgloddiau a marinâu/harbwrs darfu ar gynefinoedd Ewropeaidd a phrosesau ffisegol sy'n hanfodol i gynnal y cynefinoedd hyn. Mae awdurdodau cynllunio lleol a chyrff statudol eraill yn ymgynghori gyda CCGC ynghylch datblygiadau o'r fath.

Er bod lefel y pysgota masnachol (ac eithrio pysgod cregyn) yn eithaf isel, byddir yn treillio mewn rhai mannau. Bydd raid asesu effaith bosib offer pysgota gwaelod trwm ar gynefinoedd y banc tywod islanwol a'r draethell a'r bae bas. Mae nifer eithaf helaeth o gerrig gleision yn cael eu casglu ym mhen dwyreiniol y Fenai a bydd CCGC yn gweithio gyda'r diwydiant pysgota a rheoleiddiwr y pysgodfeydd lleol (Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd a Gogledd-orllewin Cymru) er mwyn asesu effeithiau posib y bysgodfa hon ar nodweddion yr ACA.

Mae yna nifer o angorfeydd cychod yn y Fenai a galwad am fwy o gyfleusterau (angorfeydd a marinâu) ar gyfer mwy o gychod. Bydd raid i CCGC weithio gyda'r awdurdodau perthnasol i asesu goblygiadau'r holl ddatblygiadau arfaethedig o'r math hwn ar nodweddion yr ACA.

Mae'n bosib bod taflu deunydd a garthiwyd yn cyfrannu at dyrfedd cynyddol, sy'n cael effaith ar wasgariad a chyfansoddiad y cymunedau algaidd islanwol. Mae angen asesiad priodol o arwyddocâd y gweithgareddau y bwriedir eu cynnal yn y dyfodol.

Mae llawer o'r bywyd gwyllt arforol yn yr ACA yn sensitif i lygredd gan olew. Mae datblygu llwyfannau olew a chael cychod yn mynd yn ôl ac ymlaen ar Fôr Iwerddon o bosib yn cyfrannu at y llygredd hwn. Mae CCGC yn gweithio gyda'r cwmnïau olew hyn a chyda sefydliadau statudol eraill fel bod camau diogel, digonol yn eu lle i geisio atal digwyddiadau o lygredd. At hyn, mae CCGC yn aelod o Grŵp Amgylcheddol Sefydlog Gogledd Cymru sy'n paratoi cynllun wrth gefn rhanbarthol i gynorthwyo yn y gwaith o gyd-drefnu ymateb i geisio lleihau i'r eithaf ar effeithiau amgylcheddol pe ceid llygredd.

## ACA Migneint - Arenig - Dduallt

**Trosolwg**

Safle mawr ar dir uchel yw Migneint-Arenig-Dduallt ac sy'n ymestyn rhwng Ysbyty Ifan a Phenmachno yn y gogledd i Rydymain yn y de ac o Drawsfynydd yn y gorllewin i union i'r dwyrain o Lyn Celyn. Mae'n amrywio mewn uchder o 300 m i 712 m. Yn y rhan ogleddol mae gwastadedd uchel o dir mawnog yn ganolog ar Figneint, yn ymestyn i Domen y Mur yn y gorllewin ac i Gwm Hesgyn yn y dwyrain, gyda mannau uwch megis Arenig Fach o amgylch yr ymyl. Gwastadedd uchel wedi'i amgylchynu gan dir uwch sydd i'r rhan ddeheuol ac sydd hefyd i'r de o Afon Lliw. Mynydd Dduallt yw'r tir sydd amlycaf yma. Mae'r rhan ganolog i'r de o Gwm Prysor a Llyn Celyn ac yn cynnwys Moel Llyfnant a Moel y Slates yn ogystal â chrib mynyddig yr Arenig Fawr – sef rhan uchaf yr holl safle.

**Nodweddion Cymhwyso**

Atodiad I cynefinoedd sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd
7130 Corgorsydd * Nodwedd â blaenoriaeth

Atodiad I cynefinoedd sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
3130 Dyfroedd sefyll oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant Littorelletea uniflorae a/neu y Isoëto-Nanojuncetea
3160 Llynnoedd a phyllau dystroffig naturiol
4010Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gyda gErica tetralix
91A0 Hen goedydd di-goes gyda'r dderwen fytholwyrdd a Blechnum yn Ynysoedd Prydain

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer nodwedd yr ACA: Corgors (UE 7130)**

***Gweledigaeth ar gyfer Nodwedd 1***
Y weledigaeth ar gyfer nodwedd â blaenoriaeth corgors yr ACA yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Bydd y cyfan o'r gorgors, yn cynnwys y mannau hynny y credir sy'n anffafriol neu wedi'u diraddio, yn cael ei gynnal yn ôl yr arwynebedd oedd yno pan gafodd ei ddynodi, cyfanswm o oddeutu 8100 ha. Ystyrir bod llystyfiant wedi'i fapio yn NVC M20, oddeutu 1700 ha ar hyn o bryd, wastad yn anffafriol. Mae ardal nodwedd y gorgors yn ymestyn i fannau lle mae'r gors, sy'n cynnwys rhostir gwlyb a glaswelltir asid, wedi'i newid yn sylweddol.
- Mae lleoliad a gwasgariad y gorgors yn cynyddu ar draul y llystyfiant llai dymunol.
- Caiff yr ardaloedd sydd wedi'u diraddio a'r gors sy'n anffafriol ar hyn o bryd eu rheoli dan raglen adfer fel bod arwynebedd a

gwasgariad y gorgors ffafriol yn cynyddu.

- Mae rhywogaethau nodweddiadol y cymunedau llystyfiant ac sy'n cynnwys nodwedd gorgors yr ACA yno'n aml.
- Cynhelir neu cynyddir toreth a gwasgariad planhigion angyffredin.
- Caiff strwythur y gorgors ei gynnal a'i adfer i gynnwys pyllau yn y corsydd, panylau, bryncynnau a phantiau fel nodwedd naturiol o wyneb y gors. Nid oes sianelau na ffosydd draenio arrtiffisial yno fel draeniau gweithredol. Dylai erydiad y mawn fod dan reolaeth ac wedi'i gyfyngu i sustemau erydu gwastadeddau sydd yn amlwg wedi hen ennill eu plwyf.
- Ni cheir rhywogaethau ymledol anfrodorol, megis conifferau, rhododendron, Canclwm Japan, Ffromlys chwarennog ac erwain helygddail *(Spiraea)* yn yr ACA ac mewn ardal ragod ar gyfer rhywogaethau penodol.
- Nid oes yr un goeden yn y gorgors.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer nodweddion ACA Rhostiroedd sych Ewropeaidd (UE 4030) a rhostir gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix* (UE 4010)**

***Gweledigaeth ar gyfer nodwedd 2***

Y weledigaeth ar gyfer nodweddion rhostir yr ACA yw bod ganddynt statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Bydd y cyfan o'r rhostir sych, yn cynnwys yr ardaloedd hynny sydd wedi'u diraddio (oddeutu 26000ha), o leiaf yn cael eu cynnal fel y maent pan gânt eu dynodi. Dylid rheoli'r mannau sydd wedi'u diraddio a mannau anffafriol o rostir sych eu hadfer dan raglen adfer. Dylai'r rhostir sych gynyddu ar draul y llystyfiant llai dymunol megis glaswelltir asid. Dylid o leiaf gynnal y cyfan o'r rhostir gwlyb, yn cynnwys yr ardaloedd hynny sydd wedi'u diraddio (oddeutu 400 ha) fel y maent ar y pryd pan gânt eu dynodi. Dylai'r rhostir gwlyb gynyddu'n gyffredinol ar draul llystyfiant llai dymunol. Efallai bod modd adfer rhai mannau o rostir gwlyb, sy'n orgors wedi'i diraddio, i'r cynefin â blaenoriaeth ar yr amod nad oes gwir golled o rostir gwlyb yn yr ACA .
- Bydd gwasgariad y rhostir sych a gwlyb o leiaf fel y'i gwelir ar Fapiau 1-4 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008) a bydd, o ddewis, yn cynyddu wrth iddo gael ei adfer mewn mannau ychwanegol.
- Bydd y rhywogaethau sy'n nodweddiadol o'r llystfiant sy'n cynnwys y rhostir sych a'r rhostir gwlyb, yn aml ac yn doreithiog. Gweler Tabl 1.
- Bydd toreth a gwasgariad planhigin anghyffredin (gweler Tabl 2) yn cael eu cynnal neu'n cynyddu.
- Dylid cynnal ac adfer strwythur y grug, i ddangos ei fod yn aildyfu'n naturiol trwy haenu a hadu, ac i sicrhau bod y cymunedau llystyfiant cydrannol yn naturiol wahanol (cyfeirer hefyd at 3 a 4 uchod). Yn ymarferol, bydd rhai llecynnau ar eu hennill o fod yn dalach gyda grug aeddfed iawn (e.e. NVC H 21). ac eraill, yn cynnwys rhostir gwlyb, ar eu hennill o gael strwythur canolig i fyr, llai na 30cm o uchder. Ni fydd arwyddion o orbori, yn cynnwys arferion twf 'wedi'i ddal yn ôl'' 'tocwaith' neu 'drymffyn' yn amlwg.
- Ni fydd rhywogaethau ymledol anfrodorol, megis conifferau, rhododendron, Canclwm Japan, Ffromlys chwarennog ac aerwain helygddail *(Spiraea)* yn yr ACA.
- Yn gyffredinol, ni fydd coed ar y rhostir ac, ar y mwyaf, ychydig yma ac acw a dim mwy na dwy yr hectar. Mae parthau trawsnewid o goetir i rostir yn eithriad i'r rheol hyn lle gall coed fod yn fwy trwchus ac yn graddio i fod yn rhostir agored. Dylid

gosod cyfyngiadau ar gyfer parthau trawsnewid fesul uned neu isuned.

- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.3 Amcanion Cadwraeth ar gyfer nodwedd ACA y llyn. Dyfroedd sefyll oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant y *Littorelletea uniflorae* a/neu y *Isoëto-Nanojuncetea* (UE 3130) ac ar gyfer llynnoedd a phyllau dystroffig naturiol (Côd UE 3160)**

***Gweledigaeth ar gyfer Nodwedd 3***

Y weledigaeth ar gyfer nodweddion llynnoedd oligotroffig i fesotroffig (dŵr clir) a dystroffig (mawnog) yr ACA yw bod ganddynt statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Bydd y cyfan o'r llynnoedd dŵr clir a mawnog yn cael ei gynnal fel a nodir ar fapiau 1 – 4 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008), oddeutu x ha o ddŵr agored / cors a basn llyn gerllaw, fel a welir ar luniau a dynnwyd o'r awyr . Yn y bôn, mae cyflwr y llyn wedi'i gysylltu i  gyflwr y dalgylch felly dylid cynnal cyflwr presennol y dalgylchoedd (yn cynnwys gorchudd llystyfiant, draenio a rheolaeth briodol h.y. dim gorbori a llosgi).
- Bydd lleoliad y llynnoedd dŵr clir a mawnog fel a nodir ar fapiau 1-4 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008) ac fel y cyfeirir atynt wrth eu henw yn y tabl 'Nodweddion ACA: Llynnoedd - Oligotroffig neu Ddystroffig' (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008: tud. 21).
- Bydd rhywogaethau nodweddiadol y cymunedau llystyfiant fel a restrir isod, ac yn cynnwys nodwedd llynnoedd dŵr clir yr ACA, yn gyffredin.

  Nodweddir y gymuned llystyfiant gan lystyfiant parhaol, byr, amffibiaidd, gyda beistonell merllyn *Littorella uniflora* yn cael ei ystyried y rhan ddiffiniol.  Yn aml, tyf y rhywogaeth hon gyda bidoglys y dŵr *Lobelia dortmanna*, dyfrllys y gors *Potamogeton polygonifolius*, gwair merllyn *Isoetes lacustris*, brwynen oddfog *Juncus bulbosus*, myrdd-ddail blodau bob yn ail *Myriophyllum alterniflorum a* chleddyflys arnofiol *Sparganium angustifolium*. Ar y Figneint-Arenig-Dduallt ceir yr holl rywogaethau uchod, ynghyd â'r lili ddŵr felen *Nuphar lutea*, y lili ddŵr wen *Nymphaea alba*, rhawn ebol hyblyg *Nitella flexilis*, y chwysigenddail lleiaf *Utricularia minor* a'r genedlaethol brin rhawn ebol main *Nitella gracilis*.

  Mae llynnoedd mawnog yn hynod asidig ac nid oes ynddynt faetholion planhigion.  Mae cynnwys yr asid hwmig yn eu dŵr yn uchel ac, fel arfer, mae lliw brown tywyll iddo oherwydd ei fod wedi bod yn agored i fawn. Mae'r rhan fwyaf o enghreifftiau yn fychan (llai na 5 ha mewn maint), bas ac yn cynnwys rhyw gymaint o fflora a ffawna, gyda *Sphagnum*, cleddyflys culddail a lilis y dŵr. Nid oes rhywogaethau yn y pyllau'n naturiol ac yn aml iawn nid oes glannau.  Llystyfiant ymylol yw'r nodwedd honno o'r cynefin lle ceir y pyllau.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

**4.4 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd coetir yr ACA : Hen goedydd di-goes gyda'r dderwen fytholwyrdd a Choetir Blechnum**

***Gwledigaeth ar gyfer Nodwedd 4***

Y weledigaeth ar gyfer nodweddion coetirol yr ACA yw bod ganddynt statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Bydd y cyfan o'r coetir, yn cynnwys canopi'r coed a phrysgwydd y coetir, y llennyrch a'r grug sych, rhedyn a glaswelltir cysylltiedig yn cael ei gynnal fel a nodir ar y map, yn yr atodiad - o 67 ha yn ogystal â mannau o oddeutu13ha (heb ei fapio), yn rhoi cyfanswm o oddeutu 80 ha. Ar hyn o bryd, mae coed llydanddail a phrysgwydd yn gorchuddio oddeutu 0.4% o'r safle (a rhedyn dros 2% (oddeutu 450 ha).
- Bydd lleoliad nodwedd coetir yr ACA fel y'i gwelir ar Fapiau yn Atodiad 1. Mae'r coetiroedd yn cynnwys Coed Dôl- Fudr (SH 831318), Coed Gordderw (SH838336), Coed Maen y Menyn (SH 848354) a Choed Boch-y-Rhaeadr (SH 843398).
- Ni fydd canran canopi'r coed yn y coetir (gweler mapiau 1-40) yn llai nag 85% (ac eithrio pan fo trychinebau naturiol).
- Yn y gorchudd a'r prysgwydd mae rhywogaethau brodorol lleol, fel a nodir yn nhabl 2, sy'n nodweddiadol o'r coed tir uchel hyn, lle mae coed bedw'n amlycach na choed derw o'u cymharu ag enghreifftiau o nodwedd hon yr ACA sydd ar dir isel.
- Bydd digon o goed a phrysgwydd brodorol, lleol yn aildyfu'n naturiol er mwyn cynnal canopi a haen prysgwydd y coetir, trwy lenwi bylchau a chaniatáu i goed bychain dyfu ac annog strwythur oedran amrywiol.
- Bydd rhywogaethau nodweddiadol o orchudd llawr y coetir yn gyffredin, gweler Tabl 3.
- Mae'n bwysig i ran fwyaf o goetir yr ACA nad yw'r llystyfiant yn mynd yn drwchus ac yn gordyfu mwy na 40cm a/neu'n cael ei drechu gan rywogaethau megis mieri, eiddew a chelyn ifanc. Efallai y cyfyngir yn ôl unedau neu elfennau. Dylai planhigion nodweddiadol is yn cynnwys rhywogaethau cefnforol (cyfeirer at Dabl 2 isod am restr mynegiannol lle ceir cofnodion y gwyddys amdanynt eu ticio) barhau i fod yn doreithiog a/neu i gael eu cynnal.
- Bydd toreth a gwasgariad mwsoglau, llysiau'r afu a chenau anghyffredin a nodweddiadol yn cael eu cynnal neu'n cynyddu.
- Bydd nifer ddiffiniedig o goed aeddfed fesul hectar dan ganopi'r coed presennol, a hynny yn ôl unedau. Bydd angen diffinio hyn wrth y diamedr ar gyfer y coed ar dir uchel lle mae diamedr coed tebyg yn is i lawr oddeutu 60cm a throsodd ar goed derw ac ynn a/neu ar goed sydd ag arwyddion o ddirywiad, tyllau ac ati.
- Bydd coed marw ar y safle a byddant yn gymysgedd o goed wedi syrthio (o leiaf un yr hectar), canghennau wedi torri, canghennau marw ar goed byw a choed marw'n sefyll (o leiaf un yr hectar). Ychydig o goed marw sydd yno ar hyn o bryd oherwydd bod oedran y coed yn y coetiroedd yn eithaf tebyg ac nid oes coed aeddfed na choed marw yno. Mae rhai o blanhigion is yn arbenigwyr ar goed marw ond nid yw'r creaduriaid di-asgwrn-cefn prin hyn sydd i'w cael yng ngweddill y DG yn y coetiroedd hyn.
- Ni cheir rhywogaethau ymledol anfrodorol, megis rhododendron, Canclwm Japan a Ffromlys chwarennog.
- Mae'r holl ffactorau sy'n cael effaith ar gyflawni'r amodau hyn dan reolaeth.

At hyn, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad ynghlwm wrtho. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r Amcan Cadwraeth, yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w ddisodli. Rhaid i waith asesu cynlluniau a phrosiectau fod wedi'u seilio ar y cyfan o'r Amcanion Cadwraeth, nid ar y dangosyddion perfformiad yn unig. Mae'r dangosyddion perfformiad i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA/AGA Migneint-Arenig-Dduallt (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Bygythiadau**

Dulliau pori/llosgi/draenio amhriodol yw'r prif fygythiadau i nodweddion llystyfiant y safle hwn o ac, o'r herwydd, caiff y gorgors a'r rhostir eu diraddio. Mae gwaith coedwigaeth ar fignenni a rhostiroedd hefyd wedi bod yn broblem yn y gorffennol. Rhoddir sylw i'r problemau hyn trwy nifer o gytundebau
cynlluniau amaethyddol-amgylcheddol (Tir Cymen/Tir Gofal) a sawl cytundeb Adran15. At hyn, mae prosiect ar y cyd rhwng y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar/ y Fenter Goedwigaeth/ Ceiliog Du y CCGC wedi bod o gymorth i adfer y gorgors a'r rhostir mewn rhai mannau yr oedd conifferau wedi'u plannu yno cynt.

Mae nodweddion llystyfiant a'r llynnoedd mewn perygl o gael eu hasideiddio oherwydd llygredd atmosfferig, a wneir yn waeth oherwydd y glaw cyson a gaiff y safle, a'i ddaeareg / priddeg. Mae calchio'r dalgylch gyda dulliau artiffisial hefyd yn fygythiad ychwanegol.

Yn y gorffennol, mae gwaith chwarelyddol wedi cael effaith sylweddol ar y safle hwn gan arwain at ddinistro cynefinoedd.

## ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn

**Trosolwg**

Mae ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yn cynnwys dwy system twyni tywod – Morfa Harlech i'r gogledd a Morfa Dyffryn i'r de. Mae Morfa Harlech yn system dwyni sy'n cronni'n gyflym, ac yn casglu tywod o'r arfordir i'r de, gan gynnwys y system dwyni yn Morfa Dyffryn sy'n erydu.

Bydd yr amrywiol gymunedau twyni tywod yn ehangu drwy brosesau naturiol ar draul twyni eraill. Gallai hyn effeithio ar faint nodweddion unigol yr ACA, fodd bynnag, mae prosesau deinamig y twyni tywod ynghyd â'u cymunedau llystyfiant cysylltiedig yn nodwedd werthfawr o systemau twyni'r arfordir. Y broblem fwyaf bosib yw'r twyni'n sefydlogi, a thrwy hynny o bosib colli cymunedau llystyfiant arloesol i gymunedau twyni tywod sefydlog.

Mae system twyni tywod Morfa Harlech yn cronni ac mae o bwysigrwydd mawr am ei nodweddion olyniaethol cynnar, yn cynnwys ei thwyni symudol a'i thwyni embryonig. Mae'r ardal o dwyni sydd i ffwrdd o'r traeth yn sefydlog iawn, gydag ychydig iawn o dywod noeth.

Mae'r llaciau twyni yn Morfa Harlech yn amrywio o laciau sychach sy'n ymdoddi i laswelltiroedd twyni sefydlog i laciau gwlyb iawn sy'n cael llifogydd yn aml ac yn cynnal cymunedau o lystyfiant yn debyg i'r hyn a geir mewn corsydd.

Er bod *Petalophyllum ralfsii* wedi'i gofnodi yn Morfa Harlech, mae'r diffyg llaciau ifanc yn y system hon yn golygu nad oes llawer o'r rhywogaeth hon yma.

Mae Morfa Dyffryn yn system sy'n erydu, ac mae'n hynod o symudol. Mae cyfran uchel o'r safle wedi'i wneud o dywod noeth. Mae twyni symudol yn ymestyn o'r lan hyd at ffiniau'r system dwyni tua'r tir, a cheir llaciau twyni helaeth rhyngddynt.  Mae'r llystyfiant yn y llaciau yn amrywio o gynefinoedd arloesol llaciau newydd, cymunedau olynol llaciau ifanc sy'n cynnal mwyafrif y boblogaeth *Petalophyllum ralfsii*, i laciau twyni aeddfed sy'n gyfoeth o rywogaethau.

**Nodweddion Cymhwyso**

Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm am ddewis y safle hwn:
2110 Twyni embryonig symudol
2120 Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag *Ammophilia arenaria* ('twyni gwyn')
2170 Twyni gyda *Salix repens*, isrywogaeth *argentea* (*Salicion arenariae*)
2190 Llaciau twyni llaith

Cynefinoedd Atodiad II sy'n brif reswm am ddewis y safle hwn:
1395 Petalys  *Petalophyllum ralfsii*

**Amcanion cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1:  Twyni symudol embryonig (Cod Cynefin UE: 2110)**

***Y Weledigaeth ar gyfer Nodwedd 1***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
- Mae'r twyni symudol embryonig yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys yr ardaloedd hynny yr ystyrir eu bod yn anffafriol neu'n israddedig ar hyn o bryd, yn cael eu cynnal yn yr ardal oedd yn bodoli pan y'u dynodwyd.
- Dylai'r llystyfiant ar y draethlin a'r twyni embryonig fod wedi'i wneud o rywogaethau nodweddiadol a restrir yn nhabl 5 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008: pp. 13).
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2:  Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag *Ammophila arenaria* (Cod Cynefin UE: 2120)**

***Y Weledigaeth ar gyfer Nodwedd 2***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
- Mae'r twyni symudol yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys yr ardaloedd hynny yr ystyrir eu bod yn anffafriol neu'n israddedig ar hyn o bryd, yn cael eu cynnal yn yr ardal oedd yn bodoli pan y'u dynodwyd; tua 18.9ha yn Morfa Harlech, ar hyd crib y twyni tua'r môr

a thua'r tir yn unedau 1, 3, 4 a 5 ac o leiaf 82ha o dwyni symudol yn Morfa Dyffryn, a ddylai fod wedi'u dosbarthu drwy unedau 28, 27, 26, 24 a 23.

- Dylai'r llystyfiant ar y twyni symudol fod yn cynnwys rhywogaethau megis y rheini a restrir yn nhabl 8 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008: pp. 19).
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**Llaciau Twyni Llaith (Cod Cynefin UE 2190): Nodwedd 3 Twyni gyda *Salix repens* (Cod Cynefin UE 2170): Nodwedd 4 Llaciau twyni yn cynnwys y cymunedau a ganlyn o'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC): SD13, SD14, SD15, SD16 a SD17.**

***Y Weledigaeth ar gyfer Nodweddion 3 a 4***

Y weledigaeth ar gyfer y nodweddion hyn yw iddynt fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae'r holl laciau twyni llaith a'r twyni gyda *Salix repens*, gan gynnwys yr ardaloedd hynny yr ystyrir eu bod yn anffafriol neu'n israddedig ar hyn o bryd, yn cael eu cynnal yn yr ardal oedd yn bodoli pan y'u dynodwyd; tua 65.1 ha yn Morfa Harlech a 43.6 ha yn Morfa Dyffryn.
- Dylai holl gyfnodau olyniaethol llystyfiant y llaciau twyni fod yn bresennol yn Morfa Dyffryn.
- Dylai'r llystyfiant ar y llaciau twyni llaith fod yn cynnwys rhywogaethau nodweddiadol a dymunol megis y rheini a amlinellir yn y tabl isod.
- Dylai'r llystyfiant ar y llaciau fod yn rhydd o brysg, a dylai'r glaswellt fod yn gymharol fyr.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 5: Petalys *Petalophyllum ralfsii* (Cod Cynefin UE 1395)**

***Y Weledigaeth ar gyfer Nodwedd 5***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bydd poblogaeth y *Petalophyllum* yn aros yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Dylai'r rhywogaeth *Petalophyllum* fod yn bresennol yn Morfa Harlech a dylai fod wedi'i dosbarthu ar draws rhan ogleddol system twyni tywod Morfa Dyffryn (Unedau 26 a 28).
- Dylai'r dilyniant o laciau twyni ifanc sy'n cynnal y *Petalophyllum* fod mewn cyflwr da, fel y diffinnir yn yr amcan cadwraeth ar gyfer nodweddion 3 a 4 uchod.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

Yn ogystal, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, ond nid yn rhywbeth sy'n ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd ynghyd ag Amcanion Cadwraeth ar gyfer **Ardal Cadwraeth Arbennig Morfa Harlech a Morfa Dyffryn** (Cyngor Cefn Gwlad

Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau bregusrwydd**

Mae'r traethau cyfagos i'r ddwy system dwyni yn gaeth i bwysau mawr gan weithgareddau hamdden, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Caiff pwyntiau mynediad drwy'r twyni eu rheoli'n llym i gyfyngu ar weithgareddau dynol sy'n ansefydlogi'r twyni. Mae Morfa Dyffryn yn arbennig o fregus gan ei fod yn symudol iawn, a'r cyflenwad allanol o dywod iddo yn gyfyngedig. Mae rhannau o'r ddau dwyn yn cael eu rheoli fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ers diwedd yr 1950au (Morfa Harlech) a dechrau'r 1960au (Morfa Dyffryn).

## ACA Preseli

**Trosolwg**

Mae SoDdGA eang Mynydd Preseli a thiroedd comin llai SoDdGA Waun Fawr, Waun Isaf a Gors Fawr yn sylfaen i ACA Preseli. Mae Mynydd Preseli a Gors Fawr wedi'u cysylltu'n ffisegol, tra bod Waun Isaf a Waun Fawr yn adrannau ar wahân yn yr ACA. Yn ogystal â nodweddion yr ACA, mae'r ddau SoDdGA yn cynnwys nifer o rywogaethau a nodweddion cynefin nad ydynt yn gwneud y safle'n gymwys dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

**Nodweddion Cymhwyso**

Cynefinoedd Atodiad I sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn:
4010 Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix*
4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd
7150 Pantiau ar is-haenau mawn y *Rhynchosporion*
7230 Corsydd alcalinaidd

Cynefinoedd Atodiad II sy'n brif reswm am ddewis y safle hwn:
1044 Mursen y de *Coenagrion mercuriale*
1065 Glöyn byw brith y gors *Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia*
1393 Mwsogl pluog main gwyrdd *Drepanocladus* (*Hamatocaulis*) *vernicosus*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Mursen y De *Coenagrion mercuriale***

***Y Weledigaeth ar gyfer Mursen y De***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bydd dwysedd yr oedolion gwryw, wrth eu samplo, yn o leiaf 1 gwryw i bob 10 metr sgwâr o gynefin bridio.
- Bydd yna o leiaf 3,500 metr sgwâr o gynefin bridio.
- Bydd yr holl ffactorau sy'n effeithio ar y nodwedd o dan reolaeth.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Glöyn byw Brith y Gors *Euphydryas aurinia***

***Y weledigaeth ar gyfer glöyn byw Brith y Gors***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
Bydd poblogaeth iach o'r glöyn byw brith y gors yn bresennol yn yr ACA ac o'i hamgylch. Bydd digon o gynefin sydd mewn cyflwr da i gynnal nifer o boblogaethau dilys o'r glöyn byw, sy'n ddibynnol yma ar laswelltir corslyd a thir gwlyb, gyda thwmpathau o laswellt y gweunydd a digonedd o brif blanhigyn bwyd y lindysyn, sef tamaid y cythraul. Bydd y gwair yn amrywio mewn uchder fel bod yn ardaloedd 'lawnt' byrion i'r lindys gael golau haul, ac ardaloedd o dwmpathau talach i roi lloches iddynt.
*Ar gyfer y ddwy meta-boblogaeth sy'n bresennol yn yr ACA:*

- Dylai fod yna o leiaf 200 gwe larfa fesul hectar o Gynefin Cyflwr Da.
- Dylai fod yna o leiaf 50ha o Gynefin Addas ar yr ACA, neu o fewn radiws o 2km o'i hamgylch.
- Dylai o leiaf 10ha o'r cynefin addas hwn fod yn Gynefin Cyflwr Da.
- Rhaid i'r holl ffactorau sy'n effeithio ar y nodwedd fod o dan reolaeth.

**4.3 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 3: Mwsogl pluog main gwyrdd *Hamatocaulis vernicosus***

***Y Weledigaeth ar gyfer Mwsogl Pluog Main Gwyrdd***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
Mae mwsogl pluog main gwyrdd yn nodwedd gymhwyso yn yr ACA, ond canfuwyd ei fod i'w weld yn amlach, a bod mwy ohono yn ACA Preseli ac yn wir mewn nifer o safleoedd eraill yng Nghymru nag a feddyliwyd o'r blaen. Yn wyneb hyn, penderfynwyd trin y nodwedd fel rhan o'r nodwedd SoDdGA mwsogl anghyffredin ar ddaear damp.

**4.4 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 4: Corsydd alcalinaidd**

***Y Weledigaeth ar gyfer Corsydd Alcalinaidd***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
Bydd corsydd alcalinaidd yn bresennol mewn rhannau ar draws y safle, ac yn arddangos amrediad o rywogaethau planhigion a phryfaid sy'n nodweddiadol o'r cynefin, gan gynnwys mursen y de. Bydd y tiroedd gwlyb sy'n cynnal y cynefin penodol hwn yn

cynnwys llystyfiant byr, agored sy'n llawn mwsogl, hesg a phlanhigion sy'n nodweddiadol o amodau llai asidig.

- Bydd corsydd alcalinaidd yn bresennol mewn wyth o'r 10 ardal binc a welir ar y map atodol (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008)
- Bydd rhywogaethau sy'n nodweddiadol o dir gwlyb, megis Menyanthes trifoliata, Triglochin palustre, Anagallis tenella, Pedicularis palustris a Pinguicula vulgaris yn bresennol.
- Ni fydd llawer o rywogaethau prysg yno, megis yr helygen *Salix* a'r fedwen *Betula*.

**4.5 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 5: Pantiau ar is-haenau mawn y Rhynchosporion**

***Y Weledigaeth ar gyfer Pantiau ar is-haenau mawn y Rhynchosporion***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
Mae pantiau ar is-haenau mawn yn fath o gynefin sydd fel arfer yn digwydd mewn mosaigau cymhleth gyda chynefinoedd rhostir a thir gwlyb. Bydd y llystyfiant yn agored, ac yn cynnwys digonedd o rywogaethau megis yr hesgen bigwen *Rhynchospora alba*, mwsogl y gors *Sphagnum auriculatum*, cnwpfwsogl y gors *Lycopodiella inundata*, a gwlith yr haul *Drosera rotundifolia*. Nid yw maint y cynefin hwn ar y safle wedi'i ddiffinio'n glir eto, ond credir ei fod yn ffurfio tua 1-2% o arwynebedd y safle cyfan.

- Bydd pantiau ar is-haenau mawn y Rhynchosporion i'w gweld ar tua 1-2% o'r ACA, a byddant yn bresennol mewn o leiaf dwy uned reoli (unedau 2 a 3 ar hyn o bryd).
- Bydd y planhigion a ganlyn yn gyffredin:  yr hesgen bigwen *Rhynchospora alba*, mwsogl y gors *Sphagnum denticulatum*, gwlith yr haul *Drosera rotundifolia,* ac mewn safleoedd sy'n fwy basig, mwsogl brown megis *Drepanocladus revolvens* a *Scorpidium scorpioides*.
- Bydd y llystyfiant yn yr ardaloedd hyn fel arfer yn agored iawn, a bydd rhywogaethau cystadleuol sy'n arwydd o ddiffyg pori, megis glaswellt y gweunydd *Molinia caerulea*, yn cael eu rheoli.
- Ni fydd fawr ddim o rywogaethau prysg yno, megis yr helygen *Salix* a'r fedwen *Betula*.

**4.6 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 6: 4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd**

***Y Weledigaeth ar gyfer Rhostiroedd Sych***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bydd rhostir sych yn gorchuddio o leiaf 11%2 o SoDdGA Mynydd Preseli ac yn arddangos amrediad o rywogaethau planhigion, pryfaid ac adar sy'n nodweddiadol o'r cynefin.
- Bydd y planhigion a ganlyn yn gyffredin yn y rhostir sych: grug *Calluna vulgaris*; grug clochog *Erica cinerea* ac eithin y mynydd *Ulex gallii*
- Bydd rhywogaethau cystadleuol sy'n arwydd o ddiffyg pori, megis rhedyn *Pteridium aquilinum*, glaswellt y gweunydd *Molinia caerulea* ac eithin y mynydd *Ulex gallii* yn cael eu rheoli.

**4.7 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 7: 4010 Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix***

***Y Weledigaeth ar gyfer Rhostiroedd Gwlyb***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
Bydd rhostir gwlyb yn gorchuddio o leiaf 11%3 o'r safle ac yn arddangos amrediad o rywogaethau planhigion sy'n nodweddiadol o'r cynefin. Bydd y rhan fwyaf o'r rhostir gwlyb yn cynnwys cymysgedd o dwmpathau o laswellt y gweunydd, a wahenir gan ddarnau wedi'u pori'n dda ac sy'n llawn clwbfrwyn y mawn, mwsogl y gors a grug megis y grug deilgroes. Dylai cyfran o'r cynefin hefyd gynnwys ystod o hesg byr a phlanhigion blodeuol, megis gwlith yr haul.

- Bydd y planhigion a ganlyn yn gyffredin yn y rhostir gwlyb: grug *Calluna vulgaris*; grug deilgroes *Erica tetralix*; glaswellt y gweunydd *Molinia caerulea;* llafn y bladur *Narthecium ossifragum*; hesg byrion, rhywogaethau *Carex*; mwsogl yn cynnwys rhywogaethau *Sphagnum* mwsogl y gors; tamaid y cythraul *scabious Succisa pratensis*.
- Bydd rhywogaethau cystadleuol sy'n arwydd o ddiffyg pori, yn enwedig Glaswellt y Gweunydd *Molinia caerulea* ac Eithin y Mynydd *Ulex gallii* yn cael eu rheoli.
- Ni fydd llawer o redyn a rhywogaethau prysg, megis yr helygen *Salix* a'r fedwen *Betula*, yn y rhostir gwlyb.

Yn ogystal, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, ond nid yn rhywbeth sy'n ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA (Ardal Cadwraeth Arbennig) Preseli (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau bregusrwydd**

Mae'r *Coenagrion mercuriale* angen llystyfiant rhostir gwlyb agored sydd wedi'i bori'n dda, ynghyd â llystyfiant mignen gyda nentydd neu ffrydiau bychain. Mae'r *Drepanocladus vernicosus* angen llethrau corslyd lle mae dŵr ffynnon yn llifo iddynt, a lle mae'r llystyfiant yn tyfu'n weddol isel. Felly mae'r ddwy rywogaeth yn sensitif i lefelau amhriodol o bori, neu i ddim pori o gwbl. Mae parhad y cynllun presennol ar gyfer pori cymedrol i uchel yn ystod yr haf yn hanfodol, ond mae'n anodd dylanwadu arno oherwydd statws tir comin y safle, a'r nifer uchel o hawliau cofrestredig. Mae'r trawstrefa presennol yn y gaeaf i ardal Castell Martin darpar ACA Arfordir Calchfaen De-orllewin Cymru yn rhan hanfodol o gynllun bugeilio'r ucheldir hwn.

Mae asideiddio ar y safle uwchdir hwn yn fygythiad, ac mae monitro atmosfferig yn digwydd mewn GNG gerllaw. Mae'n hanfodol monitro cemeg y dŵr a maint y boblogaeth *Coenagrion mercuriale*. Eir i'r afael â'r materion hyn mewn cynllun rheoli, sydd wrthi'n cael ei baratoi.

## ACA Rhinog

**Trosolwg**

Mae'r Rhinogydd wedi'u cerfio o raean Cambrian caled, asidig cromen Harlech, ac mae'r topograffi'n arw gyda llynnoedd gwasgaredig ar yr ucheldir, llethrau â chreigiau anferth arnynt, clogwyni a brigiadau.

Mae lleoliad daearyddol y safle yn golygu bod y môr yn dylanwadu ar yr hinsawdd, gan arwain at lawiad uchel, tymereddau cymedrol a lleithder uchel yn gyffredinol. Y prif lystyfiant yno yw'r grug *Calluna vulgaris*, sy'n tyfu ar briddoedd tenau, gwael ac asidig. Mae pori a llosgi dros y 60 mlynedd diwethaf wedi bod yn eithaf cyfyngedig, felly mae'r grug yn ddwfn ac yn aeddfed. Mae hyn, ynghyd â'r amodau hinsoddol mwyaf, wedi arwain at fflora cyfoethog o blanhigion *bryophyte* a rhedyn ar y ddaear. Mae'r safle hwn yn unigryw yng Nghymru fel enghraifft o gynefin *Calluna* o'r fath sydd heb ei addasu.

Ar lethrau cysgodol, mae'r safle'n cynnwys beth yr ystyrir yw'r datblygiad gorau o'r gymuned grug isalpaidd *Calluna vulgaris-Vaccinium myrtillus-Sphagnum capillifolium* y tu allan i'r Alban; mae'r gymuned hon yn ffurfio rhan o nodwedd rhostir sych yr ACA hwn. Mae mathau NVC eraill a welir yma yn cynnwys grug *Calluna vulgaris-Ulex gallii*, grug *Calluna vulgaris-Erica cinerea* a grug *Calluna vulgaris-Vaccinium myrtillus*. Mae cerlannau eang wedi galluogi gorgorsydd, rhostir gwlyb a chorsydd dyffryn i ddatblygu yma. Yn wahanol i nifer o ardaloedd uwchdir, mae yma dal weddillion da o goetir cynhenid sy'n cynnal planhigion is a rhedyn cefnforol.

Mae diddordeb y cyhoedd yn y safle wedi'i gyfyngu i heicio ac ychydig o wersylla. Fodd bynnag, o'i gymharu â rhanbarthau mynyddig eraill yng ngogledd Cymru, mae'r diddordeb cyhoeddus yn isel dros ben.

Mae ACA Rhinog yn cynnwys SoDdGA Rhinog, ac mae'n gorchuddio pob man heblaw'r prif adrannau coetir yn y SoDdGA. Mae'r rhannau hyn yn ffurfio rhan o ACA Coedydd Derw Meirionnydd, ac nid ymdrinnir â'r rhain yn y cynllun hwn. Cafodd y Warchodfa Natur Genedlaethol, y mae CCGC yn berchen arni ac yn ei rheoli, ac sy'n ffurfio rhan o'r safle, ei dynodi'n Warchodfa Fiogenetig yn 1992.

**Nodweddion Cymhwyso**

Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm am ddewis y safle hwn:
4030 Rhostiroedd sych Ewropeaidd
91A0 Hen goedydd derw â mes digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain

Cynefinoedd Atodiad I sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm am ddewis y safle hwn:

3130 Dyfroedd llonydd oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant *Littorelletea uniflorae ac/neu Isoëto-Nanojuncetea*
4010 Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix*
4060 Rhostiroedd Alpaidd a Boreal
7130 Gorgorsydd * Nodwedd flaenoriaeth
7150 Pantiau ar is-haenau mawn y *Rhynchosporion*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcanion Cadwraeth ar gyfer Rhostiroedd sych Ewropeaidd (UE 4030) a rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gyda nodweddion ACA Erica tetralix (UE 4010)**

**Y Weledigaeth**
Y weledigaeth ar gyfer nodweddion ACA y rhostiroedd hyn yw iddynt fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- 1 Bydd holl ardal y rhostir sych, sy'n tua 1419 ha, yn cael ei chynnal a'i chadw. Dylai'r ardal o rostir sych gynyddu ar draul cymunedau o lystyfiant llai dymunol megis glaswelltir asid, pan fo hynny'n briodol. Bydd holl ardal y rhostir gwlyb, sy'n tua 324ha, yn cael ei chynnal a'i chadw. Dylai'r ardal o rostir gwlyb gynyddu ar y cyfan ar draul cymunedau o lystyfiant llai dymunol. Gellir adfer rhai ardaloedd o'r rhostir gwlyb sydd bellach yn orgorsydd israddedig i'r cynefin blaenoriaeth hwnnw, cyn belled â bod cynnydd net o rostir gwlyb yn yr ACA.
- 2 Bydd y rhostir sych a gwlyb wedi'u dosbarthu i'r un graddau ag y maent ar hyn o bryd o leiaf, ac yn well byth yn cynyddu wrth i'r rhostir gael ei adfer mewn ardaloedd ychwanegol.
- 3 Bydd digonedd o rywogaethau nodweddiadol ac anghyffredin y cymunedau llystyfiant ar y rhostir sych a gwlyb, gan gynnwys planhigion is, i'w gweld ym mhob man. Dylai'r llys yr afu *Gymnocolia acutiloba,* sy'n genedlaethol brin, barhau i ffynnu yn ei leoliadau presennol yn y rhostir creigiog llaith.
- 4 Dylai strwythur y rhostir fod yn cael ei gynnal a'i adfer, i ddangos aildyfu naturiol drwy haenu a hadu, ac i sicrhau bod y gwahanol gymunedau llystyfiant yn amrywio'n naturiol (gweler cyfeiriad at 3 uchod hefyd). Bydd rhosydd gwlyb yn aml yn elwa o gael strwythur canolig i fyr, llai na 30cm o uchder. Ni fydd arwyddion o orbori, gan gynnwys twf 'wedi'i atal, twf 'wedi'i docio' neu dwf ar ffurf 'ffon' yn bresennol.
- 5 Ni fydd rhywogaethau ymledol nad ydynt yn rhai cynhenid, megis coed conwydd, rhododendron, Llysiau'r Dial, Ffromlys Chwarennog ac erwain helygddail (*Spirea)* yn bresennol.
- 6 Bydd arwyneb y rhostir ar y cyfan yn rhydd o goed, ac ar y mwyaf dim ond dwy goeden yr hectar fydd yno. Yr eithriad i'r rheol hon yw parthau sy'n trawsnewid o goetir i rostir, lle gall y coed fod yn fwy trwchus wrth iddynt ymdoddi i rostir agored. Dylid gosod terfynau ar gyfer parthau trawsnewid coetir ar sail uned neu is-uned.
- 7 Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer y Nodwedd ACA coetir: Hen goedwigoedd derw â mes digoes gyda Choetir *Ilex* a Blechnum"**

**Y Weledigaeth**

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd ACA coetir yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bydd holl ardal y goedwig, gan gynnwys canopi a phrysg y coetir, llennyrch coedwig a rhostir sych, rhedyn a glaswelltir cysylltiedig yn cael ei chynnal a'i chadw fel y mae ar hyn o bryd, sef dipyn dros 42 ha. Mae'r nodwedd coetir yn fras mewn pump 'parth' cysylltiedig i'r gorllewin a'r de-orllewin o Lyn Cwm Bychan.
- Bydd lleoliad y nodwedd ACA coetir fel y mae ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o'r coetir yn SoDdGA Rhinog heb ei gynnwys yn ACA Rhinog, ac wedi'i gynnwys yn ACA Coedwigoedd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd (cyfeiriwch at y cynllun ACA hwnnw). Y coetir sy'n rhan o'r nodwedd hon yw'r coetir lle, yn gyffredinol, nad oes ffin glir rhwng y rhostir, y gors, y glaswelltir asid a'r rhedyn. Yn wir, mae'r trawsnewid ymysg y cynefinoedd hyn i goetir yn ddiddorol ynddo'i hun, ond yn gwneud mesur maint y goedwig yn anodd iawn.
- Bydd y canran y mae canopi'r coed yn ei orchuddio yn ardal y goedwig yn aros fel y mae ar hyn o bryd, neu'n cynyddu (ac eithrio digwyddiadau catastroffig naturiol).
- Mae'r haenau canopi a phrysg yn cynnwys rhywogaethau cynhenid lleol, fel y dengys Tabl 2 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008: pp.19), sy'n nodweddiadol o'r coetir ucheldir hwn, lle tueddir i gael llai o goed derw a mwy o goed bedw nag yn ardaloedd iseldir y nodwedd ACA hon.
- Bydd coed a phrysglwyn cynhenid lleol yn aildyfu'n naturiol i raddau digonol er mwyn cynnal haen canopi'r goedwig a'r prysglwyn, drwy lenwi bylchau, uno darnau o goetir, gadael i goed ifanc dyfu ac annog oedrannau amrywiol.
- Bydd rhywogaethau'r nodwedd ACA coetir a geir fel arfer ar haen y ddaear yn rhywogaethau cyffredin, gweler Tabl 2 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008: pp.19). Mae'n bwysig nad yw'r llystyfiant yn mynd yn rhy doreithiog ac yn gordyfu i uchder dros 40cm, ac/neu'n cael ei lethu gan rywogaethau megis mieri, eiddew a chelyn ifanc. Gellir gosod terfynau ar sail uned neu adran. Dylai planhigion nodweddiadol is, gan gynnwys rhywogaethau cefnforol (cyfeiriwch at Dabl 1 isod am restr ddangosol (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008: pp.18/19)) barhau i dyfu'n drwchus a chael eu cynnal.
- Bydd nifer a dosbarthiad mwsogl anghyffredin, llys yr afu, cennau a rhedyn yn aros fel y maent neu'n cynyddu.
- Bydd nifer diffiniedig o goed aeddfed fesul hectar oddi mewn i'r canopi coed presennol, ar sail uned. Bydd angen diffinio hyn yn ôl diamedr ar gyfer y sefyllfa ar yr ucheldir, lle mae diamedr coed cymharol ar uchder is yn tua 60cm, ac ar gyfer coed derw ac ynn ac/neu goed sy'n dangos arwyddion o bydredd, tyllau ac ati.
- Bydd pren marw yn bresennol ac yn cynnwys cymysgedd o goed wedi disgyn (lleiafswm o 1 fesul hectar), canghennau wedi torri, canghennau marw ar goed byw, a choed marw sydd dal yn sefyll (lleiafswm o 1 fesul hectar). Mae lefelau pren marw ar hyn o bryd yn gymharol isel oherwydd bod gan y coedwigoedd, yn gyffredinol, strwythur oedran cyfartal, heb lawer o goed aeddfed. Mae rhai planhigion is yn ffynnu ar goed marw, ond nid yw'r coedwigoedd hyn yn dueddol o gael y casgliadau prin o anifeiliaid di-asgwrn-cefn ar goed marw, fel y ceir mewn rhannau eraill o'r DU.
- Ni fydd rhywogaethau ymledol nad ydynt yn rhai cynhenid yn bresennol, megis coed conwydd a rhododendron, coed castan pêr, Llysiau'r Dial a Ffromlys Chwarennog.

- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.3 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd ACA: Gorgors (UE 7130)**

***Y Weledigaeth***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd flaenoriaeth hon, sef ACA Gorgors, yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae cyfanswm yr ardal orgors, sy'n tua 231 ha, yn cael ei gynnal.
- Mae lleoliad a dosbarthiad yr orgors yn cael eu cynnal.
- Mae yma ddigonedd o rywogaethau nodweddiadol y cymunedau llystyfiant a geir yn nodwedd ACA'r orgors. Mae swmp yr orgors wedi'i wneud o gors *Trichophorum- Eriophorum* (M17), gydag ardaloedd mwy lleol o gors *Calluna – Eriophorum* (M19). Gweler Tabl 1.
- Caiff nifer a dosbarthiad planhigion anghyffredin, sy'n aml yn arwydd o ansawdd da, eu cynnal neu eu cynyddu.
- Caiff strwythur yr orgors ei chynnal a'i hadnewyddu pan fo hynny'n briodol i gynnwys pyllau mawnog, pantiau, ponciau a cheudyllau fel nodweddion naturiol arwyneb y gors. Ni fydd ffosydd draenio artiffisial neu *moor grips* yn cael eu defnyddio fel draeniau gweithredol. Ni ddylai fod yna ardaloedd mawr lle mae'r mawn wedi erydu.
- Ni fydd rhywogaethau ymledol nad ydynt yn rhai cynhenid megis coed conwydd, rhododendron, Llysiau'r Dial, Ffromlys Chwarennog ac erwain helygddail *Spirea* yn bresennol yn yr ACA ac mewn ardal 'byffer' i rywogaethau penodol.
- Bydd yr orgors yn rhydd o unrhyw goed.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.4 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd: Rhostiroedd Alpaidd ac Isalpaidd (Cod Cynefin UE: 4060)**

***Y Weledigaeth ar gyfer rhostiroedd alpaidd***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Caiff maint y rhostir alpaidd ac isalpaidd (sydd ar hyn o bryd yn 5.1 ha o NVC H14 ac o bosib llai na 1 ha o U10a – heb ei fesur) ei gynnal i fod mor fawr â phosib fel ei fod yn gorchuddio'r holl ardal sy'n addas iddo ddatblygu arni. Mae'n annhebygol y bydd maint y rhostir yn cynyddu'n fawr yma gan fod y rhan fwyaf o'r ardaloedd addas eisoes yn NVC H14.
- Bydd lleoliad ac amrediad y rhostiroedd alpaidd ac isalpaidd yn cynnwys copaon Rhinog Fawr, Rhinog Fach a darnau unigol o amgylch Craig Wion ynghyd ag Y Llethr, sydd ar hyn o bryd yn cynnal rhannau bychain o rostir mwsogl (U10a) ar laswelltir asidig NVC U4e.
- Cyfansoddiad llystyfiant: Bydd y planhigion nodweddiadol a ganlyn yn gyffredin yn rhostir NVC H14: *Calluna vulgaris, Vaccinium myrtillus, V.vitis-idaea, Empetrum nigrum, Racomitrium lanuginosum, Hypnum jutlandicum, Cladonia* sps. Mae gan y gymuned NVC hon hefyd ffurf lai mwsoglyd ar y Rhinog, ac ystyrir mai dyma'r ffurf fwyaf cyffredin o'r rhostir mynyddig hwn yng Nghymru. Cnwpfwsogl, hesg a glaswellt mynyddig nodweddiadol. Mae rhostir mwsogl NVC U10a yma ar y Llethr bron yn "garped di-dor o

*Racomitrium lanuginosum* wedi'i ddotio â phlanhigion bychain megis *Salix herbacea, Vaccinium myrtillus, V.vitisidaea, Carex bigelowii* a *Diphasiastrum alpinum"* (Averis 2004). Bydd cnwpfwsogl, hesg a glaswellt mynyddig nodweddiadol hefyd yn bresennol.

- Nid yw rhywogaethau nad ydynt yn rhai cynhenid yn bresennol.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.5 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd: Pantiau ar is-haenau mawn y *Rhynchosporion* (Cod Cynefin UE: 7150)**

***Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd: "Pantiau ar is-haenau mawn"***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yn Rhiniog yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Graddfa: Bod y nodwedd yn meddiannu'r holl ardal sy'n addas ar gyfer ei datblygu mewn mosaig cymhleth o fignenni, rhostir gwlyb a phyllau mawnog. Yn ôl arolwg rhannol yn 2007, credir bod y nodwedd hon ar hyn o bryd yn gorchuddio oddeutu 1 ha.
- Lleoliad:
- Cyfansoddiad llystyfiant: Bydd y planhigion canlynol yn gyffredin yn y "pantiau ar is-haenau mawn y *Rhynchosporion*": *Rhyncospora alba, Sphagnum papillosum*, *Molinia caerulea, Narthecium ossifragum, Drosera rotundifolia, Eriophorum angustifolium*. Bod matiau eang o fwsoglau *Sphagum* hefyd yn bresennol yn lleol, a bod *Menyanthes trifoliata* a *Carex echinata* hefyd yn gyffredin iawn. Bod prysglwyni bach yn brin, ac eithrio *Myrica gale*. Ni fydd unrhyw fathau nad ydynt yn gynhenid yn bresennol.
- Bod mathau anghyffredin yn parhau i fod yn bresennol gan gynnwys *Sphagnum magellanicum*, *Drosera intermedia* a chlwp-fwsogl y gors (*Lycopodiella inundata*) sy'n brin yn genedlaethol.
- Bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.6 Amcan Cadwraeth ar gyfer llyn sy'n nodwedd ACA: *Merddyfroedd oligroffig i fesotroffig gyda llystyfiant* Littorelletea uniflorae *ac/neu* Isoëto-Nanojuncetea *(UE 3130)*.**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd: Llynnoedd dŵr clir***

Y weledigaeth ar gyfer llynnoedd oligroffig i fesotroffig (dŵr clir) sy'n nodwedd ACA yw bod yr holl amodau a ganlyn yn cael eu diwallu:

- Bod cyfanswm maint y llynnoedd dŵr clir yn cael ei gynnal, bod rhyw x ha o ddŵr agored/cors a basnau afonydd cyfagos yn weladwy mewn ffotograffau o'r awyr. Dylai'r dalgylchoedd hefyd gael eu cadw yn eu cyflyrau presennol o leiaf.
- Lleoliad y llynnoedd dŵr clir
- Bod rhywogaethau nodweddiadol y cymunedau llystyfiant (sydd wedi'u rhestru fel a ganlyn) sy'n cynnwys nodwedd ACA o Lynnoedd dŵr clir yn gyffredin.

  Nodweddir cymuned llystyfiant drwy lystyfiant parhaol amffibiaidd byr, gyda'r beistonnell *Littorella uniflora* a'r gwair merllyn bychan *Isoetes spp.* yn cael eu hystyried fel yr elfennau diffiniol. Yn aml, mae'r rhywogaethau hyn ar Rhiniog yn tyfu'n gysylltiedig â bidoglys y dŵr, *Lobelia*

*dortmanna,* mynawydlys dyfrdig, *Subularia aquatica*, dyfrllys y gors, *Potamogeton polygonifolius*, brwynen oddfog, *Juncus bulbosus*, llafrwynen nofadwy, *Eleogiton fluitans,* myrdd-ddail eiledol, *Myriophyllum alterniflorum* a'r cleddyflys nofadwy, *Sparganium angustifolium,* y dyfrllys bychan, *Potamogeton berchtoldii* a'r chwysigenwraidd, *Utricularia spp.*

- Bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.7 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd: *Luronium natans* / Llyriad nofiadwy**

***Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd: Llyriad nofadwy***

Rhaid diwallu'r amcan cadwraeth ar gyfer y nodwedd llynnoedd Oligroffig, fel y'i diffinnir yn amcan cadwraeth rhif 4.6. Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Na fydd maint a dosbarthiad o *L. natans* presennol o Lyn Cwm Bychan yn crebachu. Bod poblogaethau *L. natans* yn rhan 1 a 2 o'r llyn yn hyfyw a byddant yn gallu cynnal eu hunain ar sail tymor hir. Rhaid i'r *L.natans* allu cwblhau atgynhyrchiad rhywiol a /neu llystyfol yn llwyddiannus.
- Bod digon o gynefin yn y llyn i gynnal poblogaethau presennol o *L. Natans* o fewn eu dosbarthiad presennol ac ar gyfer ymlediad yn y dyfodol.
- Bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

Yn ogystal, mae pob Amcan Cadwraeth â nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, nid yn rhywbeth sydd yn ei ddisodli.  Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth nid dim ond y dangosyddion perfformiad.  Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i ACA (Ardal Cadwraeth Arbennig) Rhiniog (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Mae'r ardal yn boblogaidd gyda cherddwyr, ond oherwydd y tir garw, mae pwysau oddi wrth weithgareddau hamdden wedi'i gyfyngu i hawliau tramwy a meysydd parcio cyhoeddus, gydag effaith fechan ar y nodweddion arbennig.

Mae'r glawiad trwm a'r ddaeareg/priddeg asidaidd helaeth yn golygu fod yr ardal yma, yn enwedig ei chyrsiau dŵr a'r llynnoedd, yn agored i niwed asideiddio. Mae'r rhostir cefnforol sy'n gyfoeth o gen a bryoffytau yn agored i gael eu llosgi a chael eu niweidio gan orbori. Y polisi cyffredinol cyfredol yw parhau â'r lefelau isel traddodiadol o bori gan ddefaid/geifr gwyllt ac annog pobl i beidio â llosgi.

Yn yr ardaloedd coedwigol, mae'r llystyfiant yn gofyn am reolaeth ofalus drwy drin y tir pori er mwyn cyflawni lefelau priodol o oleuni a lleithder ar gyfer y casgliadau sy'n gyfoethog eithriadol o gen a bryoffytau, ac y gwneir hynny trwy sicrhau bod y coetiroedd yn cael eu hadfywio'n briodol. Ymdrinnir â'r materion hyn drwy ddefnyddio cynlluniau amaeth-amgylcheddol (Tir Cymen/Tir Gofal) a chytundebau rheoli A15.

Mae rhan GNG o'r safle yn cael ei rheoli yn unol â chynllun rheoli CCGC.

## ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid

**Trosolwg**

Mae tarddiad yr Afon Dyfrdwy ym Mharc Cenedlaethol Eryri, ac mae ei dalgylch yn cynnwys ystod eang o dirweddau o'r mynyddoedd uchel o amgylch y Bala, i ddyffrynnoedd coediog serth ger Llangollen, i wastadeddau amaethyddol cyfoethog Sir Gaer a gogledd Swydd Amwythig a gwastadeddau llaid eang yr aber.

Cafodd cwrs a thopograffi'r Afon Dyfrdwy a'i hisafonydd eu dylanwadu'n gryf a'u haddasu yn ystod yr Oes Ia ddiwethaf. Mae daeareg waelodol Afon Dyfrdwy yn amrywio o sialau anhydraidd Cambriaidd ac Ordofigaidd yn y gorllewin, i gerrig brig calchfaen Silwraidd i Garbonifferaidd yn Llangollen, ac i Fesurau Glo a chlai clogfaen trwchus yn gorchuddio tywodfeini Triasig yng ngwaelod dyffryn Dyfrdwy.

Mae'r safle'n ymestyn o ben gorllewinol pellaf Llyn Tegid ac yn mynd â'r llyn cyfan a'i lannau i'w arllwysfa yn yr Afon Dyfrdwy. Yna, aiff â'i afon a'i glannau i lawr yr afon ble mae'n ymuno â SoDdGA Aber Dyfrdwy.  Mae nifer o isafonydd yr afon Dyfrdwy hefyd yn cael eu cynnwys yma, sef Ceiriog, Meloch, Tryweryn a Mynach. Yn ei rhannau uchaf cyflymaf, mae'r Afon Dyfrdwy yn llifo drwy ddyffryn eang ger Corwen, a Bro ysblennydd Llangollen cyn mynd i wastadedd Sir Gaer yn Erbistog ble mae'n ymdroelli tua'r gogledd drwy wastadedd Sir Gaer i Gaer. Mae'r afon yn bennaf nodweddiadol Aberol o dan Cored Caer. Fodd bynnag, ceir dylanwad llanwol cyn belled i lawr yr afon â Rhedynfre, gan fod llanwau uchel yn mynd dros uchder y gored yn rheolaidd. Yn ei dyfroedd arafach ac aeddfetach mae gorlifdir gydag ystumiau, ystumllynnoedd a nodweddion tirweddol eraill a ffurfiwyd gan yr afon yn nodweddiadol o'r afon.

Mae Llyn Tegid, Tryweryn a'r Afon Dyfrdwy yn ffurfio rhan o System Reoli Afon Dyfrdwy. Rheolir llif y dŵr gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC), a hynny'n bennaf er mwyn lleihau llifogydd ac i gludo dŵr i bwyntiau echdynnu i lawr yr afon. Dywed mai'r Afon Dyfrdwy yw'r afon mwyaf rheoleiddiedig yn Ewrop oherwydd cymaint yw'r lefel o reolaeth. Fodd bynnag, dim ond traean o'r dŵr sy'n cyrraedd Caer sy'n cael ei reoli gan AAC (Mae hyn yn seiliedig ar gyfartaledd; mae'r dosbarthiad yn amrywio yn dibynnu ar gyflyrau a gofynion gweithredol). Afon Tryweryn yw'r unig isafon sy'n cael ei rheoli o ran yr isafonydd yn yr ACA a'r SoDdGA.

Mae rhannau o Afonydd Dyfrdwy a Cheiriog yng Nghymru a Lloegr. Felly, maent wedi cael eu dynodi fel dau SoDdGA ar wahân – SoDdGA Afon Dyfrdwy yng Nghymru a SoDdGA Afon Dyfrdwy yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'r nodweddion sy'n rhoi statws SoDdGA i safle, pysgod ymfudol yn benodol, yn dibynnu ar ecosystem yr afon gyfan.

**Nodweddion Cymhwyso**

Cynefinoedd Atodiad 1 yw'r prif reswm am ddewis y safle hwn:
3260 Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastad a mynyddig gyda *Ranunculion fluitantis* a llystyfiant *Callitricho-Batrachion*

Cynefinoedd Atodiad II sy'n brif reswm am ddewis y safle hwn:
1106 Eog yr Iwerydd *Salmo salar*
1831 Llyriad nofadwy *Luronium natans*

Rhywogaethau Atodiad II yw'r elfen gymhwyso ond nid y prif reswm am ddewis y safle hwn:
1095 Lamprai'r môr *Petromyzon marinus*
1096 Lamprai'r nant *Lampetra planeri*
1099 Lamprai'r afon *Lampetra fluviatilis*
1163 Brithyll y don *Cottus gobio*
1355 Dyfrgi *Lutra lutra*

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer cyrsiau dŵr (Afonydd):**

***Y weledigaeth ar gyfer Cwrs Dŵr***
Y weledigaeth ar gyfer cwrs y dŵr yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Dylai cyflwr ecolegol yr amgylchedd dŵr fod yn ddigonol i gynnal poblogaeth sefydlog neu gynyddol pob nodwedd. Bydd hyn yn cynnwys elfennau o ansawdd y dŵr a faint ohono sydd ar gael, cyfansoddiad a strwythur cynefinoedd a chymunedau ffisegol (Rhagwelir y bydd y cyfyngiadau hyn yn cytuno gyda'r safonau perthnasol a ddefnyddir yn y broses Adolygu Caniatâd).
- Na fydd unrhyw ddirywiad yn ansawdd y dŵr ar wahân i'r hyn a gynhyrchir dros dro gan yr amrywiadau naturiol yn llif y dŵr neu gan amrywiadau a wnaed gan ddyn sy'n digwydd o ganlyniad i weithredu trefn reoli llif yr Afon Dyfrdwy o fewn ei baramedrau gweithredu arferol.
- Dylai trefn llif yr Afon Dyfrdwy aros o fewn 10% o'r 'gwir lif diweddar' fel y'i disgrifiwyd gan Bethune (2006).
- Na ddylid addasu ffurf cynllun nac amlinell yr afon. Bydd addasiadau ffisegol yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA yn cael eu hosgoi.
- Ble bo'n bosib dylid addasu unrhyw ffactorau artiffisial sy'n cael ardrawiad ar allu pob nodwedd i feddiannu ei amrediad posib er mwyn caniatáu iddynt dramwyo, e.e. dyfrffosydd, silfeini pontydd, neu ffurfiau eraill o wahanfuriau.
- Na ddylid addasu ffactorau naturiol sy'n cyfyngu megis rhaeadrau, allai gyfyngu amrediad naturiol nodwedd neu ei wasgariad rhwng poblogaethau naturiol unig.
- Cytunir ar yr amcanion llif ar gyfer pwyntiau asesu yn Strategaeth Rheoli Echdynnu Dalgylch Dyfrdwy rhwng AA a CCGC fel bo'r angen.
- Bod lefelau'r maetholion, yn enwedig ffosffad, yn cael eu cytuno rhwng AA a CCGC ar gyfer pob Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y corff

dŵr yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, a chymerir camau i gynnal lefelau maetholion o dan y lefelau hyn (Rhagwelir y bydd y cyfyngiadau hyn yn cytuno gyda'r gofynion a ddefnyddir yn y broses Adolygu Caniatâd).

- Bod lefelau paramedrau ansawdd y dŵr, yn ogystal â'r rhai a ystyrir yn faetholion ac yn cynnwys lefelau o solidau crog, allai effeithio ar ddosbarthiad a chyflenwad o nodweddion ACA yn cael eu cytuno rhwng AA a CCGC ar gyfer pob Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y corff dŵr yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, a chymerir camau i gynnal lefelau maetholion o dan y lefelau hyn (Rhagwelir y bydd y cyfyngiadau hyn yn cytuno gyda'r gofynion a ddefnyddir yn y broses Adolygu Caniatâd).
- Bod ffynonellau posib o lygredd, o gyfoethogi maetholion a/neu solidau crog nad ymdrinnir â hwy yn yr Adolygiad Caniatâd (ond na chyfyngir iddynt) megis llygredd tryledol neu aflonyddwch i waddodion yn cael eu hystyried wrth asesu cynlluniau a phrosiectau.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastad a mynyddig gyda *Ranunculion fluitantis* a llystyfiant *Callitricho-Batrachion* (Cod Cynefin *UE*: 3260)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 1***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid diwallu'r amcan cadwraeth ar gyfer cwrs y dŵr, fel y'i diffinnir yn 4.1 uchod.
- Dylai graddfa'r nodwedd hon o fewn ei amrediad posib yn yr ACA hon fod yn sefydlog neu gynyddol.
- Dylai graddfa'r is-gymunedau a gynrychiolir o fewn y nodwedd hon fod yn sefydlog neu gynyddol.
- Dylai cyflwr cadwraeth rhywogaethau nodweddiadol y nodwedd hon fod yn ffafriol.
- Mae'r holl ffactorau gwybyddus a rheoladwy sy'n effeithio ar gyflawni'r cyflyrau hyn dan reolaeth (efallai bod sawl ffactor yn anhysbys neu tu hwnt i reolaeth dynol).

**4.3 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Eog yr Iwerydd *Salmo salar* (Cod Rhywogaeth UE : *1106*)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 2***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid diwallu'r paramedrau a ddiffinnir yn y weledigaeth ar gyfer cwrs y dŵr, fel y'i diffinnir yn 4.1.
- Bod poblogaethau nodweddion ACA yn sefydlog neu'n cynyddu yn y tymor hir.
- Na fydd amrediad naturiol y nodweddion yn yr ACA yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol rhagweladwy.
- Na fydd unrhyw leihad yn arwynebedd nac ansawdd y cynefin ar gyfer poblogaethau nodweddion yn yr ACA ar sail tymor hir.
- Bod yr holl ffactorau gwybyddus a rheoladwy sy'n effeithio ar gyflawni'r cyflyrau hyn dan reolaeth (efallai bod sawl ffactor yn anhysbys neu tu hwnt i reolaeth dynol).

**4.4 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 3: *Luronium natans* / Llyriad nofadwy**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 3***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Na fydd maint a dosbarthiad *L. natans* presennol yn crebachu a bydd y poblogaethau yn hyfyw yn y cyfan o'u dosbarthiad presennol a byddant yn gallu cynnal eu hunain ar sail tymor hir. Rhaid i bob poblogaeth *L. natans* allu cwblhau atgynhyrchiad rhywiol a/neu llystyfol yn llwyddiannus.
- Bod digon o gynefin yn y llyn i gynnal poblogaethau presennol o *L. Natans* o fewn eu dosbarthiad presennol ac ar gyfer ymlediad yn y dyfodol.
- Bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.5 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodweddion 4, 5 a 6: Lamprai'r môr *Petromyzon marinus* (Cod Rhywogaeth UE: 1095); Lamprai'r nant *Lampetra planeri* (Cod Rhywogaeth UE: *1096*); a Lamprai'r afon *Lampetra fluviatilis* (Cod Rhywogaeth UE: *1099*)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodweddion 4, 5 a 6***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid diwallu'r paramedrau a ddiffinnir yn y weledigaeth ar gyfer cwrs y dŵr, fel y'i diffinnir yn 4.1.
- Bod poblogaethau nodweddion ACA yn sefydlog neu'n cynyddu yn y tymor hir.
- Na fydd amrediad naturiol y nodweddion yn yr ACA yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol rhagweladwy.
- Na fydd unrhyw leihad yn arwynebedd nac ansawdd y cynefin ar gyfer poblogaethau nodweddion yn yr ACA ar sail tymor hir.
- Bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.6 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 7: Brithyll y don *Cottus gobio* (Cod Rhywogaeth UE: *1163*).**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 7***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid diwallu'r paramedrau a ddiffinnir yn y weledigaeth ar gyfer cwrs y dŵr, fel y'i diffinnir yn 4.1.
- Bydd poblogaethau nodweddion ACA yn sefydlog neu'n cynyddu yn y tymor hir.
- Ni fydd amrediad naturiol y nodweddion yn yr ACA yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol rhagweladwy.
- Ni fydd unrhyw leihad yn arwynebedd nac ansawdd y cynefin ar gyfer poblogaethau nodweddion yn yr ACA ar sail tymor hir.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.7 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 8: Y dyfrgi Ewropeaidd *Lutra lutra* (Cod Rhywogaeth UE: 1355)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 8***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid diwallu'r paramedrau a ddiffinnir yn y weledigaeth ar gyfer cwrs y dŵr, fel y'i diffinnir yn 4.1 uchod.
- Bod poblogaeth dyfrgwn yr ACA yn sefydlog neu'n cynyddu dros dymor hir, o fewn yr ACA ac yn ei dalgylch.

- Na fydd unrhyw safleoedd bridio a gorffwys dyfrgwn yn cael eu colli ac eithrio'r rhai a gollir drwy ffyrdd naturiol (megis prosesau naturiol sy'n digwydd yn yr afon) o fewn yr ACA neu'i dalgylch.
- Na fydd y nifer o safleoedd gorffwys posib o fewn yr ACA yn ffactor gyfyngol sy'n cyfyngu maint neu raddfa poblogaeth y dyfrgwn.
- Na ddylai unrhyw leihad fod mewn bio-màs pysgod o fewn yr ACA neu ei isafonydd ac eithrio'r hyn sydd i'w briodoli i amrywiadau naturiol.
- Na ddylid colli unrhyw gynefin amffibiaidd sy'n debygol o ddarparu ffynhonnell o ysglyfaeth i aelodau o boblogaeth dyfrgwn yr ACA.
- Nad yw amrediad naturiol y dyfrgwn o fewn yr ACA na'i dalgylch yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol rhagweladwy.
- Dylid cynnal pob llwybr mynediad neu wasgaru, sy'n wybyddus neu'n bosib, yn y dalgylch ar gyfer dyfrgwn a allai gael eu hystyried yn rhan o boblogaeth yr ACA fel na amherir ar eu swyddogaeth, ynghyd ag ymgorffori mesurau neu nodweddion sydd eu hangen er mwyn osgoi aflonyddwch.
- Cynhelir cynefinoedd oddi ar y safle sy'n debygol o weithredu fel 'cerrig sarn' yn y dalgylch ar gyfer aelodau o boblogaeth dyfrgwn yr ACA er dibenion mudo, gwasgaru, porthiant a chyfnewid genetig.
- Rhaid i bob strwythur a adeiladwyd yn ACA y boblogaeth o ddyfrgwn, neu sy'n debygol o gael eu defnyddio gan ddyfrgwn, ymgorffori mesurau effeithiol i hwyluso symudiad a gwasgariad diogel o ddyfrgwn.
- Bod yr holl ffactorau gwybyddus a rheoladwy sy'n effeithio ar gyflawni'r cyflyrau hyn dan reolaeth (efallai bod sawl ffactor yn anhysbys neu tu hwnt i reolaeth dynol).

Yn ogystal, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, ond nid yn rhywbeth sy'n ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid/ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Mae'r cynefinoedd a'r rhywogaethau, y dynodwyd y safle ar eu cyfer, yn ddibynnol ar gynnal ansawdd dŵr da a chyflyrau llif addas. Mae rhywogaethau pysgod angen cynefinoedd addas yn y nant a llwybrau mudo dirwystr. Mae dyfrgwn hefyd angen cynefinoedd gwyllt addas er mwyn darparu lloches a phoblogaethau digonol o fathau o ysglyfaeth.

Caiff y safle a'i nodweddion eu bygwth gan arferion sy'n cael effaith andwyol ar ansawdd, maint a phatrwm llif y dŵr. Yn benodol, gall y canlynol fygwth ecosystemau afonydd: rheoliadau llif amhriodol; gormod o echdynnu (er dibenion diwydiannol, amaethyddol a domestig); bygythiadau i ansawdd dŵr drwy lygredd uniongyrchol a thryledol; ewtroffigedd a siltio. Dirywiad cynefinoedd y glannau oherwydd gwaith peirianyddol, arferion amaethyddol a gall rhywogaethau ymledol o blanhigion gael effaith andwyol yn ogystal. Caiff poblogaeth eog yr Iwerydd ei fygwth oherwydd ymelwad gormodol y pysgodfeydd môr mawr, aberol ac adloniadol. Yn ogystal, gallai cyflwyno rhywogaethau nad ydynt yn frodorol, fygwth rhywogaethau pysgod a phlanhigion.

Ymdrinnir â'r materion hyn gan amrywiaeth o gyrff statudol sydd mewn sefyllfa i oresgyn y bygythiadau hyn drwy bwerau rheoliadol a phartneriaethau gyda thirfeddianwyr, diwydiannau ac unrhyw barti arall sydd â diddordeb.

## ACA Clogwyni Pen Llŷn

**Trosolwg**

Mae ACA Clogwyni Pen Llŷn yn rhan fawr o arfordir Pen Llŷn, yn ffinio â Môr Iwerddon ac yn gwbl agored i'r gwyntoedd cryfion a systemau'r tywydd. O angenrheidrwydd mae ei gynefinoedd yn cael eu dylanwadu gan ei leoliad, daeareg a'r hinsawdd ac mae'r ardal arfordirol yn cefnogi rhai o'r enghreifftiau gorau sy'n bodoli o'r rhostiroedd arfordirol ac arforol a glaswelltir yn Llŷn. Mae'r safle wedi cael ei ddynodi fel ACA oherwydd cynefin rhyngwladol bwysig 'Clogwyni gyda Llystyfiant Arfordir yr Iwerydd a'r Arfordiroedd Baltig'. Mae'r nodwedd hon yn cynnwys amrediad o gynefinoedd, gyda nifer ohonynt yn cael eu cynrychioli ar y safle hwn, gan gynnwys clogwyni caled a meddal, rhostir arforol ac arfordirol, cymunedau o laswelltir arforol a theroffytau arforol. Ar hyn o bryd, ni chynhwysir rhostir sych fel rhan o'r nodwedd ACA hon, ond bwriedir cynnwys y cynefin hwn fel nodwedd ACA yn y dyfodol gan mai rhostir sych yw canran helaeth o'r safle hwn a'r ffaith ei fod yn nodwedd elfennol o SoDdGA. Mae SoDdGA Ynys Enlli yn cefnogi'r ardaloedd mwyaf o laswelltir arforol a rhostir arforol o fewn Clogwyni Pen Llŷn. Ceir enghreifftiau da o rostiroedd sych ac arfordirol ar y tir mawr yn Mynydd Mawr, Mynydd Anelog, Mynydd Cilan a Mynydd Penarfynydd. Mae rhannau o Glogwyni Pen Llŷn hefyd yn ACA oherwydd ei boblogaeth o frain coesgoch ac adar drycin Manaw. Mae gan SoDdGA chwe elfen ac mae gan rai ohonynt nodweddion sy'n cynnwys planhigion prin, cen ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Mae yna berthynas gymhleth rhwng diddordeb y cynefin, yr anifeiliaid di-asgwrn-cefn, yr adar a chen ar y safle.

**Nodweddion Cymhwyso**

Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm am ddewis y safle hwn:
1230 Clogwyni gyda llystyfiant Arfordir yr Iwerydd a'r Arfordiroedd Baltig

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Clogwyni gyda llystyfiant Arfordir yr Iwerydd a'r Arfordiroedd Baltig (rhostiroedd H7 *Calluna vulgaris-verna,* rhostiroedd H8d *Calluna vulgaris-Ulex galli,* is-gymuned *Scilla verna,* MC8 *Festuca rubra–Armeria maritima,* MC9 *Festuca rubra–Holcus lanatus* a chymunedau o laswelltir arforol MC10 *Festuca rubra–Plantago spp*, glaswelltir arfordirol a chlogwyni a llethrau arforol).**

***Y weledigaeth ar gyfer Nodwedd 1:* Rhostiroedd arfordirol/rhostiroedd sych ac arforol/Clogwyni Môr yr Iwerydd.**
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bod ehangder y rhostiroedd arfordirol ac arforol yn sefydlog neu'n cynyddu.

- Bod o leiaf dau fath gwahanol o gymunedau Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC) o rostir arfordirol neu arforol yn bresennol ac maent yn cefnogi amrediad o rywogaethau o blanhigion nodweddiadol.
- Bod yr ardaloedd o rostiroedd yn ffurfio mosaig gyda glaswelltir arforol â lleiniau o ddaear gwag – nid yw'r rhostir yn gorchuddio pob rhan.
- Bod planhigion rhostir arloesol yn bresennol.
- Bod pori'n digwydd yn flynyddol ar lefel sy'n atal datblygiad o lastir uchel ond ni chaiff grug a blodau eu hatal rhag tyfu. Bod uchder isel y glastir mewn cynefinoedd o laswelltir a strwythur agored ac amrywiol mewn rhostiroedd yn cael eu cynnal mewn cynefinoedd ar ben clogwyni ar gyfer brain coesgoch sy'n magu, heb achosi dirywiad yn maint neu ansawdd y glaswelltir neu'r rhostiroedd.
- Bod rhostiroedd arfordirol yn cynnwys llystyfiant gyda *Ulex gallii* yn bresennol ac o leiaf 30% o orchudd grugaidd, *Calluna vulgaris* fel arfer, gydag o leiaf un dangosydd arforol yn bresennol megis *Armeria maritima*, *Plantago maritima*, *Plantago coronopus* neu *Scilla verna*.
- Bod poblogaethau iach planhigion masgwlaidd prin yn bresennol (yn cynnwys y cor-rosyn rhuddfannog, *Tuburaria guttata* ysgubau ymledol *Cytisus scoparius subsp*, *maritimus,* lafant y môr ar y creigiau *Limonium britannicum subsp. pharense,* cordafod y neidr, *Ophioglossum azoricum,* meillionen y Gorllewin, *Trifolium occidentale* a'r llymfrwynen *Juncus acutus*).
- Bod poblogaethau iach o rywogaethau o blanhigion anfasgwlaidd prin yn bresennol, gan gynnwys ystod o fwsoglau a mathau o lysiau'r afu gyda dosbarthiad Ewropeaidd cyfyngedig, y cen sy'n byw yn y pridd, y cen rhuban blewog *Heterodermia leucomela* a'r cen eurwallt *Teloschistes flavicans.*
- Dylai rhywogaethau sy'n nodweddiadol o safle neu gyflyrau nad ydynt yn cael eu rheoli fod yn absennol gan mwyaf, megis grug Ewropeaidd, *Ulex europeaus,* rhedyn *Pteridium aquilinum,* bysedd y cŵn *Digitalis purpurea*, mathau o lysiau'r gingroen *Senecio sp,* deilen dafol *Rumex obtusifolius* a'r danadl *Urtica dioica.*
- Dylai rhywogaethau o laswellt, sy'n gwella fel arfer, fod yn absennol gan mwyaf, megis maeswellt gwyn *Agrostis stolonifera,* troed y ceiliog *Dactylus glomerata,* rhygwellt parhaol *Lolium perenne*a'r gawnen benwen *Holcus lanatus.*
- Ceir cofnod o rywogaethau pwysig cysylltiedig, megis brain coesgoch sy'n magu (ar y tir mawr ac Ynys Enlli) ac adar drycin Manaw sy'n nythu (ar Ynys Enlli) mewn ardaloedd arfordirol neu arforol.
- Bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r cyflyrau hyn, gan gynnwys dwysedd pori a llosgi, dan reolaeth.

Yn ogystal, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, ond nid yn rhywbeth sy'n ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i AGA Clogwyni Pen Llŷn (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Mae'r safle'n gymharol gadarn yn ffisegol er bod cynefinoedd y clogwyni caled a meddal yn y blynyddoedd diwethaf wedi arddangos yn glir eu bod yn sensitif i weithgarwch dynol . Mae rheolaeth amaethyddol amhriodol, sy'n cynnwys dim digon o bori, gorbori ac aflonyddu ffisegol ar gynefin, yn parhau i fod yn broblem, ac ymdrinnir â hyn mewn ambell ran o'r safle drwy Gytundebau Rheoli.

## ACA Eryri

**Trosolwg**

Mae Eryri yn cynnwys tri masif ucheldir gaiff eu gwahanu gan ffyrdd, y Carneddau, y Glyderau a'r Wyddfa. Mae'r tri yn gartref i nifer o nodweddion SSI biolegol a daearegol ac i nodweddion ACA. Rhennir y tri masif yn barseli neu adrannau o dir ac mae'r mwyafrif mewn perchnogaeth breifat, gyda rhai yn dir comin a rhai ym mherchnogaeth sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chwmnïau pŵer.

**Nodweddion Cymhwyso**

Cynefinoedd Atodiad 1 yw'r prif reswm am ddewis y safle hwn:
**3130 Merddyfroedd oligotroffig i mesotroffig gyda llystyfiant *Littorelletea uniflorae* a/neu *Isoëto-Nanojuncetea***
**6150 Glaswelltir silicaidd alpaidd a boreal**
**6430 Cymunedau blodau tal hydroffilaidd ar gyrion gwastadeddau a'r mynydd i lefelau alpaidd**
**8110 Sgri silicaidd y mynydd i lefelau eira (*Androsacetalia alpinae* a *Galeopsietalia ladani*)**
**8210 Llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant casmoffitig**
**8220 Llethrau creigiog silicaidd gyda llystyfiant casmoffitig**

Cynefinoedd Atodiad 1 yw'r elfen gymhwyso ond nid y prif reswm am ddewis y safle hwn:
**4010 Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gyda *Erica tetralix***
**4030 Rhostiroedd Ewropeaidd sych**
**4060 Rhostiroedd Alpaidd a Boreal**
**6170 Glaswelltir Calchaidd Alpaidd ac isalpaidd**
**6230 Glaswelltir *Nardus* llawn rhywogaethau ar is-haenau silicaidd mewn ardaloedd mynyddig (ac ardaloedd isfynyddig ar gyfandir Ewrop)** *Nodwedd Flaenoriaeth
**7130 Gorgorsydd** *Nodwedd Flaenoriaeth
**7150 Pantiau ar is-haenau mawn y *Rhynchosporion***
**7220 Ffynhonnau caregaidd gyda ffurfiad twffa (*Cratoneurion*)** *Nodwedd Flaenoriaeth
**7230 Ffeniau alcain**
**7240 Ffurfiannau Alpaidd arloesol o'r *Caricion bicoloris-atrofuscae*** *Nodwedd Flaenoriaeth
**91A0 Hen goedydd derw digoes gyda *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain**

Cynefinoedd Atodiad 11 yw'r prif reswm am ddewis y safle hwn:
**1393 Mwsogl pluog main gwyrdd *Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus***

**1831 Llyriad nofadwy *Luronium natans***

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Glaswelltir silicaidd alpaidd a boreal (Cod Cynefin UE: 6150)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 1***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

• Dylai copaon uchel y Carneddau (Carnedd Dafydd, Pen yr Ole Wen, Carnedd Llewelyn, Garnedd Uchaf, Yr Aryg, Foel Grach, Llwytmor, Drosgl, Foel Fras, Pen Llythrig y Wrach a Phen yr Helgi Ddu) y Glyderau (Y Garn, Glyder Fach, Glyder Fawr, Elidir Fach, Carnedd y Ffiliast a Mynydd Perfedd), gefnogi llystyfiant rhostir ar y copaon sydd ddim yn dangos arwyddion o newid trwm drwy bori a/neu sathru trwm.

• Ni ddylid colli mwy o rostir copa ar Yr Wyddfa. Dylid cadw maint y cynefin yng Nghrib y Ddysgl a'r Garnedd Uchaf fel y mae fel isafswm absoliwt ac ni dylid colli unrhyw ansawdd.

• Dylai'r llystyfiant gael ei ddominyddu gan rywogaethau sy'n nodweddiadol o rywogaethau rhostir copa fel *Racomitrium lanuginosum* (Mwsogl gwlanog), *Carex bigelowii* (Hesg anystwyth), prysglwyni isel oherwydd amgylchiadau'r tir uchel fel *Vaccinium myrtillus* (Llus) a *Salix herbacea* Helygen Leiaf, cen a bryoffytau'r mynydd.

• Ni ddylai gweiriau fod yn gyfran sylweddol o'r llystyfiant.

• Dylai'r cynefin raddoli i rostir mynydd ar ei lefel isaf.

• Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar allu cynnal yr amodau hyn dan reolaeth.

Cred y Cyngor Cefn Gwlad y dylid anelu i gwrdd â'r weledigaeth hon gan fod y cynefin o werth cadwraeth mor uchel ar ffin ddeheuol y DG. Er hynny, gweledigaeth tymor hir yw hyn ac ar hyn o bryd nid oes gennym fodd i reoli'r holl ffactorau sy'n effeithio ar y nodwedd. Fodd bynnag, dengys ymchwil pe byddem yn gallu rheoli effaith y pori yna dylai'r cynefin ymateb. Felly, mae eithrio anifeiliaid sy'n pori o'r rhostir mwyaf diraddedig yn flaenoriaeth ym Mhen yr Ole Wen – ardal Carnedd Dafydd. Nid yw hi'n bosib darogan yn union pa ansawdd y gellir ei gael gan fod y cynefin yn awr mewn cyflwr gwael iawn a'i fod efallai yn cael ei effeithio i ryw raddau gan lygredd atmosfferig, ond byddai unrhyw welliant i'r cynefin yma yn gostwng erydu pellach a cholli llystyfiant. Ni fedrwn wneud casgliadau cywir o un copa i'r llall gan fod yr effeithiau arnynt yn wahanol.

Yn y tymor byr, dylem ddisgwyl gweld cynnydd yn nhyfiant *Racomitrium* a phrysglwyni bach gyda gostyngiad yn nhyfiant gweiriau, yn enwedig math Agrostis, gan fod maetholion yn trwytholchi o'r cynefin a dim byd yn cael ei roi yn eu lle.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Rhostiroedd Alpaidd a Boreal (Cod UE 4060) (Mynydd a Rhos)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 2***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Dylai cynefin rhostir alpaidd a boreal gynnwys ardaloedd sylweddol o ACA Eryri ar uchder h.y. o tua 600m i fyny, er y gall hyn ymestyn yn is na hyn yn benodol mewn ardaloedd agored. Dylai raddoli i rostir copa ar y copaon a'r cribau uchel ac i rostir sych yn y pen isaf.
- Dylai'r llystyfiant gael ei ddominyddu gan brysglwyni bach, y caiff eu tyfiant ei lesteirio gan yr amodau uchel fel Llus coch (*Vaccinium vitis idea*), Llus (*Vaccinium myrtillus)* a Chreiglys y mynydd *Empetrum hermaphroditum*), Grug cyffredin (*Calluna vulgaris*) ac mewn rhai mannau Merywen goraidd fynyddig (*Juniperus communis* ssp. *nana*.) Dylai rhywogaethau mynyddig eraill fel Mwsogl gwlanog (*Racomitrium lanuginosum*) a bryoffytau mynydd a chen fod yn bresennol.
- Er y bydd rhai gweiriau, yn enwedig Peisgwellt y defaid, yn bresennol ni ddylai fod gormod ohonynt.
- Yn y tymor hir rydym yn disgwyl i'r cynefin presennol gael ei gadw a gwella ei ansawdd yn y lleoliadau presennol gan hefyd ymestyn i ardaloedd addas eraill ble mae'r cynefin yn bodoli ar hyn o bryd mewn cyflwr diraddedig.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

Er bod llawer o'r cynefin wedi ei drosglwyddo yn laswelltir dros nifer o flynyddoedd, mae dal ardaloedd da ohono, yn benodol ar Lliwedd ar fasif yr Wyddfa ac o dan gopaon Carnedd Dafydd a Pen yr Ole Wen ar fasif y Carneddau. Mae hefyd cynefin o ansawdd da ar y Glyderau fel yn Esgair Felen. Mewn mannau eraill mae'n dameidiog iawn ac nid oes unrhyw gylchfaoedd clir wedi eu dosbarthu rhwng rhostir mynydd diraddedig a'r rhostir sych sydd ym mhobman.

Rydym yn disgwyl gweld dirywiad yn y gweiriau, yn enwedig mathau *Agrostis* fel mae'r maetholion yn trwytholchi a dim yn mynd yn eu lle gyda chynnydd mewn *Racomitrium* a phrysglwyni bach.

**4.3 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 3: Cymunedau blodau tal hydroffilaidd ar gyrion gwastadedd a'r mynydd i lefelau alpaidd (Cod Cynefin UE: 6430)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 3***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid i ardal silff y blodau tal fod yn sefydlog neu yn cynyddu yn y tymor hir. Ni fydd unrhyw golled llystyfiant silff blodau tal a bydd y nodwedd yn digwydd yn yr holl unedau rheoli ble mae'n digwydd ar hyn o bryd
- Bydd llystyfiant silff blodau tal yn datblygu ar silffoedd ac ar laswelltir calchaidd llaith o dan glogwyni ble fo'r potensial yn bodoli, ond mae ehangu ar hyn o bryd yn cael ei atal gan bori.
- Bydd llystyfiant blodau tal yn cynnwys nifer o fathau o flodau fel Mantell Fair *Alchemilla spp.,* Erwain *Filipendula vulgaris,* Cronnell *Trollius europaeus,* Pabi Cymreig *Meconopsis cambrica,* Tamaid y cythraul *Succisa pratensis,* Llygad Llo Mawr *Leucanthemum vulgare* Llysiau'r Angel *Angelica sylvestris,* Pren y Ddanoedd *Sedum rosea,* Yr Arianllys Lleiaf *Thalictrum minus* a Triaglog Gyffredin *Valeriana officinalis.*
- Ni fydd y planhigion blodeuog yn cael eu pori a byddant yn gallu aeddfedu a rhyddhau hadau.

**4.4 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 4: Llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant casmoffitig (Cod Cynefin UE: 8210)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 4***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid i'r nodwedd fod yn sefydlog neu gynyddu yn y tymor hir. Ni fydd unrhyw golled llystyfiant calchaidd casmoffitig a bydd yn parhau yn yr holl unedau rheoli ble mae'n digwydd ar hyn o bryd
- Rhaid i'r nodwedd yma barhau i gefnogi ystod o boblogaethau planhigion alpaidd arctig.
- Ni fydd y planhigion yn cael eu pori a byddant yn gallu aeddfedu a rhyddhau hadau, neu bydd planhigion di-flodau yn atgynhyrchu drwy egin neu fodd llystyfiannol.
- Ni fydd y nodwedd yma yn cael ei atal gan rywogaethau planhigion ymledol nad ydynt yn gynhenid.

**4.5 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 5: Glaswelltiroedd calchaidd alpaidd ac isalpaidd (Cod Cynefin UE: 6170)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 5***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

• Dylai'r cynefin yma barhau yn ei leoliadau presennol er fe allai fod peth newid yn ei faint.

• Dylai'r nodwedd barhau i gefnogi'r planhigion nodweddiadol gan gynnwys rhywogaethau planhigion alpaidd arctig.

• Dylai'r unig golledion derbyniol o'r cynefin yma fod oherwydd olyniaeth i gymunedau mynydd gwerthfawr arall fel llystyfiant blodau tal ar silff.

**4.6 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 6: Llethrau creigiog silicaidd gyda llystyfiant casmoffitig (Cod Cynefin UE: 8220)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 6***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Dylai'r cynefin yma gefnogi ystod o bryoffytau a rhedynau mewn agennau addas ar greigiau asid.
- Ni ddylai'r nodwedd gael ei niweidio gan bori.
- Dylai fod yn eang ar agennau creigiau asid llaith addas ar bob masif.

**4.7 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 7: Sgri silicaidd o lefelau mynyddig i lefelau eira (Cod Cynefin UE: 8110)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 7***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bydd gan y sgri symudol naturiol ar bob masif lystyfiant agored ar neu ymysg y clogfeini gyda *Cryptogramma crispa, Deschampsia flexuosa, Festuca ovina, Galium saxatile, Huperzia selago* a fflora bryoffytau eang ac amrywiol. Ni fydd ymyrraeth gormodol i'r nodwedd

o ganlyniad i weithgareddau gan bobl neu anifeiliaid.

**4.8 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 8: Merddyfroedd oligroffig i mesotroffig gyda llystyfiant *Littorelletea uniflorae* a/neu *Isoëto-Nanojuncetea* (Cod Cynefin UE: 3130)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 8***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae gan bob un o'r llynnoedd fflora macroffyt sy'n cynnwys rhai o'r rhywogaethau nodweddiadol fel *Littorella uniflora, Lobelia dortmanna, Isoetes lacustris, Myriophorum alterniflorum, Juncus bulbosus,* rhywogaethau *Potamogeton* a *Subularia aquatic*.
- Ceidw'r llynnoedd, sydd heb gael eu cronni i'w defnyddio fel cronfeydd dŵr, eu proffil naturiol.
- Mae'r holl lynnoedd yn dangos dosbarthiad cylchfaoedd tyfiant nodweddiadol o'r glannau i'r dŵr dyfnach.
- Mae ansawdd y dŵr ymhob llyn o fewn y paramedrau sy'n addas i gefnogi'r fflora a'r fawna nodweddiadol.

**4.9 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 9: Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix* Cod Cynefin UE: 4010**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 9***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid i'r nodwedd fod yn sefydlog neu gynyddu yn y tymor hir.
- Yn nodweddiadol bydd y cynefin yn cynnwys *Erica tetralix* a *Calluna vulgaris* a mwsoglau ar is-haenau mawnaidd gwlyb gydag ystod o blanhigion bach blodeuol fel Llafn y Bladur *Narthecium ossifragum,* Llysiau'r Groes *Polygala serpyllifolia*, Tafod y Gors *Pinguicula vulgaris,* hesg bach a Chwys yr Haul *Drosera rotundifolia*.

**4.10 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 10: Rhostir Ewropeaidd Sych (Cod Cynefin UE: 4030)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 10***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid i'r nodwedd fod yn sefydlog neu gynyddu yn y tymor hir.
- Caiff y cynefin ei ddominyddu gan o leiaf ddau fath o brysglwynni bychain, fel arfer Grug *Calluna vulgaris* a Llus *Vaccinium mytillus*, ond weithiau gall Eithin mân *Ulex gallii* neu Greiglus *Empetrum nigrum* fod yn amlwg.
- Bydd ystod oed cymysg i'r rhostir ar raddfa briodol sy'n cynnwys clwstwr o brysglwyni bach ifanc a chryf, clystyrau aeddfed ble mae grug yn mynd yn henaidd a'r holl ystodau oed rhyngddynt. Ni fydd prysglwyni'r rhostir yn arddangos ffurfiau sydd yn nodweddiadol o orbori.
- Ni fydd arwyddion llosgi aml na dychwelyd i laswelltir.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.11 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 11: Gorgorsydd (Cod Cynefin UE: 7130)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 11***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Dylai graddfa'r cynefin fod tua 1342 ha (fel yr hysbyswyd ar ffurflen wybodaeth N2K).
- Er hynny, mae'r ffigwr yn cynnwys swm sylweddol o gorgors sydd wedi diraddio. Ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod faint o hyn y gellid ei adfer yn gynefin gorgors o ansawdd da.
- Bydd gorgors o ansawdd da yn cynnal mathau nodweddiadol e.e. *Sphagnum* spp., oligotroffig, Plu'r Gweunydd *Eriophourm spp*, Grug *Calluna vulgaris*, Clychau'r Grug *Erica cinerea*, Creiglus *Empetrum nigrum*, Llus coch *Vaccinium vitis-idaea*, a Llygaeron *Vaccinium oxycoccus*.
- Ni fydd y cynefin cyfan yn dangos unrhyw arwyddion diraddio o ganlyniad i orbori, draenio neu losgi fel disbyddu prysglwyni bach a sphagna gyda mwy o orchudd glaswellt.
- Ni fydd y cynefin sydd wedi ei ddiraddio yn dangos unrhyw arwyddion diweddar o ddiraddio pellach o ganlyniad i orbori, draenio neu losgi.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.12 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 12: Pantiau ar is-haenau mawn y Rhynchosporion (Cod Cynefin UE: 7150)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 12***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Nid yw'r graddfa wedi ei fesur yn llawn gan fod natur y cynefin ar raddfa fach ac yn dameidiog o fewn brithwaith gorgors a rhostir gwlyb. Er hynny, dylai'r graddau fod o leiaf yr hyn sydd wedi ei fapio.
- Bydd y cynefin a nodweddir gan Hesgen Bigwen *Rhynchospora alba* yn cynnal ystod o fathau o blanhigion fel Gwlyddyn Mair y gors *Anagallis tenella*, Grug *Calluna vulgaris*, Chwys yr haul *Drosera rotundifolia*, Grug deilgroes *Erica tetralix*, Plu'r gweunydd *Eriophorum angustifolium,* Eurinllys y gors *Hypericum elodes,* Gwellt y gweunydd *Molinia caerulea*, Llafn y bladur *Narthecium ossifragum*, Dyfrllys y gors *Potamogeton polygonifolius*, Sphagnum spp., a hesg byr,
- Ni fydd unrhyw arwyddion o bori gormodol fydd yn golygu ardaloedd mawr o fawn moel ac efallai gorchudd sylweddol o frwyn *Juncus spp.*
- Byddai draenio neu losgi yn niweidio'r cynefin yma ac ni ddylid caniatáu yr un o'r ddau weithgaredd ble gallai'r cynefin yma efallai gael ei effeithio.
- Yng Nghwmffynnon, ac mewn ardaloedd bychain eraill ar y Glyderau, mae'r cynefin yn cynnal y math anghyffredin sef Cnwpfwsogl y gors *Lycopodiella inundata.* Yma byddem yn disgwyl gweld clytiau bach o fawn moel sy'n cefnogi'r rhywogaeth. Mae llawer o'r ardaloedd yma efallai wedi eu hachosi drwy ruthr dŵr grymus yn hytrach na chan anifeiliaid yn pori.

**4.13 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 13: Glaswelltir Nardus llawn rhywogaethau ar is-haenau siliciadd mewn ardaloedd mynyddig (Cod Cynefin UE: 6230)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 13***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bydd y maint yn o leiaf 10 hectar o'r cynefin i gynnwys 5 ha ar y llethrau uwchben Llyn Llydaw.
- Bydd y glaswelltir yn cynnal ystod o fathau o blanhigion fel Clychau'r Eos *Campanula rotundifolia,* Effros *Euphrasia spp.* Tamaid y cythraul *Succisa pratensis,* Teim Gwyllt, *Thymus polytrichus,* Rhwyddlwyn meddygol *Veronica officinalis,* Hesg cynnar *Carex caryophyllea,* Hesg y chwain *Carex pulicaris,* Hesg llwydlas *Carex panicea,* Mantell Fair *Alchemila glabr.*
- Ni fydd unrhyw orchudd sylweddol o rywogaethau ymledol. Mae Helyglys gorweddol, *Epilobium brunnescens* yn blanhigyn diethr sydd wedi hen sefydlu ar y safle ac fe gaiff ei dderbyn ar hyn o bryd gan nad yw hi'n ymddangos ei fod yn effeithio yn wael ar y nodwedd. (Ar hyn o bryd nid oes gan CCGC wybodaeth am unrhyw fodd o'i leihau neu cael gwared ohono).

**4.14 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 14: Hen goedydd derw digoes gydag Ilex a Blechnum (Cod Cynefin UE: 91A0)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 14***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae'r graddau yn cynyddu.
- Mae'r coetir yn cynnwys coed cynhenid lleol sy'n ffurfio canopi gan gynnwys: *Quercus petraea, Betula pubescens, B. pendula, Fraxinus excelsior* a *Sorbus aucuparia.*
- Mae patrwm oedran cymysg yn y coetir.
- Mae adfywio yn digwydd a gall hadau digonol dyfu i fod yn goed ifanc ac yn y pendraw yn goed canopi.
- Nid oes unrhyw rywogaethau dieithr sylweddol.

**4.15 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 15: Ffynhonnau caregaidd gyda ffurfiad twffa (Cratoneuron) (Cod Cynefin UE: 7220)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 15***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Nid yw'r nodwedd yma yn Eryri yn ffurfio twffa ond dylai arddangos gorchudd o fwsoglau sy'n dominyddu fel *Cratoneuron communatum, Philonotis fontana* a *Bryum pseudotriquetrum* gyda phlanhigion nodweddiadol aml fel *Montia fontana, Chrysosplenium oppositifolium* a *Saxifraga stellaris.* Nid oes unrhyw gynnydd sylweddol mewn gorchudd glaswellt na brwyn.
- Mae graddau llystyfiant y gwanwyn yn bennaf yn cael ei benderfynu gan ffactorau naturiol, yn bennaf hydroleg. Gallai gostyngiad yn y graddau fod yn ymateb i sathru a thresmasiad gan mathau o frwyn a gweiriau oherwydd cyfoethogi maetholion.

**4.16 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 16: Ffeniau alcain (Cod Cynefin UE: 7230)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 16***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae'r cynefin yn cynnwys tyfiant a ddylanwadir gan beth cyfoethogiad sail, ble mae mwsoglau brown (fel *Scorpidium scorpioides*, *Cratoneuron commutatum* a *Drepanocladus revolvens)* yn bresennol. Mae mathau hesg bach fel *Carex viridula, C. panicea, C. dioica C. pulicaris* ac *Eriophorum spp* yn bresennol ac fel arfer hefyd *Pinguicula vulgaris.*

**4.17 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 17: Ffurfiannau Alpaidd arloesol o'r Caricion bicolorisatrofuscae (Cod Cynefin UE: 7240**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 17***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae'r nodwedd yn cynnwys tyfiant cyfoethog ei sail gaiff ei lifolchi yn gyson gan ddŵr oer.
- Dylai'r cynefin fod â gorchudd bryoffytau uchel gan gynnal alpinau arctig fel *Saxifraga oppositifolia*, *S. stellaris* a *Thalictrum alpinum*. Dylai *Juncus triglumis* fod yn bresennol a hesg fel *Carex viridula.*
- Ni ddylai fod unrhyw fathau nad ydynt yn gynhenid.
- Dylai'r planhigion blodeuol fedru blodeuo a chreu hadau heb amhariad oherwydd pori.

**4.18 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 18: *Llyriad nofadwy Luronium natans* (Cod Cynefin UE: 1831)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 18***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae lleiafswm *Luronium natans* yn tyfu yn Llyn Cwmffynnon.

**4.19 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 19: Mwsogl pluog main gwyrdd *Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus* (Cod Cynefin UE: 1393)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 19***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Mae'r mwsogl yn bresennol yn nhir gwlyb A a B yng Nghwm Afon Llafar.
- Dylai'r llystyfiant cysylltiedig gael ei ddominyddu gan frwyn a hesg gyda <20% o dyfiant brwyn.
- Dylai fod llai na 10% o ddaear noeth wedi ei aflonyddu o fewn y tir gwlyb.

Yn ogystal, mae pob Amcan Cadwraeth â nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, nid yn rhywbeth sydd yn ei le. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i **ACA Eryri** (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau bregusrwydd**

Caiff yr ardal ei phori yn helaeth gan ddefaid. Mewn nifer o ardaloedd mae gorbori ecolegol yn digwydd gyda rhywogaethau ericaceous yn cael eu llethu gyda rhywogaeth gwair yn dominyddu ac mae cymunedau mynydd fel rhostir mwsogl yn cael eu newid a'u lleihau o ran arwynebedd. Mae datrys y broblem yn gymhleth oherwydd fod bugeilio traddodiadol wedi newid, newidiadau eraill mewn rheoli da byw yn yr ardaloedd mynyddig agored hyn ynghyd ag economeg ffermio ucheldir. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn weithredol yn mynd i'r afael â hyn drwy drafod cytundebau rheoli.

Defnyddiwyd Eryri, sy'n cynnwys y copaon uchaf yng Nghymru, ers amser i ddringo creigiau a cherdded mynyddoedd. Mae'n amodol i bwysau mawr o safbwynt hamdden a ble fo rhain wedi eu crynhoi, yn arbennig ar lwybrau ac ardaloedd y copa, mae problemau erydu garw, er gwaethaf rheolaeth. Er hynny, yn anaml y bydd y rhain yn ardaro ar nodweddion arbennig yr ardal. Mae gwaith adfer gan Barc Cenedlaethol Eryri, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a CCGC yn mynd i'r afael â'r broblem yma.

Mae'r glawiad trwm a'r ddaeareg/priddeg asidaidd helaeth yn golygu fod yr ardal yma, yn enwedig ei chyrsiau dŵr a'r llynnoedd, yn agored i niwed asideiddio.

Mae rhannau o'r safle (Cwm Crafnant, Cwm Idwal a'r Wyddfa) yn cael eu rheoli fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau rheolaeth CCGC.

## Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)

### AGA Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli

**Trosolwg**

Saif y safle ym mhen de-orllewinol eithaf Penrhyn Llŷn gyda Môr Iwerddon bron yn ei amgylchynu ac mae'n agored i'r gwyntoedd cyffredin a systemau'r tywydd. O angenrheidrwydd mae ei gynefinoedd yn cael eu dylanwadu gan ei leoliad, ei ddaeareg a'i hinsawdd ac mae'r ardal arfordirol yn cefnogi rhai o'r enghreifftiau gorau sy'n bodoli o'r rhostiroedd arfordirol a morol a glaswelltir yn Llŷn, tra fo ardaloedd mwy mewndirol yn cefnogi ardaloedd amaethyddol wedi eu gwella. Mae'r safle yn cynnwys tair ynys, Ynys Enlli a dwy ynys fach a elwir yn Ynysoedd y Gwylanod. Dynodwyd y safle yn AGA oherwydd ei ddiddordeb adaryddol ac mae'n arbennig o bwysig oherwydd ei boblogaethau magu y Frân Goesgoch ac Adar Drycin Manaw.

Bu'r ardal yn gadarnle i'r Frân Goesgoch ers amser ac mae dros 14 pâr yn nythu yn rheolaidd yma. Mae'r Frân Goesgoch yn ffynnu yn yr ardal sy'n cynnal 5% o boblogaeth y DU oherwydd amrywiaeth y cynefinoedd tywarch byr a chynefinoedd bwydo pridd tenau a safleoedd magu sydd ar gael – gyda chlogwyni'r môr a'r ogofâu yn darparu safleoedd magu tra fod clogwyni, rhostir, glaswelltir morwrol a phorfa mewndirol a chaeau tir âr yn darparu safleoedd bwydo drwy'r flwyddyn i'r bwydwyr asgwrn cefn arbenigol. Treulia Adar Drycin Manaw mwyafrif eu bywydau allan yn y môr agored ond maent yn ymgynnull mewn safleoedd magu gan ddychwelyd yn ffyddlon iddynt drwy gydol eu bywydau. Mae'r rhain yn dueddol i fod ar ynysoedd alltraeth sy'n rhydd rhag ysglyfaethwyr ac mae Ynys Enlli yn cynnal dros 2% o boblogaethau magu y DG. Maent yn adar sy'n byw yn hir (cafodd aderyn a fodrwywyd yn 1955 ei gofnodi eto yn 2002 a 2003) ond mae y nifer a fegir fel arfer yn isel gyda dim ond un wy yn cael ei ddodwy yn flynyddol gan yr oedolion (>5 mlynedd). Maent yn bresennol ar yr ynys o ganol Mawrth i ganol Hydref ac yn nythu mewn tyllau ar y mynydd, llethrau clogwyni ac mewn cloddiau a waliau a adeiladwyd gan ddyn.

Mae Ynysoedd y Gwylanod ac yn arbennig ynys fwy Ynys Gwylan Fawr yn bwysig i gynnal yr heidiau magu mwyaf o'r Pâl yng ngogledd Cymru ac mae Gwalch y Penwaig a'r Gwylog hefyd yn nythu mewn niferoedd bychain. Ceir yma hefyd boblogaeth iach o'r Bilidowcar yn magu sy'n fwy na 1% o boblogaeth magu y DG.

Mae'r safle hefyd yn bwysig oherwydd amryw o fathau planhigion fasgwlaidd ac anfasgwlaidd, yn arbennig Cor-rosyn rhuddfannog, *Tuburaria guttata* a Banadl gorweddol *Cytisus scoparius* subsp, *maritimus* a dau gen rhostir sydd yn brin yn genedlaethol, Cen rhuban blewog *Heterodermia leucomela* a'r Cen eurwallt *Teloschistes flavicans.*

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.1 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y cyfnod magu mae'r ardal yn rheolaidd yn cynnal:
*Pyrrhocorax pyrrhocorax* gyda 3.5% o Gyfrif poblogaeth fagu Prydain Fawr, mor ddiweddar â'r 1990au.

**ERTHYGL 4.2 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y cyfnod magu mae'r ardal yn rheolaidd yn cynnal:
*Puffinus puffinus* gyda 3.2% o Gyfrif poblogaeth fagu Prydain Fawr, yn1996

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Poblogaeth bwysig rhyngwladol (1% neu fwy o boblogaeth Prydain Fawr) o'r frân goesgoch *Pyrrhocorax pyrrhocorax* yn y tymor magu a thu allan i'r tymor**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 1 Y Frân Goesgoch***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
- Mae poblogaeth fagu'r Frân Goesgoch yn 14 pâr o leiaf neu 5% o boblogaeth Prydain Fawr.
- Mae poblogaeth fagu'r Frân Goesgoch yn o leiaf 28 o unigolion neu 5% o boblogaeth Prydain Fawr.
- Cynefin addas digonol yn bresennol i gynnal y poblogaethau.
- Mae'r boblogaeth fagu yn sefydlog neu yn cynyddu.
- Cynhyrchiant yn sefydlog.
- Mae'r heidiau nad ydynt yn magu yn sefydlog neu yn cynyddu (haf a gaeaf).
- Defnyddia adar magu a rhai nad ydynt yn magu Ynys Enlli i fwydo drwy gydol y flwyddyn.
- Cynefinoedd bwydo'r Frân Goesgoch eu hunain â statws cadwraeth ffafriol ac mae cyfyngiadau penodol a gweithredol a'r cyfarwyddebau pori i'r cynefinoedd hyn yn ymgorffori gofynion bwydo'r Frân Goesgoch (h.y. uchder y glastir a daear noeth).
- Ychydig iawn o amharu sydd ar y Frân Goesgoch pan fydd yn magu ac yn bwydo.
- Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar y nodwedd o dan reolaeth.

**4.2 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 2: Poblogaeth o bwysigrwydd rhyngwladol (1% neu fwy o boblogaeth Prydain Fawr) o Adar Drycin Manaw *Puffinus puffinus* sy'n magu.**

**Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 2 Adar Drycin Manaw**
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
- Mae poblogaeth fagu Adar Drycin Manaw (wedi eu cyfyngu i Ynys Enlli) yn sefydlog neu yn cynyddu.
- Mae'r cyfradd atgenhedlu yn parhau yn sefydlog.
- Lleiafswm yw'r marwolaethau o atyniadau'r goleudy, ffensio a seilwaith arall.

- Nid oes unrhyw ysglyfaethwyr daear wedi eu cyflwyno.
- Nid yw'r adar nythu yn cael eu amharu gan waith adfer ar waliau terfyn neu weithgareddau hamdden.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

Yn ogystal, mae pob Amcan Cadwraeth â nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, nid yn rhywbeth sydd yn ei le. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i Glannau Aberdaron ac Ynys Enilli ACA (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau bregusrwydd**

Mae lefelau trwm o bori gan ddefaid yn effeithio'n ffisegol ar dyllau Adar Drycin Manaw; mae cynlluniau rheoli i leihau nifer y da byw yn cael eu hystyried. Cwtogi ymlediad rhedyn i'r glaswelltir arfordirol ar yr ardaloedd bwydo; mae dulliau o reoli ymlediad rhedyn yn cael eu hystyried. Mae rhannau o'r ardal dan bwysau trwm gan weithgarwch hamdden gan gerddwyr a'u cŵn sy'n tarfu ar y Frân Goesgoch yn bwydo, er ni ystyrir bod hyn yn sylweddol ar hyn o bryd.

## AGA y Berwyn

**Trosolwg**

Mae ACA Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd yn safle ucheldir mawr (27,132 ha), ac mae'n cynnwys yr ardal fwyaf o fignen a rhostir sych Ewropeaidd yng Nghymru. Ceir yno dri safle arwahanol, SSSI Y Berwyn, SSSI Gweunydd Llandegla ac SSSI Rhiwabon, Mynyddoedd Llantysilio a'r Mwynglawdd. Cymysgfa yw'r safleoedd hyn yn bennaf o rostir sych a llystyfiant gorgors gyda chlytiau o wernydd trawsnewid a llystyfiant cors grynu a welir fel brithwaith cymhleth, fel arfer ar fathau o gerrig asidig a gyda'i gilydd gellir eu disgrifio fel gweundir ucheldir.

Mae'r Berwyn yn cynnal y rhan mwyaf helaeth o gorgors sy'n agos at fod yn naturiol yng Nghymru. Caiff llawer o lystyfiant y gorgors ei ddominyddu gan NVC math M19 *Calluna vulgaris–Eriophorum vaginatum* Corgors grug a Phlu'r gweunydd unben gyda Chreiglys *Empetrum nigrum* ac yn aml gorchudd eang o fwsogl hypnoid; ac yn y gymuned yma gwelir fod Mwyaren y Berwyn *Rubus chamaemorus* yn agos at gyfyngiad mwyaf deheuol ei hardal ym Mhrydain. Ar fawn dyfnach mae clystyrau llai o M18 *Erica tetralix–Sphagnum papillosum* gorgors, gyda rhai yn dangos patrwm nodedig ar yr wyneb. Mae llystyfiant y gors yn dangos trawsnewid i rostir gaiff ei ddominyddu gan rug a phrysgwydd bach.

Mae'r Berwyn yn cynnwys y clystyrau mwyaf o rostir Ewropeaidd sych yr ucheldir yng Nghymru. Mae'r rhostir sych yn nodweddiadol o leoliad mwy dwyreiniol y Berwyn gyda hinsawdd llai cefnforol na'r prif ucheldir pwysig eraill yng Nghymru ac mae'n cynnwys rhostir NVC math H12 *Calluna vulgaris–Vaccinium myrtillus* yn bennaf gyda Chreiglys *Empetrum nigrum* yn aml a Llus coch *Vaccinium vitis-idaea* bob yn hyn a hyn.

Mae'r llystyfiant rhostir eraill sy'n bresennol yn cynnwys ardaloedd o rostir H18 *Vaccinium myrtillus–Deschampsia flexuosa* ac mewn rhai ardaloedd clystyrau o rostir llaith H21 *Calluna vulgaris–Vaccinium myrtillus–Sphagnum capillifolium*. Mae'r rhostiroedd olaf yma mewn lleoliad canolog rhwng y rhostiroedd sychach a'r gorgors ac yn cynnal planhigion achlysurol sef Ceineirian bach *Listera cordata*.

Y Berwyn yw'r ucheldir pwysicaf yng Nghymru i fagu adar. Mae'n cynnal ystod eang o fathau ynghyd â niferoedd rhyngwladol sylweddol o'r Bod Tinwyn *Circus cyaneus*, y Cudyll Bach *Falco columbarius*, Hebog Tramor *Falco peregrinus* a'r Barcud *Milvus milvus,* yn ogystal â chyfran sylweddol o boblogaeth Cymru o fathau eraill gan gynnwys y Dylluan Glustiog *Asio flammeus,* Cwtiad Aur *Pluvialis apricaria*, y Grugiar *Lagopus lagopus* a'r Grugiar Ddu *Tetrao tetrix*.

Gwelir y cymunedau llystyfiant calchaidd sydd hefyd wedi eu dynodi ar ran o'r safle SSI Rhiwabon a Llantysilio a'r Mwynglawdd. Mae'r ardal yma yn cynnwys cerrig brig calchfaen carbonifferaidd ar y llethr a adwaenir fel Creigiau Eglwyseg, gyda chlogwyni, sgrïau a glaswelltir amlwg. Cefnoga'r sgrïau calchfaen yn yr ardal yma nifer o fathau prin o blanhigion fel Llawredynen y calchfaen *Gymnocarpium robertianum,* gyda'r llethrau creigiog yn cynnal Marchredynen y calchfaen *Dryopteris submontana,* rhedynen brin yn genedlaethol ar bafin calchfaen a'r sgri ar ffin ddeheuol ei ddosbarthiad yn Rhiwabon. Mae Creigiau Eglwyseg hefyd yn cynnal poblogaethau o'r Gerddinen Seisnig (*Sorbus anglica)* a Heboglys Cambria *(Heiracium cambricum)*.

Gellir hefyd weld glaswelltiroedd calchaidd ym mhen gogledd-ddwyreiniol SSSI mynyddoedd Rhiwabon a Llantysilio a'r Mwynglawdd. Yn yr ardal yma ceir sawl math o laswelltir niwtral, ucheldir asid a chalchaidd dros ardaloedd o greigiau asidig a chalchaidd ynghyd ag ardaloedd o redyn a phrysg. Yr ardal yma yw'r unig ardal yng Nghymru ble ceir yr Hesgen ysbigog *Carex muricata* ssp. *Muricata* sydd mewn perygl difrifol.

Gwelir clystyrau o Wyfynod Cliradain Gymreig *Synanthedon scoliaeformis* mewn sawl ardal, dyma yw'r cryfaf o ddim ond tair poblogaeth sydd yng Nghymru.

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.1 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

**Yn ystod y cyfnod magu mae'r ardal yn rheolaidd yn cynnal:**
*Circus cyaneus* 2.2% o boblogaeth fagu PF cymedr 5 mlynedd, 1991-1995
*Falco columbarius* 1.1% o boblogaeth fagu PF cymedr 5 mlynedd, 1991-1995
*Falco peregrinus* 1.5% o boblogaeth fagu PF cymedr 5 mlynedd, 1991-1995
*Milvus milvus* 1.2% o boblogaeth fagu PF cymedr 5 mlynedd, 1991-1995

**Amcanion Cadwraeth**

**4.7 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 7: Bod tinwyn *Circus cyaneus* (Cod Rhywogaeth UE: A082)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 7***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid cadw maint y boblogaeth yn un ar ddeg pâr magu neu ei gynyddu.
- Bydd cynefin priodol digonol i gynnal y boblogaeth yn y tymor hir gan gynnwys clytiau o rug tal ar gael i nythu a chlwydo, ardaloedd o laswelltir, rhedyn isel/prysg i fwydo gyda chyflenwad digonol o fathau o ysglyfaeth ar ffurf adar a mamaliaid bach i gynnal eu magu llwyddiannus.
- Bod dosbarthiad y rhywogaeth ar y safle yn cael ei gadw.
- Dosbarthiad a maint y cynefinoedd sy'n cefnogi'r rhywogaeth yn cael ei gadw.
- Ni ddylid caniatáu datblygiadau os y gellir dangos eu bod yn debygol o gael effaith wael ar y Bod tinwyn.
- Ni fydd poblogaethau o rywogaethau ysglyfaethol, fel llwynogod a'r frân dyddyn, yn fygythiad i adar sy'n nythu ar y ddaear.
- Rheolir y tiriogaethau hela drwy reoli pori i wella amrywiaeth ffurf yn y glaswelltiroedd. Bydd hyn yn cynyddu'r hadau a gynhyrchir ac yn uchafu'r ysglyfaeth fydd ar gael e.e. golfanod bach.
- Ni fydd lleoliad unrhyw nyth yn cael ei darfu.
- Ni ddylai erledigaeth anghyfreithlon gan bobl o adar a ddiogelir ddigwydd.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.8 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 8: Y Cudyll Bach *Falco columbarius* (Cod UE: A098)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 8***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid cadw maint y boblogaeth yn 13 pâr magu neu ei gynyddu.
- Bydd cynefin priodol digonol i gynnal y boblogaeth yn y tymor hir gan gynnwys clytiau o rug tal ar gael i nythu a chlwydo, ardaloedd o laswelltir, rhedyn isel/prysg i fwydo gyda chyflenwad digonol o fathau o ysglyfaeth ar ffurf adar a mamaliaid bach i gynnal eu magu llwyddiannus.
- Bod dosbarthiad y rhywogaeth ar y safle yn cael ei gadw.
- Dosbarthiad a maint y cynefinoedd sy'n cefnogi'r rhywogaeth yn cael ei gadw.
- Ni ddylid caniatáu datblygiadau os y gellir dangos eu bod yn debygol o gael effaith wael ar y cudyll bach.
- Ni fydd poblogaethau o rywogaethau ysglyfaethol, fel llwynogod a'r frân dyddyn, y gellir eu rheoli yn gyfreithiol, yn fygythiad i adar sy'n nythu ar y ddaear.
- Rheolir tiriogaethau hela cyfagos drwy reoli'r pori i wella amrywiaeth ffurf yn y glaswelltiroedd. Bydd hyn yn cynyddu'r hadau a gynhyrchir ac yn uchafu'r ysglyfaeth fydd ar gael e.e. golfanod bach.
- Ni fydd lleoliad unrhyw nyth yn cael ei darfu.
- Ni ddylai fod erledigaeth anghyfreithlon gan ddyn o'r adar yma a ddiogelir.

- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.9 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 9: Hebog Tramor *Falco peregrinus* (EU Code: A103)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 9***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid cadw maint y boblogaeth yn 13 pâr magu neu ei gynyddu.
- Tirwedd mynyddig a gweundir gyda chlogwyni, creigiau a chwareli i nythu a chlwydo yn ogystal â glaswelltiroedd, rhedyn isel/prysg i fwydo gyda chyflenwad digonol o fathau o ysglyfaeth ar ffurf adar a mamaliaid bach i sicrhau magu llwyddiannus.
- Ni ddylai ystod y boblogaeth leihau.
- Dosbarthiad a maint y cynefinoedd sy'n cefnogi'r rhywogaeth yn cael ei gadw.
- Ni ddylid caniatáu datblygiadau os y gellir dangos eu bod yn debygol o gael effaith wael ar yr Hebog tramor.
- Ni fydd poblogaethau o rywogaethau ysglyfaethol, fel llwynogod a'r frân dyddyn, y gellir eu rheoli yn gyfreithiol, yn fygythiad i adar sy'n nythu ar y ddaear.
- Rheolir tiriogaethau hela cyfagos drwy reoli'r pori i wella amrywiaeth ffurf yn y glaswelltiroedd. Bydd hyn yn cynyddu'r hadau a gynhyrchir ac yn uchafu'r ysglyfaeth fydd ar gael e.e. golfanod bach.
- Ni fydd lleoliad unrhyw nyth yn cael ei darfu.
- Ni ddylai fod erledigaeth anghyfreithlon gan ddyn o'r adar yma a ddiogelir.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.10 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 10: Y Barcud *Milvus milvus* (Cod UE: A074)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 10***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Rhaid cadw maint y boblogaeth yn 2 pâr magu neu ei gynyddu.
- Angen coetir llydan-ddeiliog i nythu a chlwydo yn ogystal â rhostir a glaswelltir garw i fwydo gyda chyflenwad digonol o fathau o ysglyfaeth ar ffurf y fran dyddyn, adar a mamaliaid bach i gynnal magu llwyddiannus. (NODER: Nid yw'r Barcud yn nythu yn yr ACA.)
- Ni ddylid caniatáu datblygiadau os y gellir dangos eu bod yn debygol o gael effaith wael ar y barcud.
- Rheolir tiriogaethau hela cyfagos drwy reoli'r pori i wella amrywiaeth ffurf yn y glaswelltiroedd. Bydd hyn yn cynyddu'r hadau a gynhyrchir ac yn uchafu'r ysglyfaeth fydd ar gael e.e. golfanod bach.
- Ni fydd lleoliad unrhyw nyth yn cael ei darfu.
- Ni ddylai erledigaeth anghyfreithlon gan bobl o adar a ddiogelir ddigwydd.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

Yn ogystal, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r

amcan cadwraeth, nid yn rhywbeth sydd yn ei le. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i **ACA Y Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd a AGA Y Berwyn** (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau bregusrwydd**

Mae cynefinoedd magu'r Bod tinwyn, y Cudyll bach, y Barcud a'r Hebog tramor dan fygythiad gan weithgarwch amaethyddol anaddas megis draenio ac ail-hadu, defnyddio gwrtaith a phrosesau porthi niweidiol. Defnyddir cytundebau rheoli gyda pherchnogion a phreswylwyr drwy gytundeb ar y cyd drwy gynllun Tir Cymen, cynllun amaeth-amgylcheddol i ymdrin â'r problemau hyn yn llwyddiannus. Mae llwyddiant magu'r Bod tinwyn a'r Cudyll bach sy'n nythu ar y ddaear dan fygythiad gan lefelau uchel o rywogaethau ysglyfaethus megis y llwynog a'r frân dyddyn. Anogir perchnogion tir i ddefnyddio mesurau priodol i reoli rhywogaethau sy'n bla.

Mae'r holl rywogaethau cymhwysol yn agored i gael eu herlid gan ddyn, drwy aflonyddu neu ddinistrio nythod, wyau neu gywion; yn ogystal â drwy ladd adar llawn dwf yn anghyfreithlon. Mewn ymgais i ymdrin â'r broblem hon, ceir cyswllt â'r perchnogion, yr heddlu a'r RSPB yn ogystal ag ymgais i wella dealltwriaeth y cyhoedd.

## AGA Craig yr Aderyn

**Trosolwg**

Coda craig uchel Craig yr Aderyn o lefel y môr i dros 250 metr ac mae'n nodwedd drawiadol yn y dirwedd ar ochr ddeheuol dyffryn Dysynni. Mae'r safle yn Ardal Cadwraeth Arbennig oherwydd ei fod yn safle magu a chlwydo pwysig i'r Frân Goesgoch. Mae Craig yr Aderyn ei hun yn ffurfio craidd anticlin mawr ble mae craig Ordofigaidd yn cynnwys cerrig brig ffurfiant Craig Cau. Mae'r creigiau igneaidd yma yn bennaf yn cynnwys tyffiau llif-lludw rhyolithig a gloddiwyd i gael cerrig ffordd.

Defnyddir y creigiau yn rheolaidd i gefnogi dros 1% o boblogaeth Prydain o'r Frân Goesgoch, gyda phum neu chwe pâr yn nythu mewn tyllau ac agennau, sy'n gwneud hon y boblogaeth ddwysaf o'r Frân Goesgoch sy'n magu yn Ynysoedd Prydain (chwe pâr mewn 0.5km). Er hynny, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r magu wedi gostwng i 3-4 pâr. Mae Craig yr Aderyn hefyd yn safle clwydo i'r Frân Goesgoch drwy gydol y flwyddyn gydag dar sydd dim yn magu yn yr haf a niferoedd uchel y tu allan i'r tymor magu. Yn ystod y cyfnod 1991/92-1995/96, roedd uchafswm y cyfrif ar gyfartaledd yn 56, ond ers hynny mae nifer yr adar clwydo wedi gostwng i gyfartaledd o 18 yn ystod y cyfnod 1999/00 - 2004/05. Daeth yn eglur fod yr adar sy'n defnyddio Craig yr Aderyn yn rhan o'r meta-boblogaethau sy'n treulio llawer o'r flwyddyn yn ne Meirionnydd gyda'r prif safle clwydo arall yn Chwarel Tonfannau sydd 8km i ffwrdd ger Tywyn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae tarddiad adar unigol sy'n defnyddio Craig yr Aderyn wedi ei sefydlu drwy olrhain cywion gyda modrwyau lliwgar. Dengys y canlyniadau hyd yma fod yr adar sy'n defnyddio'r safle yma wedi eu geni yng Ngheredigion a Sir Drefaldwyn a'u

bod wedi gadael nythod hyd at 70km i ffwrdd. Dim ond ychydig o gofnodion sydd am adar o ogledd Gwynedd.

Yn flaenorol, roedd Craig yr Aderyn wedi ei lleoli ar aber Dysynni. Cafodd yr ardal ei draenio yn y ddeunawfed ganrif ac felly mae'r graig yn awr yn edrych dros dir fferm ac yn 7km o'r môr. Serch hynny, mae'r graig yn cynnal cytref fagu o'r Bilidowcar, yr unig safle nythu mewndirol rheolaidd yng Nghymru. Cofnodwyd y cytref yn gyntaf gan Edward Lluyd yn 1695 ac fe soniwyd am yr aderyn yn llyfr Thomas Pennant "Tour of Wales" yn 1784. Mae dros 60 pâr o'r Bilidowcar yn nythu ar y creigiau, sy'n cynrychioli tua 1% o boblogaeth fagu PF. Y rhywogaethau magu eraill yw'r Dylluan Wen, Hebog tramor, Tingoch, Tinwen y garn, Llinos a'r Dylluan fach.

I'r gogledd a'r dwyrain o'r creigiau mae ardal fawr o laswelltir asid sydd heb ei gwella sy'n gymysg gyda rhedyn. Dyma un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar nifer y Frân Goesgoch sy'n clwydo ac yn magu gan eu bod angen gwndwn heb ei wella, sy'n gyfoethog o ran ei brif fwyd, infertebratau pridd ac yn ddigon byr i'r Frân Goesgoch allu ei ddefnyddio i'w pigau ddod o hyd i fwyd. Ceir rhostir sych asidig yn rhan de-ddwyreiniol y safle. Mae ardal fechan o laswelltir corsiog sydd wedi ei gyfoethogi yn ei waelod uwchben Gesail yn ychwanegu at amrywiaeth y planhigion gyda mathau fel Tafod y gors *Pinguicula vulgaris*, Sbigfrwynen gadeiriog *Eleocharis multicaulis* a'r Hesgen welwlas *Carex Pallescens* a mwsoglau fel *Campylium stellatum, Ctenidium molluscum a Fissidens adianthiodes*.

Mae'r creigiau sy'n wynebu'r gogledd a'r llethrau yn cynnal ystod dda o fwsoglau a mathau o lysiau'r afu. Dylid tynnu sylw penodol at y mwsoglau sy'n brin yn genedlaethol sy'n tyfu ar glogfeini yn y sgri; *Grimmia decipens*, sy'n ymddangos yn lleihau o ran ei ystod genedlaethol a *Hedwigia integrifolia* sy'n tyfu yma yn ei leoliad mwyaf deheuol ym Mhrydain. Cofnodwyd *Jubula hutchinsiae* sydd yn fath prin sy'n tyfu ar gerrig ar ochr y nant. Ar ardaloedd creigiog uwchben prif wyneb y graig cofnodwyd Rhedynach Teneuwe Wilson *Hymenophyllum wilsonii* a'r Rhedyn tridarn *Gymnocarpium dryopteris*.

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.1 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y cyfnod magu mae'r ardal yn rheolaidd yn cynnal:
*Pyrrhocorax pyrrhocorax* 1.8% o boblogaeth fagu PF 1999

Yn ystod y gaeaf mae'n cefnogi'r isod yn rheolaidd:
*Pyrrhocorax pyrrhocorax* 8% o boblogaeth fagu PF 1996

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Poblogaeth bwysig rhyngwladol (1% neu fwy o boblogaeth Prydain Fawr) o'r Frân Goesgoch *Pyrrhocorax pyrrhocorax* yn y tymor magu a thu allan i'r tymor**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 1, Y Frân Goesgoch***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bod poblogaeth fagu'r Frân Goesgoch yn o leiaf 5 pâr.
- Dylai'r boblogaeth sy'n clwydo dros y gaeaf fod yn leiaf 27 o adar.
- Cynefin addas digonol yn bresennol i gynnal y poblogaethau.
- Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar y nodwedd o dan reolaeth.

Yn ogystal, mae pob Amcan Cadwraeth â nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, nid yn rhywbeth sydd yn ei le. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i ACA Craig yr Aderyn (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau bregusrwydd**

Mae'r clogwyni creigiog yn rheolaidd yn cynnal dros 1% o boblogaeth y Frân Goesgoch sy'n magu ym Mhrydain, ac 8% o'r boblogaeth aeafu ym Mhrydain, gan ei fod hefyd yn safle clwydo i'r rhywogaeth hon. Dyma safle'r unig nythfa o'r Bilidowcar sy'n magu'n fewndirol yng Nghymru. Mae'r ddwy rywogaeth yn agored i gael eu haflonyddu gan fod y clogwyni creigiog yn safle dringo adnabyddus. Ymdrinnir â hyn drwy osod cyfyngiadau o ran pa bryd y caniateir i'r gweithgarwch ddigwydd. Caiff y pwysau sy'n deillio o weithgarwch pori ei reoleiddio drwy gytundeb rheoli Tir Gofal, i greu cynefin bwydo ffafriol i'r Frân Goesgoch.

## AGA Aber Dyfi

**Trosolwg**

Lleolir aber y Ddyfi ar arfordir gorllewinol Cymru ar y ffin rhwng Ceredigion, Gwynedd a Phowys. Mae'r AGA yn cynnwys yr aber, gyda'r morfa heli cyfagos, glaswelltir corsiog a glaswelltir wedi ei wella. Mae'r casgliad morydol o ddiddordeb ffisiograffig pwysig. Mae hyn yn cynnwys banc tywod, traethellau, morfa heli, mawnogydd, sianeli afon a chilfachau. Mae'r aber ei hun yn nodwedd o ACA morol Pen Llŷn a'r Sarnau.

Pwysigrwydd y safle yw fel ardal aeafu draddodiadol dros y gaeaf i'r Ŵydd Talcen Wen *Anser albifrons flavirostris* – yr ardal mwyaf deheuol a ddefnyddir i'r boblogaeth yma yn y DG. Tan ddechrau'r 1980au roedd y gwyddau yn clwydo ar yr aber ac yn hedfan i'r tir un ai i fynyddoedd y Cambria neu i'r cyforgors yng Nghors Fochno i fwydo. Erbyn hyn, mae'r gwyddau yn defnyddio'r morfa heli a'r glaswelltir i fwydo gan glwydo ar y banciau tywod a'r traethellau.

Adroddwyd bod dirywiad cyffredinol ym mhoblogaethau Gwyddau Talcen Wen oherwydd fod yr adar wedi oedi cyn magu am y tro cyntaf

gan arwain i ostyngiad yn nifer yr adar ifanc. Mae hi'n ymddangos fod rhywbeth yn atal yr adar rhag llwyddo i ddod i gyflwr da i fagu ac felly ychydig iawn o'r gwyddau sy'n goroesi yn ddigon hir i fagu (Fox A.D. pers.comm. 2008]. Dywedwyd fod cystadleuaeth gydbenodol gyda Gwyddau Mawr Canada ar diroedd magu yr Ynys Las, a thywydd gwael, yn rhesymau posib dros hyn ond nid ydym yn deall yn union beth yw'r ffactorau dylanwadol. Mae'r niferoedd ledled y byd wedi dirywio o 35,600 uchel yn 99/00 i 24,895 a amcangyfrifwyd yn 2006 gyda niferoedd isel o adar ifanc wedi eu cofnodi yn y cyfnod hwnnw. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr haid sy'n gaeafu ar aber Dyfi sydd wedi cynnwys ychydig iawn o wyddau ifanc yn y blynyddoedd diwethaf, a ble fo niferoedd gaeafu wedi gostwng yn gyson o 167 yn 1998/99 i uchafswm o 102 yn ystod y tir gaeafu diwethaf (2005-6 i 2007-8). Caiff y dirywiad hefyd ei adlewyrchu mewn safleoedd eraill fel yn ne-ddwyrain yr Alban a Wexford.

Aber Dyfi yw'r unig safle gaeafu sy'n parhau yng Nghymru, a dyma yw'r safle mwyaf deheuol yn y DG. Mae yn ardal glwydo a bwydo ac mae yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cynnal yr ystod gaeafu traddodiadol yn y DG. Er hynny, mae'r dystiolaeth am grebachu yr ystod yn y gorffennol yn awgrymu fod poblogaethau ynysig bach yn arbennig o fregus.

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.1 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y gaeaf mae'n cefnogi'r isod yn rheolaidd:
*Anser albifrons flavirostris* (Ynys Las/Iwerddon/DG) 1% o boblogaeth PF anterth cymder 5 mlynedd am 1993/94 - 1997/98

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Gŵydd Talcen Wen *Anser albifrons flavirostris***

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 1***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
- Mae'r boblogaeth sy'n gaeafu ar aber Dyfi o lefel pwysigrwydd cenedlaethol (h.y.1% o'r boblogaeth genedlaethol (DG), yn flynyddol.
- Mae lefelau marwolaethau yn y gaeaf yn <1% yn flynyddol.
- Mae adar ifanc/sydd dim yn oedolion yn > 5% o'r boblogaeth gaeafu yn flynyddol.
- Mae'r holl ffactorau sy'n benodol i'r safle ac sy'n effeithio ar allu cynnal yr amodau hyn (e.e. aflonyddu y gellir ei osgoi) dan reolaeth.

Yn ogystal, mae pob Amcan Cadwraeth â nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, nid yn rhywbeth sydd yn ei le. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i AGA Aber Dyfi (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau bregusrwydd**

Mae aber Dyfi yn rheolaidd yn cynnal dros 1% o boblogaeth aeafu PF o'r Ŵydd Talcen Wen, a fel yr unig safle yng Nghymru a Lloegr, dyma yw'r boblogaeth mwyaf deheuol yn y DG. Gall aflonyddu gan weithgareddau hamdden gan gynnwys hela adar, a hefyd awyrennau sy'n hedfan yn isel, fod yn arwyddocaol i wyddau sy'n bwydo ac yn clwydo. Mae CCGC a'r RSPB yn prydlesu'r hawliau hela dros y mwyafrif o'r safle. Rhoddir yr hawliau hela i glybiau hela adar lleol yn y Warchodfa Natur Genedlaethol ble fo gwaharddiad gwirfoddol ar saethu gwyddau. Mae hefyd ardaloedd noddfa ble nad oes unrhyw saethu'n digwydd yn hanner dwyreiniol yr aber. Mae gan CCGC a'r RSPB wardeniaid yn eu lle a chaiff unrhyw aflonyddu o weithgareddau hamdden ei fonitro. Mae pori priodol ar y forfa heli a'r glaswelltir yn bwysig i gynnal yr ardaloedd bwydo. Ceir haid cynyddol o Wyddau Canada preswyl ar yr aber gyda tua 2,000 o adar. Nid ydym yn gwybod beth yw'r rhyngweithiad rhwng y rhywogaeth yma a'r Gwyddau Talcen Wen na beth yw effaith y cynefin.

## AGA Elenydd - Mallaen

**Trosolwg**

Mae ardal Elenydd - Mallaen wedi'i lleoli yn rhan ddeheuol Mynyddoedd Cambria yng nghanolbarth Cymru, gan ymestyn o flaenau cymoedd Cothi a Thywi i'r gogledd-orllewin o Lanymddyfri hyd at ddyffrynnoedd Ystwyth, Elan a Gwy yn y gogledd. Mae'r bryniau hyn wedi'u creu o greigiau'r cyfnodau Silwraidd ac Ordofigaidd ac mae'r tirffurfiau yn nodweddiadol o 'ucheldiroedd llechi' canol-de Cymru, gydag ucheldiroedd wedi'u gwahanu gan gymoedd serth.

Mae Elenydd wedi'i lleoli yng nghanol yr ardal hon. Mae'n un o'r ardaloedd pwysicaf o dir bryniog yng Nghymru o ran cadwraeth natur, ac o ddiddordeb neilltuol o ganlyniad i'r amrediad o adar nythu a geir yno. Mae llawer o lystyfiant y bryniau hefyd o ddiddordeb neilltuol. Mae Elenydd yn bwysig yng Nghanolbarth Cymru am ei llynnoedd ucheldir sy'n brin o faetholion. Mae'r ardal yn cynnal amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid anghyffredin.

Lleolir ardal Cwm Doethie - Mynydd Mallaen, sy'n bennaf yn cynnwys dyffrynnoedd serth ac ucheldiroedd, yn rhan ddeheuol Mynyddoedd Cambria. Mae iddi ddiddordeb eithriadol oherwydd ei chynefinoedd rhostir a choetir ac, yn arbennig, ei bywyd adar.

Lleolir Marcheini Uplands, Gilfach Farm a Gamallt i'r gogledd o'r Afon Gwy uwchlaw Rhaeadr. Dyma ardal o ddiddordeb eithriadol o ran ei adaryddiaeth. Mae'r safle hefyd yn cynnal ardaloedd pwysig o orgors, rhostir sych, coetir, glaswelltir a chreigiau brig â chyfoeth o gen.

Lleolir Carn Gafallt ar gyffordd afonydd Elan a Gwy ychydig islaw Rhaeadr. Mae'n enghraifft wych o safle sy'n bennaf yn ucheldir ac yn cynnal amrywiaeth eang o gynefinoedd. Mae'r rhain yn cynnwys esiamplau o goetiroedd llydanddail lled-naturiol o bwysigrwydd

cenedlaethol, islaw un o'r eangderau mwyaf o weundir grugog yn Sir Frycheiniog. Mae'r ardal hon yn bwysig nid yn unig am ei chymunedau planhigion, ond hefyd am gynnal poblogaethau nodedig o adar, creaduriaid di-asgwrn-cefn ac isblanhigion.

Mae Llynnoedd Ieuan, yn y bryniau rhwng dyffrynnoedd Gwy ac Ystwyth, yn ardal eang o weundiroedd godreol a gorgorsydd sy'n cynnwys tri llyn mynydd gydag ardaloedd cysylltiedig o fignen basn â thyfiant cyfredol .

Lleolir Cwm Gwynllyn mewn dyffryn rhewlifol i'r gogledd-orllewin o Raeadr. Mae ganddo nifer o nodweddion o ddiddordeb biolegol. Mae'n cynnwys ardaloedd pwysig o goetir derw digoes sy'n draenio'n rhydd, sydd wedi datblygu ar greigiau asidig Silwraidd, ac sy'n newid yn raddol yn gynefinoedd rhostir, ffridd a chreigiau. Mae Gwynllyn yn enghraifft dda o lyn sy'n brin o faetholion, ac wedi'i amgylchynu gan ardal drosiannol ddatblygedig yn cynnwys cynefinoedd corsiog, prysgdir a glaswelltir.

Mae Coedydd Glannau a Chwm Coel wedi'u lleoli yng Nghwm Elan ar ochr orllewinol Cronfa Ddŵr Garreg-ddu. Maent yn cynnwys enghreifftiau amrywiol o goetir derw digoes, gyda chymunedau datblygedig o gen epiffytig, mwsogl a llysiau'r afu.

Lleolir Coed yr Allt-goch ar lan ogledd-ddwyreiniol Cronfa Ddŵr Penygarreg yng Nghwm Elan. Mae'n esiampl dda o goetir derwen digoes, wedi'i ddatblygu ar greigiau Silwraidd sy'n draenio'n rhydd.

Mae Cerrig Gwalch yn esiampl dda o goetir collddail cymysg datblygedig ar glogwyn serth sy'n wynebu'r dwyrain yn Nyffryn Gwy, i'r gogledd o Raeadr.

Lleolir Caban Lakeside Woodlands ar lethrau sy'n wynebu'r dwyrain uwchlaw Cronfa Ddŵr Caban Coch yn nyffryn Claerwen.  Maent yn cynnal un o'r casgliadau isblanhigion mwyaf diddorol ym Maesyfed.

Mae Mwyngloddfa Cwm Ystwyth yn cynnwys hen weithfeydd mwyngloddio yn rhan uchaf Cwm Ystwyth. Mae o ddiddordeb arbennig oherwydd ei mwynau ac am y cymunedau o blanhigion sydd wedi datblygu ar y tomennydd gwastraff sy'n gyfoethog mewn metelau, allfrigiadau creigiog cysylltiedig ac adfeilion. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal amrywiaeth mawr o gen cerrig, gan gynnwys nifer o rywogaethau prin sydd fel arfer i'w canfod dim ond mewn mannau sy'n gysylltiedig â safleoedd sy'n gyfoethog mewn metelau trwm. Mae'r gweithfeydd mwyn tanddaearol yn bwysig ar gyfer ystlumod sy'n gaeafgysgu.

Mae safle Caeau Cnwch a Ty'n-y-graig yn cynnwys pedwar cae a reolir yn draddodiadol sy'n gorwedd mewn dyffryn bychan islaw Craig Cnwch, ger pentref Elan. Maent yn darparu enghraifft eithriadol o fath o laswelltir llys-gyfoethog sy'n nodweddiadol o gyrion ucheldir y Canolbarth.

Mae Caeau Troed-rhiw-drain wedi'u lleoli ar lethrau ar ochr de-orllewinol Cronfa Ddŵr Pen-y-garreg yn Nyffryn Elan. Maent yn cynnal esiamplau eithriadol o ddolydd gwair ucheldirol llys-gyfoethog lle ceir cynrychiolaeth dda o nifer o rywogaethau planhigion prin.

Mae'r caeau'n amrywiadau ar fath o laswelltir sy'n nodweddiadol o'r Canolbarth.

Mae Gweunydd Ty'n-y-llidiart yn cynnwys cyfres o gaeau o borfa arw ar ychydig o lechwedd i'r gorllewin o Gronfa Ddŵr Garreg-ddu yng Nghwm Elan. Mae'r safle'n nodedig am ei bod yn enghraifft ragorol o'r amrediad o borfeydd sych a llaith heb eu gwella a oedd unwaith yn nodweddiadol o gyrion yr ucheldir yn y rhan yma o Gymru. Fe wyddom fod dros gant o rywogaethau o uwchblanhigion yn tyfu yma.

Lleolir Rhos yr Hafod ar ochr y bryn i'r gogledd o Argae Penygarreg yng Nghwm Elan. Mae'n esiampl eithriadol o weirgloddiau a thiroedd pori sy'n gyfoethog o berlysiau lle ceir cynrychiolaeth dda o nifer o rywogaethau planhigion prin.

Mae Rhosydd Llanwrthwl yn cynnwys cyfres o borfeydd gwlyb heb eu gwella ar dir gwastad neu ar lechweddau esmwyth yn nyffryn Afon Dulas, i'r gorllewin o bentref Llanwrthwl. Mae maint ac ansawdd cnydau o laswelltir a rhostir gwlyb a llystyfiant y tir gwlyb ar Rosydd Llanwrthwl yn rhai neilltuol ac yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r hyn sydd yn weddill o'r cynefin hwn sydd o ansawdd da ym Mrycheiniog. Mae yma nifer o blanhigion sy'n brin yn lleol ac fe gofnodwyd ar y safle anifeiliaid di-asgwrn-cefn sy'n brin ar draws y wlad.

Lleolir Vicarage Meadows yn Abergwesyn yn rhan uchaf Dyffryn Irfon. Maent yn enghraifft bwysig o fath o laswelltir anghyffredin sydd heb ei wella ond sy'n llawn perlysiau. Mae'r cyfoeth o fflora yn cynnwys nifer o blanhigion anghyffredin.

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.1 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y cyfnod magu mae'r ardal yn rheolaidd yn cynnal:
*Falco columbarius* 0.5% o boblogaeth fagu PF fel cymedr 5 mlynedd, 1987-1991
*Milvus milvus* gyda 9.3% o boblogaeth fagu Ynysoedd Prydain, fel yn 1997

**Amcanion Cadwraeth**

**4.8 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 8: A407 Barcud Coch *Milvus milvus* yn magu**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 8***
- Yr ardal AGA yn parhau i gynnal o leiaf 15 pâr o farcutiaid coch sy'n magu, neu 0.5% o boblogaeth Prydain.
- Parhau i ddefnyddio'r safleoedd nythu traddodiadol o fewn yr AGA.
- Cynnal maint y cynefin bwydo lled-naturiol addas o fewn yr AGA.

- Cynnal nifer y celanedd sydd ar gael o fewn yr AGA.
- Cynnal y safleoedd clwydo yn yr AGA.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.9 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 9: A098 Cudyll Bach *Falco columbarius* yn magu**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 9***

- Yr ardal AGA yn parhau i gynnal o leiaf 7 pâr o'r cudyll bach, neu 0.5% o boblogaeth Prydain.
- Parhau i ddefnyddio'r safleoedd nythu traddodiadol o fewn yr AGA.
- Cynnal maint y cynefin bwydo lled-naturiol addas o fewn yr AGA.
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

Yn ogystal, mae pob Amcan Cadwraeth â nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, nid yn rhywbeth sydd yn ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys yr Amcanion Cadwraeth ar gyfer: Ardal Gwarchodaeth Arbennig Elenydd – Mallaen; Ardal Cadwraeth Arbennig Elenydd (ACA); ACA Coetiroedd Cwm Elan ac ACA Cwm Doethie - Mynydd Mallaen (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008).

**Ffactorau bregusrwydd**

Prif bwysigrwydd y safle yw ei boblogaeth dda o'r Cudyll Bach a'r Barcud Coch. Adar bach sy'n ysglyfaeth i'r Cudyll Bach, sydd i'w canfod yn bennaf yng nghynefinoedd rhostiroedd a phrysgwydd ar odre'r bryniau. Mae'r ardaloedd hyn yn agored i niwed gan orbori a llosgi gormodol, a wneir yn anghyfreithiol gan rai porwyr. Gall camau gorfodaeth gan AASG gynorthwyo i wella'r broblem. Mae'r Cudyllod Bach sy'n nythu yn agored i'w haflonyddu gan gerddwyr, beicwyr mynydd a beiciau modur. Mae Gwasanaeth Ceidwaid Dŵr Cymru a'r heddlu lleol yn ymdrechu i atal aflonyddwch, ac mae'r awdurdod lleol yn ystyried cyflwyno gorchmynion rheoleiddio traffic.

Mae Barcutiaid Coch yn chwilio am gyrff defaid ar y bryn agored yn ogystal â mamaliaid bychain a phryfed genwair ar ymyl y bryn. Maent felly'n fregus i leihad mewn cymorthdaliadau defaid, ac mae'r taliadau Ardal Amgylcheddol sensitif i bob pwrpas felly'n rhwystro newidiadau o'r fath. Mae Barcutiaid Coch yn nythu mewn coetiroedd, ac mae perygl i bobl aflonyddu arnynt yn ystod y tymor magu. Mae nythod mwyaf bregus y barcutiaid yn cael eu goruchwylio i rwystro aflonyddwch bwriadol a damweiniol. Gallai gwaith coedwigaeth fygwth rhai safleoedd nythu; fodd bynnag mae gwaith cysylltu gyda'r Awdurdod Coedwigaeth a'r Fenter Goedwigaeth wedi bod yn effeithiol wrth warchod y nythod mwyaf prysur.

## AGA Arfordir Ynys Gybi

**Trosolwg**

**Glannau Ynys Gybi**

Mae'r safle hwn yn un o ddiddordeb arbennig oherwydd ei nodweddion daearegol a biolegol, sy'n cynnwys cymunedau o rostiroedd a glaswelltir morwrol, clogwyni a silffoedd arfordirol, casgliadau o blanhigion ac adar fasgwlaidd, anifeiliaid di-asgwrn-cefn a'i ddaeareg solet. Lleolir y safle hwn yn y gornel sydd i'r gogledd orllewin o Ynys Gybi ac yma ceir y man mwyaf gorllewinol yn Ynys Môn. Saif Caergybi yn union i'r dwyrain.

Mae'r clogwyni'n gartref i gytrefi o adar y môr; mae gwylogod, llursod a phalod yn cyfuno i greu un o'r cytrefi mwyaf o garfilod magu yng ngogledd Cymru. Mae aderyn drycin y graig a'r wylan goesddu hefyd yn nythu ar y clogwyni hyn yn ogystal â'r hebog tramor a'r frân goesgoch. Gwna'r frân goesgoch ddefnydd helaeth o'r rhostir a mannau cyfagos er mwyn bwydo. Mae clochdar y cerrig, yr ehedydd, y llinos a'r llwydfron yn bridio'n rheolaidd yn y rhostir.

Cefnoga'r safle amrediad da o greaduriaid di-asgwrn-cefn sy'n cynnwys y glesyn serennog, *Plebejus argud*.
Mae'r *Eurodryas aurinia*, gloÿn byw brith y gors, wedi'i gofnodi yma yn y gorffennol.

**Tre Wilmot**

Dyma ardal eang o iseldir rhostir asidaidd sy'n gorchuddio cyfres o gefnau creigiog gyda phantiau rhyngddynt, sy'n galluogi creu amrediad o gymunedau llystyfiant rhostir. Caiff y rhostir sydd wedi'i ddraenio'n dda ar y cefnau ei ddominyddu gan rug (*Calluna vulgaris)*, eithin mân (*Ulex gallii*), a serennyn y gwanwyn (*Scilla verna*), ac ar y cerrig brig, ceir briweg y cerrig (*Sedum anglicum*).

Mae'r ardaloedd is yn cefnogi cymunedau rhostir gwlyb neu fawnog, gyda rhywogaethau megis y grug croesddail (*Erica tetralix*), glaswellt y gweunydd (*Molina caerulea*), plu'r gweinydd culddail (*Eriophorum angustifolium*) a'r corhelyg (*Salix repens*). Yn nodedig iawn ceir poblogaeth fawr iawn o grwynllys y gors (*Gentiana pneumonanthe*) ac, mewn ardaloedd bychan o ddŵr agored, ceir y pelenllys (*Pilularia globulifera*); mae'r ddwy rywogaeth hyn wedi gweld gostyngiad amlwg ar draws y wlad yn gyffredinol wrth i'w cynefinoedd gael eu hadfer yn raddol. Mae crafanc deiran y dŵr (*Ranunculus trilobate*)i'w gael yma hefyd.

**Glannau Rhoscolyn**

Mae SoDdGA Glannau Rhoscolyn yn ymestyn ar hyd arfordir gorllewinol Ynys Gybi, Ynys Môn am oddeutu 6.5km (o Borthygaran hyd Draeth Llydan) ac mae'n ardal o oddeutu 157 ha ag iddi gyfoeth o nodweddion biolegol a daearegol. Detholwyd y safle hwn

oherwydd ei nodweddion botanegol, adaregol a daearegol ac mae ganddo ddiddordeb bioleg forol sylweddol.

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.1 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y cyfnod magu mae'r ardal yn rheolaidd yn cynnal:
*Pyrrhocorax pyrrhocorax* 6.4% o Gyfrifiad poblogaeth fagu PF: RSPB 2001

Yn ystod y gaeaf mae'n cynnal yr isod yn rheolaidd: *Pyrrhocorax pyrrhocorax* 7% o Gyfrifiad poblogaeth fagu PF: RSPB Cymru

**Amcanion Cadwraeth**

**4.6 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 7: Y Frân Goesgoch**

**Y Weledigaeth**
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bod o leiaf 18 pâr o boblogaeth fagu'r frân goesgoch yn yr AGA, a dylai o leiaf 12 o'r rhain fod yn SoDdGA Glannau Ynys Gybi/ Tre Wilmot ac o leiaf chwech ohonynt yn SoDdGA Glannau Rhoscolyn.
- Bod y boblogaeth o'r frân goesgoch nad ydynt yn magu yn o leiaf 18 unigolyn neu'n 2.5 % o boblogaeth gaeafu Prydain Fawr.
- Y ceir cynefin addas a digonol (gan gynnwys clogwyni môr yr Iwerydd, glaswelltir arforol, rhostir arforol, rhostir gwlyb a rhostir sych) ar y safle sydd o gyflwr priodol i gynnal y poblogaethau magu.
- Bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

Yn ogystal, mae gan yr Amcan Cadwraeth hwn nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, nid yn rhywbeth sydd yn ei le. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr amcan cadwraeth yn ei gyfanrwydd, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i ACA Glannau Ynys Gybi ac AGA Glannau Ynys Gybi (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Mae Glannau Ynys Gybi yn safle rhostir arfordirol a chlogwyn godidog, o ddiddordeb adaregol, botanegol a daearegol. Mae rhan o'r safle yn warchodfa RSPB, fodd bynnag, mae'r safle dan bwysau trwm gan ffactorau hamdden sydd angen eu rheoli'n ofalus. Gwneir hyn yn rhannol drwy bolisi cyfyngu lleoedd parcio a gwaharddiad gwirfoddol sefydlog ar ddringo mewn ardaloedd allweddol

yn ystod y cyfnod nythu. Mae niferoedd magu'r frân goesgoch wedi cynyddu yn y warchodfa yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a hynny'n rhannol drwy reoli aflonyddwch. Fodd bynnag, mae goroesiad y frân goesgoch yn y gaeaf yn ymddangos yn isel ac mae poblogaeth ranbarthol y frân goesgoch yn gyndyn o newid er gwaethaf llwyddiant da wrth fagu plu. Mae rhaglenni ymchwil yn ymdrin â hyn, ond gall fod yn ddibynnol ar ffactorau ehangach rheoli tir yn rhanbarthol. Mae cynefin y rhostir (oddi wrth ben y clogwyn) yn ddibynnol ar dannau cyfnodol, sy'n cael eu cynnau dan amgylchiadau a reolir (ac weithiau heb reolaeth) ac yn rhannol ddibynnol ar gynnal arferion bugeiliol traddodiadol.

## AGA Traeth Lafan, Bae Conwy

**Trosolwg**

Saif Traeth Lafan ym Mae Conwy, rhwng Bangor a Llanfairfechan yng ngogledd orllewin Cymru. Mae'r ardal fawr hon o dywod rynglanwol a thraethellau wedi'i lleoli ar ymyl ddwyreiniol y Fenai. Mae rhannau o'r ardal yn ddiamddiffyn a cheir yma amrywiaeth o amodau, wedi'u cyfoethogi gan ffrydiau dŵr croyw sy'n llifo ar hyd y gwastadeddau. Mae'r safle'n bwysig am ei adar dŵr sy'n gaeafu yno, yn enwedig pioden y môr (*Haematopus ostralegus*) a'r gylfinir (*Numenius arquata*). Dan amodau tywydd garw'r gaeaf, mae Traeth Lafan yn gweithredu fel lloches i biod y môr a gaiff eu dadleoli o aber afon Dyfrdwy. Mae'r safle hefyd yn nyth bwrw pwysig i'r wyach fawr gopog (*Podiceps cristatus*) tua diwedd yr haf/dechrau'r hydref.

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.2 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y gaeaf mae'n cynnal yr isod yn rheolaidd:
*Haematopus ostralegus* (Ewrop a Gogledd/Gorllewin Affrica*)* 1.4% o'r boblogaeth ym Mhrydain Fawr, cymedr o uchafswm y boblogaeth dros bum mlynedd 1991/92 - 1995/96
*Numenius arquata (Ewrop – magu)* 1.1% o'r boblogaeth ym Mhrydain Fawr, cymedr o uchafswm y boblogaeth dros bum mlynedd 1991/92 - 1995/96

Ar eu taith, mae'r ardal yn cynnal yr isod yn rheolaidd:
*Podiceps cristatus* (Gogledd-orllewin Ewrop – gaeafu) % o'r boblogaeth ym Mhrydain Fawr. Nid oes cyfnod cyfrif penodol.

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Pioden y Môr (*Haematopus ostralegus*)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 1***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bod cymedr uchafswm poblogaeth pioden y môr dros gyfnod o bum mlynedd yn o leiaf 4,000.
- Bod cyflenwad a dosbarthiad cocos sy'n 15mm neu'n fwy ynghyd â bwyd addas arall yn cael eu cynnal ar lefelau sy'n ddigonol i gynnal poblogaeth y mae ei chymedr uchafswm dros bum mlynedd yn 4,000 o adar unigol.
- Nad yw piod y dŵr wedi'u dosbarthu mewn modd fyddai'n eu hatal rhag treulio digon o amser yn bwydo i oroesi.
- Bod safleoedd nythu, gan gynnwys safleoedd nythu llanw uchel, yn parhau i fod yn addas i biod y môr nythu heb gael eu haflonyddu.
- Bod y gwaith o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o gael effaith andwyol ar biod y môr yn briodol ar gyfer cynnal y nodwedd mewn cyflwr ffafriol ac yn fodd sy'n sefydlog yn yr hirdymor.

Yn ogystal, mae gan yr Amcan Cadwraeth hwn nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, nid yn rhywbeth sydd yn ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i AGA Traeth Lafan, Bae Conwy (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Mae pryderon wedi bod y gall y gwaith achlysurol o garthu cocos drwy broses sugno ddisbyddu ffynhonnell fwyd pïod y môr. Mae CCGC wedi datblygu protocol gyda Phwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru (NWSFC) i ganiatáu asesu ceisiadau am drwydded i gynaeafu cocos. Ni fydd NWSFC yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau oni bai yr ystyrir bod lefelau stoc y cocos yn weddol uchel. Mae CCGC yn comisiynu gwaith ymchwil i fesur lefelau stoc cocos mewn perthynas â'u disbyddiad gan bïod y môr sy'n bwydo arnynt.

## AGA Bae Lerpwl

**Trosolwg**

Rhennir Bae Lerpwl rhwng Lloegr a Chymru ar y ffin sy'n rhedeg drwy aber afon Dyfrdwy. Yn Lloegr, mae'n ffinio â Swydd Gaerhirfryn, ardal Awdurdod Unedol Blackpool a Dosbarthiadau Metropolitan Sefton a Chilgwri. Yng Nghymru, mae'r safle'n ffinio ag ardaloedd awdurdodau unedol Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Mae rhan fwyaf o ffin yr AGA sy'n arwain tua'r môr o fewn y gyfuchlin 20m o ddyfnder ac ar ei ymyl (oddi ar arfordir gogledd Cymru) mae'n ymestyn y tu hwnt i'r gyfuchlin 25m o ddyfnder.

Mae gwely môr Bae Lerpwl yn cynnwys amrediad eang o waddodion symudol. Tywod yw'r brif is-haen gydag ardal grynodedig o

dywod graenog o aber afon Merswy. Mae'r traethellau sydd oddi ar ochr y Bae sy'n perthyn i Loegr yn cynnwys *East Hoyle Bank* (sy'n bennaf o fewn AGA *Mersey Narrows and North Wirral Foreshore*), rhannau o *Great Burbo Bank* (o geg yr afon Merswy). Mae Traethell y Foryd (wrth geg aber afon Dyfrdwy), Y Draethell a Thraethellau Caer a'r Rhyl, ymysg traethellau ochr arfordir Cymru o'r Bae.

Yn gyffredinol, mae cerrynt y llanw yn y Bae yn wan ac nid yw'n rhagori ar 2m/eiliad. Mae hyn ynghyd ag amrediad llanwol estynedig o 6 i 8m ar hyd arfordir Swydd Gaerhirfryn yn hwyluso dyddodi gwaddodion, gan annog gwregysau mwd a thywod i ymgasglu.

Bae Lerpwl yw un o'r ardaloedd morol pwysicaf yn y DU i boblogaethau o adar môr sy'n gaeafu yno, yn arbennig môr-hwyaid duon a throchyddion gyddfgoch, sy'n cyrraedd yn eu heidiau o'u safleoedd magu yng Ngogledd Ewrop ac ardaloedd Isarctig.

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.1 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y gaeaf mae'r ardal yn cynnal yr isod yn rheolaidd:
*Gavia stellata (*Gogledd orllewin Ewrop - gaeafu*) 5.4%* o gymedr uchafswm y boblogaeth yn PF dros bum mlynedd *2001/02 - 2006/07. (*D.S. Ni chafwyd data digonol ar gyfer y cyfnod 2003/2004*).*

**ERTHYGL 4.2 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y gaeaf mae'r ardal yn cynnal yr isod yn rheolaidd:
*Melanitta nigra* (Gorllewin Siberia/Gorllewin a Gogledd Ewrop/Gogledd-orllewin Affrica) 3.4% o gymedr uchafswm y boblogaeth dros bum mlynedd 2001/02 - 2006/07. (D.S. Ni chofnodwyd data digonol ar gyfer y cyfnod 2003/2004).

**ERTHYGL 4.2 CYMHWYSTER (79/409/CEE): CASGLIAD O ADAR O BWYSIGRWYDD RHYNGWLADOl**

Yn ystod y cyfnod dim magu mae'r ardal yn rheolaidd yn cynnal:
Adar y dŵr 55597 cymedr uchafswm y boblogaeth dros bum mlynedd 2001/02 - 2006/07 (D.S. Ni chofnodwyd data digonol ar gyfer y cyfnod 2003/2004).
Yn cynnwys: *Gavia stellata, Melanitta nigra.*

**Amcanion Cadwraeth**

**3.3.1 Amcan cadwraeth AGA Bae Lerpwl Nodwedd Ddiddordeb 1: Poblogaeth trochyddion gyddfgoch (*Gavia stellata*) o bwysigrwydd rhyngwladol nad ydynt yn magu**

Yn amodol ar newid naturiol, cynnal neu wella cyflwr ffafriol poblogaeth y trochyddion gyddfgoch a'u cynefinoedd cefnogol.
Bydd y nodwedd ddiddordeb, y trochydd gyddfgoch yn cael ei hystyried i fod mewn cyflwr ffafriol pan ddiwallir o leiaf un o'r amodau a ganlyn:

- Bod maint poblogaeth y trochydd gyddfgoch yn gyfartal i gymedr y boblogaeth ar adeg dynodi'r AGA, neu'n agos ato ond yn amrywio oherwydd y newid naturiol yn y boblogaeth;
- Y cynhelir maint y cynefin cefnogi o fewn y safle.

**3.3.1 Amcan cadwraeth AGA Bae Lerpwl Nodwedd Ddiddordeb 2: Poblogaeth môr-hwyaid duon (*Melanitta nigra*) o bwysigrwydd rhyngwladol nad ydynt yn magu**

Yn amodol ar newid naturiol, cynnal neu wella cyflwr ffafriol poblogaeth y môr-hwyaid duon a'u cynefinoedd cefnogol.
Bydd y nodwedd ddiddordeb, y môr-hwyaden ddu yn cael ei hystyried i fod mewn cyflwr ffafriol pan ddiwallir o leiaf un o'r amodau a ganlyn:

- Bod maint poblogaeth y môr-hwyaden ddu yn gyfartal i gymedr y boblogaeth ar adeg dynodi'r AGA, neu'n agos ato ond yn amrywio oherwydd y newid naturiol yn y boblogaeth;
- Y cynhelir maint y cynefin cefnogi o fewn y safle.

Yn ogystal, ceir hefyd nodiadau eglurhaol y dylid eu darllen ar y cyd â'r Amcanion Cadwraeth uchod. Mae'r nodiadau i'w cael yn Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Lerpwl – Cyngor dan Reoliad 35(3) Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) (*Natural England*, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru: Hydref 2012).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Mae gweithgareddau pysgota masnachol yn digwydd yn y safle hwn. Mae traethellau Bae Lerpwl yn cefnogi pysgodfeydd nifer o rywogaethau o bysgod. Bydd dosbarthiad a chrynodiad trochyddion gyddfgoch yn cael eu pennu'n rhannol gan bresenoldeb, cyflenwad ac argaeledd eu hysglyfaeth. Ceir yn y safle amrywiol bysgod sydd o bwysigrwydd masnachol, a gall tynnu allan prif bysgod ysglyfaeth y trochyddion gyddfgoch, un ai'n fwriadol, drwy bysgota am rywogaethau eraill, drwy bysgota masnachol neu bysgota er dibenion hamdden, effeithio ar y boblogaeth. Mae cael eu dal mewn rhwydi pysgota sefydlog yn gyfrannwr pwysig at achosion marwolaeth trochyddion gyddfgoch yn nyfroedd y DU, fodd bynnag ni wyddys pa mor eang yw effaith hyn ym Mae Lerpwl.

Gall pysgota masnachol a hamdden effeithio'n uniongyrchol ar y ffynonellau bwyd a'r pysgodfeydd a gaiff eu defnyddio gan y môr-

hwyaid duon ac yn ogystal â hyn mae nifer o borthladdoedd yn carthu ac yn dyddodi yn y safle, a gerllaw iddo, er dibenion mordwyo. Dangoswyd bod carthu am gregyn deuglawr yn cael effaith negyddol sylweddol ar eu cynefin benthig.

Mae trochyddion gyddfgoch a môr-hwyaid duon yn sensitif i aflonyddwch nad yw'n gorfforol (sŵn a gweledol) gan weithgareddau masnachol a gweithgareddau hamdden, er enghraifft aflonyddwch gan lestri'n symud - po fwyaf yw'r llestr, po fwyaf yw'r aflonyddwch tebygol.

Mae tynnu agregau hefyd yn bygwth aflonyddwch ynghyd ag unrhyw newid i strwythurau gwaddodion a allai effeithio'n benodol ar y môr-hwyaid duon oherwydd y newid i'w pysgodfeydd benthig. Fodd bynnag, mae tynnu agregau'n tueddu i fod yn weithred dros dro sy'n digwydd mewn mannau penodol, ac o'r herwydd, ni ragwelir y byddai tynnu agregau mewn modd sydd wedi'i dargedu ac sy'n gymedrol yn peri risg sylweddol i'r rhywogaethau cymwys.

Mae Bae Lerpwl yn leoliad deniadol i ddiwydiant ynni adnewyddadwy ar y môr a cheir tystiolaeth fod trochyddion gyddfgoch a môr-hwyaid duon yn cael eu dadleoli gan felinau gwynt a gweithgarwch cysylltiol y llestri adeiladu a chynnal a chadw. Mae nifer o ffermydd gwynt yn y safle sydd un ai eisoes yn weithredol, yn cael eu hadeiladu neu wedi derbyn caniatâd.

Ceir nifer o ardaloedd ar hyd yr arfordir ble mae twristiaeth forol a gweithgareddau hamdden yn gyffredin, ac mae yna farinas gweithredol, rhai sydd wedi'u cwblhau'n rhannol ynghyd â datblygiadau marinas arfaethedig. O ganlyniad i'r defnyddwyr hamdden hyn yn yr ardal, yn ogystal â'r ystod o weithgareddau masnachol, gan gynnwys y rhai a nodwyd uchod, mae'r safle yn un prysur iawn i longau a chychod. Fodd bynnag, caiff y rhan fwyaf o weithgarwch y llestri ei gyfyngu i ardaloedd sydd wedi'u sefydlu'n dda ac felly y mae'r adar yn tueddu i'w hosgoi.

## AGA Migneint-Arenig-Dduallt

### Trosolwg

Mae Migneint-Arenig-Dduallt yn safle mawr ar yr ucheldir, sy'n ymestyn rhwng Ysbyty Ifan a Phenmachno yn y gogledd i lawr i Rydymain yn y de, ac o Drawsfynydd yn y gorllewin fymryn i'r dwyrain o Lyn Celyn. Mae ei uchder yn amrywio o 300m i 712m. Mae'r rhan ogleddol yn cynnwys llwyfandir mawnog uchel ar Figneint ac yn ymestyn i Domen y Mur yn y gorllewin a Chwm Hesgyn yn y dwyrain, gyda phwyntiau uwch megis Arenig Fach o amgylch yr ymyl. Mae'r rhan ddeheuol, i'r de o Afon Lliw, hefyd yn cynnwys llwyfandir uchel wedi'i hamgylchynu gan dir uchel a'i dominyddu gan Fynydd Dduallt. Mae'r rhan ganol, yn gorwedd i'r de o Gwm Prysor a Llyn Celyn ac mae'n cynnwys Moel Llyfnant a Moel y Llechi yn ogystal â chrib mynydd Arenig Fawr, sef rhan uchaf y safle cyfan.

Mae cynefinoedd yr ACA yn cynnwys, mwsogl y gors, rhostir sych, rhostir gwlyb, llynnoedd a choetir.

Mae'r safle hefyd yn AGA oherwydd ei boblogaeth fagu o fodau tinwyn *Circus cyaneus*, y cudyll bach, *Falco columbarius* a'r hebogau tramor, *Flaco Peregrinus*.

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.1 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y cyfnod magu mae'r ardal yn rheolaidd yn cynnal:
*Circus cyaneus* o leiaf 2.1% o boblogaeth fagu cymedr 5 mlynedd PF 1993/94 i 1997/98
*Falco columbarius* o leiaf 0.7% o boblogaeth fagu cymedr 5 mlynedd PF 1993/94 i 1997/98
*Falco peregrines* o leiaf 1% o boblogaeth fagu cymedr 5 mlynedd PF 1993/94 i 1997/98

**Amcanion Cadwraeth**

**4.5 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd yr AGA: Bod tinwyn *Circus cyaneus* (Cod UE: A082)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 5***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bod maint y boblogaeth yn cynnwys o leiaf 8 pâr magu (ffurflen ACA 2003 10-12 o barau) ac yn ddelfrydol bydd hyn yn cynyddu. (2007 – 11 o barau)
- Bod mannau nythu bodau tinwyn o fewn y safle yn cael eu cynnal neu eu hymestyn fel eu bod yn magu ym mhob cynefin priodol.
- Bod magu bodau tinwyn yn llwyddiannus yn golygu bod o leiaf un o'r cywion yn gadael y nyth.
- Bod digon o gynefinoedd mewn grug tal ar gyfer nythu a chlwydo i gefnogi'r boblogaeth yn y tymor hir.
- Bod digon o gynefinoedd hela, yn aml mewn mosaic ac yn cynnwys ardaloedd o laswelltir, corsydd, tir gwlyb, rhostir byr a rhedyn gyda choed/llwyn isel yn bresennol. Bod cyflenwad digonol o fathau o ysglyfaeth ar ffurf adar bach a mamaliaid bach i gynnal magu llwyddiannus. Nid oes modd monitro neu asesu'r cyflenwad o ysglyfaeth ond gall fod yn bwysig ar gyfer gwaith ymchwil ac astudio p'un a yw cynhyrchedd yn isel.
- Bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.6 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd : Y Cudyll Bach *Falco columbarius* (Cod UE: A098)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 6***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bod maint y boblogaeth yn cynnwys o leiaf 9 pâr magu (ffurflen AGA 2003 9-12 o barau, 0.7-0.9% DU) ac yn ddelfrydol bydd hyn yn cynyddu.

- Bod mannau nythu cudyllod bach o fewn y safle yn cael eu cynnal neu eu hymestyn fel eu bod yn magu ym mhob cynefin priodol.
- Bod magu cudyllod bach yn llwyddiannus yn golygu bod o leiaf un o'r cywion yn gadael y nyth, pan gaiff monitro sampl ei gynnal.
- Bod digon o gynefinoedd nythu a chlwydo mewn grug tal, coed unigol yn aml gyda nythod brain a chynefin ar ymyl coedwig er mwyn cefnogi'r boblogaeth yn y tymor hir.
- Bod digon o gynefinoedd hela, yn aml mewn mosaig ac yn cynnwys ardaloedd o laswelltir, corsydd, tir gwlyb, rhostir byr a rhedyn gyda choed/rhedyn isel yn bresennol. Bod cyflenwad digonol o fathau o ysglyfaeth ar ffurf adar bach (fel arfer cornhedydd hirbyg a'r ehedydd) a phryfaid mawr i gynnal magu llwyddiannus. Nid oes modd monitro neu asesu'r cyflenwad o ysglyfaeth yn hawdd ond gall fod yn bwysig ar gyfer gwaith ymchwil ac astudio pan fo cynhyrchedd yn isel.
- Bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

**4.7 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd ACA: Yr Hebog Tramor *Falco peregrinus* (Cod UE: A103)**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 7: Yr Hebog Tramor***

Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bod maint y boblogaeth yn cynnwys o leiaf 9 pâr magu (ffurflen AGA 2003 9-12 o barau, 0.7-0.9% DU) ac yn ddelfrydol bydd hyn yn cynyddu.
- Bod mannau nythu'r hebog tramor o fewn y safle yn cael eu cynnal neu eu hymestyn fel eu bod yn magu ym mhob safle nyth priodol.
- Bod magu hebogau tramor yn llwyddiannus yn golygu bod o leiaf un o'r cywion yn gadael y nyth, pan gaiff monitro sampl poblogaeth ei gynnal.
- Bod yna ddigon o glogwyni a chreigiau gyda silffoedd sy'n addas ar gyfer nythu, fel arfer safleoedd nythu traddodiadol, i gefnogi'r boblogaeth yn y tymor hir.
- Bod yna ddigon o gynefinoedd ac ysglyfaethau hela. Nid oes modd monitro neu asesu'r cyflenwad o ysglyfaeth yn hawdd ond gall fod yn bwysig ar gyfer gwaith ymchwil ac astudio pan fo cynhyrchedd yr hebog tramor yn isel.
- Bod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.

Yn ogystal, mae gan bob Amcan Cadwraeth nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, nid yn rhywbeth sy'n ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd yn cynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer AGA/ ACA Migneint-Arenig-Dduallt (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Mae rheolaeth anaddas o bori / llosgi / draenio wedi niweidio cynefin bwydo / magu'r boda tinwyn a'r cudyll bach ac wedi niweidio cynefin bwydo'r hebog tramor, sef tair nodwedd yr AGA. Ymdrinnir â hyn mewn rhai ardaloedd drwy ddefnyddio Cytundebau Rheoli A15 a chytundebau Tir Cymen/Tir Gofal. Mae coedwigo'r orgors hefyd wedi cwtogi ar y cynefin magu/bwydo yn y gorffennol, ond mae hyn yn cael

sylw i ryw raddau gan brosiect adfer cynefinoedd ar y cyd rhwng y RSPB, y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Mae cynefinoedd bwydo/magu'r tair rhywogaeth hefyd yn agored i asideiddio gan fod glawiad uchel a daeareg/priddeg asidig y safle yn ychwanegu at y llygredd atmosfferig.

Mae'r safle hwn hefyd wedi cael ei effeithio'n sylweddol yn y gorffennol gan weithgarwch cloddio sydd wedi arwain at ddinistrio'r cynefinoedd a ddefnyddiwyd gan adar sy'n magu, gan gynnwys tair rhywogaeth yr AGA.

Mae'r pwysau gan weithgarwch hamdden yn weddol isel ar hyn o bryd ac wedi'i wasgaru ar hyd y safle, ond gall nodweddion yr AGA gael eu heffeithio pe bai'r defnydd yn cynyddu'n sylweddol wrth ymyl safleoedd magu, er enghraifft ar ôl gweithredu deddfwriaeth Deddf CROW neu drwy fwy o gyhoeddusrwydd mewn llyfrau teithio. Mae erlid yr adar wedi bod yn broblem yn y gorffennol, gydag adar yn cael eu saethu yn eu nythod. Gobeithir y bydd y bygythiad hwn yn lleihau drwy fod yn fwy gwyliadwrus a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

## AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal

**Trosolwg**

Mae'r arfordir yma yn agored i wyntoedd cryfion y de-orllewinol ac mae'r clogwyni meddal sy'n cefnu ar y baeau bob amser wedi erydu ac yn darparu mosaig o waddodion noeth, diferiadau a chynefinoedd morol a glaswelltiroedd twyni sy'n gyfoethog o flodau. Mae'r rhain yn bwysig ar gyfer casgliad cyfan o greaduriaid di-asgwrn-cefn prin, yn cynnwys un o ddim ond dau o boblogaethau Prydeinig o'r saerwenynen *Osmia xanthomelana sydd mewn perygl, ac mae'r oedolion yn casglu mwd ar gyfer eu nythod o ddiferiadau a blodau llysiau'r meheryn yn y glaswelltiroedd twyni ar gyfer paill a neithdar.*

Mae'r ardal yn arbennig o bwysig ar gyfer poblogaeth y frân goesgoch *Pyrrhocorax pyrrhocorax*. Caiff y safle ei ddefnyddio'n rheolaidd gan 3% o boblogaeth y Deyrnas Unedig o'r aderyn carismatig hwn drwy gydol y tymor magu a thu allan i'r tymor. Mae clogwyni ac ogofau'r môr yn darparu safleoedd magu a chlwydo, tra bo'r clogwyni, rhostir, glaswelltir morwrol a phorfa fewndirol a chaeau yn darparu safleoedd bwydo drwy'r flwyddyn i'r bwydwyr asgwrn cefn arbenigol.

Caiff pentir creigiog Mynydd Cilan ei ddominyddu gan rostir sych gyda grug *Calluna vulgaris ac eithin mân Ulex gallii.* Mae rhywogaethau eraill o rostir sy'n bresennol yn cynnwys, clychau'r grug, crug deilgroes, serennyn, peiswellt coch, archmain a llwynhidydd gyda phocedi bychain o eithin a llyswydd Ewropeaidd. Mae yna hefyd ardal amlwg o gymunedau rhostir gwlypach a phyllau bas cysylltiol sy'n cynnwys nifer o blanhigion prin, gan gynnwys glaswellt gwallt y gors *Deschampsia setacea* yn ei unig safle sydd ar ôl yng Nghymru, camomeil *Chamaemelum nobile, pelenllys Pilularia globulifera, foledau gwelw Viola lactea a* chrafanc deiran y dŵr. Mae clogwyni'r pentir hefyd yn cynnal hesg dotiog *Carex punctata, llaethlys Portland Euphorbia portlandica, gorfanadl eiddew Orobanche hederae* a gwaywffurf Duegredyn *Asplenium obovatum*.

Mae'r ardaloedd creigiog o amgylch Porth Ceiriad ac Ynysoedd Sant Tudwal o ddiddordeb morol biolegol arbennig oherwydd eu pyllau cerrig arbenigol a'u cynefinoedd gordo, presenoldeb cylchfaoedd cymunedol cyflawn dros wyneb Mynydd Cilan sy'n agored i donnau, presenoldeb y sbwng *Stelletta grubii* sydd yn brin yn genedlaethol a dwy gymuned bwysig ar sail genedlaethol: Craig a gaiff ei brwsio gan y tonnau â gwymon danheddog *Fucus serratus, sbyngau a* chwistrellau môr a chraig a gaiff ei brwsio gan y tonnau â môr-wiail *Laminaria digitata,* chwistrellau môr a bryozoans.

Mae'r ardal arfordirol yn gadael creigiau a ffurfiwyd yn ystod cyfnodau Cambriaidd ac Ordofigaidd cynnar yn ddiamddiffyn,  ac mae rhai o'r rhain yn cynnwys ffosilau pwysig sydd wedi galluogi pobl i ddyddio cerrig yn benodol a'u cymharu â cherrig rhyngwladol. Mae'r clogwyni ym Mhorth Ceiriad hefyd yn bwysig i ddeall cymhlethdod digwyddiadau rhewlifol a ddigwyddodd ym Mhen Llŷn yn ystod yr Oes Ia ddiwethaf. Ym Mhorth Neigwl caiff geomorffoleg y system clogwyn-traeth ei bennu gan symudiad y tonnau ar y clogwyni meddal, tra bo'r gwaddodion rhewlifol a ffrwd-rewlifol a diamddiffyn yn y clogwyni yn darparu mwy o wybodaeth ar ddigwyddiadau rhewlifol a ddigwyddodd ym Mhen Llŷn yn ystod yr Oes Ia ddiwethaf.

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.1 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y cyfnod magu mae'r ardal yn rheolaidd yn cynnal:
*Pyrrhocorax pyrrhocorax* o leiaf 9 o barau sy'n cynrychioli 2.6% o'r boblogaeth yn y Deyrnas Unedig RSPB 2000

Yn ystod y gaeaf mae'r ardal yn cynnal yr isod yn rheolaidd:
*Pyrrhocorax pyrrhocorax* o leiaf 18 o unigolion sy'n cynrychioli 2.6% o'r boblogaeth yn y Deyrnas Unedig RSPB 2000

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1:  Poblogaeth bwysig ryngwladol (1% neu fwy o boblogaeth Prydain Fawr) o'r frân goesgoch *Pyrrhocorax pyrrhocorax* yn y tymor magu a thu allan i'r tymor**

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 1:  Y Frân Goesgoch***
Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw iddi fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol lle gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:
- Bod poblogaeth fagu'r Frân goesgoch yn cynnwys o leiaf 9 pâr.
- Bod poblogaeth nad yw'n magu'r Frân goesgoch yn cynnwys o leiaf 18 pâr.
- Bod yna ddigon o gynefinoedd ar gael i gynnal y poblogaethau.

Yn ogystal, mae pob Amcan Cadwraeth â nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, ond nid yn rhywbeth sy'n ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i AGA Mynydd Cilan, Trwyn Y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau bregusrwydd**

Mae'r frân goesgoch yn dibynnu ar yr agosrwydd rhwng safleoedd nythu'r clogwyni môr a safleoedd bwydo'r rhostir arforol, y glaswelltir a'r tir ffermio. Mae cyfanrwydd safleoedd bwydo o'r fath a'u casgliadau amrywiol o blanhigion ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn dibynnu ar bwysau canolig gan weithgarwch pori yn ogystal â dulliau ffermio traddodiadol nad ydynt yn cynnwys defnyddio agrogemegion. Mae'r safleoedd nythu ar y clogwyni'n fregus i gael eu haflonyddu gan ddringwyr, problem sy'n ymddangos i fod wedi'i goresgyn yn llwyddiannus drwy ddefnyddio gwaharddiad dringo gwirfoddol rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf, wedi'i ganoli gan Gyngor Mynydda Prydain.

## AGA Ynys Seiriol

**Trosolwg**

Lleolir Ynys Seiriol oddi ar y pwynt pellaf i'r dwyrain o Ynys Môn yng ngogledd Cymru. Blocyn o galchfaen carbonifferaidd ydyw yn codi 55m gyda chlogwyni serth bob ochr. Mae haen o bridd sydd wedi'i gyfoethogi'n drwm â gwano yn gorchuddio'r calchfaen dros y mwyafrif o'r wyneb, sy'n arwain at lystyfiant gwael wedi'i ddominyddu gan haen drwchus o laswelltau (yn bennaf weiswellt coch *Festuca rubra* a *Dactylis glomerata), danadl cyffredin Urtica dioica*, mieri *Rubus fruticosus* a pherllys *Smyrnium olusatrum.* Mae coetir trwchus o Ysgawen *Sambucus nigra* wedi datblygu, yn enwedig dros y 40 mlynedd ers colli porfa cwningod. Mae clogwyni'r môr yn cynnal fflora morol nodweddiadol, yn cynnwys Duegredyden arfor *Asplenium marinum.*

Mae'r safle o bwysigrwydd Ewropeaidd am ei boblogaeth fagu o Fulfrain *Phalacrocorax carbo,* sy'n bwydo yn y môr o amgylch a thu allan i'r ACA. Mae'r ynys hefyd o ddiddordeb oherwydd bod adar môr eraill yn nythu ar ei chlogwyni môr ac yn ei hardaloedd glaswelltir agored. Mae'r rhain yn cynnwys pedwar o garfilod (palod, gwylogod, gwylogod du a llursod), yn ogystal â mulfrain, adar drycin y graig, gwylanod coesddu, hwyaid fwythblu, gwylanod penwaig, gwylanod cefnddu mawr a gwylanod cefnddu bach. Mae poblogaeth y palod sy'n magu, a arferai fod yn nifer o filoedd o barau, wedi gostwng yn sylweddol i nifer sydd ar hyn o bryd yn llai na channoedd o barau. Fodd bynnag, mae hen gofnodion yn awgrymu bod amrywiadau sylweddol yn nifer y boblogaeth wedi bodoli yn y gorffennol.

Caiff yr ynys ei defnyddio fel man aros gan forloi llwyd Môr yr Iwerydd pan nad ydynt yn y môr. Mae corryn yr ogof *Meta bourneti* wedi'i gofnodi yma, yn ei unig leoliad yng Nghymru.

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.2 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y cyfnod magu mae'r ardal yn rheolaidd yn cynnal:
*Phalacrocorax carbo* (Gogledd orllewin Ewrop) 1.35% o'r boblogaeth sy'n magu, cymedr dros bum mlynedd 1996-2000

**Amcanion Cadwraeth**

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1: Poblogaeth fagu'r mulfrain *Phalacrocorax carbo***

***Y weledigaeth ar gyfer nodwedd 1***
Amcan cadwraeth y mulfrain yw cyflawni a chynnal statws cadwraeth ffafriol, ble y bodlonir yr holl amodau a ganlyn:

- Bod nifer y mulfrain sy'n magu o fewn yr AGA yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Bod cyflenwad neu ddosbarthiad y mathau o ysglyfaeth yn ddigonol i gynnal y nifer o barau sy'n magu ac sy'n magu'n llwyddiannus.
- Bod y gwaith o reoli gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o gael effaith andwyol ar fulfrain yn briodol ar gyfer cynnal y nodwedd mewn cyflwr ffafriol ac yn fodd sy'n sefydlog yn yr hirdymor.

Yn ogystal, mae pob Amcan Cadwraeth â nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, ond nid yn rhywbeth sy'n ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i AGA Ynys Seiriol (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Mae ei arwahanrwydd a pholisi'r tirfeddiannwr yn gwarchod y safle rhag y mwyafrif o ymyriadau. Fodd bynnag, gallai llygod mawr brown fod wedi effeithio ar boblogaeth yr adar sy'n magu. Ymddengys bod y gwaith i gael gwared ar y rhain yn 1998 wedi bod yn llwyddiannus ond mae angen monitro hyn, ac mae mincod yn awr yn fygythiad sylweddol. Gall tyfiant o brysgwydd a mieri gyfyngu ar safleoedd nythu, felly mae angen ailgyflwyno anifeiliaid pori.

## AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid

**Trosolwg**

Mae AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid wedi'u lleoli ar arfordir gogleddol a gorllewinol Ynys Môn, yng ngogledd orllewin Cymru. Mae'r AGA yn cynnwys tair ardal ar wahân. Mae Ynys Feurig wedi'i lleoli ar arfordir gorllewinol Ynys Môn ac yn agos at faes

awyr Y Fali, gyda Bae Cemlyn, sydd hefyd yn ACA, wedi'i leoli oddeutu 20 cilomedr i ffwrdd. Mae Ynysoedd y Moelrhoniaid wedi'u lleoli tri chilomedr oddi ar Drwyn y Gader i'r gogledd o Ynys Môn (gweler Ffigwr 1).

Mae Ynys Feurig yn cynnwys cyfres o ynysoedd isel sydd yn ymestyn oddeutu 1 cilomedr i'r môr o'r traeth tywodlyd. Ychydig iawn o lystyfiant a geir yno, namyn yr ynysoedd uchaf ar y cyrion. Ym Mae Cemlyn, mae stormdraeth graeanog yn ffurfio bar rhwng lagŵn llanw a'r glannau agored. Mae'r cynefinoedd graeanog, ynghyd â'r morfa heli sydd yn datblygu o amgylch y lagŵn a'r pyllau halltaidd yn nes at y tir yn gyfuniad anarferol o gynefinoedd. Grŵp o ynysigau gyda llystyfiant yn brin ynddynt ydy Ynysoedd y Moelrhoniaid, sydd yn mesur 17 ha. Maent yn cael eu hamddiffyn gan gerhyntau cryfion ond yn hynod agored i wyntoedd cryfion o'r gorllewin a'r gogledd.

Mae'r safle AGA yn bwysig iawn i bedair rhywogaeth o fôr-wenoliaid sy'n magu. Mae'r tair ardal ar wahân yn cael eu hystyried fel un safle o ganlyniad i symudiad rheolaidd yr adar rhwng y tair rhan.

Mae'r safle ACA yn bwysig oherwydd ei lagŵn a'i rhywogaethau cysylltiedig a'r gefnen raeanog a'i llystyfiant.

Ardaloedd eraill sydd yn bwysig i'r safleoedd AGA ac ACA yw ardaloedd o brysg, glaswelltir corsiog, morfa heli, ffosydd, rhynglanw, clogwyni arforol ac ysgafellau ac agennau cysylltiedig.

**Nodweddion Cymhwyso**

**ERTHYGL 4.1 CYMHWYSTER (79/409/CEE)**

Yn ystod y cyfnod magu mae'r ardal yn rheolaidd yn cynnal:
*Sterna dougallii* (Ewrop – magu) 4.7% o boblogaeth fagu cymedr 5 mlynedd PF, 1992-1996
*Sterna hirundo* (Gogledd/Dwyrain Ewrop – magu) o leiaf 1.5% o boblogaeth fagu cymedr 5 mlynedd PF, 1992-1996
*Sterna paradisaea* (Arctig– magu/Cefnforoedd y De - gaeafu) o leiaf 2.9% o boblogaeth fagu cymedr 5 mlynedd PF, 1992-1996
*Sterna sandvicensis* (Gorllewin Ewrop/Gorllewin Affrica) 3.3% o boblogaeth fagu cymedr 5 mlynedd PF, 1993-1997

Amcanion Cadwraeth

**4.1 Amcan Cadwraeth ar gyfer Nodwedd 1-4: Poblogaeth fagu Môr-wenoliaid (Nodwedd 1: Môr-wennol y Gogledd *Sterna paradisae;* Nodwedd 2: Môr-wennol gyffredin *Sterna hirundo;* Nodwedd 3: Môr-wennol wridog *Sterna dougallii*, a Nodwedd 4: Môr-wennol bigddu *Sterna sandvicensis)***

***Y weledigaeth ar gyfer nodweddion 1-4***
Y weledigaeth ar gyfer y nodweddion hyn yw iddynt fod mewn cyflwr cadwraeth ffafriol ble y gellir diwallu'r holl amodau a ganlyn:

- Bod nifer y môr-wenoliaid sy'n magu o fewn yr AGA yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Bod y nifer o gywion sy'n gadael y nyth yn llwyddiannus yn yr AGA a thu hwnt yn ddigonol i helpu cynnal y boblogaeth.
- Nad yw amrywiaeth a dosbarthiad môr-wenoliaid yn yr AGA a thu hwnt wedi'u cyfyngu neu eu rhwystro.
- Bod maint y cynefinoedd cefnogi a ddefnyddir gan fôr-wenoliaid yn sefydlog neu'n cynyddu.
- Bod cynefinoedd cefnogi o ansawdd ddigonol i gynnal gofynion y môr-wenoliaid.
- Bod ffynonellau bwyd priodol a digonol ar gael i fôr-wenoliaid o fewn cyrraedd yr AGA.
- Bod gweithredoedd neu ddigwyddiadau sy'n debygol o effeithio ar gynaladwyedd y boblogaeth dan reolaeth.

Yn ogystal, mae pob Amcan Cadwraeth â nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae'r dangosyddion perfformiad yn rhan o'r amcan cadwraeth, ond nid yn rhywbeth sy'n ei ddisodli. Rhaid i asesiadau o'r cynlluniau a'r prosiectau fod yn seiliedig ar yr holl amcanion cadwraeth, nid dim ond y dangosyddion perfformiad. Gellir gweld y dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid, ACA Bae Cemlyn, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Ynys Feurig a SoDdGA Bae Cemlyn (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

**Ffactorau Bregusrwydd**

Caiff y tri lleoliad unig hyn eu defnyddio ar adegau gwahanol fel safleoedd magu gan boblogaethau o fôr-wenoliaid gwridog Môr Iwerddon, er gallent fod yn wag am flynyddoedd tra rhoddir ffafriaeth i safleoedd eraill, am resymau anhysbys. Ar hyn o bryd Ynys Rockabill ym Mae Dunlin yw'r lleoliad magu a ffafrir. Mae'r tair ynys yn yr ACA yn parhau i gynnal cytrefi pwysig o fôr-wenoliaid Arctig, cyffredin a phigddu.

Mae môr-wenoliaid gwridog yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau i ffwrdd oddi wrth y cytrefi magu hyn ac felly maent yn agored i bwysau sydd tu hwnt i reolaeth y rheolwyr safle, gan gynnwys ffactorau sy'n effeithio ar gyflenwad bwyd, goroesiad yn y gaeaf ac ati.

Mae pwysau o ganlyniad i weithgareddau hamdden yng Nghemlyn yn codi o hyrwyddo'r llwybr cerdded arfordirol sy'n mynd heibio'n agos i'r cytrefi ac mae angen i wardeniaid reoli'r llwybr hwn 24 awr y dydd i arwain y cyhoedd islaw'r gorwel. Mae cytrefi eraill yn dioddef aflonyddwch achlysurol gan fynediad cyhoeddus esgeulus ac mae angen i wardeniaid reoli hyn bob amser. Mae angen rheoli ysglyfaethwyr daear (carlwm a llwynog) yn rheolaidd ym Mae Cemlyn ac ar Ynys Feurig ac mae mincod hefyd yn fygythiad. Mae'r hebogau tramor a'r gwylanod rôg wedi achosi marwolaeth ac enciliad cytrefi ar rai achlysuron. Mae casglwyr sy'n dwyn wyau yn parhau i fod yn fygythiad.

**Ramsar**

| Ramsar Corsydd Ynys Môn a Llŷn |
|---|
| **Trosolwg**<br><br>Cyfres o gorsydd tra-fasig o bwysigrwydd rhyngwladol sy'n cynnwys chwe safle gwahanol, sy'n cefnogi amrediad o elfennau fflora a ffawna prin. Mae'r chwe gwlypdir i'w cael ym mlaenau cymoedd a hen fasnau afonydd sydd wedi'u llenwi'n bennaf â gwaddodion marl a mawn ac yn nau safle ceir dŵr agored. Mae carreg galchaidd *Calcareous* yn deillio o galchfaen *limestone* ac mae dyfrhaenau drift calchaidd yn effeithio ar y corsydd ac yn arwain at lystyfiant penodol. Mae'r corsydd hyn yn adnabyddus fel y safloedd gorau yng Nghymru ar gyfer rhawn yr ebol.<br><br>Maen Prawf Ramsar 1<br><br>Mae'r safle yn cynnal cyfres o gorsydd tra-fasig, calchaidd sy'n gynefin prin ym mharth bioddaearyddol y Deyrnas Unedig.<br><br>Mae nodweddion Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd sy'n bresennol yn yr ACA yn cynnwys:<br><br>H3140 Dyfroedd oligo-mesotroffig caled gyda llystyfiant benthig *Chara spp*<br>H4010 Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix*<br>H6410 *Dolydd molinia* ar briddoedd calchaidd, mawnaidd neu glai llawn silt (*Molinion caeruleae)*<br>H7210 Corsydd calchaidd gyda *Cladium mariscus a* rhywogaethau o'r *Caricion davallinae*<br>H7230 Corsydd Alcalinaidd<br>S1013 *Vertigo geyeri*<br>S1044 *Coenagrion mercuriale*<br>S1065 *Euphydryas* (*Eurodryas*, *Hypodryas*) *aurinia*<br><br>**Nodweddion Cymhwyso**<br><br>**Maen Prawf Ramsar 3**<br><br>Mae'r safle'n cynnal fflora a ffawna amrywiol gyda rhywogaethau prin cysylltiedig ac mae o werth arbennig i gynnal amrywiaeth enetig ac ecolegol y rhanbarth. |

**Ffactorau (yn y gorffennol, yn gyfredol neu bosib) sy'n effeithio'n andwyol ar gymeriad ecolegol y safle, yn cynnwys newidiadau i ddefnydd tir (yn cynnwys dŵr) a phrosiectau datblygu:**

- Olyniad llystyfiant
- Draenio/hawlio tir: (amhenodol)
- Ewtroffigedd
- Llygredd – gwrteithiau amaethyddol

**Amcanion Cadwraeth**

Mae crynodeb o'r Amcanion Cadwraeth wedi'i ddarparu ar gyfer safleoedd Ynys Môn dan ACA Corsydd Ynys Môn (Tudalennau 22-28 uchod) a cheir yr Amcanion Cadwraeth ar gyfer safleoedd Llŷn dan ACA Corsydd Llŷn (Tudalennau 62-64 uchod).

## Safle Ramsar Cors Fochno a Dyfi

**Trosolwg**

Casgliad morydol, yn cynnwys yr afon Dyfi, dwy system o dwyni calchaidd a chyforgors fawr. Mae'r Afon Dyfi yn un o'r enghreifftiau gorau yng ngogledd-orllewin Ewrop o foryd fechan, sy'n sychu ac sy'n brin o faetholion, sydd fwy neu lai heb ei heffeithio gan ddatblygiad diwydiannol. Ceir yno amrediad eang o gynefinoedd morydol, yn cynnwys newidiadau prin i lwyfandir. Mae Cors Fachno yn safle o bwysigrwydd rhyngwladol am ei fod yn fath o ardal ar gyfer cyforgors forydol ac un o'r cyforgorsydd gweithredol fwyaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'r geomorffoleg, fflora a'r ffawna infertebrat o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae'r safle yn cynnal yr unig haid o wyddau brest wen yr Ynys Las sy'n gaeafu'n rheolaidd yn Lloegr a Chymru, ac yn safle pwysig yng Nghymru ar gyfer magu rhydwyr. Mae'r safle'n cynnal gweithgarwch masnach ymwelwyr sylweddol a defnyddiau hamdden ac addysgol.

**Nodweddion Cymhwyso**

**Maen Prawf Ramsar 1**

Mae'r safle'n cynnwys yr ehangder mwyaf o gyforgors bennaf yn iseldir Prydain; y gyforgors forydol fwyaf a'r drydedd gyforgors 'actif' fwyaf ym Mhrydain. Mae nodweddion Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd sy'n bresennol yn yr ACA yn cynnwys:

H7110 Cyforgorsydd actif
H7120 Cyforgorsydd diraddedig y mae'n bosib eu hadfywio
H7150 Pantiau ar is-haenau mawn y *Rhynchosporion*

**Ffactorau (yn y gorffennol, yn gyfredol neu bosib) sy'n effeithio'n andwyol ar gymeriad ecolegol y safle, yn cynnwys newidiadau i ddefnydd tir (yn cynnwys dŵr) a phrosiectau datblygu:**

Heb ganfod ffactorau.

**Amcanion Cadwraeth**

Gellir gweld y wybodaeth yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i ACA Cors Fochno (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Chwefror 2011).

## Ramsar Llyn Idwal

**Trosolwg**

Llyn oligotroffig cymharol fas, gyda fflora sy'n llawn rhywogaethau, a chynrychiolir bron bob rhywogaeth sy'n nodweddiadol yn nyfroedd Prydain. Mae'r rhain yn cynnwys y gwybr chwech brigerog *Elatine hexandra,* pelenllys *Pilularia globulifera a'r* mynawydlys *Subularia aquatica.* Mae yna ardaloedd bach o lystyfiant yn codi. Yn fiolegol, mae'r llyn yn gymharol gyfoethog.

**Nodweddion Cymhwyso**

**Maen Prawf Ramsar 1**

Llyn oligotroffig, bach a bas mewn cwm. Mae'r basn craig hanner cylch (neu cwm) sy'n cynnwys y llyn yn un o'r enghreifftiau gorau yn Eryri.

**Maen Prawf Ramsar 2**

Cymuned o blanhigion sy'n llawn rhywogaethau, yn cynnwys bron bob rhywogaeth sy'n nodweddiadol yn nyfroedd oligotroffig ym Mhrydain. Rhywogaethau nodedig, yn cynnwys *Elatine hexandra* a *Subularia aquatica* (y ddau yn brin yn genedlaethol) a *Pilularia globulifera* (yn fregus ar lefel Ewropeaidd).

**Ffactorau (yn y gorffennol, yn gyfredol neu bosib) sy'n effeithio'n andwyol ar gymeriad ecolegol y safle, yn cynnwys newidiadau i ddefnydd tir (yn cynnwys dŵr) a phrosiectau datblygu:**

Heb ganfod ffactorau.

**Amcanion Cadwraeth**

Gellir gweld y wybodaeth yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i ACA Eryri (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2008).

## Ramsar Llyn Tegid

**Trosolwg**

Llyn Tegid yw'r llyn naturiol mwyaf yng Nghymru. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sy'n berchen ar wely'r llyn, er mai Asiantaeth yr Amgylchedd sydd berchen y dŵr. Mae'n bwysig oherwydd y rhywogaethau planhigion sy'n brin ar lefel rhyngwladol sydd i'w cael ar y safle, ac yn arbennig y llyriad nofiadwy *Luronium natans* a'i ffawna pysgod unigryw, sy'n cynnwys y gwyniad endemig, *Coregonus lavaretus.* Ar un amser ystyriwyd bod y falwen ludiog, *Myxas glutinosa*, wedi diflannu o'r ardal, ac nid oedd neb wedi'i gweld yn Llyn Tegid ers 1953. Fodd bynnag, cafodd ei hailddarganfod yn y llyn yn ystod misoedd yr haf, 1998.

**Nodweddion Cymhwyso**

**Maen Prawf Ramsar 1**

Llyn naturiol mwyaf yng Nghymru, yn gorwedd yn ddwfn mewn dyffryn cafnog.

**Maen Prawf Ramsar 2**

Mae rhywogaethau'r planhigion lleidlys *Limosa aquatica*, y gwybyr chwe brigerog *Elatine hexandra,* hesg *Carex aquatilis* a'r llyriad nofiadwy *Luronium natans* yn tyfu un ai yn y llyn neu ar ei bwys, ac mae'r rhain oll yn brin ym Mhrydain. Ystyrir bod y llyriad nofadwy'n rhywogaeth fregus yn fyd-eang. Dyma un o'r chwe safle ym Mhrydain ble y ceir y Gwyniad *Coregonus lavaretus;* mae poblogaeth Gymreig y pysgodyn hwn yn unigryw o ran ei enynnau. Mae Llyn Tegid hefyd yn gynefin anarferol i'r penllwyd *Thymallus thymallus* gan ei bod fel arfer yn rhywogaeth afonol.  Mae'r falwen ludiog, *Myaxas glutinosa* sy'n brin yn genedlaethol wedi'i hailddarganfod yng ngro bas glannau'r llyn.

**Ffactorau (yn y gorffennol, yn gyfredol neu bosib) sy'n effeithio'n andwyol ar gymeriad ecolegol y safle, yn cynnwys newidiadau i ddefnydd tir (yn cynnwys dŵr) a phrosiectau datblygu:**

- Llygredd – carffosiaeth ddomestig

Mae llygredd tarddle pwynt o fannau arllwysfa carffosiaeth yn cyfrif am lai na 10% o gyfanswm y cyfraniad o ffosffad a nitrad. Gordyfiant o algâu gwyrddlas ysbeidiol a thymhorol. Ychydig o welliannau i weithiau trin carffosiaeth.

- Llygredd - plaleiddiaid/hylifau ffo amaethyddol

Mae llygredd ymledol yn parhau i gyfrannu at ewtroffigedd dyfroedd y llyn. Mae lefelau ffosffad a nitrad y llyn yn eithaf digyfnewid.

**Amcanion Cadwraeth**

Gellir gweld y wybodaeth yn y Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth i Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid/ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ebrill 2008).